



Adroddiad a Chyfrifon

glas
Glas Cymru Cyfyngedig

2015

Cynnwys

1

Cyflwyniad

Datganiad y Cadeirydd

4

2

Adolygiad strategol

Adolygiad y Prif Weithredwr

8

Cerdyn sgorio perfformiad: 2014-15

12

Pwy ydym ni

13

Ein gweledigaeth a'n gwerthoedd

14

Pam rydym yn wahanol

15

Bwrdd Cyfarwyddwyr Glas Cymru

16

Ein diwydiant a'n rheoleiddwyr

17

Edrych yn ôl: 2010–2015

19

Edrych ymlaen: 2015–2020

20

Ein dull o reoli risg

22

Risgiau allweddol a wynebwr gan y Grŵp

22

Mesur ein cynnydd: 2014–2015

26

3

Llywodraethu

Cyflwyniad gan y Codeirydd	62
Ein Strwythur Llywodraethu	63
Y Cyfarwyddwyr	67
Adroddiadau gan y Pwyllgorau	70
Adroddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth	74
Adroddiad polisi	76
Adroddiad Cydnabyddiaeth Blyneddol	79
Adroddiad y Cyfarwyddwyr	85

4

Adolygiad ariannol a chanlyniadau

Adroddiad yr archwilyr annibynnol i Aelodau Glas Cymru Cyfyngedig	92
Datganiadau ariannol	100
Rhestr Termiau	135

Datganiad y Cadeirydd



Rydym yn parhau i berfformio'n dda er budd ein cwsmeriaid, y cymunedau a wasanaethir gennym, yr amgylchedd a'r economi ehangach.

Ein hunig ddiben, fel perchennog Dŵr Cymru, yw cyrraedd y safonau uchaf posibl am y gost isaf bosibl. Gallwn ganolbwyntio ein holl ymdrechion ar gyflawni'r nod hwn oherwydd, yn wahanol i bob cwmni dŵr arall yng Nghymru a Lloegr, nid oes gennym unrhyw gyfranddalwyr ac, ar ôl talu llog ar ein cyfalaf benthg, gallwn wario a buddsoddi ein holl wargedion er budd cwsmeriaid, nawr ac yn y dyfodol. (Pwysleisiof "yn y dyfodol" am ei bod yn bosibl na fydd rhywfaint o'r hyn rydym yn ei fuddsoddi yn dod â manteision uniongyrchol i gwsmeriaid am flynyddoedd lawer.) Nid ydym yn gwmni cydweithredol nac yn gwmni sy'n eiddo i gyflogaion. Rydym yn gwmni preifat sy'n darparu gwasanaethau cyhoeddus ond heb unrhyw fuddiant preifat yn ein helw.

Felly, mae'n bleser gennyf nodi unwaith eto ein bod wedi cadw ein cynnydd blynyddol cyfartalog mewn prisiau islaw lefel chwyddiant a chyflawni perfformiad gweithredol cryf iawn. Unwaith eto y llynedd roeddem yn gydradd ail yn nhabl cynghrair Ofwat ar gyfer boddhad cwsmeriaid.

Ein prif ffocws y llynedd, yn ogystal â'n perfformiad gweithredol o ddydd i ddydd, oedd cyflawni'r canlyniad gorau posibl o adolygiad pum mlynedd Ofwat o brisiau, hynny yw y gorau o safbwynt ein cwsmeriaid. Felly, roeddem yn falch bod ein cynllun drafft ar gyfer Ofwat wedi cael sgôr gymeradwyaeth o 94% gan gwsmeriaid yr ymgynghorwyd

â hwy a bod penderfyniad terfynol Ofwat mor debyg i'n cynllun ein hunain. Bydd hyn yn golygu, ar ddiwedd y cyfnod adolygu newydd yn 2020, y bydd Dŵr Cymru wedi lleihau ei filiau mewn termau real am 10 mlynedd yn olynol ac, er bod cwsmeriaid yn hanesyddol wedi wynebu rhai o'r biliau cyfartalog uchaf yng Nghymru a Lloegr (sydd i'w briodoli'n bennaf i elfen dŵr gwastraff y bil), byddwn wedi gwella ein safle cymharol yng nghanol y tabl ymhlith ein cymheiriaid.

Rwyf hefyd yn falch ein bod wedi cofnodi ein perfformiad amgylcheddol gorau erioed a'n bod bellach yn arwain y diwydiant drwy ddefnyddio dulliau arloesol o ateb rhai o'r heriau mwyaf sy'n wynebu pob un ohonom - sef rheoli dalgylchoedd a systemau draenio cynaliadwy. Rydym wedi cyflawni hyn tra'n parhau i ddarparu dŵr yfed o ansawdd uchel, gan ragori ar ein targedau ar gyfer gollyngiadau a lleihau nifer y digwyddiadau yn ymwneud â llygredd i'w lefel isaf erioed.

Ni reolir ein cwmni gan ein cwsmeriaid ond fe'i rheolir ar ran ein cwsmeriaid. Gwneir penderfyniadau gan y Cyfarwyddwyr ac Aelodau'r cwmni. Felly, mae'n hanfodol bwysig bod yr Aelodau, y Cyfarwyddwyr a'r rheolwyr o'r ansawdd uchaf. Roeddem yn falch o benodi Peter Bridgewater yn Gyfarwyddwr Cyllid ym mis Medi 2014. Mae gan Peter brofiad helaeth ym myd masnach a'r diwydiant ariannol ar ôl dal nifer o uwch swyddi mewn sawl cwmni.



Ac roeddem yn falch iawn o ddenu a phenodi 14 o Aelodau newydd a fydd yn olyn Aelodau sydd bellach wedi ymddeol ar ôl hyd at naw mlynedd o wasanaeth. Ar ran y Bwrdd, hoffwn ddiolch i bob un o'r Aelodau sydd wedi ymddeol am eu cyfraniadau.

Rydym hefyd wedi colli ffrind da iawn ac un o hoelion wyth Glas a Dŵr Cymru, sef John Bryant, a roddodd y gorau i'w rôl fel Cyfarwyddwr Anweithredol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol ym mis Gorffennaf 2014. Roedd John wedi bod yn aelod o Fwrdd Glas Cymru ers iddo gael ei sefydlu yn 2001 ac yn ystod y cyfnod hwnnw gwasanaethodd fel codeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth, codeirydd y Pwyllgor Ansawdd ac Amgylchedd, yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol

a hefyd, dros dro, fel Codeirydd (rhwng mis Mai a mis Medi 2014) pan ddirprwyodd drosof pan oedd fy ngwraig yn sâl. Rydym yn ddiolchgar am y cyfoeth o brofiad a'r ymrwymiad a gyflwynodd i'r cwmni. Chwaraeodd ei gyfraniad sylweddol ran allweddol wrth ein helpu i ddangos y gall model perchenogaeth Glas - lle'r aiff yr holl elw ariannol i'r cwsmeriaid, nid y cyfranddalwyr - weithio'n dda er mwyn darparu'r gwasanaethau cyhoeddus mwyaf hanfodol i'n cwsmeriaid.

Rydym yn gorffen y flwyddyn mewn sefyllfa gref ac, er ein bod yn falch o'r cynnydd hwn, rydym wedi pennu targedau sy'n mynnu safonau hyd yn oed yn uwch. Gwyddom ein bod yn wynebu heriau strategol a gweithredol sylweddol sy'n gofyn am raglen helaeth o newidiadau

sefydliadol er mwyn sicrhau ein bod yn y sefyllfa orau i gyflawni'r targedau uchelgeisiol a bennwyd ar gyfer 2015-2020.

Rydym yn bwriadu adeiladu ar ein llwyddiant a dod yn arweinydd i'r diwydiant yn ein maes a gwthio'r ffiniau o ran beth mae bod yn gwmni dŵr a charthffosiaeth sy'n cael ei orwain yn wirioneddol gan gwsmeriaid yn ei olygu. Dengys yr Adroddiad Blyneddol hwn pam y gallwn edrych i'r dyfodol yn hyderus.

Mae llwyddiant y flwyddyn ddiwethaf i'w briodoli i gyfraniadau pob un o'r cyflogeion, yr Aelodau, y rheolwyr a'm cydweithwyr ar Fwrdd Dŵr Cymru ac rwyf yn ddiolchgar iawn i bob un ohonynt.

Gallwn
edrych i'r
dyfodol
yn hyderus.

Robert Ayling
Codeirydd

Robert Ayling

5 Mehefin 2015



Adolygiad strategol

Mae'r adran hon wedi'i strwythuro i roi trosolwg o'n strategaeth a'n model busnes; dadansoddiad o'n perfformiad yn erbyn dangosyddion allweddol; a chrynodeb o'r prif risgiau a'r ansicrwydd a reolir gennym.

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod ein hadroddiadau corfforaethol yn darparu adolygiad cytbwys a chynhwysfawr o'n perfformiad rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015.



Martha Roberts

Yn cael ei hysbrydoli
yng Nghwm Elan
hardd Dŵr Cymru



Adolygiad y Prif Weithredwr	8	Ein diwydiant a'n rheoleiddwyr	17
Cerdyn sgorio perfformiad: 2014-15	12	Edrych yn ôl: 2010–2015	19
Pwy ydym ni	13	Edrych ymlaen: 2015–2020	20
Ein gweledigaeth a'n gwerthoedd	14	Ein dull o reoli risg	22
Pam rydym yn wahanol	15	Risgiau allweddol a wynebwr gan y Grŵp	23
Bwrdd Cyfarwyddwyr Glas Cymru	16	Mesur ein cynnydd: 2014-2015	26

Adolygiad y Prif Weithredwr

Ein gweledigaeth yw ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid bob dydd drwy ddarparu cyflenwad o ddŵr yfed sy'n ddiogel, dibynadwy ac o ansawdd uchel am bris fforddiadwy, tra'n diogelu ein hamgylchedd. Yn erbyn y cefndir heriol hwn, bu'r flwyddyn ddiwethaf yn un bwysig a llwyddiannus i Dŵr Cymru gan ein bod wedi goresgyn rhai heriau anodd. Yn gyffredinol, mae ein gwasanaethau i gwsmeriaid wedi gwella ymhellach er bod agweddau o hyd lle rydym yn benderfynol o wneud yn well yn y dyfodol.

Mae angen i ni gydbwysu blaenoriaethau ein gweithrediadau o ddydd i ddydd tra'n paratoi



i ateb heriau strategol ychwanegol yn yr hirdymor hefyd. Fel cwmni a berchenogir ar ran ei gwsmeriaid, maent wedi parhau i fod wrth wraidd popeth a wnawn. Wrth lunio ein Cynllun Busnes ar gyfer 2015-2020 (am fod y diwydiant dŵr yn gweithredu yn ôl cylch rheoleiddiol o bum mlynedd), rydym wedi gwrando ar farn cynrychiolwyr y tair miliwn o bobl rydym yn eu gwasanaethu ledled ein hardal gyflenwi - sef y rhan fwyaf o Gymru, Swydd Henffordd a rhannau o Lannau Dyfrdwy - drwy raglen ymgysylltu â chwsmeriaid na welwyd mo'i thebyg o'r blaen, gyda 94% yn cymeradwyo ein cynlluniau.

Perfformiad

Mae timau ym mhob rhan o'r cwmni wedi gweithio'n galed iawn i wella'r berfformiad arbennig y llynedd. Fel y dangosir yn ein Cerdyn Sgorio Perfformiad Gweithredol ar gyfer 2014-15 (tudalen 12), gallwn nodi blwyddyn arall o gynnydd da gan ein bod wedi cyflawni ein perfformiad gorau erioed mewn rhai meysydd, ond rydym yn dal yn ymrwymedig i gyrraedd safonau hyd yn oed yn uwch o ran gwasanaeth cwsmeriaid yn y dyfodol tra'n diogelu'r amgylchedd.

Gwyddom mai cyflenwi dŵr yfed o ansawdd uchel yw ein cyfrifoldeb pwysicaf ac, ar y cyfan, mae ein cwsmeriaid wedi parhau i gael gwasanaeth o safon uchel yn 2014. Rydym yn falch na wnaethom gofnodi unrhyw fethiannau rheoleiddiol mewn ansawdd bacteriolegol yn ein gweithfeydd trin

dŵr drwy gydol y flwyddyn ddiwethaf a gwnaethom gysylltu sawl gwaith trin dŵr newydd ledled Cymru â'n rhwydwaith fel rhan o fuddsoddiad gwerth £120 miliwn yn y maes hwn. Ochr yn ochr ag effeithlonrwydd dŵr, mae rheoli gollyngiadau yn dal i fod yn bwysig o ran cynnal cyflenwadau ac rwy'n falch ein bod wedi llwyddo i leihau gollyngiadau y tu hwnt i'r targed eleni. Ein blaenoriaethau bellach yw mynd i'r afael ag agweddau ar berfformiad cymharol wael yn ein rhwydwaith dŵr, er enghraifft torri cyfenwadau dŵr ac ansawdd esthetig dŵr yfed mewn rhai o'r ardaloedd a wasanaethir gennym.

Mae cynnal a gwella'r amgylchedd yn hanfodol i gynaliadwyedd hirdymor ein gwasanaethau a gwnaeth ein perfformiad o ran dŵr gwastraff wella ymhellach yn 2014 pan wnaethom gyflawni ein perfformiad amgylcheddol gorau erioed. Cofnodwyd y nifer leiaf erioed o ddigwyddiadau yn ymwneud â llygredd a pharhaodd ein gweithfeydd trin dŵr gwastraff i berfformio'n dda, gan adlewyrchu'r buddsoddiad uwch a welwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Mae'r ardal a wasanaethir gennym yn gartref i rai o'r rhanbarthau arfordirol harddaf yn y DU ac, felly, mae twristiaeth yn bwysig i'r economi leol. Rydym wedi gweld cynnydd o 26% yn nifer y dyfroedd ymdrochi dynodedig yng Nghymru ers 2010 ac, yn 2014, helpodd ein perfformiad amgylcheddol i sicrhau bod pob un o'n traethau wedi cyrraedd y safon sy'n ofynnol gan Gyfarwydddebau Dyfroedd Ymdrochi Ewropeaidd; gyda bron 90% o'r traethau yn cyrraedd y safon ganllaw (Baner Las) uwch, gan gynnwys Llyn Padarn, sef llyn ymdrochi dŵr croyw dynodedig cyntaf Cymru.

Mae ein cynlluniau yn cydnabod na allwn gyflawni'r holl welliannau amgylcheddol sydd eu hangen am gost dderbyniol ar ein pen ein hunain. Dyna pam ein bod yn croesawu Strategaeth Dŵr Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru sy'n cefnogi ein ffocws cynyddol ar weithgarwch mewn dalgylchoedd fel y gallwn wella ansawdd dŵr cyn iddo gyrraedd ein gweithfeydd trin. Mae'r cynlluniau hyn y cynnwys mentrau megis gwaith monitro dalgylchoedd arloesol sy'n ceisio mynd i'r afael â phleiddiaid mewn dŵr afon lle maent yn cael eu defnyddio (gweler tudalen 31 am fanylion pellach).



Chris Jones
Prif Weithredwr

Cynaliadwyedd

Fel un o'r defnyddwyr ynni mwyaf yng Nghymru, rydym wedi parhau i ddatblygu sawl prosiect ynni adnewyddadwy allweddol dros y 12 mis diwethaf er mwyn ein helpu i bweru ein safleoedd mewn ffordd fwy cynaliadwy a lleihau biliau ar gyfer ein cwsmeriaid. Mae hyn yn cynnwys lansio prosiect Parc Ynni gwerth £24 miliwn yn ein gwaith trin dŵr gwastraff mwyaf yn y gogledd (sef Five Fords ger Wrecsam) a fydd yn arwain at leoli sawl technoleg ynni adnewyddadwy ar y safle unigol hwn. Rydym hefyd wedi buddsoddi £20 miliwn er mwyn prynu nifer o gynlluniau cynhyrchu ynni dŵr ar rai o'n cronfeydd dŵr mwyaf. Mae hyn wedi ein galluogi i ddyblu'r ynni adnewyddadwy a gynhyrchir gennym i fwy nag 20% o'r ynni a ddefnyddiwn a bydd yn chwarae rhan allweddol wrth ein helpu i gyflawni ein dyheadau hirdymor.

Gyda rhagolygon tywydd mwy eithafol oherwydd newid yn yr hinsawdd, ynghyd â'r pwysau cynyddol gan brosesau trefoli a gwaith datblygu, mae angen strategaeth hirdymor arnom i reoli problem corthffosydd gorlawn, mewn ffordd fwy cynaliadwy. Rhwng 2013 a 2015, gwnaethom fuddsoddi £15 miliwn yn ardaloedd Llanelli a Thre-gŵyr ar raglen arloesol o brosiectau draenio cynaliadwy. Bwriedir i brosiectau 'GlawLif' o'r fath reoli llif dŵr wyneb sy'n mynd i mewn i'n rhwydwaith corthffosydd. Mae'r cynlluniau hyn yn helpu i ddiogelu cymunedau rhag achosion o garthffosydd yn gorlifo ac maent hefyd yn diogelu ansawdd dŵr amgylcheddol. Rydym yn gwneud cynnydd ardderchog o ran lleihau faint o ddŵr wyneb sy'n llifo i mewn i'n rhwydwaith. Rydym bellach yn bwriadu buddsoddi £60 miliwn yn y technegau hyn ledled ein hardal rhwng 2015 a 2020 er mwyn i ni allu ymdrin â phroblem gynyddol llifogydd, sy'n deillio o newid yn yr hinsawdd, mewn ffordd wirioneddol gynaliadwy.


Gwasanaeth cwsmeriaid

Yn unol â'n gweledigaeth i ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid bob dydd, rydym yn canolbwyntio'n gadarn ar barhau i wella'r gwasanaethau rydym yn eu darparu i'n cwsmeriaid. Rydym ymhlith arweinwyr y diwydiant o ran gwasanaethau cwsmeriaid ac rydym yn parhau i roi amrywiaeth eang o fentrau ar waith er mwyn gwella'r ffordd y gallwn wasanaethu ein cwsmeriaid a rhoi gwybodaeth iddynt; er enghraifft, lansiwyd system filio newydd ym mis Chwefror 2015 a fydd yn ein galluogi i gynnig mwy o opsiynau o ran gwasanaethau i gwsmeriaid yn y dyfodol. Gwnaethom groesawu canfyddiadau blynyddol diweddaraf y Cyngor Defnyddwyr Dŵr mai ni oedd wedi derbyn y nifer isaf ond un o gwynion gan gwsmeriaid ar gyfer 2013-14 ymhlith y 10 cwmni dŵr a charthffosiaeth. Cadarnhaodd ei ymchwil olrhain flynyddol yn 2014 fod gennym gyfradd boddhad cwsmeriaid o 96% ar gyfer ein gwasanaethau dŵr, sef y gyfradd uchaf a gofnodwyd erioed gennym, a chyfradd boddhad o 91% ar gyfer ein gwasanaethau dŵr gwastraff. Roedd y cyfraddau hyn ymhlith y rhai uchaf yn y diwydiant. Dengys ein hymchwili reolaidd gyfradd boddhad o tua 90% ymhlith ein cwsmeriaid busnes.

Biliau fforddiadwy

Mae gan ein hardal weithredu un o'r cyfrannau uchaf o gartrefi difreintiedig yng Nghymru a Lloegr. Dyna pam rydym yn lleihau biliau cwsmeriaid mewn termau real er bod cynnal a gwella ein gwasanaethau yn dal i fod yn flaenoriaeth allweddol i ni. Ar hyn o bryd mae ein gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff yn costio tua £1.20 y dydd i gartrefi, ar gyfartaledd. Credwn fod hyn yn cynnig gwerth am arian ond rydym yn bwriadu gwneud mwy drwy ddarparu degawd o godiadau prisiau sy'n is na chwyddiant erbyn 2020. Mewn ymateb i broblemau gwirioneddol fforddiadwydd sy'n wynebu ein cwsmeriaid mwyaf difreintiedig, byddwn yn cynnig tariff cymdeithasol newydd (HelpU) o fis Ebrill 2015 gyda'r nod o helpu mwy na 100,000 o gwsmeriaid sy'n ei chael hi'n anodd talu eu biliau dŵr a charthffosiaeth erbyn 2020. Ein model o gwmni nas perchenogir gan gyfranddallwyr sydd wedi ein galluogi i fabwysiadu ein dull arloesol o fewn y diwydiant o ymdrin â thariffau cymdeithasol. Mae hyn yn mynd ymhell y tu hwnt i'r gefnogaeth a gynigir gan unrhyw gwmni dŵr arall ac fe'i cefnogwyd gan 75% o'n cwsmeriaid mewn ymchwili annibynnol.

Biliau cyfartalog cartrefi (ar sail prisiau 2014-15)



Arloesedd ac effeithlonrwydd

Gan edrych i'r dyfodol, mae angen i ni fynd ati mewn ffordd fwy arloesol i ateb heriau busnes, gan fabwysiadu atebion mwy deinamig lle y gallwn wneud hynny. Dyna pam rydym wedi datblygu Strategaeth Arloesi 25 mlynedd sy'n nodi sut y byddwn yn ysgogi arloesi ym mhob rhan o'r cwmni. Bydd hyn yn adeiladu ar lwyddiant gweithgarwch cyfredol megis ein dull o reoli dalgylchoedd, sy'n gweithio er budd hirdymor ein cwsmeriaid a'r amgylchedd.

Rydym yn parhau i feincnodi ein hunain yn rhyngwladol a datblygu partneriaethau â chwmnïau dŵr blaenllaw eraill megis Oasen Drinkwater yn yr Iseldiroedd. Rydym yn hyrwyddo trefniadau cyfnewid cyflogaion rhwng ein dau gwmni fel y gallwn ddysgu oddi wrth ein gilydd a rhoi arferion gorau ar waith. Hefyd, gwnaethom drefnu ein cynhadledd gyntaf erioed ar Arloesi ym mis Hydref lle y cyflwynodd partneriaid busnes presennol, y byd academaidd a chwmnïau eraill syniadau arloesol a fydd yn ein helpu i ddarparu gwasanaeth gwell a mwy cynaliadwy i'n cwsmeriaid yn y blynyddoedd i ddod. Drwy fod yn agored i syniadau newydd a ffyrdd newydd o feddwl rydym wedi llwyddo i greu ein Cynghair Cyflawni Cyfalaf newydd, sy'n dod â chydweithwyr yn Dŵr Cymru a'n partneriaid cyfalaf newydd at ei gilydd mewn un tîm mewn un lleoliad fel y disgrifir ar dudalen 51. Mae'r Cynghair newydd hwn yn creu amgylchedd gwaith cydweithredol er mwyn helpu i feithrin arloesedd a cheisio sicrhau gwerth am arian yn y prosesau cynllunio a chyflawni, fel y gallwn wella ein gwasanaethau a lleihau costau yn gyffredinol.

Perfformiad ariannol

Yn 2014-15, roedd ein perfformiad ariannol yn dda. Cynyddodd cyfanswm y refeniw 2.2% i £753 miliwn. Mae'r datganiad incwm cyfunol ar dudalen 102 yn nodi colled cyn trethiant o £100 miliwn (2014: elw o £145 miliwn) sydd i'w briodoli'n bennaf i symudiadau nad ydynt yn ymwneud ag arian parod yng ngwerth offerynnau ariannol deilliadol ar y farchnad. Cynyddodd elw sylfaenol y Grŵp cyn treth i £77 miliwn (2014: £50 miliwn). Mae ein tâl am ddrwgddyddion am y flwyddyn, sef £29 miliwn (2014: £28 miliwn), yn cyfateb i 3.9% o'r trosiant blynyddol. Mae ein cronfeydd cwsmeriaid wrth gefn bellach bron yn £2 biliwn, ac maent wedi cynyddu mwy na dengwaith cymaint ers i Glas Cymru gaffael Dŵr Cymru yn 2001. Mae ein cymhareb gerio ariannol (benthyciadau net wedi'u mynegi fel canran o'n gwerth cyfalaf rheoliadol) wedi gostwng bellach i 60% - o 93% yn 2001 - a ni sydd â'r statws credyd gorau yn y sector cyfleustodau.

Llunio'r dyfodol

Mae ein Cynllun Busnes a'r arweinig gan gwsmeriaid, gyda'i derfynau prisio uchelgeisiol a'r lefelau uchaf erioed o fuddsoddiad, yn cyflwyno her fawr i ni ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Er mwyn lleihau ein costau a hefyd gyflawni targedau perfformiad ymestynnol bydd angen i ni ailffurfio ein busnes craidd er mwyn creu tair uned fusnes (Dŵr, Dŵr Gwastraff a Manwerthu) y bydd angen iddynt weithio'n fwyfwy agos er mwyn darparu'r gwasanaeth cwsmeriaid cydgyssylltiedig gorau. Gydag ymrwymiad parhaus fy nghydweithwyr, rwy'n hyderus y byddwn yn ateb yr her sy'n gysylltiedig â chyflawni lefelau o berfformiad ariannol a gweithredol sy'n arwain y diwydiant er mwyn sicrhau y byddwn yn gwreiddu ein gweledigaeth o ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid bob dydd.

Ein pobl

Mae pob un ohonom yn ymrwymedig i ddarparu'r lefelau uchaf o wasanaeth i'n cwsmeriaid, gyda chydweithwyr yn mynd allan ym mhob tywydd er mwyn helpu i gynnal gwasanaethau i'n cwsmeriaid a diogelu'r amgylchedd. Felly, mae iechyd a diogelwch ein staff o'r pwys pennaf ac rwy'n falch mai ni oedd â'r nifer leiaf o ddamweiniau adroddadwy yn 2014-15. Dangosodd ein harolwg mewnol o ymgysylltu â chyflogaion eleni fod ein mynegrif ymgysylltu â chyflogaion yn dal yn uchel ar 74% - sydd uwchlaw cyfartaledd y sector preifat ac fe'i cyflawnwyd hefyd yn ystod cyfnod o newid sefydliadol mawr i'r busnes. Hoffwn ddiolch i bobw am eu hymroddiad a'u gwaith caled parhaus yn ystod y flwyddyn.



Chris Jones
Prif Weithredwr
5 Mehefin 2015




Cerdyn sgorio perfformiad: 2014-2015

Ar y rhan fwyaf o'r mesurau sydd bwysicaf i'n cwsmeriaid a rhonddeiliaid eraill mae ein perfformiad bellach yn golygu ein bod yn agos at frig tablau cynghrair y diwydiant.


Mae'r diwydiant dŵr a reoleiddir yn arbennig o fesuradwy, sy'n caniatáu i Fwrdd Glas Cymru bennu targedau yn annibynnol i'r busnes sy'n seiliedig ar feincnodau'r sector a phenderfynu ar ein safle o gymharu â'r perfformwyr gorau yn y sector.

Defnyddiwn nifer o fesurau allweddol i greu ein cerdyn sgorio perfformiad y cyfrifir tâl amrywiadwy ar gyfer pob aelod o staff yn ei erbyn - ochr yn ochr â chyflawni targedau effeithlonrwydd o ran cost. Yn 2014-15, gwnaethom gyflawni'r targedau a bennwyd gan y Bwrdd ar gyfer 12 o'r 18 o fesurau ar ein Cerdyn Sgorio Perfformiad neu ragori arnynt. Am ragor o fanylion am ein perfformiad, gweler tudalen 26.


Dŵr yfed diogel




Glanweithdra diogel



Diogelu ein hamgylchedd



Gwasanaeth cwsmeriaid



Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi lleihau ein costau gweithredu £1 filiwn

Gweler tudalen 56 am ragor o fanylion.

* Wedi'i fesur ar sail blwyddyn galendr
** Wedi'i fesur ar sail blwyddyn ariannol
2014
2015
Rh Rhagorodd ar y targed ar gyfer 2014-15
C Cyflawnodd y targed ar gyfer 2014-15
M Methodd â chyflawni'r targed ar gyfer 2014-15



3.2

MILIWN O BOBL



800

MILIWN LITR O DDŴR YFED YN
CAEL EI GYFLENWI BOB DYDD

27,000

KM O BIBELLAU DŴR YFED



92

O GRONFEYDD DŴR



600,000

O BROFION Y FLWYDDYN



4

CANOLFAN YMWELWYR



Pwy ydym ni

Dŵr Cymru yw'r chweched cwmni mwyaf o'r deg cwmni dŵr a dŵr gwastraff a reoleiddir yng Nghymru a Lloegr.

Ein prif gyfrifoldeb yw cyflenwi dŵr yfed diogel a dibynadwy a glanweithdra i'r 3.2 miliwn o bobl a wasanaethir gennym dros y rhan fwyaf o Gymru, Swydd Henffordd a rhannau o Lannau Dyfrdwy.

Rydym yn darparu gwasanaeth cyhoeddus hanfodol ac, fel gwarcheidwaid y diwydiant dŵr yn ein hardal, rydym yn gyfrifol am ddiogelu'r amgylchedd a darparu gwasanaeth dibynadwy o ansawdd uchel i'n cwsmeriaid.

Mae'r rhan fwyaf o'r hyn a wnawn o ddydd i ddydd yn cynnwys gweithredu a chynnal rhwydwaith enfawr o asedau a fyddai'n costio tua £26 biliwn i'w hailadeiladu – sy'n cyfateb i £20,000 fesul cartref.

Rydym yn darparu ein gwasanaethau drwy wneud y canlynol:

- Rheoli 92 o gronfeydd dŵr a chyflenwi mwy nag 800 miliwn litr o ddŵr yfed diogel a glân bob dydd drwy fwy na 27,000km o bibellau. Rydym yn delio â mwy na 3,000 o achosion o bibellau yn torri ar ein rhwydwaith bob blwyddyn – gan atal unrhyw effaith ar ein cwsmeriaid yn y rhan fwyaf o achosion. Rydym hefyd yn cynnal bron 600,000 o brofion y flwyddyn ar samplau o'n ffynonellau dŵr yfed a'n rhwydwaith yn ein labordai modern yng Nghasnewydd yn y de a Bretton yn y gogledd
- Casglu dŵr gwastraff (gan gynnwys dŵr wyneb) drwy fwy na 30,000km o garthffosydd. Rydym yn delio â mwy na 2,000 o flociadau bob mis ac yn llwyddo i atal gorlifo neu lygredd mewn 99% o achosion, gan helpu i ddiogelu iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd
- Delio â mwy nag 1.1 miliwn o alwadau ffôn o gartrefi a chwsmeriaid busnes
- Rheoli 40,000 hectar o dir. Mae hyn yn cynnwys pedair canolfan ymwelwyr sydd gyda'i gilydd yn denu tua miliwn o ymwelwyr y flwyddyn
- Cyflogi mwy na 3,000 o gydweithwyr yn uniongyrchol a chefnogi 3,500 o swyddi eraill er mwyn helpu i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth hanfodol o'r radd flaenaf.



Ein gweledigaeth

Mae'n rhaid i gwsmeriaid allu bod yn hyderus bod y gwasanaethau hanfodol a ddarperir gennym yn ddiogel ac o'r safon uchaf.

Gwyddom fod pobl yn dibynnu arnom i wneud y peth iawn ar eu rhan. Dyna pam rydym yn rhoi cwsmeriaid yn gyntaf. Maent wrth wraidd popeth a wnawn.

Byddwn yn ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid bob dydd drwy ddarparu gwasanaethau hanfodol o ansawdd uchel sy'n diogelu iechyd ein cwsmeriaid, ein cymunedau a'r amgylchedd o'n hamgylch.



Ein gwerthoedd

Rydym yn falch o roi ein cwsmeriaid yn gyntaf. Rydym yn anelu at ragoriaeth ym mhopeth a wnawn. Rydym bob amser yn agored i syniadau newydd ac yn herio ein hunain i ddod o hyd i ffyrdd gwell o weithio. Rydym yn gwneud ein gwaith yn ddiogel ac nid ydym byth yn torri corneli. Mae bod yn onest, hyd yn oed pan fydd pethau yn anodd, yn golygu y gall ein cydweithwyr a'n cwsmeriaid ymddiried ynom i wneud y peth iawn bob amser. Drwy fyw yn ôl y gwerthoedd hyn, bob dydd, byddwn yn ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid.

balch

rhagoriaeth

agored

diogel

gonest


ymddiriedaeth



Pam rydym yn wahanol

Mae Dŵr Cymru yn eiddo i Glas Cymru Cyfyngedig, sy'n gwmni un diben heb unrhyw gyfranddalwyr. Ffurfiwyd Glas Cymru yn benodol i berchenogi, ariannu a rheoli Dŵr Cymru.

Mae ein strwythur llywodraethu yn seiliedig ar y Bwrdd Cyfarwyddwyr ac fe'i hategir gan y rôl a chwaraeir gan Aelodau Glas, nad oes ganddynt unrhyw fuddiant ariannol yn y cwmni ond sy'n cyflawni swyddogaeth lywodraethu hanfodol ac yn dwyn y Bwrdd i gyfrif am lywodraethu'r Grŵp yn dda. Amlinellir strwythur y Grŵp yn fanylach ar dudalen 63.



**defnyddir
unrhyw elw
er budd
cwsmeriaid**

Rydym wedi dychwelyd
£136 miliwn o werth
i gwsmeriaid rhwng
2010 a 2015.

Unig ddiben Dŵr Cymru yw darparu gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff o ansawdd uchel am y gost leiaf bosibl i'w gwsmeriaid nawr ac ymhell i'r dyfodol. Nid ydym yn talu unrhyw ddifidendau i gyfranddalwyr ac mae ein strwythur unigryw yn galluogi'r cwmni i rannu ei holl elw â chwsmeriaid.

Rhwng mis Ebrill 2010 a mis Mawrth 2015, rydym wedi dychwelyd £136 miliwn i gwsmeriaid drwy wneud y buddsoddiadau canlynol:

- £87 miliwn er mwyn ariannu prosiectau cyfalaf carlam i wella gwasanaethau i gwsmeriaid a diogelu'r amgylchedd
- £22 miliwn er mwyn cynorthwyo cwsmeriaid sy'n ei chael hi'n anodd talu eu biliau
- £27 miliwn er mwyn talu costau cyfrifoldebau cyfreithiol newydd megis trosglwyddo 17,000 km o garthffosydd preifat yn 2011.



Bwrdd Cyfarwyddwyr Glas Cymru



Robert Ayling
Cadeirydd



Menno Richards
Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol
(a benodwyd yn Uwch Gyfarwyddwr
Annibynnol o fis Gorffennaf 2014)



Chris Jones
Prif Weithredwr



Peter Bridgewater
Cyfarwyddwr Cyllid (a benodwyd
yn weithredol o fis Medi 2014)



Peter Perry
Prif Swyddog Gweithredu



Graham Edwards
Cyfarwyddwr Anweithredol



Yr Athro Stephen Palmer
Cyfarwyddwr Anweithredol



James Strachan
Cyfarwyddwr Anweithredol



Anna Walker
Cyfarwyddwr Anweithredol



John Warren
Cyfarwyddwr Anweithredol



Bwrdd y Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am gyfeiriad strategol y cwmni ac am adolygu perfformiad gweithredol ac ariannol.

Ar 31 Mawrth 2015, mae Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn cynnwys tri Chyfarwyddwr Gweithredol a saith Cyfarwyddwr Anweithredol (gan gynnwys Cadeirydd y Bwrdd).



John Bryant
Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol
(a ymddiswyddodd o'r Bwrdd ym
mis Gorffennaf 2014)



Ein diwydiant a'n rheoleiddwyr

Mae Dŵr Cymru yn un o blith deg cwmni dŵr a dŵr gwastraff ac mae naw cwmni rhanbarthol hefyd sy'n darparu gwasanaethau dŵr yn unig mewn rhai ardaloedd penodol.

Ymhlith ein rheoleiddwyr mae'r canlynol:

- Mae **Ofwat** (ein rheoleiddiwr economaidd) yn bodoli er mwyn sicrhau bod cwmnïau dŵr yn darparu gwasanaeth o ansawdd da am bris teg. Mae'n pennu terfynau prisiau ar gyfer biliau cwsmeriaid er mwyn sicrhau nad ydynt yn uwch nag sydd ei angen. Mae'n asesu'r costau gweithredu a'r buddsoddiad sydd ei angen arnom er mwyn cynnal a chadw ein rhwydwaith o asedau er mwyn bodloni'r safonau gofynnol a darparu gwasanaethau o ansawdd uchel i gwsmeriaid. Mae Ofwat yn hyrwyddo buddiannau cwsmeriaid drwy gymell effeithlonrwydd a gwasanaeth da a chosbi oneffeithlonrwydd a gwasanaeth gwael
- Y **Cyngor Defnyddwyr Dŵr** yw'r corff annibynnol a sefydlwyd i gynrychioli buddiannau cwsmeriaid. Mae'n ymchwilio i gwynion, yn eirioli ar ran cwsmeriaid, ac yn archwilio ein perfformiad ar wasanaeth cwsmeriaid, yn ogystal â dylanwadu ar bolisi cyhoeddus
- Mae **Llywodraeth Cymru** yn gosod y fframwaith ar gyfer materion polisi cyhoeddus i Gymru, gan gynnwys polisi a deddfwriaeth ar faterion dŵr a materion amgylcheddol
- Caiff ansawdd dŵr yfed ei reoleiddio a'i fonitro gan yr **Arolygiaeth Dŵr Yfed**
- Caiff ein perfformiad amgylcheddol, yn enwedig y ffordd rydym yn tynnu dŵr o afonydd a chronfeydd dŵr ac wedyn yn gollwng dŵr gwastraff ar ôl ei lanhau, ei reoleiddio gan **Cyfoeth Naturiol Cymru** ac **Asiantaeth yr Amgylchedd**. Maent yn goruchwyllo'r ffordd rydym yn rheoli safleoedd dynodedig mewn perthynas â chadwraeth natur a sut rydym yn cyflawni ein rhwymedigaethau i warchod a gwella bioamrywiaeth a'n hadnoddau naturiol
- Yr **Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch** yw'r rheoleiddiwr annibynnol cenedlaethol ar gyfer iechyd, diogelwch a salwch sy'n gysylltiedig â gwaith
- Prif nod **Comisiynydd y Gymraeg** yw hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Rydym yn cyflwyno adroddiad blynyddol ar gydymffurfiaeth i swyddfa'r Comisiynydd gan nodi sut rydym wedi cydymffurfio â darpariaethau ein Cynllun Iaith Gymraeg sy'n nodi sut rydym yn darparu gwasanaethau dwyieithog i'n cwsmeriaid.





Edrych yn ôl: 2010–2015

Rhwng 2010 a 2015, buddsoddwyd tua £1.5 biliwn gennym yn ein gwasanaethau a roddodd hwb gwerth tua £5 biliwn i economi Cymru, gan gefnogi mwy na 6,000 o swyddi a sicrhau gwaddol ar gyfer y dyfodol.



Cyflawniadau sylweddol

Rhwng 2010 a 2015, llwyddwyd i wneud y canlynol:

- atgyfnerthu cadernid y cyflenwad dŵr yfed i bron 400,000 o gwsmeriaid drwy fuddsoddi £120 miliwn yn ailadeiladu, adnewyddu neu uwchraddio 12 o weithfeydd trin dŵr
- gwella'r ffordd rydym yn trin dŵr gwastraff a diogelu'r amgylchedd drwy fuddsoddi £29 miliwn ar ailadeiladu 40 o weithfeydd trin dŵr gwastraff neu eu huwchraddio
- lleihau'r risg o garthffosydd lleol yn gorlifo a allai gael effaith andwyol ar ein cwsmeriaid o'r amgylchedd drwy ein buddsoddiad GlawLif gwerth £15 miliwn yn Llanelli a Thre-gŵyr y bwriedir iddo sicrhau na fydd unrhyw ddŵr wyneb yn mynd i mewn i'n rhwydwaith corthffosydd
- annog mwy o bobl i fwynhau'r gronfa ddŵr hardd yn Llandegfedd ger Pont-y-pŵl drwy adeiladu canolfan chwaraeon dŵr ac ymwelwyr newydd sbon gwerth £2.5 miliwn
- diogelu ansawdd uchel y dŵr yfed rydym yn ei gyflenwi, gan gynnwys buddsoddi £11 miliwn ar labordy modern yng Nglaslyn, Casnewydd a Bretton yn y gogledd
- helpu mwy o gwsmeriaid nag erioed o'r blaen – tua 50,000 – sy'n cael trafferth i dalu eu biliau
- sicrhau ein bod yn parhau i fod ymhlith y cwmnïau gorau yn y sector o ran boddhad cwsmeriaid.



Heriau mawr

Er mwyn ein helpu i gyrraedd lefel y gwasanaeth y mae ein cwsmeriaid yn ei ddisgwyl ac yn ei haeddu, gwyddom hefyd fod angen i ni wella mewn rhai meysydd allweddol o berfformiad, sef:

- lleihau nifer y cwsmeriaid sy'n cysylltu â ni ynghylch problemau yn ymwneud â golwg, blas neu arogl eu dŵr yfed neu'r ffaith bod eu dŵr yfed wedi newid lliw
- darparu cyflenwad mwy dibynadwy o ddŵr i rai o'n cwsmeriaid drwy ganolbwyntio ar y cyflenwadau dŵr sydd fwyaf tebygol o gael eu torri
- ailosod prif bibellau haearn heb eu leinio sy'n gallu rhydu a gwneud i ddŵr brown afliwiedig, rhydlyd lifo drwy dapiau cwsmeriaid
- dotblygu ffyrdd haws i gwsmeriaid dalu eu biliau, megis y cyfleuster talu biliau ar-lein "My Bill"
- annog pob cwsmer i dalu eu biliau dŵr drwy wella ein prosesau ac addasu ein dulliau casglu gyd-fynd ag anghenion cwsmeriaid.



Benjamin Richards

Yn gofalu am ein rhwydwaith dŵr, Glynebwy



Edrych ymlaen: 2015–2020

Yn y diwydiant dŵr, bydd llawer o'r penderfyniadau rydym yn eu gwneud heddiw yn cael effaith fawr ar ein cwsmeriaid, yr economi a'r amgylchedd am flynyddoedd i ddod. Rydym yn deall pa mor bwysig yw bod yn glir ynghylch ein hamcanion a sut y cânt eu cyflawni.

Ar ôl ymgynghori â'n cwsmeriaid ynghylch eu blaenoriaethau, rydym wedi nodi wyth nod allweddol a 22 o dargedau rydym am eu cyflawni erbyn 2020 a fydd o fudd i'n cwsmeriaid, ein cymunedau a'n hamgylchedd.

Ein Targedau

Yma rydym yn nodi'r targedau rydym am eu cyflawni rhwng 2015 a 2020 mewn meysydd gwasanaeth allweddol o gymharu â'n perfformiad presennol.

Mae'r ffigurau mewn cromfachau isod yn ymwneud â'r perfformiad gweithredol yn y flwyddyn ariannol neu'r flwyddyn galendr ddiwethaf. Gweler tudalen 12 am ragor o fanylion.

1

Dŵr yfed o ansawdd uchel

Bydd ein cwsmeriaid yn gwbl hyderus bod eu dŵr yfed yn ddiogel, yn ddibynadwy a'i fod yn blasu'n dda.

Erbyn 2020, byddwn yn gwneud y canlynol:

- ceisio sicrhau bod y dŵr yfed rydym yn ei gyflenwi yn cyflawni 100% o safonau ansawdd yr Arolygiaeth Dŵr Yfed (2014: 99.94%)
- lleihau nifer yr achlysuron y mae cwsmeriaid yn cysylltu â ni oherwydd golwg, blas ac arogl dŵr yfed 50% (2014: 3.53 fesul 1,000 o'r boblogaeth)
- lleihau nifer cyfartalog y munudau y mae cwsmeriaid yn effeithiwyd arnynt heb ddŵr yn ystod y flwyddyn o leiaf 66% (2014-15: 23 munud).

2

Ymateb i newid yn yr hinsawdd

Byddwn yn addasu ein gweithgareddau i ddellio ag effeithiau posibl newid yn yr hinsawdd, gan leihau ein hól troed carbon ein hunain ar yr un pryd.

Erbyn 2020, byddwn yn gwneud y canlynol:

- helpu i atal llifogydd drwy leihau'r dŵr wyneb sy'n ymuno â'n rhwydwaith carthffosydd yn sylweddol (sy'n gyfwerth â'r swm sy'n llifo o doeon 1,000 eiddo ar hyn o bryd i swm sy'n gyfwerth â 25,000 eiddo) (2014-15: 12,000m³)
- cynhyrchu digon o ynni o ffynonellau adnewyddadwy i bweru'r hyn sy'n cyfateb i 22,000 o gartrefi (2014-15: 9,000 o gartrefi).

3

Diogelu'r amgylchedd

Byddwn yn diogelu amgylchedd cynaliadwy y byddwn yn falch o'i drosglwyddo i genedlaethau yn y dyfodol.

Erbyn 2020, byddwn yn gwneud y canlynol:

- ceisio bodloni 100% o'r gofynion a nodir yn y trwyddedau tynnu dŵr gan ein rheoleiddiwr, Cyfoeth Naturiol Cymru
- ceisio cyflawni 100% o'r safonau a nodir gan drwyddedau Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer carthion wedi'u trin a ddychwelwn i'r amgylchedd (2014: 99.1%)
- lleihau nifer yr achosion lle rydym yn achosi llygredd, o ganlyniad i fethiannau yn ein gweithfeydd neu broblemau gyda'n carthffosydd 19% (2014: 118).

4

Gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol

Byddwn yn parhau i ddarparu gwasanaeth rhagorol i'n cwsmeriaid.

Erbyn 2020, byddwn yn gwneud y canlynol:

- aros ymhlith y tri chwmni uchaf o'r deg cwmni dŵr a charthffosiaeth o ran gwasanaeth cwsmeriaid (2014-15: cydradd ail)
- gwella'r gwasanaeth a dderbynnir gan 50% o'n cwsmeriaid sy'n wynebu'r perygl mwyaf, sef cwsmeriaid sy'n cael problemau mynych â'r gwasanaethau a ddarperir gennym e.e. torri cyflenwad neu garthffosydd yn gorlifo (2014-15: 850 mewn perygl)
- cynnal boddhad cwsmeriaid busnes uwchlaw 90% (2014-15: 89%)
- lleihau nifer yr achosion o garthffosydd yn gorlifo 9% (o 295 i 269 y flwyddyn) (2014-15: 265)
- cynyddu ymddiriedaeth cwsmeriaid i 75% (2014-15: 63%).

5

Biliau fforddiadwy

Bydd ein prisiau'n adlewyrchu gwerth da am arion, a bydd amrywiaeth effeithiol o help ar gael i'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd talu.

Erbyn 2020, byddwn yn gwneud y canlynol:

- cadw ein cynnydd blynyddol mewn prisiau islaw'r gyfradd chwyddiant am ddeng mlynedd yn olynol (o 2010 hyd at 2020)
- ymestyn ein hystod o help er mwyn i hyd at 100,000 o'n cwsmeriaid sy'n cael traferth wirioneddol i dalu eu biliau elwa ar ein hamrywiaeth o dariffau cymdeithasol (2014-15: tua 50,000).

6

Datblygu ein pobl

Byddwn yn datblygu tîm o bobl a fydd yn darparu gwasanaeth gwych i'n cwsmeriaid.

Erbyn 2020, byddwn yn gwneud y canlynol:

- sicrhau bod o leiaf 95% o'n holl gydweithwyr yn cael eu hyfforddi i fod yn gwbl gymwys ar gyfer eu rolau (2014-15: 93%)
- cofnodi dim mwy na 10 o ddigwyddiadau RIDDOR (Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus) bob blwyddyn (2014-15: 20).

7

Gofalu am ein hasedau

Byddwn yn cynnal a chadw ein hasedau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, yn y ffordd fwyaf costeffeithlon.

Erbyn 2020, byddwn yn gwneud y canlynol:

- gwella sgôr cadernid ein hasedau mwyaf strategol i 87% (asedau dŵr) a 78% (asedau dŵr gwastraff) (2014-15: dŵr - 84.7%, dŵr gwastraff - 75.6%)
- lleihau lefelau gollyngiadau 7% (o 181 miliwn litr y dydd i 169 miliwn litr y dydd) (2014-15: 180)
- parhau i gadw ein hasedau yn 'sefydlog' yn erbyn meini prawf Ofwat sy'n golygu eu bod yn perfformio'n dda (2014-15: sefydlog).

8

Busnes effeithlon

Byddwn yn parhau i fod yn fusnes effeithlon ag ansawdd credyd uchel.

Erbyn 2020, byddwn yn gwneud y canlynol:

- cynnal ein statws credyd gradd A er mwyn sicrhau y gallwn barhau i gael cyllid cost isel, hirdymor (2014-15: gradd A)
- lleihau ein costau gweithredu rheoladwy tua 20% (2014-15: y gost weithredu oedd £295 miliwn).

Ein dull o reoli risg

Mae llwyddiant hirdymor y Grŵp yn dibynnu ar nodi, asesu a rheoli risgiau yn effeithiol ac mae pob cydweithiwr yn chwarae rhan yn ein dull o reoli risg.

- Mae timau unigol o fewn y busnes yn cymryd cyfrifoldeb am reoli risgiau o fewn eu meysydd o gyfrifoldeb.
- Rheolir ein proses rheoli risg gan dîm sy'n cynnwys staff o'r Adran Sicrwydd Busnes, yr Adran Cydymffurfiaeth a'r Adran Gyfreithiol.
- Mae pob uned fusnes yn bwydo i mewn i system rheoli risg "o'r gwaelod i fyny" a thrafodir risgiau a gofnodir drwy'r broses honno yn ystod trafodaeth sy'n fwy "o'r brig i lawr" ynghylch risg bob mis mewn cyfarfod o'r tîm Gweithredol.
- Adolygir y wybodaeth ddiweddaraf am risgiau strategol sy'n effeithio ar y busnes hefyd ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd ac mae'r Bwrdd yn adolygu'r risgiau strategol a nodwyd ddwywaith y flwyddyn.
- Y Pwyllgor Archwilio sy'n gyfrifol am oruchwylio'r prosesau a'r gweithdrefnau rheoli risg ac mae'n atebol i'r Bwrdd.

Mae'r dull hwn o reoli risg o'r gwaelod i fyny ac o'r brig i lawr yn rhoi sicrwydd bod risgiau yn cael eu rheoli'n effeithiol gan y busnes, er mwyn nodi'r meysydd hynny lle mae angen cymryd camau lliniaru pellach a helpu'r Bwrdd i adolygu'r risgiau strategol sy'n wynebu'r busnes.

Rydym yn parhau i ddefnyddio model y "Tair Llinell Amddiffyn" i liniaru'r risg y byddwn yn methu â chydymffurfio â'n prosesau a'n polisiau. Nodir strwythur ein rheolaethau sicrwydd ar gyfer rheoli risg isod:

Tair Llinell Amddiffyn

Timau Gweithredol



Y tîm Cydymffurfiaeth



Y tîm Sicrwydd Busnes

Risgiau allweddol a wynebir gan y Grŵp

Effaith Bosibl

1

Digwyddiad Mawr yn ymwneud ag Iechyd a Diogelwch

Mae risg gyson a sylweddol i Iechyd a Diogelwch yn gysylltiedig â rhai o'n gweithgareddau a'n hasedau. Gallai digwyddiad mawr achosi anaf difrifol iawn i gwsmeriaid, cydweithwyr neu bobl eraill neu eu lladd.

2

Digwyddiad mawr yn ymwneud ag Iechyd y cyhoedd

Gallai digwyddiad mawr yn ymwneud ag Iechyd y cyhoedd gael canlyniadau difrifol i'n cwsmeriaid.

3

Methiant i gyflawni'r canlyniadau a sicrhau'r arbedion effeithlonrwydd yn ein Cynllun Busnes ar gyfer 2015-2020

Mae heriau sylweddol i'r busnes yn gysylltiedig â'r Cynllun Busnes a ddeilliodd o'r broses adolygu prisiau o ran costau a gwella gwasanaethau.

4

Dyledion cwsmeriaid

Yn ystod y dirwasgiad, mae lefelau dyledion cwsmeriaid wedi cynyddu ac mae cryn nifer o'n cwsmeriaid yn wynebu amddifadedd sylweddol.

5

Methiant i addasu i ddiwygiadau i'r farchnad

O fis Ebrill 2017, i'r cwmnïau hynny sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yn Lloegr, bydd y farchnad dŵr a charthffosiaeth fanwerthu i gwsmeriaid busnes yn agored i gystadleuaeth. Yn achos Dŵr Cymru, dim ond ein nifer fach o gwsmeriaid mwy o faint a fydd yn agored i gystadleuaeth am y tro. Efallai y byddwn yn colli incwm os caiff cwsmeriaid manwerthu busnes eu perswadio i newid i gyflenwr newydd. At hynny, efallai y bydd newidiadau pellach sy'n ymwneud â diwygiadau ymhellach i fyny yn y farchnad yn y tymor canolog.

Perthnasedd Strategol - Ein gweledigaeth a'n gwerthoedd

Lliniaru

Effaith a Gweithgarwch

Yn ddiogel bob amser

Ymddiriedir ynom i
wneud y peth iawn

lechyd a Diogelwch cwsmeriaid, cydweithwyr ac aelodau o'r cyhoedd yw prif floenoriaeth y busnes. Mae pob ffin unigol yn gyfrifol am faterion lechyd a Diogelwch, pennir targed lechyd a Diogelwch personol ar gyfer pob unigolyn drwy'r broses Adolygu Rheoli Perfformiad, ac ystyri'r materion lechyd a Diogelwch ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd a'r Pwyllgor Ansawdd ac Amgylchedd.

Mae ein timau yn gweithio yn unol â Strategaeth a Chynllun Rheoli lechyd a Diogelwch gyda gweithdrefnau gweithredol yn cael eu hachredu i OHSAS 18001 ac yn cael eu hasesu gan gorff annibynnol allanol. At hynny, rydym wedi cyflwyno ein cynllun a'n rhaglen hyfforddi ar gyfer gwella diwylliant diogelwch, sef STEP (Safety Takes Every Person), sy'n cynnwys sgysiau am ddiogelwch gan arweinydd, i bob rhan o'r busnes.

Rydym hefyd yn gweithio gyda Fforymau Ymgynghori Undebau Llafur ar lechyd a Diogelwch ar lefel Cwmni a lefel weithredol.

Er bod ein perfformiad o ran RIDDOR (damweiniau adroddadwy) a digwyddiadau sy'n arwain at golli amser yn ystod y flwyddyn wedi gwella, mae'r ffordd rydym yn rheoli risgiau lechyd a Diogelwch yn parhau i fod yn faes allweddol lle mae angen gwneud gwelliannau pellach. Credwn yn gryf y dylai pob un o'n cydweithwyr ddychwelyd adref yn ddiogel ar ddiwedd y diwrnod gwaith ac rydym yn gweithio i leihau unrhyw risgiau gweithredol i gydweithwyr, cwsmeriaid a'r cyhoedd.

Rhagori ym mhopeth
a wnawn

Ymddiriedir ynom i
wneud y peth iawn

Caiff ansawdd ein dŵr yfed ei fonitro gan yr Arolygiaeth Dŵr Yfed ac rydym yn cael ein harchwilio'n rheolaidd. Mae ein rhaglen fuddsoddi ar gyfer gweithfeydd trin dŵr ledled yr ardal gyflenwi yn parhau i wella'r ffordd rydym yn rheoli'r risgiau yn y maes hwn. Rydym yn defnyddio gwyddoniaeth ac arloesi er mwyn lleihau'r risgiau y bydd digwyddiad yn ymwneud ag iechyd y cyhoedd. At hynny, mae gennym brosesau a gweithdrefnau clir ar gyfer gweithio ar ochr dŵr glân ac ochr dŵr gwastraff y busnes ac mae pwysigrwydd y gweithdrefnau hyn yn cael ei nodi'n rheolaidd mewn briffiau hyfforddiant a briffiau i dimau. Mae gennym system reoli integredig sy'n helpu i ysgogi gwelliannau gweithredol parhaus ac mae'n cael ei hasesu'n allanol bob chwe mis gan BSI – rydym yn parhau i gael ein hardystio'n allanol yn erbyn safonau ansawdd a safonau amgylcheddol.

Rydym yn adolygu pob digwyddiad sy'n effeithio (neu a allai effeithio) ar ddiogelwch neu iachusrwydd dŵr yfed, er mwyn sicrhau y gellir dysgu gwersi o'r safle dan sylw a, lle y bo'n briodol, ledled yr ardal gyflenwi. Rydym yn cynnal ac yn diweddarau Cynlluniau Diogelwch Dŵr Yfed.

Yn ein barn ni, ni fu unrhyw newid o ran y tebygolrwydd y ceir digwyddiad mawr yn ymwneud ag iechyd y cyhoedd ers y llynedd, ond mae'n amlwg bod hwn yn faes sydd wrth wraidd ein diben craidd.

Rhagori ym mhopeth
a wnawn

Yn falch o roi ein
cwsmeriaid yn gyntaf

Buom yn ymgysylltu â chwsmeriaid ar raddfa na welwyd mo'i thebyg o'r blaen wrth ddatblygu'r cynlluniau busnes manwl a berchenogir gan y timau unigol o fewn y busnes sy'n gyfrifol am eu cyflawni.

Mae'r ffaith ei bod yn glir pwy sy'n gyfrifol am y cynlluniau hyn ac yn eu perchenogi yn golygu bod y busnes mewn sefyllfa dda i ateb heriau AMP6, sy'n allweddol i'n llwyddiant ariannol a gweithredol. Bydd y rhaglen fuddsoddi sylweddol a gynlluniwyd ar gyfer y cyfnod rhwng 2015 a 2020 yn helpu i wella perfformiad asedau a bydd defnyddio rhaglenni a thechnoleg Ddarbodus i gefnogi rhwydweithiau CAMPUS hefyd yn gwella gwasanaethau i gwsmeriaid ac yn ein helpu i gyflawni targedau perfformiad. Rydym wedi cwblhau Cynllun Busnes manwl ar gyfer y cyfnod rhwng 2015 a 2020 a fydd yn helpu'r cwmni i reoli'r risg yn y maes hwn. Caiff cynnydd yn erbyn y cynllun ei fonitro gan y Bwrdd yn rheolaidd.

Rhagori ym mhopeth
a wnawn

Bod yn onest â phawb

Yn falch o roi ein
cwsmeriaid yn gyntaf

Fel rhan o'r gwelliannau technolegol a wnaed i'n systemau bilio, byddwn mewn sefyllfa well i ddeall amgylchiadau penodol ein cwsmeriaid. Bydd hyn yn ein galluogi i'w cyfeirio at gymorth priodol os byddant yn cael anhawster i dalu ein biliau, a allai gynnwys ein cynllun tariffau cymdeithasol estynedig.

Os bydd cwsmeriaid yn gallu talu ond eu bod yn dewis peidio â gwneud hynny, rydym yn bwriadu cymryd camau cyfreithiol ffurfiol i adennill dyledion yn gynnar, er mwyn lleihau cost drwgddyledion a delir gan gwsmeriaid yn gyffredinol. Bydd gwybodaeth well am ein cwsmeriaid (gan gynnwys manylion tenantiaid a ddarparwyd drwy'r Cynllun Cofrestru Landlordiaid yng Nghymru a gan asiantaethau gwirio credyd) yn ein galluogi i wneud penderfyniadau ynghylch y ffordd orau o fynd ati i adennill dyledion ym mhob achos.

Parhau y mae'r arafu a welwyd o ran derbyn taliadau gan rai cwsmeriaid. Wrth gyflwyno ein system filio newydd, a ddaeth yn weithredol ar ddiwedd mis Ionawr 2015, cofwyd llai o achosion o ymgyfreitha wrth i'r systemau presennol gael eu glanhau er mwyn paratoi ar gyfer trosglwyddo i'r system newydd. Fodd bynnag, bydd y dechnoleg newydd a gaffaelwyd gennym yn ein galluogi i ddefnyddio gwybodaeth fanwl i reoli dyledion mewn ffordd fwy gwahaniaethol i gwsmeriaid gwahanol.

Yn falch o roi ein
cwsmeriaid yn gyntaf

Yn agored i syniadau
newydd

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau na fydd y ffaith nad oes cystadleuoeth fanwerthu yn rhoi cwsmeriaid busnes yng Nghymru o dan anfanta. Bydd ein huchelgaais i ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid bob dydd a sicrhau mai ni yw'r cwmni dŵr a chorthffosioeth sy'n perfformio orau yn sicrhau y byddwn yn parhau i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i gwsmeriaid tra'n cydbwysu cost a sicrhau bod unrhyw gynnydd yn ein biliau islaw chwyddiant. Bydd y strategaeth hon yn ein helpu i fodloni disgwyliadau cyfnewidiol cwsmeriaid yn ystod cyfnod o newid mawr i'r sector. Rydym hefyd wedi sefydlu ffin i adolygu ac ystyried y newidiadau gweithredol, strategol a gweithdrefnol y mae angen i ni eu gwneud mewn ymateb i ddatblygiadau yn y sector.

Mae'r sector wedi gweld mwy a mwy o newid yn ystod y 12 mis diwethaf.

Rydym yn gweithio gydag Ofwat, Water UK a Market Opening Services Limited (MOSL) ar fentrau i ddiwygio'r farchnad er mwyn sicrhau y byddwn yn datblygu ein cwmni i ymateb i'r newidiadau yn y farchnad. Rydym yn Aelod o MOSL, sef y cwmni sy'n caffael system Gweithredu'r Farchnad er mwyn galluogi cwsmeriaid busnes i newid cyflenwr pan fydd y farchnad ar gyfer cwsmeriaid dibreswyl yn agor i gwmnïau yn Lloegr (a'r rhai mwyaf ymhlith ein cwsmeriaid dibreswyl) yn 2017.

Yn fwy cyffredinol, rydym yn cymryd rhan mewn ymgynghoriadau gan Lywodraeth Cymru ac wedi dilyn cynnydd Strategaeth Dŵr Cymru.

	Risgiau allweddol o wynebwr gan y Grŵp	Effaith Bosibl	Perthnasedd Strategol - Ein gweledigaeth a'n gwerthoedd
6	Ffocws cynyddol ar Reoliadau Amgylcheddol	Gallai dehongliadau newydd o reoliadau sy'n bodoli eisoes neu ffyrdd newydd o'u gorfodi, neu safonau rheoliadol newydd, arwain at gostau sylweddol i ni neu'r sector yn gyffredinol.	Rhagori ym mhopeth a wnawn Ymddiriedir ynom i wneud y peth iawn
7	Dirywiad perfformiad gweithredol	Gallai methu â chynnal perfformiad gweithredol da danseilio ein cydberthynas â chwsmeriaid ac orwain at gosbau ariannol o dan delerau'r Penderfyniad Terfynol gan Ofwat yn y broses adolygu prisiau; gallai'r costau sy'n gysylltiedig ag ymdrin â methiannau gweithredol hefyd danseilio ein gallu i sicrhau'r arbedion effeithlonrwydd sy'n ofynnol o dan ein Cynllun Busnes ar gyfer 2015-2020 (gweler risg 3 ar dudalen 22).	Rhagori ym mhopeth a wnawn
8	Methiant i ennyn ymddiriedaeth a hyder ein cwsmeriaid	Rydym yn darparu'r gwasanaethau mwyaf hanfodol i 3.2m o gwsmeriaid bob dydd. Byddai methu ag ennyn ymddiriedaeth a hyder ein cwsmeriaid yn tanseilio ein strategaeth fusnes a'n gweledigaeth ddatganedig "i ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid bob dydd."	Ymddiriedir ynom i wneud y peth iawn Rhagori ym mhopeth a wnawn
9	Gallu sefydliadol, olyniaeth a newid mewn diwylliant	Gallai prinder rheolwyr ymroddedig neu alluog arwain at wasanaeth cwsmeriaid gwael neu gydymffurfiaeth wael, a gallai gwendidau diwyllianol confyddedig gyfrannu at bryderon ynghylch cydymffurfio â rheoliadau.	Rhagori ym mhopeth a wnawn
10	Methiant asedau strategol a risgiau sy'n gysylltiedig â TGCh	Gallai methiant ased strategol (megis argaeau, gweithfeydd trin a systemau cyfrifiadurol) gael effaith drychinebus ar ein cwsmeriaid neu oelodau o'r cyhoedd; gallai hefyd danseilio ein gallu i barhau i ddarparu gwasanaethau i 3.2 miliwn o gwsmeriaid. Fel busnes, rydym hefyd yn dibynnu ar y dechnoleg sy'n cefnogi'r busnes (er enghraifft meddalwedd delemetreg).	Rhagori ym mhopeth a wnawn Ymddiriedir ynom i wneud y peth iawn
11	Cydberthnasau â Buddsoddwyr	Mae cydberthnasau cryf â'n deiliaid bondiau yn allweddol i lwyddiant parhaus y Grŵp.	Ymddiriedir ynom i wneud y peth iawn Bod yn onest â phawb
12	Anghydfodau sylweddol a allai effeithio ar y cwmni	Albion - parhau y mae'r anghydfod rhwng y cwmni ac Albion Water ac United Utilities ynghylch y dull cywir o brisio cyflenwadau dŵr o system Heronbridge. Tata Steel - yn aros am ganlyniad penderfyniad ar brisiau gan Ofwat. Achosion o dorri'r gyfraith yn Aber Afon Llŵchwyr - ym mis Mawrth 2014, hysbyswyd Llywodraeth y DU am achos o dorri'r gyfraith a oedd ar fin digwydd, a oedd yn honni bod y Gyfarwydddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol wedi'i thorri mewn nifer o ddyfroedd arfordirol o amgylch y DU, gan gynnwys rhannau o Aber Afon Llŵchwyr - dalgylchoedd Tre-gŵyr a Llanelli.	

Lliniaru

Newidiadau dros y cyfnod

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'n Panel Cyngori Amgylcheddol Annibynnol er mwyn ceisio cynnig y gwerth gorau am arian i'n cwsmeriaid o'r amgylchedd ac mae ein strategaeth ar gyfer Cydymffurfiaeth Amgylcheddol wedi'i chymeradwyo gan y Bwrdd.

Rydym yn noddi gwaith ymchwil ac astudiaethau eraill er mwyn rhoi tystiolaeth i lunwyr polisi i'w helpu i wneud penderfyniadau gwell. Rydym yn cynnal deialog strwythuredig reolaidd â rhanddeiliad allweddol, sy'n cynnwys cysylltu'n uniongyrchol â Llywodraeth Cymru, CNC, DEFRA a'n cymdeithas fasnach, sef Water UK, er mwyn gwerthuso safonau rheoliadol newydd neu ddiwygiedig.

Mae'r cynnydd mewn gweithgarwch rheoleiddio amgylcheddol yn golygu bod angen i'r Bwrdd a'r fîm Gweithredol ganolbwyntio'n fwy ar y maes hwn er mwyn sicrhau na thanseilir ein henw da nac ymddiriedaeth na hyder cwsmeriaid. Buom yn gweithio gyda phob rhanddeiliad er mwyn cynorthwyo ymateb Llywodraeth y DU i'r achos o dorri'r gyfraith mewn perthynas â dalgylchoedd Tre-gŵyr a Llanelli sydd ar fin digwydd (gweler risg 12 isod).

Rydym wedi pennu targedau mewnol ymestynnol ac wedi rhoi strategaethau manwl ar waith i reoli'r risg y bydd perfformiad yn dirywio. Mae Pwylgor Ansawdd ac Amgylchedd y Bwrdd yn ein herio i sicrhau y cynhelir dadansoddiad cynhwysfawr o achosion sylfaenol methiannau gweithredol er mwyn sicrhau y gellir deall goblygiadau pob methiant a gweithredu arnynt yn briodol. Mae ein polisi cydnabyddiaeth a'r elfen gwobrwyo cyflogaion yn benodol yn cymhell unigolion i wella'n barhaus. Rydym hefyd wedi cynnal ymarfer 'gweledigaeth 25 mlynedd' er mwyn nodi risgiau gweithredol ac rydym eisoes wedi rhoi mesurau lliniaru perthnasol ar waith er mwyn mynd i'r afael â'r risgiau hyn.

Mae ein perfformiad gweithredol wedi bod yn dda iawn ar y cyfan yn 2014-15 (gweler tudalen 12). Fodd bynnag, ar gyfer y cyfnod nesaf mae angen i ni wella ein perfformiad o ran Munudau Cwsmeriaid a Gollwyd ac mewn perthynas â pha mor dderbyniol yw dŵr yfed i gwsmeriaid. Mae perfformiad gweithredol cryf yn allweddol i ddatblygu ein cydberthynas o ymddiriedaeth â'n cwsmeriaid.

Rydym yn datblygu strategaeth glir sy'n canolbwyntio ar y cwsmer i fod yn sail i'n cydberthynas â chwsmeriaid ar gyfer y cyfnod rhwng 2015 a 2020. Bydd ein system filio newydd yn ein galluogi i goladu gwybodaeth berthnasol a'i defnyddio i feithrin cydberthnasau cryfach â'n cwsmeriaid. At hynny, bellach mae gan y fîm Cyfrifon Busnes reolwyr cyfrifon sy'n gyfrifol am feithrin cydberthnasau â chwsmeriaid busnes allweddol.

Ar gyfer y cyfnod 2014-15, daethom yn ail am wasanaeth cwsmeriaid yn ôl mesur sgorau Dull Cymell Gwasanaeth (SIM) Ofwat. Mae gan ein gwasanaeth lefelau uchel o foddhad (89%) ymhlith ein cwsmeriaid busnes, ond mae disgwyliadau yn codi. Mae ennyn ymddiriedaeth ein cwsmeriaid wrth wraidd popeth a wnawn fel cwmni.

Rydym yn parhau i fuddsoddi'n helaeth yn y gwaith o ddatblygu gallu ein staff. Eleni canolbwyntiwyd ar gyflwyno gweithdai Arwain y Newid ac Iechyd Meddwl yn y gweithle ar gyfer yr holl reolwyr pobl, a oedd yn ategu ein fframwaith Datblygu Arweinyddiaeth parhaus.

Rydym yn parhau i gael budd o ddenu graddedigion, prentisiaid a hyfforddion newydd i'r busnes ac wedi gweithio er mwyn sicrhau bod y rhain bellach yn grŵp mwy amrywiol.

Mae gweithlu balch ac uchel ei gymhelliant sy'n meddu ar y sgiliau priodol yn allweddol i gyflawni yn erbyn pob un o'n Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPAau). Cynhaliwyd ein pedwerydd Arolwg blynyddol o Ymgysylltu â Chyflogaion yn ystod cyfnod o newid mawr. Cymerodd 80% o'n cydweithwyr ran yn yr arolwg ac roedd canlyniad ein hymgysylltiad uwchlaw meincnod y sector preifat, sef 74%. Mae cydweithwyr benywaidd wedi mwynhau hyrwyddo gyrfaoedd STEM fel rhan o'n gwaith gyda cholegau, ysgolion a phrifysgolion lleol. Mae 450 o'n cydweithwyr yn gweithio tuag at gymwysterau 1000+ o fewn ein Rhaglen Sgiliau Hanfodol sydd wedi ennill gwobrau.

Mae ein fîm diogelwch argaeau yn arwain y sector a Phennoeth y fîm hwnnw yw Cadeirydd Cymdeithas Diogelwch Argaeau Prydain ar hyn o bryd; rydym yn arolygu ein hasedau mawr yn rheolaidd, gan gynnwys Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelwch Argaeau. Rydym wedi rhoi mesurau lliniaru ehangach ar waith megis Cynlluniau Wrth Gefn os Collir Ased yn Llwyd a Chynlluniau Diogelwch Dŵr Yfed ar gyfer gweithfeydd trin dŵr a Gweithdrefnau Gweithredu wedi'u Hachredu o dan ISO ar gyfer actifadau dŵr a dŵr gwastraff.

Rydym yn parhau i fuddsoddi yn y gwaith o wella systemau TG, gyda phwyslais ar wella dibynadwyedd a chynaliadwyedd.

Mae dibynadwyedd ein hasedau wrth wraidd cyflawni perfformiad cryf yn ddiogel. Mae gennym raglenni cynyddol o waith cynnal a chadw argaeau ac rydym yn ymwylbodol o'r argaeau newydd rydym bellach yn gyfrifol omdanynt yn dilyn diwygiadau i'r Ddeddf Cronfeydd Dŵr. Gwnaethom gynnwys mesur penodol ar gadernid asedau yn ein Cynllun Busnes ar gyfer 2020. Mae ein system filio newydd wedi'i rhoi ar waith yn llwyddiannus ac mae'r goledwedd TG newydd a gyflwynwyd ym mhob rhan o'r busnes wedi rhoi saerinaeth TG fwy cadarn i ni wrth i ni symud i'r cyfnod Cynlluniau Rheoli Asedau (AMP) nesaf.

Mae cydberthnasau yn dal i fod yn dda, ar ôl cwblhau'r broses adolygu prisiau ar gyfer 2015-2020. Diolch i'n cyfarfodydd blynyddol â buddsoddwyr a'n hadroddiadau chwarterol i fuddsoddwyr, mae ein statws credyd yn dal i fod yn uchel yn dilyn yr adolygiad diwethaf o brisiau ac mae ymhlith y gorau yn y sector cyfleustodau yn y DU.

Mae cydberthnasau cryf a sefydlog â'n prif fuddsoddwyr yn allweddol i enw da a lles ariannol y cwmni.

Disgylir canllawiau ar briso swmpgyflenwadau gan Ofwat yn fuan ac mae'n bosibl y bydd hyn yn helpu i ddatrys yr anghydfodau ag Albion, United Utilities a Tata Steel.

O ran Aber Afon Llchwyr, rydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru, ac yn buddsoddi yn ein cynlluniau draenio cynaliadwy arloesol yn yr ardaloedd yr effeithir arnynt (gweler tudalen 38).

Mae osgoi anghydfodau diangen yn ein galluogi i ddefnyddio adnoddau mewn mannau eraill er mwyn canolbwyntio ar gyflawni ein nodau strategol.



Mesur ein cynnydd: 2014–2015

Mae ein gwaith cynllunio busnes yn seiliedig ar wyth 'canlyniad' allweddol sydd wedi llywio perfformiad ers cyhoeddi 'Ein Dyfodol Cynaliadwy' yn 2007 a hefyd yn cael eu defnyddio yn ein Cynllun Busnes ar gyfer y cyfnod rhwng 2015 a 2020.

1

Dŵr yfed
o ansawdd
uchel

Tud 28

2

Diogelu'r
amgylchedd

Tud 32

3

Ymateb
i newid yn
yr hinsawdd

Tud 36

4

Gwasanaeth
cwsmeriaid
rhagorol

Tud 40

Gyda thargedau heriol ond cyflawnadwy wedi'u pennu ar gyfer pob un ohonynt, mae'r canlyniadau allweddol yn darparu llwyfan cyson a thryloyw i'n galluogi i fesur ein perfformiad gweithredol, amgylcheddol ac ariannol a'n perfformiad o ran ein cwsmeriaid er mwyn nodi ein cynnydd.

5

Biliau
fforddiadwy

Tud 44

6

Gofalu am
ein hasedau

Tud 48

7

Datblygu
ein pobl

Tud 52

8

Busnes
effeithlon

Tud 56

Ross Marsh
a Dean Quigley
Yn sicrhau bod y dŵr yn parhau
i lifo yn Ne-ddwyrain Cymru




Ein huchelgois:

Bydd ein cwsmeriaid
yn gwbl hyderus
bod eu dŵr yfed
yn ddiogel ac yn
ddibynadwy a'i fod
yn blasu'n dda



Dŵr yfed o ansawdd uchel



65

O WEITHFEYDD
TRIN DŴR



800

MILIWN LITR



1.4

MILIWN O GARTREFI
A BUSNESAU

Cyflwyniad

Mae darparu cyflenwad di-dor o ddŵr yfed diogel a glân, o ansawdd uchel, wrth wraidd yr hyn a wnawn. Mae'n ategu iechyd cyhoeddus ac economi'r cymunedau a wasanaethir gennym ac mae'n un o ddisgwyliadau sylfaenol ein cwsmeriaid.

Er mwyn gwneud hyn, rydym yn rheoli 65 o weithfeydd trin dŵr sy'n cyflenwi mwy nag 800 miliwn litr bob dydd i fwy nag 1.4 miliwn o gartrefi a busnesau drwy rwydwaith o gronfeydd dŵr a 27,000 km o brif bibellau dŵr - sy'n ddigon i ymestyn i Awstralia ac yn ôl.

Uchafbwyntiau

Er mwyn helpu i fesur ansawdd ein dŵr yfed, rydym yn cynnal mwy na 600,000 o brofion bob blwyddyn ar samplau a gymerir o adnoddau dŵr yfed megis afonydd a chronfeydd dŵr a hefyd o'r rhwydwaith dŵr yfed gan gynnwys tapiau yng ngheginau cwsmeriaid. Yn 2014, parhaodd ansawdd cyffredinol y dŵr yfed a gyflenwyd gennym ar lefel uchel, gyda 99.94% (2013: 99.97%) o gydymffurfiaeth â safonau ansawdd dŵr yfed yn nhapiou cwsmeriaid yn gyffredinol. Heb unrhyw fethiannau bacteriolegol (2013: 1) yn ein gweithfeydd trin dŵr am y tro cyntaf mewn sawl blwyddyn, unwaith eto rydym wedi cyflawni ein targedau perfformiad ar gyfer tri o'r chwe mesur allweddol a ddefnyddir gan yr Arolygiaeth Dŵr Yfed i fesur cydymffurfiaeth o ran ansawdd dŵr ar bob cam ar y system cyflenwi dŵr.

Rydym bellach yn cwblhau rhaglen fuddsoddi gwerth £120 miliwn er mwyn gwella neu adnewyddu 12 o weithfeydd trin dŵr ledled yr ardal a wasanaethir gennym, gan roi sicrwydd ychwanegol o ran cyflenwad i bron 400,000 o gwsmeriaid.

Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi rhagori ar ein targedau ar gyfer gollyngiadau gyda 180 megalitr y dydd yn cael eu colli, ar gyfartaledd, yn erbyn ein targed o 184 megalitr y dydd. Gan ddefnyddio adnoddau diagnostig uwch i rybuddio am amrywiadau anarferol o ran y defnydd o ddŵr, rydym bellach yn ymateb yn gyflym i unrhyw ollyngiadau. Mae hyn wedi'i ategu yn ystod y blynyddoedd diwethaf gan ein gwaith i ymestyn ein galluoedd rheoli pwysedd er mwyn helpu i leihau'r risg o fethiannau ar y rhwydwaith.

Treialu Peiriannau Lladd Chwyn

Gellir priodoli lefelau uwch o llyswenwynau glaswelltir yn rhannau uchaf dalgylchoedd Afon Gwy ac Afon Teifi yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru yn aml i ddŵr ffo o dir sydd wedi'i drin â llyswenwynau er mwyn atal chwyn rhog lledaenu. Er mwyn i ni allu cynnal safonau uchel iawn dŵr yfed y mae ein cwsmeriaid bellach yn eu disgwyl gennym, mae angen rhoi triniaeth ychwanegol i'r dŵr a gymerwn o'r ardaloedd hyn cyn y gallwn ei gyflenwi i'n cwsmeriaid. Yn ogystal â niweidio bywyd gwyllt gall hyn arwain at gostau i ni hefyd.

Ym mis Ebrill 2015, gwnaethom lansio treial chwe mis arloesol gyda'n partneriaid er mwyn cynnig cyfle i ffermwyr a rheolwyr tir yn yr ardaloedd hyn ddefnyddio peiriant lladd chwyn am ddim. Mae'r dull yn fwy buddiol na dulliau chwistrellu traddodiadol am ei fod yn taenu cemegion yn uniongyrchol ar y chwyn a dargedwyd. O ganlyniad, mae angen defnyddio llai o gemegion, sy'n lleihau'r effaith ar yr amgylchedd lleol. Mae hyn yn golygu ei bod hi'n haws trin y dŵr, sy'n ein helpu i leihau'r gost i'n cwsmeriaid.

Yn ystod wythnos gyntaf y treial, cofrestrodd mwy na 100 o ffermwyr a thirfeddianwyr eu diddordeb mewn defnyddio'r peiriannau lladd chwyn. Byddwn yn gwerthuso effeithiolrwydd yr ymgyrch yn ystod hydref 2015.

astudiaeth
achos



Dyweddodd Mr Emyr Jones, Llywydd Undeb Amaethwyr Cymru:

" Rydym yn cefnogi'r fenter hon. Mae ffermwyr yn deall pa mor bwysig yw defnyddio llyswenwynau glaswelltir yn gyfrifol. Mae'r peiriant lladd chwyn yn rhoi cyfle i dirfeddianwyr roi cynnig ar ddulliau gwahanol o reoli brwyn, gan sicrhau bod mwy o laswelltir ar gael ar gyfer pori i dda byw yn ogystal â gwella ansawdd dŵr."

Heriau a wynebir

Mae rhai meysydd o hyd sydd angen eu gwella ymhellach, gan gynnwys yr angen i barhau i ddarparu cyflenwadau dŵr di-dor i'n cwsmeriaid. Gall y fath doriadau i gyflenwadau dŵr gael eu hachosi gan ein gwaith cynnal a chadw, gweithredoedd trydydd partion (megis datblygwyr), digwyddiadau sydd y tu hwnt i'n rheolaeth (megis tywydd eithafol) neu waith buddsoddi hanfodol a gynlluniwyd ar y rhwydwaith. Mae'r cynlluniau hyn neu'r gwaith cynnal a chadw hwn yn cael eu cymhlethu ymhellach yn yr ardal a wasanaethir gennym o ganlyniad i'r topograffi lleol a hyd ein rhwydwaith. Rydym wedi gwneud gwelliannau sylweddol yn y maes hwn drwy wella prosesau cynllunio, dadansoddi data a rhagfynegi problemau posibl yn well. O ganlyniad, ar gyfartaledd, dioddefodd cwsmeriaid 23 munud o doriadau i gyflenwadau yn ystod y cyfnod rhwng 2014 a 2015 – sy'n llawer is na'n perfformiad yn y flwyddyn flaenorol (51 munud).

Hefyd, gwnaethom barhau i weithio yn ystod y flwyddyn i wella blas, lliw ac arogl ein dŵr yfed mewn rhai ardaloedd gan ein bod yn gwybod bod hyd yn oed amrywiadau diogel iawn yn peri pryder i'n cwsmeriaid. Mae nifer y cwsmeriaid a gysylltodd â ni fesul 1,000 o gwsmeriaid – ymholiadau neu gwynion dros y ffôn, drwy e-bost neu lythyr – yn fesur da o hyder cwsmeriaid yn eu dŵr tap. Yn 2014, cysylltwyd â ni 3.53 gwaith fesul 1,000 o gwsmeriaid (2013: 3.36) o gymharu â'n targed o 3.03. Roedd y rhan fwyaf o'r cwsmeriaid hyn wedi cysylltu â ni ynghylch dŵr aflwiwedig a methwyd â chyflawni targed eleni ar gyfer methiannau yn erbyn y safon ar gyfer haearn yn nhapiau cwsmeriaid gyda 99.41% yn erbyn targed o 99.70%. Er ein bod wedi buddsoddi mewn rhaglen fawr i adnewyddu prif bibellau haearn heb leinin yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'n dal i fod yn her i'r cwmni. Felly, mae gwella'r mesur hwn yn rhan allweddol o'n rhaglen fuddsoddi rhwng 2015 a 2020 am ein bod yn bwriadu adnewyddu bron 160 km o brif bibellau haearn heb leinin ger Henffordd, Treffynnon a'r Wyddgrug, Casnewydd, Pen-y-bont ar Ogwr a Phorthcawl.

Edrych i'r dyfodol

Fel rhan o'n cynlluniau i gynnal ansawdd uchel ein dŵr yfed, byddwn yn cynyddu ein gweithgarwch rheoli dalgylchoedd, sef y man cyntaf y caiff dŵr yfed ei drin. Bydd lleihau faint o lygredd sy'n mynd i mewn i'n hafonydd a'n dyfrhaenau o systemau draenio amaethyddol a threfol yn gwella bioamrywiaeth ac yn lleihau'r angen am driniaeth gostus. Mae hyn yn golygu targedau ardaloedd o rostir a thir amaethyddol er mwyn gwella ansawdd dŵr naturiol a systemau storio dŵr yn y tirweddau hyn.

Rydym yn bwriadu ymestyn ein gwaith gyda'n partneriaid, Cyfoeth Naturiol Cymru, Work Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, ar ôl cael £165,000 gan Gronfa Ecosystemau Llywodraeth Cymru. Gan weithio gyda'n partneriaid, rydym wedi adfer ecosystemau mawndir ar Rostiroedd Gogledd Cymru ac wedi lleihau lefelau lliw a charbon organig toddedig yn y nentydd sy'n llifo i'r mawndir. Mae hyn wedi gwella ansawdd dŵr yng nghronfeydd dŵr cyfagos Alwen a Llyn Conwy yn y gogledd sy'n gwasanaethu mwy na 160,000 o gwsmeriaid.



Ein huchelgois:

Byddwn yn diogelu
amgylchedd
cynaliadwy y
byddwn yn falch
o'i drosglwyddo
i genedlaethau'r
dyfodol



Diogelu'r amgylchedd

Cyflwyniad

Er mwyn helpu i ddarparu ein gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff yn effeithiol, mae ein busnes yn dibynnu ar iechyd yr ecosystemau naturiol lle rydym yn gweithredu. Gyda rhwydwaith o garthffosydd sy'n cynnwys tua 30,000 km o bibellau, mwy na 1,900 o orsafoedd pwmpio carthffosiaeth, tua 3,200 o orlifiannau carthffosydd cyfun a bron 900 o weithfeydd trin dŵr gwastraff, mae gennym ddyletswydd fel stiwardiaid amgylcheddol i sicrhau, nid yn unig bod ein gweithgareddau yn effeithio cyn lleied â phosibl ar yr amgylchedd, ond hefyd eu bod yn ei wella lle y bo'n bosibl.

Uchafbwyntiau

Wrth ddarparu ein gwasanaethau dŵr gwastraff, rydym wedi adeiladu ar y cynnydd da a wnaed yn 2013-14 drwy gyflawni ein perfformiad gorau erioed eleni. Yn ogystal â chofnodi'r nifer leiaf erioed o ddigwyddiadau yn ymwneud â llygredd eleni, sef 112 (2013-14: 124), er i bum gwaith trin dŵr gwastraff fethu â chydymffurfio'n llawn â thrwyddedau gollwng (2013: 12), ar ddiwedd y flwyddyn roeddem o fewn ein targed, sef 14. Yn y cyfamser, rydym yn parhau i ddwyn ein hunain i gyfrif yn llwyr a gweithredu yn unol â'r safonau uchaf. Gwelwyd tystiolaeth o hyn yn ystod y 12 mis diwethaf gyda'r achosion o hunan-gofnodi digwyddiadau yn ymwneud â llygredd i Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn cyrraedd ei lefel uchaf erioed, sef 60%, gan ragori ar ein targed (55%).

Gwyddom am yr effaith ddychrynlyd y gall carthffosydd yn gorlifo ei chael ar ein cwsmeriaid am mai dyma'r math gwaethaf o fethiant mewn gwasanaeth. Dyna pam ein bod wedi parhau i fuddsoddi mewn mesurau a gweithgareddau er mwyn lleihau'r tebygolrwydd y bydd digwyddiadau o'r fath a'u heffaith. Mae ein gwaith wedi cynnwys cwblhau 23 o gynlluniau yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn

lleihau'r risgiau i 131 o eiddo sy'n gysylltiedig â charthffosydd mewnol ac allanol yn gorlifo. Fodd bynnag, er bod nifer yr achosion o garthffosydd mewnol yn gorlifo y llynedd wedi gostwng bron 50% i 43 (2013-14: 82), rydym yn ymwybodol bod nifer fach o gwsmeriaid wedi dioddef llifogydd mewnol mynych ac rydym yn dal yn benderfynol o leihau nifer yr eiddo sy'n wynebu'r risg fwyaf o lifogydd dros y pum mlynedd nesaf.

Rydym yn cydnabod y manteision i economi Cymru sy'n deillio o ddyfroedd ymdrochi o ansawdd uchel, o ran denu ymwelwyr a gwella ansawdd bywyd y rhai sy'n byw yn y cymunedau hyn.

Mae dyfroedd arfordirol o ansawdd uchel hefyd yn cynnal ecosystemau morol ac mae'r rhain yn amhrisiadwy i ddiwydiannau megis pysgota a physgodfeydd pysgod cregyn. Rydym yn falch bod ein buddsoddiad yn y rhwydwaith dŵr gwastraff a gweithfeydd trin yn cyflawni canlyniadau da fel y dangosir gan y 34 o Faneri Glas a ddyfarnwyd i ddyfroedd ymdrochi yng Nghymru yn 2014. Byddwn yn parhau i gydweithio â'n partneriaid, megis awdurdodau lleol ac osiantaethau twristiaeth, er mwyn mynd i'r afael â'r amrywiaeth o ffactorau a all

effeithio ar ansawdd dŵr a'r amgylchedd, gan gynnwys dŵr ffo amaethyddol, camgysylltiadau a hlogi gan adar ac anifeiliaid. At hynny, rydym bellach yn anfon negeseuon byw at randdeiliaid lleol a grwpiau lleol â diddordeb drwy gydol y flwyddyn er mwyn eu rhybuddio am unrhyw ollyngiadau achlysurol o fewn 2km i 24 o ddyfroedd ymdrochi yng Nghymru ledled Sir Benfro, Abertawe, Bro Morgannwg ac Ynys Môn. Rydym yn bwriadu ymestyn y gweithgarwch hwn i ardaloedd eraill yn y dyfodol agos.

Ar ôl i'r rhwydwaith carthffosydd preifat gael ei drosglwyddo i ni yn llwyddiannus yn 2011, a ddyblodd faint ein rhwydwaith o garthffosydd, rydym bellach wedi hen ddechrau ar y gwaith o reoli'r broses o fabwysiadu tua 800 o orsafoedd pwmpio preifat erbyn 2016. Mabwysiadwyd 115 o orsafoedd pwmpio carthffosydd preifat gennym yn 2014, gyda llawer ohonynt mewn cyflwr gwoel, megis Pant y Wacco ger Treffynnon sydd wedi achosi problemau mawr o ran arogleuon i'r gymuned leol yn y gorffennol. Rydym wedi buddsoddi yn yr ased hwn er mwyn gwella ei berfformiad.

astudiaeth
achos

Stop Cyn Creu Bloc

Mae ein gwaith gweithredol i ddiogelu'r amgylchedd yn cael ei ategu gan ein hymgyrch barhaus i godi ymwybyddiaeth o lygredd. Nod yr ymgyrch hon yw newid y ffordd y mae ein cwsmeriaid yn gwaredu brasterau, olewau a soim yn ogystal ag eitemau na ellir eu fflysio megis weips glanhau a gwastraff ystafell ymolchi sy'n aml yn cael eu rhoi i lawr toiledau, sincipiau a draeniau.

Cafodd yr ymgyrch hon gryn sylw yn y cyfryngau cenedlaethol ym mis Chwefror a helpodd i godi ymwybyddiaeth cwsmeriaid o'r broblem ar ôl i ni ryddhau darn o ffilm teledu cylch cyfyng yn dangos rhai dyddodion brasterog yn blocio rhan o'n carthffosydd yng nghanol dinas Caerdydd. Gan fod yn rhaid i ni ymdrin â 2,000 o flociadau y mis, sy'n costio £7 miliwn y flwyddyn, byddwn yn parhau i annog cwsmeriaid i newid eu hymddygiad er mwyn i ni helpu i 'Stopio Cyn Creu Bloc'.



Un o othrawon Dŵr Cymru, Mary Watkins, yn lansio Stop Cyn Creu Bloc yn Ysgol Gynradd Sant Ffransis yn Aberdauledau.



£15M

WEDI'I FUDDSODDI YN
Y RHAGLEN GLAWLIF

£25M

WEDI'I FUDDSODDI MEWN CYNLLUNIAU
GWAREDU FFOSFFAD

Heriau a wynebir

Rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ar ôl i'r Comisiwn Ewropeaidd gyflwyno Barn Resymegol i Lywodraeth y DU ym mis Gorffennaf 2014, gan godi pryderon ynghylch amllder gollyngiadau ochlysurol o'n rhwydwaith i Aber Afon Lluchwr a'r effaith ar ardal sydd wedi'i dynodi'n un sensitif o dan y Gyfarwydddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol (UWWTD).

Gwasanaethir y rhan fwyaf o gwsmeriaid yn yr ardal gan system carthffosydd cyfun sy'n draenio carthion budr a glawiad sy'n llifo oddi ar doeau a ffyrdd mewn tywydd gwlyb. Yn ystod tywydd gwlyb iawn, mae gorlifiannau carthffosydd cyfun (CSOs) yn gweithredu er mwyn gollwng carthion gwanedig o'r rhwydwaith er mwyn diogelu cartrefi a busnesau ein cwsmeriaid rhag llifogydd. Rydym wedi buddsoddi £15 miliwn yn ein rhaglen GlawLif yn Llanelli a Thre-gŵyr yn ystod y cyfnod rhwng 2010 a 2015, sydd wedi lleihau faint o garthion a goiff eu rhyddhau, ar gyfartaledd, o'n gorlifiannau carthffosydd cyfun fwy na 760,000m³ y flwyddyn. Mae'r rhaglen hefyd wedi'i hategu gan y swm o £25 miliwn a fuddsoddwyd dros y 12 mis diwethaf yn y gwaith o gyflawni cynlluniau gwaredu ffosffad yng Ngweithfeydd Trin Dŵr

Gwastraff Llanelli, Tre-gŵyr, Pontyberem a Pharc y Splott, y mae pob un ohonynt yn gollwng i mewn i aberoedd sy'n rhan o ardal gadwraeth arbennig Bae Caerfyrddin. Rydym yn bwriadu gwario £25 miliwn arall ar ein cynlluniau GlawLif yn Llanelli a Thre-gŵyr rhwng 2015 a 2020. Mae GlawLif yn fwy costeffeithiol a chynaliadwy na'r atebion storio dŵr storm confensiynol cyfatebol na fyddent yn gweithio yn yr ardal hon ac a fyddai wedi costio tua £600 miliwn i'w cyflawni.

Ym mis Rhagfyr 2014, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) adroddiad o dan y Rheoliadau Niwed Amgylcheddol (Atal ac Adfer) a oedd yn ymwneud ag effeithiau ar ansawdd dŵr yn Llyn Padarn, yn arbennig mewn perthynas â thwf ffyttoplanton. Ers 2010 rydym wedi buddsoddi £2.5 miliwn yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff Llanberis ac rydym yn parhau i fuddsoddi yn AMP 6. Mae'r gwaith hwn yn ein galluogi i gydymffurfio â newidiadau i amodau caniatadau, fel sy'n ofynnol gan CNC. Bwriedir i'r terfynau llymach wella statws ecolegol y llyn. Mae'r llyn hefyd wedi cyrraedd y safonau ansawdd dŵr gofynnol i ennill statws dyfroedd ymdrochi gan Lywodraeth Cymru, sy'n golygu mai hwn yw llyn ymdrochi dŵr croyw dynodedig cyntaf Cymru.

Edrych i'r dyfodol

Mae ein rhwydwaith dŵr gwastraff yn heneiddio ac, felly, gwyddom fod angen i ni fod yn fwy rhagweithiol byth wrth nodi risgiau llygredd ac asedau sy'n agored i niwed. Ar ôl nodi tua 800km o garthffosydd risg uchel sy'n cael eu harolygu'n fanwl, rydym yn parhau i ddatbygu a gwella ein gallu rhagfynegol. Bydd dadansoddi'r data sy'n cael eu cynhyrchu yn ein helpu i wella ein dealltwriaeth o berfformiad amser real y rhwydwaith o garthffosydd a bydd yn gwella ein gallu i ymyrryd cyn y ceir digwyddiad yn ymwneud â llygredd (e.e. mapio ardaloedd lle y ceir digwyddiadau yn aml, adnewyddu monitorau carthffosydd sydd islaw'r safon).

Er mwyn helpu i reoli'r heriau hyn, mae buddsoddi mewn addysg ac ymgysylltu â'r cymunedau a wasanaethir gennym yn hanfodol. O ganlyniad, gwnaethom barhau i groesawu tua miliwn o ymweliadau â'n safleoedd hamdden a'n canolfannau ymwelwyr yn 2014 yn ogystal â chyrraedd 250,000 o blant, sef y nifer uchaf erioed, fel rhan o'n rhaglen addysgol benodol. Mae'r rhaglen addysgol yn helpu ein cwsmeriaid ar gyfer y dyfodol i ddeall pam mae angen i bob un ohonom feddwl yn wahanol am ddŵr a'r amgylchedd sydd o dan ein gofal.



Mae angen i bob un ohonom feddwl yn wahanol am ddŵr a'r amgylchedd sydd o dan ein gofal.



Ein huchelgois:

Byddwn yn addasu
ein gweithgareddau
i ddelio ag effeithiau
posibl newid yn yr
hinsawdd, gan leihau
ein hôl troed carbon
ein hunain ar yr
un pryd



Ymateb i newid yn yr hinsawdd

Cyflwyniad

Mae angen i ni sicrhau bod ein busnes yn addasu er mwyn cynnal gwasanaethau hanfodol yn wyneb patrymau tywydd mwy anwadal a allai arwain at adnoddau dŵr sy'n lleihau, ansawdd dŵr gwaeth a thywydd eithafol gan gynnwys llifogydd a thymhereddau uwch.

Wrth ddatblygu rhwydweithiau mwy cadarn er mwyn lliniaru effaith patrymau tywydd eithafol, rydym hefyd yn ymrwymedig i sicrhau ein bod yn cyfrannu cyn lleied â phosibl at newid yn yr hinsawdd a lleihau ein hól troed carbon ein hunain.

Uchafbwyntiau

Mae newid yn yr hinsawdd yn golygu bod patrymau tywydd eithafol megis stormydd a llifogydd yn dod yn fwyfwy dwys ac rydym wedi parhau i fuddsoddi yn ein dull GlawLif o weithredu er mwyn helpu i leihau faint o ddŵr glaw sy'n llifo i mewn i'n system garthffosiaeth. O ganlyniad, mae hyn wedi ein helpu i leihau effaith ein rhwydwaith ar ansawdd dŵr lleol ac mae wedi helpu i leihau'r risg y ceir llifogydd mewn trefi fel y nodir ar dudalen 38.

Yn y cyfamser, y dylanwad unigol mwyaf y gallwn ei gael o ran lleihau ein heffaith ar newid yn yr hinsawdd yw lleihau ein defnydd o danwydd ffosil. Mae cyflenwi dŵr yfed glân a diogel i gwsmeriaid a gwaredu a thrin dŵr gwastraff yn gofyn am lawer o ynni.

Er mwyn lleihau ein defnydd o danwyddau ffosil a sicrhau ein bod yn gallu gwrthsefyll dylanwadau

marchnadoedd ynni allanol yn well, dros y 12 mis diwethaf rydym wedi parhau i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gynhyrchu ynni adnewyddadwy ar ein safleoedd. Mae hyn hefyd yn lleihau ein costau gweithredu.

Ymhlith ein prosiectau diweddaraf mae'r canlynol: datblygu cynllun ynni dŵr ar danciau dŵr sy'n cyflenwi Gwaith Trin Dŵr Bryn Cowlyd ym Mharc Cenedlaethol Eryri; paneli solar yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff Llangefni ar Ynys Môn; a cham cyntaf prosiect i osod paneli solar yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff Five Fords yn Wrecsam. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom hefyd fuddsoddi £20 miliwn er mwyn prynu 14 o gynlluniau ynni dŵr ar naw safle ledled Cymru. Mae hyn wedi dyblu'r ynni adnewyddadwy a gynhyrchir gennym oherwydd gall y cynlluniau ynni dŵr hyn gynhyrchu 40GWh o ynni sy'n ddigon i bweru 9,000 o gartrefi.

astudiaeth
achos

GlawLif

Dechreuodd y gwaith ar brosiect draenio trefol GlawLif yn Llanelli yn ystod haf 2013 pan osodwyd pant draenio ar Rodfa'r Frenhines Mary. Mae'r pant eisoes yn perfformio'n well na'r disgwyl ac yn gwaredu digon o ddŵr wyneb i lenwi pedwar pwll nofio o faint Olympaidd bob blwyddyn.

Wedyn gwnaethom droi ein sylw at Ysgol Gynradd Stebonheath gan fuddsoddi £500,000 mewn palmentydd athraidd a Gardd GlawLif y gwnaeth y disgyblion helpu i'w chynllunio.

Mae ein gwaith ar brosiect GlawLif eisoes wedi gwneud cynnydd cyson drwy strydoedd y dref lle mae planwyr, basnau a sianeli o laswellt wedi'u gosod er mwyn dal dŵr wyneb a rheoli llif dŵr wyneb.



Byddwn yn dechrau'r rhaglen fwyaf o fuddsoddi mewn gwyddoniaeth ac arloesedd a welwyd hyd yma a fydd yn ein helpu i barhau i ddatblygu rhwydwaith cadarn ar gyfer y dyfodol.



Heriau a wynebir

Er bod cynnydd da wedi'i wneud o ran ein prosiectau ynni adnewyddadwy yn ystod y flwyddyn, mae ffactorau y tu hwnt i'n rheolaeth wedi ein hatal rhag gwneud cynnydd mewn rhai manau. Mae hyn wedi cynnwys oedi yn gysylltiedig â gwaith cynllunio a chyflenwyr sydd wedi gohirio'r gwaith o adeiladu ein tyrbinau gwynt yng Ngweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff Abertawe a Threfonnen. Mae cynnodau estynedig o dywydd gwlyb hefyd wedi effeithio ar ffeithlonrwydd ac allbwn ynni ein safleoedd treulio anerobig uwch. Er gwaethaf y ffactorau hyn, rydym yn dal yn optimistaidd y byddwn yn cyflawni ein targed uchelgeisiol a bennwyd yn 2007 i leihau gollyngiadau carbon 25% ychydig yn hwyrach nag a ragwelwyd yn 2015.

Mae cadw'n effro i'r gofynion newidiol y mae newid yn yr hinsawdd yn eu rhoi ar ein hasedau yn dal i fod yn her. Felly, rydym wedi parhau i weithio mewn partneriaeth â'n Panel Cyngori Amgylcheddol Annibynnol (IEAP) sy'n rhoi cyngor i'r busnes ar wyddoniaeth, ymchwil a materion rheoliadol amgylcheddol. Mae'r IEAP yn cynnwys nifer o sefydliadau amgylcheddol ac yn helpu i sicrhau bod pob punt a fuddsoddir gennym er budd yr amgylchedd yn cynnig gwerth am arian i gwsmeriaid. Rydym hefyd wedi parhau i ariannu ein rhaglen ymchwil o dan y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr sy'n cefnogi agenda 'Cymru Fyw' Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol. Eleni, byddwn yn dechrau'r rhaglen fwyaf o fuddsoddi mewn gwyddoniaeth ac arloesedd a welwyd hyd yma a fydd yn ein helpu i barhau i ddatblygu rhwydwaith cadarn ar gyfer y dyfodol.

Edrych i'r dyfodol

Byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn ynni adnewyddadwy ac rydym yn bwriadu trawsnewid Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Five Fords yn Wrecsam yn barc ynni arloesol yn cynnwys cynlluniau solar, cynlluniau treulio anerobig uwch a chynlluniau ynni'r gwynt ac ynni dŵr ar y safle. Fel rhan o'n buddsoddiad gwerth £24 miliwn yn y parc ynni hwn, byddwn yn datblygu cyfleuster i allforio bio-methan yn uniongyrchol i'r rhwydwaith nwy cenedlaethol – ein prosiect bio-nwy cyntaf. Os rhoddir caniatâd ar gyfer pob elfen o'r prosiect, disgwylir iddo arbed £4 miliwn y flwyddyn i ni mewn costau ynni.

Yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, rydym yn disgwyl caffael un tyrbîn gwynt ar gyfer Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Abertawe ac un ar gyfer Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Trefonnen. Byddwn yn parhau â'r gwaith o gyflwyno ein hatebion draenio trefol arloesol o dan raglen GlawLif yn Llanelli er mwyn mynd i'r afael â phroblemau llifogydd lleol yn ogystal â chyflawni cynlluniau draenio tebyg mewn rhannau o Ogledd Cymru.



Ein huchelgois:

Byddwn yn
parhau i ddarparu
gwasanaeth rhagorol
i'n cwsmeriaid



Gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol

Cyflwyniad

Mae ein cwsmeriaid yn dibynnu arnom i ddarparu gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff o'r ansawdd uchaf ac yn ymddiried ynom i wneud y 'peth iawn'. Ond weithiau, hyd yn oed gydag ymdrechion gorau ein tîm, mae pethau yn mynd o chwith, a phan fydd hynny'n digwydd, rydym yn ceisio eu cywiro yn gyflym ac yn gwrtais. Fel cwmni cyfleustodau a berchenogir ar ran ein cwsmeriaid, rydym yn unigryw o ran y ffordd rydym yn sicrhau bod cwsmeriaid wrth wraidd y penderfyniadau a wneir gennym bob dydd.

Uchafbwyntiau

Yn 2014-15, roeddem yn falch bod ein gwasanaeth cwsmeriaid yn gydradd ail ymhlith pob un o'r 10 cwmni dŵr a charthffosiaeth, gydag 84% o'r cwsmeriaid a arlygwyd yn nodi eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarparwyd gennym. Eleni, am y tro cyntaf, gwnaethom gymryd rhan mewn treial a roddodd gyfle i gwsmeriaid roi eu barn ar ein gwasanaeth a nodi pa mor debygol ydoedd y byddent yn canmol ein gwasanaeth. Gyda mwy nag 20,000 o gwsmeriaid yn cymryd rhan dros gyfnod o chwe wythnos, roeddem yn falch o gyrraedd safon wedi'i fynegi ar ffurf sgôr hyrwyddwr net (metrig cwsmeriaid a ddefnyddir yn y sector cyfleustodau i fesur faint o hyrwyddwyr neu ddifriwyr sydd gan gwmni) o 78.5%. Rydym hefyd yn falch bod Phil Atwell, un o'n cydweithwyr yn y ganolfan gyswllt, wedi'i gydnabod fel yr Asiant Gorau o'r Asiant Gorau yn y Sector Cyfleustodau yng Ngwobrau Canolfannau Cyswllt Cymru.



Phil Atwell
Rheolwr y
Ganolfan
Gyswllt Bilio

Dangosir ein hymrwymiad i wneud pethau'n iawn y tro cyntaf i gwsmeriaid gan y gostyngiad o 11.5% a welwyd dros y tair blynedd diwethaf mewn cysylltiadau diangen tebyg am debyg - sy'n mesur sawl gwaith y mae'r cwsmer wedi gorfod cysylltu â ni ynghylch methiant mewn gwasanaeth. Rydym hefyd wedi gwella cwmipas a defnyddioldeb eu gwefan er mwyn helpu cwsmeriaid i gael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt yn y ffordd fwyaf cyfleus a syml bosibl.

Rydym wedi parhau i wneud mwy o ddefnydd o gyfryngau cymdeithasol eleni ac erbyn hyn gall cwsmeriaid gysylltu â ni ynghylch y gwasanaeth y maent yn ei gael drwy ddewis o lwyfannau cyfathrebu amlgyfrwng a chwbl ddwyieithog. Dros y 12 mis diwethaf dewisodd mwy o'n cwsmeriaid gysylltu â ni drwy'r wefan a chyfryngau cymdeithasol nag o gysylltodd â ni drwy sianel fwy traddodiadol ein canolfan alwadau, ac rydym yn disgwyl i'r duedd hon barhau. Serch hynny, rydym yn cydnabod nad oes gan bob cwsmer fynediad at dechnoleg a bod yn well gan rai ein ffonio neu ysgrifennu atom. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau y bydd pob un o'r sianeli cyswllt hyn yn parhau i fod ar gael ac eleni gwnaethom ymuno ag ymgyrch 'Keep me Posted' sy'n ein hymrwymo i sicrhau y bydd cwsmeriaid sydd am ysgrifennu atom yn gallu parhau i wneud hynny ac yn cael gwasanaeth sydd yr un mor effeithlon â'r gwasanaeth y mae'r rhai sy'n cysylltu â ni drwy sianeli cyswllt eraill yn ei gael.

astudiaeth achos

Coed Darcy

Mae rhan allweddol o'n gwaith yn cynnwys hybu datblygu economaidd drwy ddiwallu anghenion poblogaeth sy'n tyfu. Mae hyn yn golygu bod angen i ni fuddsoddi mewn prif bibellau dŵr, corthffosydd ac asedau eraill er mwyn i ni allu cysylltu cwsmeriaid a busnesau newydd.

Ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda St. Modwen Properties PLC, datblygwr sy'n arbenigo mewn prosiectau adfywio ac sy'n gweithredu ledled y DU, ar raglen 20 mlynedd sy'n cynnwys safle datblygu 1,000 erw yng Nghoed Darcy, Abertawe. Mae St. Modwen yn adeiladu 4,000 o gartrefi, cyfleusterau cymunedol, pedair ysgol, safleoedd cyflogaeth a mannau hamdden agored, y mae angen gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff ar bob un ohonynt.

Dywedodd Rupert Joseland, Rheolwr Rhanbarthol St. Modwen ar gyfer De-orllewin Lloegr a Chymru:

"Darparodd Dŵr Cymru Reolwr Prosiect penodedig, un pwynt cyswllt a allai weithio'n agos gydag asiantaethau allanol yn ogystal ag adrannau allweddol eraill o fewn Dŵr Cymru, ar ein rhan, er mwyn sicrhau bod y prosiect yn rhedeg yn ddidrafferth. Mae'r ffaith bod ganddo aelod penodedig o staff wedi galluogi Dŵr Cymru i feithrin gwell dealltwriaeth o'r datblygiad a'n cynlluniau hirdymor ar gyfer pob cam, gan sicrhau ein bod yn cyflawni ar gamau allweddol o'r prosiect. Roedd yn gallu gweithio'n agos gyda'i dîm dylunio o gam cynnar a sicrhodd y gallai ddarparu ymagwedd hyblyg at gostau a heriau'r rhaglen."

Heriau a wynebir

Er ein bod yn falch bod nifer y cwsmeriaid a oedd yn teimlo bod angen iddynt gwyno wedi gostwng eleni, sef gostyngiad o 19% o gymharu â'r llynedd, roedd y rhan fwyaf o'r cwynion ynghylch mesuryddion dŵr, talu biliau ac ansawdd dŵr megis dŵr afliwiedig o hyd. Cawsom gwynion hefyd ynghylch arogleuon o rai o'n gweithfeydd trin dŵr gwastraff. Mae trigolion a busnesau ger ein Gwaith Trin Dŵr Gwastraff yn Nhreborth, er enghraifft, wedi cwyno ynghylch yr effaith y mae arogleuon o'r safle yn ei chael ar y gymuned leol. Rydym yn gweithio gyda'r trigolion a busnesau ac rydym wrthi'n datblygu cynllun buddsoddi pwrpasol er mwyn mynd i'r afael â phroblem arogleuon yn y gwaith.

Ein her fwyaf yn ystod y flwyddyn oedd rhoi system filio newydd ar waith ar gyfer 1.4 miliwn o gartrefi a busnesau sy'n gwsmeriaid i ni. Roedd y prosiect yn benllanw ar dair blynedd o waith i gyflwyno system fwy effeithlon a all filio bron £750 miliwn bob blwyddyn yn fwy effeithiol. Cyflwynwyd y system yn llwyddiannus heb fawr ddim effaith ar wasanaeth cwsmeriaid.

Edrych i'r dyfodol

Ar hyn o bryd, rydym yn gwasanaethu mwy na 100,000 o gwsmeriaid busnes ac yn croesawu canlyniadau arolygon annibynnol sy'n dangos bod 89% ohonynt yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir gennym. Rydym yn cydnabod, yn sgil cyflwyno cystadleuaeth fanwerthu ar gyfer cwsmeriaid busnes yn y diwydiant dŵr yn Lloegr yn 2017, fod disgwyliadau cwsmeriaid yn newid. Yn ei dro, rydym yn cynyddu nifer y gwasanaethau a gynigir gennym megis e-filio, canfod gollyngiadau, is-fesuryddion, archwiliadau effeithlonrwydd dŵr ac yn meincnodi ein hunain hefyd er mwyn sicrhau ein bod yn cynnal ac yn gwella'r gwasanaeth y mae ein cwsmeriaid busnes yn ei ddisgwyl a'i haeddu.

Mae ein strategaeth cwsmeriaid hefyd yn cael ei llywio gan y gwaith sy'n mynd rhagddo i ddatblygu Canolfan Ddeallus newydd a fydd yn ein galluogi i leihau costau a gwella ein perfformiad yn gyffredinol drwy helpu i ragfynegi ac atal problemau a allai godi gyda'n rhwydwaith o asedau. Rydym eisoes wedi rhoi'r cam cyntaf ar waith sy'n cynnwys ailgynllunio ein hystafell reoli bresennol er mwyn ei throi'n Ganolfan Ddeallus wedi'i staffio gan ddadansoddwyr cymwys. Dilyniir hyn gan nifer o brosiectau peilot sy'n llywio'r dechnoleg sydd ei hangen arnom ar gyfer y dyfodol fel y gallwn barhau i gynnal a gwella ein gwasanaethau.



Ein huchelgois:

Bydd ein prisiau'n
cynnig gwerth da am
arian i'n cwsmeriaid,
a bydd amrywiaeth
effeithiol o help ar
gael i'r rhai sy'n ei
chael hi'n anodd talu



Biliau fforddiadwy

Cyflwyniad

Yn ogystal â bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a gânt gennym, rydym am i bob un o'n cwsmeriaid ystyried bod y pris a delir ganddynt yn deg ac yn fforddiadwy a'i fod yn cynnig gwerth da am arian. Gwyddom fod gennym gyfrifoldeb am ragori ym mhopeth a wnawn, am fod ein cwsmeriaid yn dibynnu arnom i ddarparu gwasanaeth cyhoeddus hanfodol.

Ar hyn o bryd, mae incwm cyfartalog cartrefi yn yr ardal a wasanaethir gan Dŵr Cymru bron 13% yn is na'r rhai yn yr ardaloedd cyflenwi hynny y lleolir y cyfan neu'r rhan fwyaf ohonynt yn Lloegr, ac mae rhai ardaloedd sylweddol 20% islaw'r cyfartaledd. Amcangyfrifir bod tua 160,000 o'n cwsmeriaid yn cael anhawster i dalu eu bil dŵr am ei fod yn fwy na 5% o incwm y cartref. O ganlyniad, mae fforddiadwyedd yn her allweddol i'n cwsmeriaid a bydd yn parhau felly.



BIL CARTREF AR GYFARTALEDD

£1.20 Y DIWRNOD



LLEIHAU'R DEFNYDD O DDŴR

50L Y DIWRNOD



HELU CWSMERIAID SY'N CAEL TRAFFERTH WIRIONEDDOL I DALU EU BILIAU

50,000

Uchafbwyntiau

Rydym wedi bod yn parhau i leihau costau i sicrhau bod ein biliau yn parhau i fod yn fforddiadwy i bawb. Ym mis Chwefror, gwnaethom gyhoeddi y byddai'r bil cartref cyfartalog ar gyfer 2015 yn gostwng 1%, a fydd yn golygu y bydd y bil cartref ar gyfer dŵr a charthffosiaeth yn gostwng, ar gyfartaledd, o £440 i £435 - sy'n cyfateb i ychydig o dan £1.20 y diwrnod.

Hon oedd y chweched flwyddyn yn olynol i ni gadw ein cynnydd mewn prisiau islaw chwyddiant ac ymhell o fewn y terfynau a bennwyd gan Ofwat. Rydym hefyd yn cynnig pecyn cynhwysfawr o fesurau er mwyn helpu cwsmeriaid i reoli eu biliau, gan gynnwys:

- rhoi cyngor ar fesuryddion ac effeithlonrwydd dŵr i fwy na 50,000 o gwsmeriaid preswyl ers 2010 er mwyn eu helpu i leihau eu defnydd o ddŵr ac, felly, eu bil, gan arbed 50 litr y diwrnod i gartrefi, ar gyfartaledd.
- helpu tua 50,000 o gwsmeriaid sy'n cael trafferth wirioneddol i dalu eu biliau drwy gynnig amrywiaeth o gronfeydd cymorth cwsmeriaid.

Mae ein sefyllfa ariannol gadarn a'n model busnes nas perchenogir gan gyfranddalwyr wedi ein galluogi i wneud llawer mwy dros ein cwsmeriaid nag a fyddai wedi bod yn bosibl fel arall. Mae hyn wedi cynnwys darparu bron £136 miliwn o werth ychwanegol i'n cwsmeriaid rhwng 2010 a 2015 drwy fuddsoddiadau carlam, tariffau cymdeithasol gwell a biliau is.

Heriau

Er gwaethaf sawl cynnydd olynol mewn biliau a oedd yn is na chwyddiant, mae ein taliadau dŵr a dŵr gwastraff yn dal i fod tua 3% yn uwch na chyfartaledd y diwydiant. Er bod hyn i'w briodoli'n bennaf i faint y buddsoddiad y bu'n rhaid ei wneud er mwyn diogelu amgylchedd naturiol sensitif – ac economaidd hanfodol – ein hardal, rydym yn mynd i'r afael â'r mater hwn drwy sicrhau y bydd unrhyw gynnydd pellach mewn biliau cartref cyfartalog yn is na chwyddiant tan 2020.

Fel y rhan fwyaf o gwmnïau dŵr eraill, mae adennill dyledion gan gwsmeriaid a all fforddio talu eu biliau ond sy'n dewis peidio â gwneud hynny yn dal i fod yn flaenoriaeth uchel, yn enwedig mewn amgylchedd economaidd anodd. Bu'r dulliau a oedd yn cael eu defnyddio i gasglu dyledion cwsmeriaid yn destun craffu manwl gan y cyfryngau a gwleidyddion y llynedd a phenderfynodd nifer o gwmnïau dŵr, gan gynnwys ni ein hunain, newid ein harferion casglu dyledion er mwyn defnyddio arferion mwy modern megis anfon negeseuon testun i atgoffa cwsmeriaid i dalu. Y tâl am ddrwgddyledion ar gyfer 2015 – sef y swm sy'n ddyledus gan gwsmeriaid na allant dalu eu biliau neu sy'n dewis peidio â'u talu – oedd £29 miliwn (2014: £28 miliwn). Mae hyn yn her sylweddol ac mae'r swm sy'n ddyledus i ni, sy'n cyfateb i tua 4% o'n trosiant blyneddol, yn fwy na'r swm sy'n ddyledus i'r rhan fwyaf o gwmnïau dŵr.

Mae cwsmeriaid dŵr yng Nghymru yn talu tua £20 yn ychwanegol ar filiau blyneddol er mwyn talu costau'r rhai nad ydynt yn talu eu biliau dŵr. Mae problem peidio â thalu biliau yn arbennig o ddifrifol yn achos eiddo sydd â thenantiaid. Ers 1 Ionawr 2015, mae angen i landlordiaid preifat, asiantau gosod ac Awdurdodau Lleol yng Nghymru a Lloegr y mae eu heiddo rhent yn cael eu gwasanaethau dŵr a charthffosioeth gan Dŵr Cymru roi gwybodaeth am eu tenantiaid i ni o dan reoliadau newydd a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru. Os na chydymffurfir â'r rheoliadau hyn, gall y landlord fod yn atebol ar y cyd ac yn unigol â'r tenant am unrhyw daliadau dŵr a charthffosioeth nas talwyd.

Edrych i'r dyfodol

Fel rhan o'n Cynllun Busnes hyd at 2020, rydym yn bwriadu datblygu pecyn arloesol a chynaliadwy sy'n cydbwysu fforddiadwyedd a gwasanaeth – ar gyfer ein cwsmeriaid presennol a chenedlaethau'r dyfodol.

O ganlyniad, rydym yn bwriadu helpu mwy fyth o gwsmeriaid i dalu eu biliau dŵr. Byddwn yn gwneud hyn drwy ein tariff cymdeithasol newydd, sef 'HelpU'. Bydd y tariff hwn yn helpu cwsmeriaid mwyaf difreintiedig y cwmni – gan gynnig arbedion blyneddol o hyd at £250, neu 55% ar y bil cartref cyfartalog.

"Mae'r tariff hwn yn gam pwysig tuag at sicrhau gwasanaethau dŵr fforddiadwy i bob cwsmer, gan mai hwn yw'r tariff cyntaf sy'n capio biliau i bawb sydd ar yr incwm isaf."

Carl Sargeant AC

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol,
Llywodraeth Cymru

Datblygwyd ein tariff 'HelpU' newydd gyda chymorth y corff gwarchod defnyddwyr annibynnol CCWater, Llywodraeth Cymru a Chartrefi Cymunedol Cymru. Dengys gwaith ymchwil annibynnol fod mwy na 75% o gwsmeriaid y cwmni – sy'n uwch na chyfartaledd y diwydiant – o blaid y tariff newydd a fydd yn helpu'r nifer uchaf erioed o'n cwsmeriaid sy'n cael trafferth wirioneddol i dalu eu biliau dŵr.

Mae cost biliau dŵr yn destun pryder mawr i lawer o'n cwsmeriaid a bydd ein biliau cartref cyfartalog yn gostwng £24, ar gyfartaledd, cyn chwyddiant, erbyn 2020. Dros y cyfnod hwn byddwn yn parhau â'n rhaglen fuddsoddi, sy'n werth tua £1.7 biliwn, er mwyn gwella gwasanaethau a diogelu'r amgylchedd.



astudiaeth
achos

Dyweddodd Ian Simpson, Cyfarwyddwr Tai Cymunedol o Chymorth Bron Afon, y bydd ei thenantiaid yn cael budd o HelpU:

"Rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu er mwyn sicrhau bod yr arian prin sydd ym mhocedi ein tenantiaid yn para gyhyd â phosibl. Cyn gynted ag y gwnaethom glywed bod Dŵr Cymru yn datblygu tariff newydd i bobl ar incwm isel, roeddem am fod yn rhan o'r fenter. Bydd HelpU yn gwneud gwahaniaeth mawr i fywydau'r bobl dlotaf yn Nhorfaen ac, felly, roedd yn bwysig rhannu ein profiadau lleol er mwyn helpu Dŵr Cymru i sicrhau ei bod yn hawdd i bobl ddeall y tariff a manteisio arno. Bydd y tariff yn un o'r awgrymiadau cyntaf ar gyfer arbed arian y bydd ein staff yn eu rhannu â thenantiaid er mwyn eu helpu i reoli eu harian a byw'n fwy cyfforddus."



Y teulu Roberts,
Nelson



Ein huchelgois:

Byddwn yn cynnal
a chadw ein
hasedau ar gyfer
cenedlaethau yn y
dyfodol, yn y ffordd
fwyaf costeffeithlon



Gofalu am ein hasedau

Cyflwyniad

Mae'r gwasanaethau a ddarperir gennym yn hanfodol i iechyd a lles miliynau o bobl ac i'n heconomi. O ganlyniad, mae gan ein pibellau, ein pymptiau, ein hadeiladau a'n cyfarpar swyddogaethau hanfodol i'w cyflawni. Mae angen rheoli degau o filoedd o gilometrau o bibellau yn ogystal â channoedd o'n hasedau yn effeithlon a'u cynnal a'u cadw'n effeithiol er mwyn i ni allu parhau i ddarparu gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth o ansawdd uchel nawr ac yn y dyfodol.

Gan ein bod yn gwasanaethu nifer fawr o gymunedau bach, y mae llawer ohonynt mewn lleoliadau arfordirol, gwledig neu anghysbell, mae'r her hon yn anoddach fyth; mae nifer ein hasedau fesul cwsmer ymysg yr uchaf ymhlith yr holl gwmnïau dŵr a charthffosiaeth eraill.

Yn ogystal â sicrhau bod ein hasedau yn gadarn, mae'n rhaid i ni wneud hyn tra'n chwilio am ffyrdd newydd

o wneud pethau, gwella effeithlonrwydd a lleihau'r costau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â rhedeg y busnes.

Defnyddioldeb asedau yw'r mesur allweddol a ddefnyddir gan Ofwat i fonitro sut mae cwmnïau dŵr yn buddsoddi mewn asedau er mwyn cynnal eu gwasanaeth ar lefel dderbyniol, 'sefydlog'. Gydag 20 o fesurau defnyddioldeb, caiff perfformiad pob grŵp o asedau ei fesur drwy gymharu defnyddioldeb tymor canolig dros y blynyddoedd diwethaf â defnyddioldeb hirdymor.



**Rhaid i ni geisio
arloesi, gwella
effeithlonrwydd
a lleihau'r costau
a'r risgiau sy'n
gysylltiedig â
rhedeg y busnes.**

Dolbenmaen

Mae ein gwaith yn mynd â ni i gymunedau ledled y rhan fwyaf o Gymru, Swydd Henffordd a rhannau o Lannau Dyfrdwy. Gwyddom ei bod yn bwysig ein bod yn gwneud ein gorau glas i gynnal a gwella gwasanaethau i'n cwsmeriaid.

Roedd ein buddsoddiad unigol mwyaf rhwng 2010 a 2015 yn cynnwys adeiladu gwaith trin dŵr newydd gwerth £28 miliwn yn Nolbenmaen yn y gogledd. Bydd y gwaith trin hwn, a ddaw'n weithredol yn ystod haf 2015, yn helpu i gyflenwi dŵr yfed o ansawdd uchel i 20,000 o gwsmeriaid yn yr ardal o'i amgylch.

astudiaeth
achos



Uchafbwyntiau

Yn ystod blwyddyn olaf y cyfnod buddsoddi rheoliadol diwethaf, mae perfformiad ein hasedau wedi parhau'n sefydlog. Mae perfformiad wedi gwella mewn sawl maes hanfodol megis llygredd amgylcheddol, cydymffurfiaeth gweithfeydd trin dŵr a llifogydd mewnol ar eiddo cwsmeriaid. Rydym wedi cyflawni 'defnyddioldeb sefydlog' ar gyfer pob un o'r 20 o fesurau sy'n dangos ein bod yn parhau i gyflawni lefelau uchel o berfformiad sydd o fudd i gwsmeriaid ac yn diogelu'r amgylchedd.

Cafodd ein codernid o ran cyflenwi dŵr yfed glân a diogel i gwsmeriaid ei atgyfnerthu yn 2014-15 ar ôl i ni roi pedwar gwaith trin dŵr newydd neu wedi'u hadnewyddu ar waith - a oedd yn rhan o fuddsoddiad ehangach gwerth £120 miliwn mewn 12 gwaith trin dŵr ledled yr ardal a wasanaethir gennym. Gwnaed hyn ar adeg pan wnaethom lwyddo i reoli effaith tywydd eithriadol a phan gynhaliwyd Uwchgynhadledd NATO yng Ngwesty'r Celtic Manor yng Nghasnewydd ym mis Medi 2014, a oedd yn ddigwyddiad uchel ei broffil. Aethom ati i roi rhai mesurau cynllunio manwl ar waith a buom yn gweithio'n agos ag asiantaethau brys a'n rheoleiddwyr er mwyn sicrhau na châi un o'r ymgyrchoedd diogelwch mwyaf a gynhaliwyd erioed yn y DU effaith andwyol ar ein gweithrediadau na'n gwasanaethau.

Dros y 12 mis diwethaf gwnaethom barhau i ganolbwyntio ar garbon isel, costau oes gyfan isel a'r amser y mae'n ei gymryd i gyflawni cynlluniau tra'n sicrhau ein bod yn cyrraedd safonau ansawdd. Gwnaethom lwyddo i wneud hyn mewn cydweithrediad â'n partneriaid cyflawni cyfalaf a'n cadwyn gyflenwi. Ymgwymerwyd â chynlluniau buddsoddi sylweddol megis adnewyddu prif bibellau dŵr yn Llanfair ym Muallt (£500,000) yn y canolbarth, Aberpennar (£375,000), Ystradgynlais (£1 filiwn) a Thre-osbon (£500,000) yn y de. Er ei fod yn hanfodol gwyddom y gall ein gwaith yn aml darfu ar gwsmeriaid a'r cyhoedd ehangach a pheri trafferth iddynt a byddwn bob amser yn gweithio gyda chymunedau a rhanddeiliaid lleol i leihau unrhyw effaith.

Rydym wedi parhau i gyflwyno ein rhaglen newid busnes uchelgeisiol er mwyn rhoi arferion gwaith Darbodus ar waith ar 29 o safleoedd mewn Gweithrediadau yn 2014-15, gan leihau llwythi gwaith cynnal a chadw a gynlluniwyd 50%. Byddwn yn cyflwyno'r rhaglen hon i fwy na 100 o safleoedd dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Heriau a wynebir

Lle mae problemau wedi codi rydym wedi ymchwilio iddynt a'u datrys yn gyflym, gan weithio'n galed i ddeall a datrys unrhyw broblemau sylfoenol. Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Cyfoeth Naturiol Cymru ar ôl i ni gael ein herlyn yn y gogledd a chael dirwy o £35,000 ar ôl i brif bibell carthffos sy'n codi ym Mae Cinmel yn y gogledd achosi llygredd ar ôl byrstio ym mis Chwefror a mis Gorffennaf 2013. Cwblhawyd y gwaith o adnewyddu'r brif bibell carthffos hon ar ddechrau 2015. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n rheoleiddwyr er mwyn sicrhau ein bod yn lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd.

Er mwyn chwarae ein rhan wrth ddiogelu iechyd y cyhoedd a diogelu'r amgylchedd, ni fyddwn yn caniatáu i unrhyw beth beryglu diogelwch y gwasanaethau a ddarparwn. Bydd hyn yn cynnwys cymryd camau lle y ceir cysylltiadau anghyfreithlon a all beryglu'r rhwydwaith carthffosiaeth cyhoeddus neu achosi llygredd neu amharu ar weithrediad ein gweithfeydd trin dŵr gwastraff. Cymerwyd camau cyfreithiol ffurfiol gennym mewn 14 o achosion yn 2014-15.



WEDI'I FUDDSODDI MEWN 12 GWAITH TRIN DŴR



WEDI'I FUDDSODDI MEWN ASEDAU LEDLED YR ARDAL A WASANAETHIR GENNYM

Edrych i'r dyfodol

Yn ystod y pum mlynedd hyd at fis Mawrth 2015, buddsoddwyd £1.5 biliwn mewn asedau ledled yr ardal a wasanaethir gennym. Rydym yn bwriadu buddsoddi £1.7 biliwn dros y pum mlynedd nesaf ac wedi penodi partneriaid cyfalaf newydd i'n helpu i gyflawni ein rhaglen fuddsoddi drwy gydweithredu mewn Cynghrair Cyflawni Cyfalaf newydd a fydd wedi'i leoli mewn un man. Mae'r Cynghrair hwn yn cynnwys Skanska Construction UK Limited (a fydd yn gweithio gyda Hyder Consulting (UK) Limited), Mott MacDonald Bentley Limited a Morgan Sindall (a fydd yn gweithio gydag Arup). Mae'r Cynghrair yn ffordd newydd o weithio i Dŵr Cymru a bydd yn ceisio sicrhau gwerth am arian yn ystod cam cynllunio a chyn adeiladu prosiectau; nodi arbedion effeithlonrwydd; hyrwyddo arloesedd; a darparu atebion carbon isel sy'n defnyddio adnoddau yn effeithlon.



Ein huchelgois:

Byddwn yn datblygu
tîm o bobl a fydd yn
darparu gwasanaeth
gwyb i'n cwsmeriaid



Datblygu ein pobl

Cyflwyniad

Gyda thua 3,000 o gydweithwyr a 3,500 o rolau eraill a gefnogir drwy ein contractwyr, ein nod yw recriwtio a chadw'r bobl orau, gan eu cefnogi yn eu gwaith a'u helpu i wneud y gorau o'u galluoedd.

Mae angen i'n cydweithwyr weithio ym mhob tywydd, mewn lleoedd cyfyng a hefyd â deunyddiau peryglus. Mae gan bawb yr hawl i ddisgwyl mynd adref yn ddiogel ar ddiwedd pob diwrnod gwaith ac, am y rheswm hwnnw, mae iechyd a diogelwch yn flaenoriaeth fawr i ni.

Uchafbwyntiau

Mae'n hanfodol bod ein cydweithwyr yn gweithio mewn amgylchedd diogel ac mae eu hiechyd a'u diogelwch yn rhan allweddol o'n strategaeth i ddatblygu ein staff fel y gallant ddarparu gwasanaeth gwych i'n cwsmeriaid. I'r perwyl hwn, rydym wedi rhoi polisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith er mwyn sicrhau bod ein cydweithwyr wedi'u hyfforddi'n briodol a bod ganddynt yr adnoddau a'r cyfarpar priodol i wneud eu gwaith.

Ochr yn ochr â chyflwyno ein hymgyrch Safety Takes Every Person (STEP) i bron 1,500 o gydweithwyr rheng flaen eleni, cynhaliwyd mentrau eraill megis 'adolygiadau gweithredol o ddigwyddiadau' ar gyfer cynlluniau penodol a dyddiau 'oddi ar ddyletswydd' pan fydd pobl yn cymryd amser i ffwrdd o'u gwaith er mwyn canolbwyntio ar iechyd a diogelwch. Mae'r mentrau hyfforddi a mentrau eraill wedi arwain at gynnydd yn nifer yr 'Ymyriadau Cadarnhaol' a gofnodwyd i bron 17,500 dros y 12 mis diwethaf (2014: 16,000). At hynny, yn 2015, hysbyswyd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch am 20 o anafiadau, o dan Reoliadau Adrodd ar

Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 2013 (RIDDOR), o gymharu â 25 o ddigwyddiadau, ar gyfartaledd, dros y tair blynedd diwethaf. Dyma'r lefel isaf erioed o ddamweiniau adroddadwy rydym wedi'i chyflawni.

Er mwyn i'n busnes ffynnu, mae'n bwysig ein bod yn gofalu am les ehangach ein cydweithwyr, a thros y 12 mis diwethaf, yn ogystal og ennill gwobr Efydd Llywodraeth Cymru am y Safon Iechyd Corfforaethol (sy'n nod ansawdd ar gyfer hyrwyddo iechyd yn y gweithle) cawsom y nifer leiaf o ddiwrnodau a gollwyd yn sgil absenoldeb oherwydd salwch ers naw mlynedd.

Gwnaethom hefyd barhau i sicrhau bod cyflenwad cyson o bobl dalentog yn ymuno â'r cwmni er mwyn iddynt allu dysgu o gydweithwyr profiadol. Recriwtiwyd pedwar hyfforddai a chwe phrentis yn 2014-15 sy'n golygu bod cyfanswm o 126 o hyfforddeion, prentisiaid a graddedigion wedi'u penodi ers 2010. Mae'r llwyddiant hwn yn adeiladu ar raglen 'Sgiliau Hanfodol yn y Gweithle' Llywodraeth Cymru sy'n helpu i wella gwybodaeth a meithrin sgiliau cydweithwyr. Erbyn diwedd mis Mawrth 2015, roedd mwy na 440 o gydweithwyr

wedi ennill mwy na 1,000 o gymwysterau rhyngddynt.

Gwyddom hefyd fod dathlu cyflawniadau a chyfraniadau cydweithwyr yn allweddol i berfformiad a gwelliant parhaus y cwmni. Ers lansio ein gwobrau 'diolch' newydd ym mis Ionawr 2013, mae mwy na 700 o dimau ac unigolion o bob rhan o'r cwmni - gan gynnwys partneriaid a chontractwyr strategol - wedi'u cydnabod am ddangos ein gweledigaeth yn glir tra'n sicrhau bod ein gwerthoedd craidd wrth wraidd popeth a wnânt.

Yn y cyfamser, gall gwrandao ar ein cydweithwyr hefyd helpu i wella ein perfformiad. Dyna pam ein bod yn cynnal Arolwg Ymgysylltu â Chyflogeion bob blwyddyn a gwnaethom groesawu'r ffaith bod 80% o'n cydweithwyr wedi cymryd rhan yn yr ymarfer eleni - 20% yn fwy nag yn 2011 pan gynhaliwyd yr ymarfer hwn gyntaf. Rhoddwyd sgôr o 74% i ni am weithgarwch ymgysylltu, (sy'n uwch na sgôr gyfartalog y sector preifat), gydag 84% o'n cydweithwyr yn credu bod Dŵr Cymru yn rhoi ei gwsmeriaid yn gyntaf.

astudiaeth
achos

Mae Tristram Evans yn Brentis Mecanyddol yng Ngwaith Trin Dŵr Gwastraff Eign yn Swydd Henffordd ac ymunodd â Dŵr Cymru yn 2012:

"Yr hyn a'm denodd i Dŵr Cymru oedd y cyfle i herio fy hun mewn rôl sy'n ymwneud â datrys problemau. Mae'r cynllun prentisioeth yn cynnig hyfforddiant academiaidd ochr yn ochr â phrofiad ymarferol sydd ei angen er mwyn cyflawni'r rôl. Mae'r ddwy flynedd a hanner rwyf wedi'u treulio gyda'r cwmni wedi bod yn amrywiol a chyffrous ac maent wedi agor fy llygaid.

Ceir llawer o heriau bob dydd; rydym bob amser yn ceisio cynnal perfformiad safleoedd tra'n cadw'r costau i'r cwsmer mor isel â phosibl. Mae bod yn brentis gyda Dŵr Cymru wedi newid fy myd, mae wedi rhoi cyfle i mi ddangos fy mlaengaredd a'm hymrwymiad i gyflogwr sy'n buddsoddi mewn hyfforddiant ac yn cydnabod cyflawniad."

Tristram Evans,
Prentis, Henffordd



Heriau a wynebir

Credwn fod diwylliant amrywiol a chynhwysol yn ffactor allweddol o ran bod yn fusnes llwyddiannus. Ceir dadansoddiad o'n Bwrdd, ein Tîm Gweithredol a'n Tîm Arwain yn ôl rhyw ar dudalen 65. Ar 31 Mawrth 2015, roedd 28% o'n gweithlu cyfan yn fenywod.

Mae'n hanfodol ein bod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'n cydweithwyr am newidiadau yn y busnes yn ogystal â ffactorau allanol sy'n dylanwadu ar y cwmni. Rydym yn gwneud hyn drwy fynd ati'n systematig i gyfathrebu â chydweithwyr sy'n cynnwys e-fwletinâu wythnosol, papur newydd i gyflogeion (Dŵr) a gyhoeddir bob chwe wythnos yn ogystal â galwadau cynadleda misol rhwng rheolwyr a sioeau teithio bob chwe mis a arweinir gan Gyfarwyddwyr Gweithredol.

Rydym yn gwerthfawrogi barn cydweithwyr ac yn ymgynghori â hwy a'u cynrychiolwyr yn rheolaidd ynghylch materion a allai effeithio arnynt. Yn 2014-15, buom yn gweithio'n agos gydag undebau llafur cydnabyddedig er mwyn datblygu Cytundeb Cydweithio newydd a fydd yn sicrhau bod ein gweithlu yn ddigon hyblyg i ateb yr heriau cynyddol sy'n ein hwynebu. Yn gyfnewid am hynny, rydym yn ymrwymedig i gytundeb tâl pum mlynedd gydag isafswm dyfarniad cyflog blyneddol o 1.5%.

Ymgynghorwyd hefyd â'r undebau llafur ac aelodau'r Cynllun Buddiannau Pensiwn Diffiniedig er mwyn cyflwyno newidiadau i leihau cost rhedeg y Cynllun ac unrhyw risgiau i'r Cynllun a allai godi yn y dyfodol. O ganlyniad, mae newidiadau wedi'u gwneud yn 2015, bydd cyfraniadau cyflogeion yn cynyddu 2.6% ym mis Ebrill 2016 a bydd y cynllun yn cau i groniadau yn y dyfodol yn weithredol o 1 Ebrill 2017.

Dros y pum mlynedd nesaf, rydym yn bwriadu graddol leihau nifer y bobl sy'n ymwneud â darparu ein gwasanaethau ar hyn o bryd gan ddileu tua 360 o swyddi. Gwneir hyn dros gyfnod o bum mlynedd o 2015 drwy gyfuniad o ddulliau, gan gynnwys peidio â llenwi swyddi gwag; peidio â llenwi swyddi staff sy'n gadael neu'n ymddeol a thrwy lansio cynllun diswyddo gwirfoddol dethol. Darparwyd ar gyfer cost amcangyfrifedig yr ymrwymiad hwn, sef £18 miliwn, yn ystod y flwyddyn.

Edrych i'r dyfodol

Yn ystod 2014-15, cwblhaodd ein cydweithwyr fwy na 1,236 o ddiwrnodau dysgu a datblygu ffurfiol ym mhob disgyblaeth, gan gynnwys gweithrediadau, iechyd a diogelwch a gwasanaeth cwsmeriaid. Rydym yn ymrwymedig i fuddsoddi yn y gwaith o ddatblygu gweithlu cymwys yn barhaus a bydd ein rhaglenni hyfforddiant gweithredol yn parhau i gael eu hacredu gan gyrff allanol megis City & Guilds a'r Bwrdd Ardystio ac Asesu ar gyfer y Diwydiant Dŵr (CABWI).

Bydd cynnal iechyd a diogelwch cydweithwyr hefyd yn ffocws allweddol wrth i ni symud ymlaen. Gan fod y rhan fwyaf o ddamweiniau yn cael eu hachosi gan bobl yn llithro neu'n codi pethau, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar achos sylfaenol ymddygiadol digwyddiadau er mwyn creu'r amgylchedd gwaith mwyaf diogel posibl i'n staff, fel y gall pawb ddychwelyd adref yn ddiogel ar ddiwedd pob dydd.



Ein huchelgois:

Byddwn yn
parhau i fod yn
fusnes effeithlon
ag ansawdd
credyd uchel



Busnes effeithlon

Cyflwyniad

Fel cwmni heb unrhyw gyfranddalwyr, rydym yn canolbwyntio'n llwyr ar ein cwsmeriaid. Ein gweledigaeth yw ennyn ymddiriedaeth cwsmeriaid bob dydd drwy ddarparu'r gwasanaethau dŵr a dŵr gwastraff gorau posibl am bris fforddiadwy.

Er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid i ni ariannu'r gwasanaethau hyn mor effeithlon â phosibl ac, felly, mae lleihau costau ariannu wedi bod yn un o'n hamcanion cyffredinol ers 2001 – pan sefydlwyd Glas Cymru gyda'i fodel nod yw'n cynnwys cyfranddalwyr.

O ganlyniad, ein prif amcan cyllidol yw sicrhau bod unrhyw adenillion yn ddigon i ariannu ein swyddogaethau a sicrhau'r cydbwysedd gorau posibl rhwng risg isel, benthyca cost isel a fforddiadwyedd i'n cwsmeriaid.

Uchafbwyntiau

Fel cwmni, fe'n hariennir gan ddyledion ac, felly, mae ansawdd credyd ein dyledion (sy'n ffactor pwysig wrth leihau ein costau llog) yn bwysig iawn i'r cwmni ac, felly, ein cwsmeriaid. O ganlyniad, rydym yn falch bod gennym y statws credyd gorau ymhlith yr holl gwmnïau cyfleustodau a reoleiddir yn y DU, a hynny am y bumed flwyddyn yn olynol. Mae hyn yn ein galluogi i godi orion i'w fuddsoddi gan fuddsoddwyr hirdymor am gost isel gan ddod â manteision sylweddol i gwsmeriaid Dŵr Cymru nawr ac yn y tymor hwy.

Rydym wedi dychwelyd gwerth £136 miliwn i gwsmeriaid dros y pum mlynedd diwethaf gan gynnwys buddsoddiadau carlam. Rydym wedi gwneud hyn drwy fodel perchenogaeth llwyddiannus sydd wedi cynhyrchu cronfeydd ariannol wrth gefn – neu Gronfeydd Cwsmeriaid wrth Gefn – sy'n werth bron £2 biliwn. Mae ein cymhareb gerio ariannol (dyledion net i Werth Cyfalaf Rheoliadol) wedi gostwng i 60%, sef lefel yr ystyria'r Bwrdd ei bod yn cynnig y gwerth gorau am arian i gwsmeriaid, gan gydbwysu cost ariannu'r busnes â'r angen i barhau i fuddsoddi mewn

prosiectau pwysig er mwyn gwella gwasanaeth cwsmeriaid ac ansawdd dŵr yfed a diogelu'r amgylchedd.

Roedd ein trosiant eleni, sef £753 miliwn, ychydig yn uwch (2014: £737 miliwn) a'n helw sylfaenol oedd £77 miliwn (2014: £50 miliwn). Mae'r cynnydd mewn refeniw yn adlewyrchu'n bennaf y cynnydd o 2.05% mewn prisiau, a oedd yn seiliedig ar y fformiwla RPI+K, a ganiatawyd gan Ofwat. Yn y cyfamser, gostyngodd gwariant gweithredol i £295 miliwn (2014: £296 miliwn). Rydym hefyd wedi sefydlu darpariaeth ar gyfer costau ailstrwythuro yn y dyfodol rhwng 2015 a 2020 sydd wedi arwain at dâl eithriadol o £19 miliwn.

Yn 2014-15 roedd buddsoddiadau cyfalaf yn ein gweithrediadau dŵr a dŵr gwastraff yn cyfateb i £379 miliwn, sy'n golygu mai cyfanswm y buddsoddiad yn ein gwasanaethau rhwng 2010 a 2015 oedd £1.5 biliwn, sef y buddsoddiad mwyaf erioed – sy'n cyfateb i tua £1 filiwn y diwrnod yn ystod y cyfnod hwn ledled yr ardal a wasanaethir gennym, neu £1,000 fesul cartref.

astudiaeth
achos

Ysgol Gynradd Stebonheath, Llanelli



**Dywedodd Jonathan Taylor,
Is-Lywydd Banc Buddsoddi Ewrop:**

"Mae'n hanfodol ein bod yn parhau i fuddsoddi yn seilwaith dŵr y DU er mwyn darparu cyflenwadau dŵr yfed glân a glanweithdra sydd gyda'r gorau yn y byd i gwsmeriaid. Y cytundeb newydd rhwng Banc Buddsoddi Ewrop a Dŵr Cymru a gyhoeddwyd heddiw yw'r un mwyaf y mae'r banc wedi'i lunio â'r cwmni yn ystod y ddau ddegawd a mwy y maent wedi bod yn gwneud busnes â'i gilydd yn llwyddiannus. Mae'r prosiect sylweddol a welwyd yn Llanelli yn dangos ymrwymiad clir i ddiogelu afonydd ledled ardal Dŵr Cymru rhag cael eu llygru."

Ym mis Ionawr 2015, gwnaethom groesawu Prif Weinidog Cymru, y Gwir Anrh Carwyn Jones AC, ac Is-Lywydd Banc Buddsoddi Ewrop, Jonathan Taylor, i Ysgol Gynradd Stebonheath yn Llanelli er mwyn datlu cyfleuster benthyca gwerth £230 miliwn y sicrhodd y cwmni gan Fanc Buddsoddi Ewrop (EIB). Ers 2001 mae Dŵr Cymru wedi sicrhau benthyciadau gwerth mwy na £500 miliwn gan

Fanc Buddsoddi Ewrop ac mae'r benthyciad diweddaraf yn cael ei ddefnyddio i ariannu rhaglen gwariant cyfalaf eang y cwmni gan gynnwys £15 miliwn a fuddsoddwyd mewn cynlluniau draenio trefol yn Llanelli a Thre-gŵyr o dan brosiect GlowLif. Oherwydd ein hansawdd credyd ardderchog a'n model busnes sefydlog llwyddiannus, bu'n bosibl i ni negodi cyfraddau llog deniadol iawn â'r EIB.



rydym wedi wynebu pwysau sylweddol o ran costau dros y 12 mis diwethaf gan gynnwys costau ynni a chemegion uwch.

Heriau

Un o'r heriau mwyaf sy'n dal i'n hwynebu yw rheoli costau, a hynny am ein bod yn gweithredu mewn rhanbarth lle y ceir nodweddion daearyddol a thopograffig sy'n golygu ei bod yn anodd iawn i ni gystadlu â'r costau cyfartalog a welir ar draws gweddill y diwydiant a hefyd oherwydd proffil ein cwsmeriaid (gan ein bod yn gwasanaethu rhai ardaloedd difreintiedig iawn). Yn 2015, cynyddodd cost biliau cwsmeriaid nas talwyd (drwgddyledion) yn ystod y cyfnod i £29 miliwn (2014: £28 miliwn). Mae'r cynnydd yn adlewyrchu'r amodau economaidd anodd parhaus sy'n wynebu llawer o'n cwsmeriaid. Rydym yn cymryd camau i sicrhau bod gweithgarwch monitro ac adennill dyledion cwsmeriaid yn parhau ar y lefelau uchaf tra'n helpu'r rhai sy'n cael trafferth wirioneddol i dalu.

Er bod costau gweithredu ar y cyfan wedi gostwng, a hynny wedi'i hwyluso drwy gynyddu ein gallu i gynhyrchu ynni adnewyddadwy a rheoli cyllidebau yn ofalus, rydym wedi wynebu pwysau sylweddol o ran costau dros y 12 mis diwethaf gan gynnwys costau ynni a chemegion uwch.



rydym yn datblygu strategaeth newydd i'r cwmni a fydd yn atgyfnerthu rôl cwsmeriaid wrth wraidd Dŵr Cymru.

Edrych i'r dyfodol

Mae sawl her newydd yn gysylltiedig â'r cyfnod buddsoddi nesaf rhwng 2015 a 2020. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau lefelau boddhad cwsmeriaid sydd hyd yn oed yn uwch, darparu buddsoddiadau yn unol â rhai terfynau amser rheoliadol tynn iawn, newid y ffordd rydym yn cofnodi ein perfformiad, a dechrau addasu i risgiau, heriau a chyfleoedd hirdymor tra'n lleihau ein costau gweithredu rheoladwy cyffredinol tua 20% a'n costau busnes manwerthu fwy na 30%, y ddau cyn chwyddiant. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar gadw ein safle fel y cwmni â'r statws credyd gorau yn sector cyfleustodau'r DU er mwyn cynnig gwerth am arian i gwsmeriaid drwy leihau ein costau benthyca cymaint â phosibl.

Er mwyn helpu i ateb yr heriau newydd hyn a pharhau i fod yn addas at y diben, rydym yn datblygu strategaeth newydd i'r cwmni a fydd yn atgyfnerthu rôl ein cwsmeriaid wrth wraidd Dŵr Cymru. Mae hyn yn cynnwys ailffurfio ein busnes craidd i greu tair uned fusnes bendant - sef Dŵr, Dŵr Gwastraff a Manwerthu. Nid yn unig y bydd gan bob uned ei thargedau rheoliadol allweddol ei hun o ran cost, lefelau gwasonaeth ac allbynnau, byddant hefyd yn cydweithio'n agos er mwyn i ni allu cyflawni'r perfformiad gorau posibl a chynnig y gwerth gorau posibl am arian i'n cwsmeriaid.



Llywodraethu Corfforaethol



**Helena Machin,
Catherine Lunn
a Jack Davidson**

Yn cyflenwi dŵr yfed glân
i gwsmeriaid ar draws
cymoedd De Cymru

—
Cyflwyniad gan
y Cadeirydd 62

—
Ein Strwythur Llywodraethu 63

—
Y Cyfarwyddwyr 67

—
Adroddiadau gan
y Pwyllgorau 70

—
Adroddiad Blynyddol
ar Gydabyddiaeth 79

—
Adroddiad y Cyfarwyddwyr 85



Cyflwyniad gan y Cadeirydd

Mae llywodraethu corfforaethol effeithiol a Bwrdd cryf â mwyafrif o Gyfarwyddwyr Anweithredol annibynnol yn parhau'n allweddol i'n gallu i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol i dros dair miliwn o bobl bob dydd. Mae ein strwythur llywodraethu

corfforaethol unigryw yn golygu bod y Bwrdd a'r tîm rheoli yn canolbwyntio'n llwyr ar sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i gwsmeriaid; cyflenwi dŵr yfed o'r ansawdd gorau; a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd gymaint â phosibl, tra'n cadw biliau'n fforddiadwy.

Eleni, gwelwyd penllanw ein hymdrechion o ran y broses adolygu prisiau ar gyfer y cyfnod 2015-2020, gan gynnwys pum cyfarfod Bwrdd ychwanegol, a neilltuwyd amser ym mhob cyfarfod Bwrdd i ddelio â'r broses a chyflwyniadau rhwng mis Gorffennaf 2012 a mis Ionawr 2015. Cafodd Aelodau Glas Cymru y cyfle i gyfrannu hefyd yn ystod sesiynau a gynhaliwyd yng Nghyfarfodydd Cyffredinol Blynnyddol a chyfarfodydd mis Rhagfyr yn ystod y cyfnod hwn, ac mewn dau gyfarfod ychwanegol a gynhaliwyd gydag Aelodau yn 2014. Talodd yr ymdrech a wnaed gan bawb a oedd yn gysylltiedig â'r broses hon ar ei ganfed, ar ffurf Cynllun Busnes heriol ond cyflawnadwy ar gyfer 2015-2020 a gyflwynwyd gan Ofwat ym mis Rhagfyr 2014.

Cyhoeddodd Ofwat ganllawiau ar faterion llywodraethu corfforaethol yn ystod 2014 ac, yn benodol, mae wedi parhau i ganolbwyntio ar bwysigrwydd sicrhau bod Cyfarwyddwyr Anweithredol yn annibynnol. Gellir gweld egwyddorion canllawiau Ofwat yn ofwat.gov.uk. Rydym wedi cyhoeddi cod llywodraethu corfforaethol ar ein gwefan (glascymru.com) sy'n dangos cydymffurfiaeth ag egwyddorion Ofwat, ac rydym hefyd yn cydymffurfio â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU 2012, sef ein prif fframwaith llywodraethu.

Bu annibyniaeth y mwyafrif o aelodau'r Bwrdd yn allweddol i fodel Glas Cymru ers iddo gael ei greu yn 2001. Mae ein strwythur corfforaethol hefyd wedi'i gynllunio i wella ein gallu i weithredu er budd hirdymor cwsmeriaid, fel y gallwn ddangos bod cwsmeriaid wrth wraidd strategaeth y cwmni, nawr ac yn y dyfodol.

Mae'r Bwrdd yn chwarae rôl hollbwysig wrth bennu strategaeth, sicrhau atebolrwydd y tîm gweithredol, monitro perfformiad a phennu tôn moesol y cwmni a'i ddiwylliant. Mae gennym bolisi amrywiaeth clir ar gyfer recriwtio i'r Bwrdd a gyhoeddir ar ein gwefan ac a fydd yn helpu i sicrhau ein bod yn parhau i gynnal amrywiaeth ein hystod o Gyfarwyddwyr a gwella arno. Rydym yn ffodus bod gennym Gyfarwyddwyr ag amrywiaeth eang o gymwysterau a phrofiad, sy'n darparu cydbwysedd da o ran rhyw ac oedran. Eleni, rydym wedi dechrau'r broses o recriwtio Cyfarwyddwr Anweithredol newydd i olynu James Strachan a fydd yn rhoi'r gorau i'w rôl fel Cyfarwyddwr yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol ym mis Gorffennaf ar ôl wyth mlynedd o wasanaeth ac, yn fwy diweddar, fel Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth.

Caiff Glas Cymru ei gefnogi gan ei Aelodau hefyd, sef 62 o unigolion ar draws yr ardal gyflenwi na chânt eu talu ond sy'n rhoi o'u hamser a'u hymdrech i sicrhau bod y cwmni yn atebol am ei strategaethau allweddol a bod y Bwrdd yn cael ei ddwyn i gyfrif am lywodraethu da. Eleni, gwnaethom recriwtio 14 o Aelodau newydd yn dilyn ymgrych recriwtio a oedd yn cynnwys y cyfryngau a grwpiau buddiant ar draws ardal gyflenwi'r Cwmni. Caiff y broses o recriwtio aelodau newydd ei rheoli gan Banel Dethol Aelodau annibynnol wedi'i gadeirio gan Glyn Mathias, sy'n gwbl annibynnol ar y cwmni. Gwahoddwyd Aelodau newydd i ymuno â chyfarfod yr Aelodau a gynhaliwyd yng Nghoerdydd ym mis Rhagfyr, yn ogystal â Chyfarfod Rhanbarthol a gynhaliwyd yn Henffordd ar 13 Mawrth a diwrnod

sefydlu penodedig a gynhaliwyd yng Nghilfynydd, Gwaith Trin Dŵr Llyn Onn a Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Cynon ar 19 Mawrth. Edrychwch ymlaen at weld cynifer â phosibl o'n Haelodau eto yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol ym mis Gorffennaf, a gaiff ei gynnal eleni yng Nghanolfan Ymwelwyr Cwm Elan.

Mae tîm Trysorlys y Cwmni, a arweinir gan Neil Webb, yn parhau i weithio'n ddiwyd er mwyn sicrhau y caiff ein buddsoddwyr eu hysbysu'n rheolaidd, drwy adroddiadau chwarterol a chyfarfod blynnyddol o fuddsoddwyr yn Llundain, yn ogystal â chyfarfodydd anffurfiol rheolaidd. Mae'r Bwrdd yn cael adroddiad yn dilyn cyfarfodydd gyda buddsoddwyr a, lle y bo'n briodol, yn ystyried y safbwyntiau a fynegwyd gan fuddsoddwyr ar faterion sy'n effeithio ar y cwmni. Ym mis Ionawr, cyhoeddwyd cytundeb benthyciad gwerth £230 miliwn gyda Banc Buddsoddi Ewrop ac, fel rhan o'r cyfarfodydd cau ar gyfer y trafodyn hwnnw, roedd hi'n bleser gennym groesawu aelodau o'r Banc i ymweld â'n safleoedd draenio trefol GlawLif yn Llanelli.


Cyfathrebir yn rheolaidd â Llywodraeth Cymru a phob un o reoleiddwyr Dŵr Cymru hefyd, sef y rheoleiddiwr economaidd, y rheoleiddiwr ansawdd dŵr ac amgylcheddol, a'r rheoleiddiwr gwasanaeth cwsmeriaid.

Mae'r Cyfarwyddwyr o'r farn y caiff yr adroddiad hwn ei gyflwyno mewn modd teg, cytbwys a dealladwy.



Robert Ayling

Cadeirydd
5 Mehefin 2015

Strwythur y Grŵp

(Mae dau o gwmnïau eraill y Grŵp, sef Welsh Water Utilities Finance plc a Hydro 1 Limited, yn gwmnïau segur ar ddyddiad yr adroddiad hwn.)

**Ein Strwythur Llywodraethu**

Rydych yn falch o strwythur corfforaethol unigryw Dŵr Cymru. Nid oes gennym unrhyw gyfranddalwyr felly mae popeth a wnawn yn canolbwyntio'n llwyr ar sicrhau budd i'n cwsmeriaid.

Strwythur ein Cwmni

Mae ein Datganiadau Ariannol (o dudalen 100) yn nodi manylion y cwmnïau canlynol sy'n rhan o strwythur ein Grŵp:

- Ffurfiwyd Glas Cymru Cyfyngedig fel cwmni cyfyngedig drwy warant ag un diben, sef caffael a rheoli Dŵr Cymru Cyfyngedig.
- Glas Cymru (Securities) Cyfyngedig yw'r cwmni daliannol ar gyfer Dŵr Cymru (Holdings) Limited a'i is-gwmnïau.
- Dŵr Cymru (Holdings) Limited yw cwmni daliannol canolradd Dŵr Cymru Cyfyngedig a Dŵr Cymru (Financing) Limited.
- Mae Dŵr Cymru Cyfyngedig yn is-gwmni y mae Glas Cymru yn berchen arno'n llwyr a hwn yw prif gwmni masnachu'r Grŵp. Ei brif weithgaredd yw cyflenwi dŵr a thrin a gwaredu dŵr gwastraff o dan yr Offeryn Penodi a wnaed gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru o dan Ddeddf Dŵr 1989.
- Ffurfiwyd Dŵr Cymru (Financing) Limited yn 2001 a hwn yw'r cwmni 'dyroddi' ar gyfer bondiau'r Grŵp, a restrir ar y Luxembourg Bourse. Mae Dŵr Cymru (Financing) Limited yn gorfforedig yn Ynysoedd y Cayman, ond caiff ei reoli yn y DU ac ystyrir ei fod wedi'i leoli yn y DU at ddibenion treth. Mae'r cwmni yn trosglwyddo elw unrhyw ddyroddion bond i Dŵr Cymru Cyfyngedig.
- Mae Dŵr Cymru Customer Services Limited yn darparu gwasanaethau casglu incwm a bilio i Dŵr Cymru Cyfyngedig.

Rôl Aelodau

Mae Glas Cymru yn gwmni Cyfyngedig drwy Warant. Mae ein Haelodau, sy'n elfen allweddol o'n strwythur corfforaethol, yn cyflawni'r rôl werthfawr y byddai cyfranddalwyr yn ei chwarae ym maes llywodraethu corfforaethol.

Prif rôl ein Haelodau di-dâl yw sicrhau ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar ein prif ddiben, sef darparu gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth effeithlon, fforddiadwy ac o safon uchel i gwsmeriaid Dŵr Cymru, nawr ac yn y dyfodol. Maent yn sicrhau bod asedau'r cwmni yn cael eu gwarchod yn dda.

Mae ein Haelodau yn unigolion, a benodir gan y Bwrdd ond a ddewisir gan Banel Dethol Aelodau annibynnol, y mae'n ofynnol iddo sicrhau aelodaeth gytbwys ac amrywiol, sy'n adlewyrchu amrywiaeth buddiannau ein cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid eraill cymaint â phosibl. Mae'r aelodaeth yn bersonol, felly nid yw'r Aelodau yn cynrychioli unrhyw grŵp na ranndeiliaid penodol. Nid ydynt yn cael ffioedd ac nid oes ganddynt unrhyw fudd ariannol yn y busnes ychwaith.

Ar hyn o bryd mae gan Glas Cymru 62 o Aelodau annibynnol. O dan Erthyglau Cymdeithasu'r Cwmni, mae pob Cyfarwyddwr hefyd yn

Aelod yn rhinwedd ei rôl fel Cyfarwyddwr. Yn ystod 2014-15, rhoddodd wyth Aelod y gorau i'w rôl* a phenodwyd 14 o Aelodau newydd gan y Panel Dethol Aelodau, yn dilyn ymgyrch recriwtio yn y cyfryngau ar draws ein hardal gyflenwi.

Cadeirydd annibynnol y Panel Dethol Aelodau yw Glyn Mathias, a'i Aelodau eraill yw Arthur Walford a Menna Richards. Mae'r Panel yn penodi Aelodau y caiff eu haelodaeth ei chadarnhau maes o law gan y Bwrdd.

Gofynnir i Aelodau fynychu dau gyfarfod ffurfiol ar gyfer Aelodau bob blwyddyn. Yn 2014-15, cynhaliwyd dau gyfarfod rhanbarthol ychwanegol yn ein gwaith trin dŵr gwastraff yn Llanberis (Eryri) ac yn ein gwaith trin dŵr yn Henffordd. Roedd y cyfarfodydd llai o faint hyn yn galluogi Aelodau a oedd yn byw'n lleol i ymweld â safleoedd yn eu hardal, dysgu mwy am waith y cwmni a chael y cyfle i leisio'u barn ar faterion allweddol.

Cyhoeddir rhestr o Aelodau annibynnol Glas Cymru, ynghyd â'n Polisi Aelodaeth a Chylch Gorchwyl y Panel Dethol Aelodau, ar ein gwefan glascymru.com

* Roedd hyn yn cynnwys dau Aelod a roddodd y gorau i'w rolau cyn diwedd uchafswm cyfnod eu swydd, sef naw mlynedd, oherwydd problemau iechyd. Mae pob tymor unigol yn dair blynedd.



Gan fy mod yn byw ac yn gweithio yn y byd ariannol yn Llundain, rwy'n mwynhau'r her a'r profiad o rannu syniadau â chyd-Aelodau a dysgu oddi wrthynt. Mae gan bob un ohonynt eu safbwyntiau a'u profiadau eu hunain o gynifer o wahanol feysydd ond maent yn rhannu'r un amcan, sef hyrwyddo a helpu i sicrhau bod un o gwmnïau mwyaf Cymru yn cael ei reoli yn y ffordd orau bosibl.

Dr Rhian-Mari Thomas

Rôl y Bwrdd

Mae Bwrdd Cyfarwyddwyr y Grŵp yn gyfrifol ar y cyd am ei lwyddiant hirdymor. Mae'r Bwrdd yn pennu nodau strategol y Grŵp, yn monitro perfformiad rheolwyr yn erbyn y nodau strategol, yn sicrhau llywodraethu da, yn pennu lefelau mentro ac yn sicrhau bod rheolaethau effeithiol ar waith yn y busnes. Mae Byrddau Glas Cymru a Dŵr Cymru Cyfyngedig (deiliad y drwydded/cwmni gweithredu) yn union debyg sy'n sicrhau yr orddelir dull unedig.

Mae rhestr o faterion a gedwir yn ôl i'r Bwrdd, a'r Bwrdd sy'n bennaf cyfrifol am feysydd fel strategaeth, risg a llawer o benderfyniadau eraill. Adolygwyd y rhestr o faterion a gadwyd yn ôl ddiwethaf ym mis Mawrth 2014 ac mae ar gael ar ein gwefan glascymru.com.

Mae trefniadau llywodraethu ac arweinyddiaeth y Bwrdd yn hanfodol er mwyn cynnal hyder ein cwsmeriaid. Mae'r tîm Gweithredol yn ymddwyn yn agored ac yn dryloyw wrth gyfathrebu â'r Bwrdd, er mwyn cefnogi hyn.

Rôl y Cadeirydd

Mae Cadeirydd ein Bwrdd yn chwarae rôl allweddol wrth helpu i sicrhau bod y Bwrdd yn unedig, gan hwyluso cyfarfodydd, a sicrhau bod trefniadau llywodraethu da ar waith.

Cytunir ar agendâu cyfarfodydd drwy ymgynghori â'r Prif Weithredwr ac Ysgrifennydd y Cwmni, er y gall unrhyw gyfarwyddwr ofyn i eitem gael ei hychwanegu at yr agenda.

O leiaf unwaith y flwyddyn, mae'r Cadeirydd yn cyfarfod â'r Cyfarwyddwyr Anweithredol heb fod y Cyfarwyddwyr Gweithredol yn bresennol, i ystyried perfformiad y Cyfarwyddwyr Gweithredol ac i roi adborth.

Yn gyffredinol, mae'r Cadeirydd hefyd yn cyfarfod yn unigol â phob Aelod o'r Bwrdd i adolygu ei berfformiad yn ystod y flwyddyn.

Rôl yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol

Mae'r Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol yn bwynt cyswllt rhwng y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol ac yn cydweithio â'n Haelodau. Mae'r Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol yn cyfarfod â'r Cyfarwyddwyr Anweithredol eraill a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol yn flynyddol er mwyn adolygu perfformiad y Cadeirydd. Menna Richards yw'r Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol presennol, ar ôl iddi ymgymryd â'r rôl pan roddodd John Bryant y gorau iddi yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2014.

Rôl y Cyfarwyddwyr Anweithredol

Caiff Cyfarwyddwyr Anweithredol eu penodi i'r Bwrdd yn unol â'n Polisi Amrywiaeth, er mwyn cyfrannu eu harbenigedd a rhoi her annibynnol a chadernid i drafodaethau'r Bwrdd.

Rôl y Prif Weithredwr

Y tu hwnt i faterion a gedwir yn ôl i'r Bwrdd, y Prif Weithredwr sy'n bennaf cyfrifol am lunio strategaeth y cwmni a rheoli materion y cwmni o ddydd i ddydd. Mae Tîm Gweithredol Dŵr Cymru yn helpu'r Prif Weithredwr i roi'r strategaeth ar waith a rheoli'r cwmni o ddydd i ddydd.

Rôl Ysgrifennydd y Cwmni

Mae Ysgrifennydd y Cwmni yn gyfrifol am helpu'r Cadeirydd i sicrhau bod y Grŵp yn arddangos trefniadau llywodraethu da. Mae Ysgrifennydd y Cwmni ar gael i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol ac mae'n gweithio i sicrhau bod llifau gwybodaeth da i'r Bwrdd a'i bwyllgorau a rhwng uwch realwyr a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol.



Bûm yn ymwneud
yn helaeth â
Dŵr Cymru yn
fy rôl flaenorol fel
swyddog iechyd
yr amgylchedd,
yn delio â materion
yn ymwneud â
gwaredu carthion,
safonau dŵr y môr
ac ansawdd dŵr
yfed, a chefais fy
synnu bob amser
gan broffesiynoldeb
a brwdfrydedd
y staff yr oeddwn
yn delio â hwy
a'r balchder amlwg
yr oedd ganddynt
yn y cwmni.

Y Cyngh Bob Squire

Apwyntiadau

Mae Erthyglau Cymdeithasu'r cwmni yn grymuso'r Bwrdd i benodi Cyfarwyddwyr newydd. Mae'r Bwrdd yn ymrwymedig i sicrhau'r cydbwysedd cywir o sgiliau a phrofiad a chefnidiroedd amrywiol. Mae'n rhaid i Gyfarwyddwyr ddangos barn annibynnol a'r gallu i herio mewn ffordd adeiladol. Y Pwyllgor Enwebiadau sy'n gyfrifol am chwilio am ymgeiswyr i'r Bwrdd ar sail rhinwedd, yn erbyn meini prawf gwrthrychol a bennir ar gyfer y rôl, a chydag ystyriaeth briodol i sicrhau cydbwysedd priodol o sgiliau a phrofiad a phwysigrwydd sicrhau cynrychiolaeth amrywiol ar y Bwrdd. Mae llythyrau penodi'r Cyfarwyddwyr Anweithredol ar gael i'r cyhoedd drwy wneud cais i Ysgrifennydd y Cwmni.

Mae Dŵr Cymru yn ymrwymedig i hyrwyddo amrywiaeth, gwrthwahanïaethu, a chyfle cyfartal yn y ffordd rydym yn trin cyflogaion, darpar gyflogaion, ymwelwyr, cleientiaid, cwsmeriaid a chyflenwyr. Mae'r Bwrdd wedi dogfennu ei ddull recriwtio mewn Polisi Amrywiaeth y mae'n ymrwymedig i'w ddilyn.


Sefydlu a datblygu

Darperir proses sefydlu personol i Gyfarwyddwyr, gan gynnwys pecyn gwybodaeth, ymweliadau â safleoedd a chyfarfodydd un i un gydag uwch reolwyr. Mae'r Bwrdd a'r pwyllgorau yn cael hyfforddiant a sesiynau briffio fel y bo'n briodol. Yn 2014-15, derbyniodd y Bwrdd hyfforddiant ym maes cyfraith cystadleuaeth fel rhan o'r broses o'i gyflwyno ar draws y cwmni. Eleni, mae'r Bwrdd wedi ymweld â safleoedd ac wedi cynnal cyfarfodydd o amgylch y busnes, gan ymweld â chanolfan ymwelwyr a chronfeydd dŵr Cwm Elan, Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Cynon a'r rhwydwaith carthffosiaeth yn y Cymoedd. Mae'r tîm Gweithredol wedi cyfarfod mewn amryw leoliadau yn y gogledd a'r de ac wedi ymweld â safleoedd gan gynnwys Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Llanberis, y depo newydd ym Modelwyddan, Gwaith Trin Dŵr Felindre a thimau'r ganolfan alwadau yn Linea.




hyd gwasanaeth

■ 0-3 blyn. ■ 4-6 blyn. ■ 7-9 mlyn.




Cyfarwyddwr Anweithredol

■ Dynion ■ Menywod



Tîm Arwain



Tîm Gweithredol

Hyd gwasanaeth

Nodir cyfnodau gwasanaeth perthnasol ein Cyfarwyddwyr Anweithredol uchod.

Amrywiaeth o ran y rhywiol

Mae'r Bwrdd yn ymrwymedig i sicrhau bod lefel briodol o amrywiaeth ar bob lefel o'r busnes, ac yn benodol o ran cynrychiolaeth menywod, ac rydym yn cyrraedd y targedau a awgrymwyd yn Adroddiad Davies ar lefel Bwrdd. Ar hyn o bryd, mae 29% o'r Cyfarwyddwyr Anweithredol yn fenywod, mae 30% o'r tîm Gweithredol yn fenywod ac mae 31% o'r Dîm Arwain ehangach Dŵr Cymru yn fenywod. Mae ystadegau ar amrywiaeth o ran y rhywiol ar gyfer y cwmni cyfan ar gael ar dudalen 55.

Cydbwysedd ac annibyniaeth

Mae gan y Bwrdd a'r Pwyllgorau aelodaeth briodol i ymgymryd â'u cyfrifoldebau'n effeithiol. Mae'r Bwrdd yn cadw golwg ar ei aelodaeth ac aelodaeth ei Bwyllgorau er mwyn sicrhau bod cydbwysedd derbyniol yn cael ei gynnal. Mae'r Bwrdd yn fodlon bod gan bob Cyfarwyddwr amser digonol i ymrwymo i'w rôl ac nad oes unrhyw swyddi Cyfarwyddwyr na buddiannau busnes sylweddol yn gyffredin rhwng aelodau'r Bwrdd.

Ystyrir bod pob un o'n Cyfarwyddwyr Anweithredol yn annibynnol yn unol â'r Cod Llywodraethu Corfforaethol, ac nid oes gan yr un ohonynt unrhyw gydberthynas fusnes neu gydberthynas arall a allai ddylanwadu ar ei farn annibynnol. Roedd Robert Ayling yn Gyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol hyd nes iddo gael ei benodi fel Cadeirydd yn 2010.

Bydd James Strachan yn rhoi'r gorau i'w rôl fel Cyfarwyddwr Anweithredol ym mis Gorffennaf 2015. Bu'n Aelod gwerthfawr o'r Bwrdd ers 2007 ac mae ei brofiad sylweddol o faterion ariannol a llywodraethu corfforaethol wedi'i alluogi i herio a chefnogi'r tîm Gweithredol yn effeithiol.

Penodwyd Peter Bridgewater yn Gyfarwyddwr Cyllid ym mis Medi 2014 i ymgymryd â'r rôl a adawyd yn wag yn sgil dyrchafiad Chris Jones yn Brif Weithredwr.

Rhwng mis Medi 2013 a mis Medi 2014, roedd Mike Davis yn Gyfarwyddwr Cyllid Dros Dro ac, ym mis Medi 2014, cafodd ei benodi'n Gyfarwyddwr Strategaeth a Rheoleiddio, nad yw'n rôl ar y Bwrdd.

Er mwyn sicrhau bod gennym Fwrdd effeithiol, rydym yn cynnal adolygiad unwaith y flwyddyn er mwyn rhoi'r cyfle i ni wella'n barhaus. Roedd casgliadau'r adolygiad a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2015 yn gadarnhaol ar y cyfan, ond amlygwyd cyfleoedd i wella o ran ffocws y Bwrdd ar faterion strategol, y dull o reoli risg a chynnwys a fformat papurau'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd wedi cytuno ar gynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r materion hyn ymhellach yn 2015-16.

Ailethol Cyfarwyddwyr

Yn unol â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU 2012, bydd pob Cyfarwyddwr yn sefyll i gael ei ailethol gan Aelodau bob blwyddyn a bydd unrhyw Gyfarwyddwr a benodir yn ystod y flwyddyn yn sefyll i gael ei ethol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol nesaf. Yn unol â hynny, mae Peter Bridgewater yn sefyll yn ffurfiol i gael ei ethol fel Cyfarwyddwr newydd, ar ôl cael ei benodi ym mis Medi 2014.

Cyfarfodydd Bwrdd

Yn 2014-15, cynhaliodd y Bwrdd naw cyfarfod wedi'u trefnu a thri chyfarfod ychwanegol a alwyd i ymdrin â materion a gododd yn ystod y broses o adolygu prisiau, PR14. Cynhelir ein cyfarfodydd wedi'u trefnu dros gyfnod o ddeuddydd er mwyn rhoi'r amser sydd ei angen ar y Bwrdd i adolygu cynnydd yn erbyn amcanion strategol ac i gyfarfod â rheolwyr busnes allweddol. Ymhlith y materion strategol y mae'r Bwrdd wedi canolbwyntio arnynt yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r canlynol: y broses adolygu prisiau; risg; Cynllun Busnes y cwmni ar gyfer y cyfnod 2015-20; a thrawsnewid sefydliadol, gan gynnwys newidiadau i Gynllun Pensiwn y Grŵp a Chytundeb Cydweithio gyda'r Undebau Llafur

Presenoldeb

Pan na all Cyfarwyddwr fod yn bresennol mewn cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn ceisio ei safbwyntiau ar eitemau allweddol cyn y cyfarfod fel y gellir eu hychwanegu at y drafodaeth

Gwrthdaro Buddiannau

O dan gyfraith cwmnïau'r DU, rhaid awdurdodi sefyllfaoedd lle ceir gwrthdaro ymlaen llaw er mwyn osgoi achosion lle y bydd cyfarwyddwr yn mynd yn groes i'r ddyletswydd statudol. Mae'n rhaid i bob Cyfarwyddwr ddatgelu unrhyw achosion o wrthdaro buddiannau, neu unrhyw achosion posibl o'r fath, ar unwaith. Yn ogystal, mae pob Cyfarwyddwr yn llofnodi datganiad blyneddol ac yn datgelu ei benodiadau allanol

Penodiadau Allanol

Yn ystod 2014-15, nid oedd gan unrhyw un o'r Cyfarwyddwyr Gweithredol benodiad allanol fel Cyfarwyddwr Anweithredol y cawsant eu talu ar wahân amdano.



Y Cyfarwyddwyr

(Ar 31 Mawrth, 2015)



Robert Ayling
Cadeirydd

Daeth Robert, a benodwyd yn Gyfarwyddwr Anweithredol ym mis Ebrill 2008, yn Gadeirydd Glas Cymru ym mis Gorffennaf 2010. Ef yw Cadeirydd Annibynnol Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM hefyd. Mae'n gyfreithiwr yn ôl ei alwedigaeth, a threuliodd 20 mlynedd yn Ninas Llundain ac fel uwch gynghorydd cyfreithiol i'r llywodraeth yn yr Adran Masnach a Diwydiant. Gweithiodd mewn nifer o uwch swyddi rheoli yn British Airways plc lle y bu'n Rheolwr Gyfarwyddwr a Phrif Weithredwr y Grŵp rhwng 1993 a 2000. Mae hefyd yn gyn-Gadeirydd Dyson Ltd, The International Dispute Resolution Centre Ltd, Sanctuary Group plc a Holidaybreak plc ac yn un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Royal & Sun Alliance Insurance Group plc a QANTAS.



Menna Richards
Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol
(Penodwyd ym mis Gorffennaf 2014)

Penodwyd Menna Richards yn Gyfarwyddwr Anweithredol ym mis Tachwedd 2010. Treuliodd ei gyrfya weithredol ym maes darlledu fel Cyfarwyddwr BBC Cymru (2000 - 2011) a chyn hynny roedd yn Rheolwr Gyfarwyddwr, HTV Wales. Mae'n un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Cymdeithas Adeiladu'r Principality ac Opera Cenedlaethol Cymru. Mae'n un o ymddiriedolwyr elusen ALOUD. Bu'n Gadeirydd Llywodraethwyr Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru ac mae'n Is-Lywydd ar hyn o bryd. Roedd Menna hefyd yn aelod o fwrdd Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd.



Chris Jones
Prif Weithredwr

Daeth Chris yn Brif Weithredwr ym mis Medi 2013. Cyn ei benodiad, bu'n Gyfarwyddwr Cyllid Dŵr Cymru ers mis Mai 2001 ac yn Gyfarwyddwr Cyllid Glas Cymru ers mis Ebrill 2000. Mae hefyd wedi gwasanaethu'n flaenorol fel Cyfarwyddwr Rheoleiddio Dŵr Cymru a South Wales Electricity Plc. Cyn ymuno â Dŵr Cymru yn 1995, bu'n un o Gyfarwyddwyr National Economic Research Associates a, chyn hynny, bu'n gweithio i Drysorlys EM. Mae'n Ddirprwy Gadeirydd Cyngor The Prince's Trust - Cymru. Bu hefyd yn un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Cymdeithas Adeiladu'r Principality, ac yn un o Ymddiriedolwyr y Sefydliad Materion Cymreig.



Peter Bridgewater
Cyfarwyddwr Cyllid

Ymunodd Peter â Glas Cymru fel Cyfarwyddwr Cyllid ym mis Medi 2014. Cyn cael ei benodi, bu'n Brif Swyddog Cyllid ar gyfer y DU, De Affrica a Chyfandiroedd America yn Sembcorp Industries, swydd a oedd yn cwmpasu wyth busnes dŵr ac ynni. Cyn ymuno â Sembcorp, bu Peter yn ymgymryd â nifer o rolau yn E.ON UK Plc, gan gynnwys Rheolwr Gyfarwyddwr ei Is-adran Masnachu Nwyddau; Cyfarwyddwr Cyllid a Risg ei Is-adran Gynhyrchu; Cyfarwyddwr Strategaeth a Chyllid Dosbarthu Pŵer; a Chyfarwyddwr Manwerthu Strategol E.ON Energy Retail. Mae Peter, sy'n Gyfrifydd Siartredig, hefyd wedi gweithio i Powergen a Coopers and Lybrand ac astudiodd Seicoleg ym Mhrifysgol Durham.



Peter Perry
Prif Swyddog Gweithredu

Mae gan Peter, a benodwyd yn Gyfarwyddwr Gweithrediadau ym mis Gorffennaf 2006, gefndir ym maes peirianeg sifil a chyn ei benodiad presennol ef oedd Prif Swyddog Gweithredu United Utilities Operational Services (UUOS), ar ôl bod yn Gyfarwyddwr Gweithrediadau i UUOS lle y bu'n gyfrifol am y contract gweithredol gyda Dŵr Cymru a buddiannau dŵr UUOS yn yr Alban ac Iwerddon. Cyn ymuno ag UUOS gweithiodd i Dŵr Cymru am dros 20 mlynedd. Mae hefyd yn un o Gyfarwyddwyr (yn cynrychioli Cymru) y Gwasanaeth Cyngori Rheoliadau Dŵr, sef y corff cenedlaethol sy'n nodi safonau ar gyfer deunyddiau a chreffftwaith a ddefnyddir ym maes cyflenwi dŵr yfed.



Yr Athro Stephen Palmer
Cyfarwyddwr Anweithredol

Mae'r Athro Palmer, a benodwyd yn Gyfarwyddwr Anweithredol ym mis Hydref 2009, yn Athro Emeritws Epidemioleg ac Iechyd y Cyhoedd ym Mhrifysgol Caerdydd. Rhwng 2003 a mis Gorffennaf 2010, ef oedd Cyfarwyddwr is-adran peryglon cemegol ac is-adran gwasanaethau lleol a rhanbarthol yr Asiantaeth Diogelu Iechyd, a phennaeth proffesiwn ar gyfer epidemioleg yn yr Asiantaeth Diogelu Iechyd. Mae'n Gymrawd Cyfadran Iechyd y Cyhoedd a Choleg Brenhinol y Ffisegwyr, a bu'n ddylanwadol ym maes iechyd y cyhoedd ers dros chwarter canrif. Mae ganddo CV hir o swyddogaethau proffesiynol blaenorol ym maes iechyd y cyhoedd ac mae wedi ysgrifennu sawl llyfr a phapur a adolygwyd gan ei gymheiriaid ar afiechydon heintus a pheryglon cemegol.



James Strachan
Cyfarwyddwr Anweithredol

Fe'i penodwyd yn Gyfarwyddwr Anweithredol ym mis Mehefin 2007. Mae James yn un o Gyfarwyddwyr Anweithredol JP Morgan Asian Investment Trust PLC a Sarasin and Partners LLP. Mae ei rolau blaenorol yn cynnwys: Cadeirydd y Comisiwn Archwilio, Cyfarwyddwr Anweithredol Banc Lloegr, yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol, Legal and General Group plc, Care UK plc a Social Finance Limited, aelod o Fwrdd Ofgem (y rheoleiddwr ynni), Uwch Gymrawd Gwadd ym maes risg a rheoleiddio yn Ysgol Economeg Llundain, cadeirydd yr elusen RNID a Rheolwr Gyfarwyddwr Merrill Lynch.



Anna Walker
Cyfarwyddwr Anweithredol

Mae gan Anna, a benodwyd yn Gyfarwyddwr Anweithredol ym mis Mawrth 2011, doreth o brofiad ym maes rheoleiddio, gwasanaeth cwsmeriaid, llunio polisiau a gweithio gyda llywodraethau. Hi yw Cadeirydd y Swyddfa Rheoleiddio Rheilffyrdd a chynhaliodd adolygiad annibynnol ar gyfer y llywodraeth yn 2008 ar godi tâl am ddŵr mewn cartrefi. Ymhlith ei rolau blaenorol mae Prif Weithredwr y Comisiwn Gofal Iechyd (2004-2009), Cyfarwyddwr Cyffredinol, Defnydd Tir a Materion Gwledig yn DEFRA, Cyfarwyddwr Cyffredinol - Grŵp Ynni DTI, a Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol Ofel, rheoleiddwr y sector telathrebu. Anna, a ddaeth yn Gydymaith Urdd y Baddon yn 2003 am wasanaethau cyhoeddus, yw Cadeirydd yr elusen Young Epilepsy. Bu hefyd yn Is-Gadeirydd Consumer Focus, y corff hyrwyddo defnyddwyr statudol, ac yn aelod o Gyngor Which?



John Warren
Cyfarwyddwr Anweithredol

Mae John, a benodwyd yn Gyfarwyddwr Anweithredol ym mis Mai 2012, yn gyfrifydd cymwysedig gyda mwy na 25 mlynedd o brofiad mewn rolau ariannol ac mae ganddo brofiad helaeth o gadeirio Pwyllgorau Archwilio cwmnïau mawr a restrir yn y DU. Tan iddo ymddeol yn 2005, ef oedd Cyfarwyddwr Cyllid Grŵp WH Smith PLC a, chyn hynny, United Biscuits Plc. Ar hyn o bryd, mae'n un o Gyfarwyddwyr Anweithredol Greencore Group plc a 4imprint Group plc.



Graham Edwards
Cyfarwyddwr Anweithredol

Graham, a benodwyd yn Gyfarwyddwr Anweithredol ym mis Hydref 2013, yw Prif Swyddog Gweithredol Wales & West Utilities (WWU). Mae ganddo brofiad sylweddol fel uwch reolwr yn y sector cyfleustodau, yn rhedeg busnesau dosbarthu trydan a dŵr gyda South Wales Electricity, Hyder a Thames Water. Mae wedi ymgymryd ag uwch swyddi mewn ystad o swyddogaethau ar draws amrywiaeth eang o fusnesau gan gynnwys Peirianeg, Cynhyrchu, Adnoddau Dynol a Gweithrediadau. Mae'n un o Gymrodorion y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu ac ef oedd Cadeirydd diwethaf CBI Cymru.

Pwyllgorau

Er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn cyflawni ei rôl yn effeithiol, caiff rhai o gyfrifoldebau'r Bwrdd eu dirprwyo i Bwyllgorau, sy'n chwarae rôl bwysig wrth weithio gyda'r rheolwyr i sicrhau bod ein busnes yn ariannol gadarn ac y caiff ei lywodraethu'n dda, ac y caiff risgiau eu nodi a'u lliniaru.

Mae gan bob Pwyllgor gylch gorchwyl ysgrifenedig (sydd ar gael ar ein gwefan glas.cymru.com), a gymeradwywyd gan y Bwrdd, sy'n crynhoi'r cyfrifoldebau a ddirprwywyd iddo.

Prif bwyllgorau'r Bwrdd yw:

- Pwyllgor Enwebiadau
- Pwyllgor Cyllid
- Pwyllgor Archwilio
- Pwyllgor Ansawdd ac Amgylchedd
- Pwyllgor Cydnabyddiaeth.

Ar ôl ymuno â Phwyllgor, caiff Cyfarwyddwyr gyfnod sefydlu priodol a chynigir cyfleoedd hyfforddiant ac addysg parhaus iddynt. Ar ôl pob cyfarfod, rhoddir crynodeb o'r materion a drafodwyd i'r Bwrdd, ac anfonir cofnodion y pwyllgor at y Cyfarwyddwyr. Gall pob pwyllgor ddefnyddio gwasanaethau unrhyw gynghorwyr sydd eu hangen arno i gyflawni ei gyfrifoldebau.

Yn ogystal â chadeirio neu fod yn aelod o bwyllgor, mae pob Cyfarwyddwr yn neilltuo amser a mewnbwn ychwanegol mewn perthynas â'r materion canlynol: iechyd y cyhoedd (Stephen Palmer), gweithrediadau (Graham Edwards), gwasanaeth cwsmeriaid a rheoleiddio (Anna Walker), cyllid ac archwilio (John Warren), cyllid, rheoleiddio a chydnabyddiaeth (James Strachan), cyfathrebu a chysylltiadau ag Aelodau (Menna Richards) a llywodraethu a rheoleiddio (Robert Ayling).

Rheolaeth fewnol

Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb cyffredinol dros weithrediad ac effeithiolrwydd system rheolaethau mewnol a rheoli risg y Grŵp. Cynlluniwyd y system rheolaethau i reoli'r risg o fethu â chyflawni amcanion busnes, ac mae'n cynnwys polisiau a gweithdrefnau archwiliedig a luniwyd i nodi a rheoli'r risgiau mwyaf sylweddol a wynebir gan y busnes.

Mewn ymateb i adborth a gafwyd o'r arolwg o effeithiolrwydd y Bwrdd ym mis Mawrth 2014, aeth y tîm Gweithredol ati i adolygu'r dull o reoli risg a chyflwyno rhai newidiadau i'r prosesau a'r rheolaethau a oedd ar waith. Mae adolygiad manwl o risgiau ar gael ar dudalennau 22-25.

Wrth ystyried y broses o ddatblygu'r system rheolaethau, aeth y tîm Gweithredol ati i adolygu perthnasedd a'r costau a'r buddiannau cymharol sy'n gysylltiedig â phob risg sylweddol a nodwyd. Cynlluniwyd y systemau rheolaeth fewnol i ddarparu sicrwydd rhesymol yn erbyn camddatganiadau neu gollod.

Mae nodweddion allweddol ein system yn arferol i fusnes o'r maint a'r cymhlethdod hwn. Yn eu plith mae:

- nodi risgiau a pheryglon strategol allweddol sy'n wynebu'r busnes, a gaiff eu mesur a'u rheoli hyd at lefel dderbyniol
- adolygu materion cyfredol a materion sy'n dod i'r amlwg yng nghyfarfodydd y tîm Gweithredol a'r Pwyllgor Ansawdd ac Amgylchedd
- atebolrwydd clir ymysg rheolwyr mewn perthynas â rheoli risg, wedi'i ategu gan adroddiadau rheolaidd ar risg i'r Bwrdd, y Pwyllgor Ansawdd ac Amgylchedd a'r Pwyllgor Archwilio
- ystyriaeth o baramedrau risgiau derbyniol a bennir gan y Bwrdd, yn enwedig yng nghyd-destun y broses cynllunio busnes at ddibenion y cyfnod nesaf o bum mlynedd
- rhoi rheolaethau ar waith sy'n cydnabod bod natur a chydwyseidd risgiau yn newid ac yn esblygu

- rhoi gweithdrefnau ar waith sy'n llywodraethu'r broses o gymeradwyo a rheoli eitemau sylweddol o wariant cyfalaf, caffael a gwaredu asedau perthnasol, ac ymrwymiad i unrhyw drefniant sy'n arwain at, neu a allai arwain at, rwymedigaeth sylweddol

- sicrhau bod systemau a gweithdrefnau ariannol yn addas ar gyfer paratoi cyfrifon cyfunol.

Caiff y Bwrdd sicrwydd drwy waith annibynnol gan gynghorydd technegol Dŵr Cymru (Black & Veatch) a'r rhaglen archwilio ansawdd ac archwilio mewnol, y caiff ei phrif ganfyddiadau eu hadolygu gan y Pwyllgor Archwilio a'r Pwyllgor Ansawdd ac Amgylchedd. Caiff diweddariad ar risgiau strategol ei ystyried ym mhob un o gyfarfodydd y Bwrdd a chaiff adolygiad strategol o risgiau ei ystyried ddwywaith y flwyddyn fel rhan o broses a gaiff ei chadeirio gan y Prif Weithredwr, sy'n rhoi diweddariad i'r Bwrdd ar farn y tîm Gweithredol ar y risgiau strategol allweddol sy'n wynebu'r busnes er mwyn iddo gael ei ystyried gan y Bwrdd cyfan.

Fel rhan o'r broses o adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol, cynhelir trafodaethau â rheolwyr ar risgiau sylweddol ac adolygir cynlluniau ar gyfer gwaith archwilio mewnol ac allanol a chanlyniadau gwaith o'r fath. Mae'r Pwyllgor Archwilio yn cyflwyno adroddiad ar ganlyniadau ei adolygiad i'r Bwrdd a ddaw wedyn i'w gasgliad ar y cyd ynglŷn ag effeithiolrwydd y system rheolaethau mewnol. Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb hwn, mae'r Bwrdd yn ystyried adroddiadau rheolaidd gan y Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Ansawdd ac Amgylchedd a rheolwyr, ac yn dibynnu ar y gwaith a wneir ganddo fel mater o drefn i fonitro dangosyddion perfformiad allweddol ac adroddiadau misol ar berfformiad ariannol a gweithredol. Mae hyn yn galluogi'r Bwrdd i adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol drwy gydol y flwyddyn.



Adroddiadau gan y Pwyllgorau

Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Enwebiadau:

Cadeirydd: Robert Ayling

Aelodau: pob un o'r Cyfarwyddwyr Anweithredol o'r Prif Weithredwr

Rôl y Pwyllgor hwn yw sicrhau bod cynlluniau ar waith ar gyfer olyniaeth drefnus o ran penodiadau i'r Bwrdd. Edrychwn felly ar faint, strwythur ac aelodaeth y Bwrdd (o'r sgiliau, y wybodaeth a'r profiad o amgylch y Bwrdd) a, lle y bo'n briodol, argymhellwn ymgeiswyr i'w penodi i'r Bwrdd.

Eleni, mae'r Pwyllgor Enwebiadau wedi bod yn gysylltiedig â'r gwaith o nodi Cyfarwyddwr Anweithredol annibynnol i olynu James Strachan. Er mwyn gwneud hyn, gwnaethom benodi Odgers Berndtson i'n helpu.*

Mae Dŵr Cymru yn ymrwymedig i hyrwyddo amrywiaeth, gwrthwahaniaethu, a chyfle cyfartal yn y ffordd rydym yn trin cyflogaion, darpar gyflogaion, ymwelwyr, cleientiaid, cwsmeriaid a chyflenwyr.

Mae'r Bwrdd yn monitro'r gwaith o gynllunio olyniaeth ar lefel uwch reolwyr ac wedi dogfennu ei ddull recriwtio mewn polisi amrywiaeth y mae'n ymrwymedig i'w ddilyn.

Robert Ayling

Cadeirydd y Pwyllgor Enwebiadau
5 Mehefin 2015

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

Aelodau: Robert Ayling (Cadeirydd); Peter Bridgewater; Chris Jones; James Strachan a John Warren

Mae gan y Pwyllgor Cyllid awdurdod i gymeradwyo materion ariannol a thrafodion sy'n gysylltiedig â'r trysorlys pan fo angen gwneud penderfyniad rhwng cyfarfodydd y Bwrdd. Yn 2014-2015, gofynnwyd i'r Pwyllgor Cyllid gymeradwyo penderfyniadau o'r fath ar ddau achlysur.

Robert Ayling

Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
5 Mehefin 2015

Adroddiad y Pwyllgor Archwilio

Aelodau:** John Warren (Cadeirydd); Robert Ayling; Anna Walker a Graham Edwards.

Cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith yn ystod 2014-15. Fel gyda chyfnodau adrodd blaenorol, yn ystod rhan gyntaf y flwyddyn adrodd ariannol 2015-16, mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cyfarfod ar ddau achlysur arall i dderbyn yr adroddiad gan yr archwilwyr allanol ar adroddiad blynyddol 2014-15, gan ganolbwyntio'n benodol ar faterion allweddol yn ymwneud â barn yn y datganiadau ariannol, a gyda'r nod o sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2014-15 yn cyflwyno darlun 'teg, cytbwys a dealladwy' o statws ariannol y cwmni, yn unol â Chod Llywodraethu Corfforaethol diwygiedig y DU 2012.

Mae'r Pwyllgor Archwilio, a'r archwilwyr allanol, yn talu sylw penodol, ym mhob cyfnod adrodd, i'r rhannau hynny o'r datganiadau ariannol y caiff barn rheolwyr ar y lefel uchaf ei chymhwyso atynt neu yr ystyrir eu bod yn peri'r risg fwyaf yn eu hanfod. Ar gyfer y datganiad ariannol diwedd blwyddyn, roedd y rhain fel a ganlyn:

Rhoi llwyfan bilio RapidXtra ar waith a'r effaith ar y cronid incwm a fesurwyd

Derbyniodd y pwyllgor ddiweddariadau rheolaidd ar hynt y prosiect, cyn y dyddiad gweithredu ac ar ôl hynny. Roedd y pwyllgor yn fodlon bod y tîm rheoli wedi gwneud digon o waith paratoi i alluogi'r Grŵp i ddechrau newid y llwyfan bilio yn ystod mis Ionawr 2015. Yn y cyfarfodydd ar ddiwedd y flwyddyn, trafododd y pwyllgor y gwaith archwilio a wnaed gan PwC, a oedd yn cynnwys adolygu rheolaethau sy'n gysylltiedig â TG a'r broses o symud data o'r hen system filio i RapidXtra, ac roedd yn fodlon â'r casgliadau a ddeilliodd o'r gwaith hwnnw.

Ar gyfer cyfrifon 2014-15, cynhyrchodd RapidXtra amcangyfrif o'r incwm a oedd yn ddyledus oddi wrth gwsmeriaid â mesurydd ar gyfer y cyfnod rhwng eu darlleniad mesurydd diwethaf a dyddiad y fantolen. Mae'r amcangyfrif yn seiliedig ar y dŵr a ddefnyddiwyd dros y deuddeg mis blaenorol a chaiff ei adolygu gan reolwyr fel y sail dros bennu'r cronid incwm a fesurwyd. Ar 31 Mawrth 2015, yr amcangyfrif hwn oedd £67 miliwn, tua 25% o gyfanswm y referniw incwm a fesurwyd. Aeth y Pwyllgor ati i adolygu'r adroddiad a gyflwynwyd gan PwC ar y gwaith archwilio a gyflawnwyd ganddo yn y maes hwn a daeth i'r casgliad ei fod yn gyfforddus â'r amcangyfrif a gydnabuwyd yn y cyfrifon.

* Nid oes gan Odgers Berndtson unrhyw gysylltiad arall â'r cwmni.

** Rhoddodd Menna Richards y gorau i'r rôl ym mis Tachwedd 2014. Ymunodd Anna Walker a Graham Edwards ym mis Tachwedd 2014.

Darpariaeth ar gyfer lleihad yng ngwerth symiau masnach derbyniadwy

Roedd lefel y ddarpariaeth a oedd yn ofynnol yn seiliedig ar asesiad o berfformiad hanesyddol o ran casglu arian parod ac yn ystyried ansicrwydd economaidd parhaus a'r broses o ddiwygio system les y wladwriaeth, yn ogystal â mentrau arfaethedig i dargedu gwelliannau mewn cyfraddau casglu.

Wrth fynd ati i wneud eu hargymhelliaid i'r Pwyllgor Archwilio, archwiliodd y rheolwyr berfformiad o ran casglu arian parod ar gyfer cwsmeriaid â mesurydd a chwsmeriaid heb fesurydd yn ystod 2014-15, gan ddod i'r casgliad y gallai Dŵr Cymru, yn y pen draw, ddisgwyl casglu rhyw 40% o'r ddyled a oedd yn weddill ar 31 Mawrth 2015 (2014: 36%). O ystyried yr holl wybodaeth am gyfraddau casglu hanesyddol sydd ar gael hyd yma, daeth y Pwyllgor Archwilio i'r casgliad y dylai darpariaeth drwgddyledion Dŵr Cymru gael ei phennu ar £79 miliwn (2014: £66 miliwn) sy'n cynhyrchu tâl am ddrwgddyledion a dyledion omheus am y flwyddyn ("lleihad yng ngwerth symiau masnach derbyniadwy") o £29 miliwn (2014: £28 miliwn).

Rhwymedigaethau buddiannau ymddeol

Er mwyn cyfrifo'r rhwymedigaeth pensiwn buddiannau diffiniedig i'w chynnwys ar y fantolen yn unol ag IAS 19, mae'n rhaid defnyddio dau amcangyfrif ariannol allweddol, sef y gyfradd ddisgowntio a chwyddiant yn y dyfodol.

Roedd y gyfradd ddisgowntio dybiedig yn deillio o arenillion ar fondiau corfforaethol AA-, a phennwyd y lefel chwyddiant dybiedig drwy ystyried y gwahaniaeth rhwng yr arenillion ar fondiau llog sefydlog a bondiau mynegrifol y llywodraeth yn ogystal â ffynonellau eraill o ragfynegi chwyddiant.

Trafododd y pwyllgor y tybiaethau hyn â PwC a nododd fod y tybiaethau o fewn ystod dderbyniol, er eu bod ar ben optimistaidd yr ystod honno. Cynhyrchodd y rhain ddiffyg IAS 19 a diffyg ar y fantolen o £33 miliwn, cynnydd o £30 miliwn ers mis Mawrth 2014, yn bennaf o ganlyniad i newidiadau yn y gyfradd ddisgowntio, gan adlewyrchu lleihad yn y disgwyliad ar gyfer cyfraddau llog hirdymor. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad fod y tybiaethau a ddefnyddiwyd yn dderbyniol at ddibenion y cyfrifon.

Dyrannu costau cyfalaf

Adolygodd y pwyllgor yr adroddiad a gyflwynwyd gan PwC ar ei weithdrefnau archwilio mewn perthynas â dyrannu costau cyfalaf yn ystod y cyfnod. Roedd y pwyllgor yn fodlon bod y dull gweithredu a fabwysiadwyd gan reolwyr yn gyson â chyfnodau blaenorol ac nad oedd yn cynrychioli barn feirniadol ar gyfer y Grŵp yn ystod y cyfnod.

Offerynnau ariannol deilliadol

Caiff gwerthoedd teg offerynnau ariannol deilliadol eu darparu gan wrthbartion cyfnewidiadau. Mae llwyfan set ddata ariannol Bloomberg yn galluogi rheolwyr i gynnal prisiad annibynnol o'r contractau hyn a gaiff ei gymharu wedyn â chadarnhad gwrthbartion. O ystyried y farn gynhenid yn y tybiaethau hirdymor sy'n gysylltiedig â'r offerynnau hyn, nododd y Pwyllgor Archwilio fod rhai mân addasiadau wedi'u gwneud i'r prisiadau gwreiddiol fel rhan o weithdrefnau archwilio PwC. Roedd cyfanswm y rhwymedigaeth ar y fantolen ar 31 Mawrth 2015 yn £422 miliwn (2013: £265 miliwn).

Materion eraill

Gwnaeth y pwyllgor hefyd ystyried digwyddiadau anghylchol sy'n ymwneud â'r archwiliad allanol, yn benodol y broses o gaffael Hydro 1 Limited a darpariaeth ailstrwythuro a gydnabuwyd yn ystod y cyfnod. Ystyriwyd papur PwC yn sgil yr eitemau hyn ac roedd y pwyllgor yn fodlon bod y broses gyfrifyddu wedi'i chynnal yn unol ag IFRS.

Gweithgareddau eraill y Pwyllgor Archwilio

Yn ystod 2014-15, gwnaeth dau o'r pedwar cyfarfod ganolbwyntio'n bennaf ar adolygu canlyniadau ariannol rhagarweiniol ac interim y Grŵp a meysydd cysylltiedig o ran barn a pholisi cyfrifyddu.

Mae'r Pwyllgor Archwilio yn dibynnu ar y rôl weithredol a chwaraeir gan swyddogaeth Sicrwydd Busnes (Archwilio Mewnol) y Grŵp. Mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo cynllun blynyddol manwl Sicrwydd Busnes, ac yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar y cynnydd a wneir o ran cyflawni'r rhaglen. Mae'r Pwyllgor yn herio asesiad y rheolwyr o'r risgiau ariannol a busnes allweddol ac yn ceisio sicrwydd o ran y strategaethau lliniaru sydd wedi'u rhoi ar waith i fynd i'r afael â hwy. Rhoddir adborth ar y trafodaethau a geir yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio yng Nghyfarfodydd y Bwrdd, a chaiff pob Cyfarwyddwr gopïau o'r Cofnodion.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn derbyn yn rheolaidd, yng nghyfarfodydd preifat y Pwyllgor, adroddiad manwl ar unrhyw ddatgeliadau ers y cyfarfod diwethaf a wnaed o dan bolisi chwythu'r chwiban y Grŵp, ac yn monitro ymchwiliadau a chamau dilynol a gymerir o ganlyniad i hynny. Yn 2014-15, codwyd amryw o faterion o dan y weithdrefn chwythu'r chwiban, gan gynnwys honiadau o fethiannau i ddilyn polisiau caffael y cwmni, sydd wedi arwain at lunio gweithdrefnau mwy llym a darparu hyfforddiant gwell.

Ymhlith y pynciau eraill a adolygwyd gan y Pwyllgor yn ystod 2014-15 roedd:

- cynnydd Prosiect Newid, y rhaglen i weithredu system filio newydd, RapidXtra, a osodwyd ym mis Ionawr 2015
- y rheolaethau a'r prosesau sy'n cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r gwaith o reoli risg ym mhob rhan o'r busnes
- materion yn ymwneud â diogelwch gwybodaeth a bygythiadau allanol i ddiogelwch ein systemau TG
- trefniadau adfer ar ôl trychineb TG
- cynnwys adroddiadau chwarterol i fuddsoddwyr Glas Cymru
- y rheolaethau sydd ar waith er mwyn sicrhau y rhoddir adroddiadau cywir a chyflawn i reoleiddwyr
- polisi a rheolaethau'r trysorlys, gan gynnwys adolygiad manwl o sbardunau statws banciau yn sgil statws credyd gwaeth ar gyfer rhai o fanciau'r cwmni, a fethodd â chyrraedd y trothwyon statws gofynnol ar gyfer y cyfleusterau statws hylifedd.

Darperir gwasanaethau archwilio allanol gan PwC LLP ar hyn o bryd. Mae'n bolisi gennym i beidio â defnyddio archwilydd allanol ar gyfer gwasanaethau archwilio mewnol. Bydd unrhyw waith nad yw'n waith archwilio sy'n werth mwy na £25,000 yn gyffredinol yn cael ei gynniog ar sail tendr cystadleuol ymlaen llaw a bydd unrhyw waith nad yw'n waith archwilio yn destun cymeradwyaeth y Pwyllgor ymlaen llaw neu, mewn sefyllfa frys, Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio. Mae'r ffigurau ar gyfer ffioedd archwilio a ffioedd nad ydynt yn ymwneud â gwaith archwilio a dalwyd i PwC LLP yn ystod y flwyddyn 2014-15 yn ymddangos ar dudalen 113 o'r adran Datganiadau Ariannol.

Eleni, roedd £70,000 (tua 63% o gyfanswm y ffioedd archwilio statudol a enillwyd gan yr archwilydd) yn ymwneud â gwaith nad oedd yn waith archwilio. Aethpwyd i'r ffioedd hyn yn bennaf o ganlyniad i waith o wnoed mewn perthynas ag adolygiad llywodraethu o Brosiect Newid - datblygu a gweithredu'r system filio newydd.

O ran y gwaith o gefnogi'r adolygiad o Brosiect Newid a'r gwasanaethau sy'n gysylltiedig ag archwilio a ddarperir fel arfer gan yr archwilydd, dim ond

ar ôl cynnal asesiad llawn a thrylwyr o'r achos gwerth dros ddefnyddio'r archwilydd a'r sgiliau a'r profiad y byddai'r archwilydd yn eu dwyn i bob aseiniad er budd gorau'r Cwmni, y cafodd yr archwilydd gyfarwyddyd i ymgymryd â'r gwaith hwn. Ym mhob achos, ymgynghorwyd â Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio cyn y rhoddwyd y cyfarwyddyd hwnnw.

Rôl yr archwilydd mewnol/sicrwydd busnes yw rhoi sicrwydd a hysbysu rheolwyr a Phwyllgorau'r Bwrdd i ba raddau y mae systemau rheolaeth fewnol a threfniadau rheoli risg yn briodol ac yn gweithredu'n effeithiol. Mae'r Pwyllgor Archwilio hefyd yn cael cyngor annibynnol a sicrwydd gan Gofnodwr Dŵr Cymru (Black & Veatch) mewn perthynas â materion adrodd rheoliadol.

Mae cynlluniau archwilio ar gyfer archwiliadau mewnol ac allanol yn canolbwyntio ar y meysydd hynny y nodwyd y gallent beri'r risg fwyaf i'r busnes. Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cymeradwyo'r cynlluniau archwilio mewnol ac allanol ar gyfer 2015-16 ac wedi cyfarfod yn breifat â'r archwilydd allanol a'r Pennaeth Sicrwydd Busnes (heb i'r Cyfarwyddwyr Gweithredol fod yn bresennol).

Ar sail y gwaith hwn, a chyfarfodydd rheolaidd â'r rheolwyr, rydym wedi dod i'r casgliad bod gwaith archwilio mewnol ac allanol yn parhau i weithredu'n effeithiol ac annibynnol.

Er mwyn sicrhau bod gennym Bwyllgor Archwilio effeithiol, rydym yn cynnal adolygiad unwaith y flwyddyn er mwyn rhoi'r cyfle i ni wella'n barhaus. Ym mis Mawrth 2015, cynhaliwyd adolygiad mewnol o'r pwyllgor gan ddefnyddio arolwg electronig; cafodd canlyniad y gwerthusiad ei adolygu gan y Chadeirydd a'i gyflwyno i'r pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Mai 2015. Roedd y canlyniadau'n gadarnhaol iawn ar y cyfan, a nodwyd meysydd y dylid rhoi sylw ychwanegol iddynt mewn perthynas â rheoli risg a strategaeth archwilio mewnol.

Mae cynllun gweithredu wedi'i lunio er mwyn mynd i'r afael â'r pwyntiau hyn dros y misoedd nesaf.


John Warren

Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio
5 Mehefin 2015

Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Ansawdd ac Amgylchedd

Aelodau: Stephen Palmer (Cadeirydd), Robert Ayling, Graham Edwards, Chris Jones, Peter Perry, Ian Christie (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Dŵr), Steve Wilson (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Dŵr Gwastraff), Tony Harrington (Cyfarwyddwr yr Amgylchedd), Steve Brown (Cynghorydd Annibynnol), Andrew Davies (Cynghorydd Annibynnol).

Rôl y Pwyllgor Ansawdd ac Amgylchedd yw rhoi cyngor i'r Bwrdd ar unrhyw fater sy'n ymwneud â pholisi ac arfer gweithredol mewn perthynas ag iechyd y cyhoedd a chydymffurfiaeth â rheoliadau a safonau dŵr yfed ac amgylcheddol, ynghyd â materion iechyd a diogelwch galwedigaethol.

Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod ar amrywiol safleoedd ledled ardal gyflenwi'r cwmni. Yn 2014-15, roedd y safleoedd hyn yn cynnwys cronfeydd dŵr a chanolfan ymwelwyr Cwm Elan, a Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Cynon. Bu'r Pwyllgor hefyd yn ymweld â'r gymuned yn Nhreorci, De Cymru a fu'n destun llifogydd carthion ym mis Rhagfyr 2013, gan ddysgu am y gwaith glanhau a'r cymorth a roddwyd i gwsmeriaid.

Cynhelir wyth cyfarfod o'r Pwyllgor bob blwyddyn a chaiff y rhain eu rhannu'n gyfartal rhwng ffocws ar fonitro perfformiad ac adolygu strategaethau'n fanwl.

Mae'r Pwyllgor yn adolygu perfformiad y cwmni'n fanwl yn erbyn dangosyddion allweddol sy'n ymwneud ag ansawdd dŵr, perfformiad amgylcheddol ac iechyd a diogelwch, yn sicrhau y caiff gwersi priodol eu dysgu o fethiannau mewn perfformiad; ac yn sicrhau bod strategaethau a gweithdrefnau priodol ar waith i gydymffurfio â gofynion statudol a rheoliadol.

Ymhlith y pynciau a gwmpaswyd gan y Pwyllgor yn 2014-15 roedd:

- ansawdd dŵr
- materion yn ymwneud â Chydymffurfiaeth Barthol Gymedrig
- materion yn ymwneud ag afliwio a chysylltiadau cwsmeriaid
- cronfeydd gwasanaeth
- gwasanaeth cwsmeriaid
- gollyngiadau
- llifogydd
- materion iechyd a diogelwch
- digwyddiadau yn ymwneud â llygredd

— cynnydd o ran perfformiad amgylcheddol ac ystyriaeth o effaith datblygiadau sy'n debygol yn y dyfodol

— arloesedd a strategaeth

Mae'r themâu parhaus a ystyriwyd gan y Pwyllgor wrth adolygu'r meysydd hyn o'r busnes yn ystod y flwyddyn wedi cynnwys pwyslais ar y canlynol:

— buddiannau mabwysiadu dull systematig o nodi achosion sylfaenol digwyddiadau ac achosion o fethu â chydymffurfio

— pwysigrwydd gwyddoniaeth ac arloesedd er mwyn gwella ein prosesau a'n systemau a buddiannau mentrau meincnodi a dadansoddi data

— meithrin cydberthnasau o ymddiriedaeth â rheoleiddwyr y cwmni

— monitro cynnydd yn erbyn strategaethau allweddol wedi'u hanelu at ddiogelu iechyd y cyhoedd, gwarchod yr amgylchedd a sicrhau diogelwch ein cyflogion a'n contractwyr;

— darparu gwasanaeth effeithlon i'n cwsmeriaid.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn adolygu canfyddiadau ymchwiliadau i unrhyw fethiannau o ran ansawdd dŵr, yr amgylchedd neu wasanaeth cwsmeriaid (ac yn gofyn am adroddiad penodol gan y Prif Swyddog Gweithredol ar gyfer y rheini sy'n fethiannau difrifol, ym marn y Pwyllgor), ac yn goruchwyllo'r rhaglen rheoli risg a'r rhaglen archwiliadau mewnol ac allanol. Cynhaliwyd adolygiad o ddigwyddiadau difrifol mewn perthynas â digwyddiadau yng Nghilfor, Pentre'r Eglwys a Threorci (adroddiad cau).

Mae'r Pwyllgor yn canolbwyntio ar y canlynol:

— dehongli a deall y data a gesglir gan y timau gweithredol mewn ffordd sy'n llywio'r gwaith o reoli risg a llunio cynlluniau strategol yn y dyfodol

— sicrhau bod trefniadau ar gyfer rheoli risg yn addas at y diben er mwyn nodi risgiau allweddol yn brydlon a'u rheoli'n briodol

— sicrhau y gellir gwella systemau a phrosesau yn parhaus a bod staff yn cael hyfforddiant priodol

— monitro swyddogaeth parhaus systemau a phrosesau a sicrhau goruchwyliaeth briodol gan reolwyr

— datblygu strategaethau i sicrhau cydymffurfiaeth â'n dyletswyddau statudol a'n gofynion rheoliadol

— mae'r data perfformiad o ran ansawdd dŵr ac ansawdd amgylcheddol y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn yn berthnasol i flwyddyn galendr 2014

— nodir gwybodaeth arall am berfformiad (megis mesurau gwasanaeth cwsmeriaid a pherfformiad yn erbyn safonau gwasanaeth Ofwat) ar gyfer y flwyddyn adrodd reoliadol, sef 1 Ebrill 2014 i 31 Mawrth 2015.



Yr Athro Stephen Palmer
Cadeirydd y Pwyllgor
Ansawdd ac Amgylchedd
5 Mehefin 2015



Adroddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth

Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor

Mae adroddiad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ar gyfer 2015 yn rhoi manylion am y gwynnabyddiaeth a dalwyd i'r Cyfarwyddwyr yn y flwyddyn ariannol 2014-15 a'n Polisi Cydnabyddiaeth ar gyfer 2015-16 a thu hwnt.

Nod ein Polisi Cydnabyddiaeth yw cysoni cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr Gweithredol â'r broses o roi strategaeth y Cwmni ar waith er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'n cwsmeriaid a diogelu'r amgylchedd. Mae'n dangos yn glir y cyswllt rhwng cydnabyddiaeth a pherfformiad yn flynyddol a thros y cyfnod rheoliadol o bum mlynedd.

Eleni oedd blwyddyn olaf cyfnod rheoliadol AMP5. AMP5 oedd y cyfnod mwyaf heriol ers i ni gael ein preifateiddio, gyda chynnydd mewn prisiau i gwsmeriaid Dŵr Cymru yn cael eu cadw islaw'r gyfradd chwyddiant ym mhob blwyddyn yn ystod y cyfnod. Er mwyn cyflawni hyn, bu'n rhaid i Dŵr Cymru leihau costau gweithredu rheoladwy tuag 20% cyn chwyddiant, ac ar yr un pryd wella perfformiad gwasanaeth cwsmeriaid, cyrraedd targedau defnyddioldeb heriol a chyflawni rhaglen buddsoddi cyfalaf gwerth £1.5 biliwn. Yn gyffredinol, mae perfformiad gwasanaethau wedi gwella dros gyfnod AMP5, yn unol â'n hamcanion. Bydd cryfder ariannol cynyddol y Cwmni yn helpu i greu mwy o werth i'n cwsmeriaid.

I gyd-fynd â dechrau'r cyfnod rheoliadol newydd, mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth wedi cynnal adolygiad o drefniadau tâl amrywiadwy. Rydym yn cynnig y dylid gwneud newidiadau i symleiddio'r Cynllun Tâl Amrywiadwy Blynnyddol ('AVPS') ac i alluogi'r Bwrdd a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth i ganolbwyntio'n fwy ar nifer lai o fesurau perfformiad bob blwyddyn er mwyn sicrhau gwelliant sylweddol yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Cafodd y Cynllun Tâl Amrywiadwy Hirdymor ('LTVPS') ei gysylltu â

chyfnod rheoliadol AMP5 ac, felly, mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn cynnig y dylid sefydlu LTVPS newydd.

Roedd y gwynnabyddiaeth a dalwyd i'r Cyfarwyddwyr Gweithredol mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 fel a ganlyn:

- cyflog sylfaenol (a gynyddwyd 2% ym mis Ebrill 2014). Yn ogystal, ym mis Medi 2014, flwyddyn ar ôl iddo gael ei benodi, cynhaliodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth adolygiad o gyflog sylfaenol y Prif Weithredwr ac, er mwyn cydnabod ei ddatblygiad yn y rôl hyd yn hyn, cymeradwywyd codiad cyflog i £284,000 y flwyddyn.
- o dan AVPS 2014-15, gwnaed dyfardaliadau a oedd yn gyfwerth â 24.7 o bwyntiau canrannol ('%') o'r cyflog sylfaenol ar gyfer perfformiad yn erbyn y Cerdyn Sgorio Perfformiad, 40.0% ar gyfer perfformiad costau gweithredu a 14.7% yn erbyn amcanion Strategol a Phersonol, gan wneud cyfanswm dyfarddal o 79.4% o'r cyflog sylfaenol. Mae hyn yn cymharu ag uchafswm o 100% o'r cyflog sylfaenol a dyfardaliadau o rhwng 49.8% a 53.6% o'r cyflog ar gyfer perfformiad yn 2013-14.
- o dan Gynllun Tâl Amrywiadwy Hirdymor 2010 (LTVPS), gellir gwneud dyfardaliadau fesul cam o dan elfen Cronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn y cynllun (gweler tudalen 82). 2014-15 oedd blwyddyn olaf y cynllun a phenderfynwyd bod y Dyfarddal Hirdymor gofynnol wedi'i gyflawni dros yr AMP pum mlynedd

ac felly cafodd Cyfarwyddwyr Gweithredol y 150% llawn o gyflog cyfartalog llai taliadau a wnaed hyd yma (talwyd 66% mewn cyfnodau blaenorol). Roedd Dŵr Cymru yn yr ail safle yn nhabl cynghair SIM Ofwat ar gyfer 2014-15, a arweiniodd at roi dyfarddal o 22.5% o gyflog o dan y Dyfarddal Gwasanaeth Cwsmeriaid a gyfrifir ar sail cyfartaledd dros gyfnod treigl o dair blynedd. (Gweler tudalen 80).

Ymunodd Peter Bridgewater â Byrddau Dŵr Cymru a Glas Cymru Cyfyngedig fel y Cyfarwyddwr Cyllid newydd ar 1 Medi 2014 ar gyflog o £229,500 y flwyddyn gyda phecyn cydnabyddiaeth sy'n unol â'n polisi yn y tabl fel y'i hamlinellir ar dudalen 77.

Pwyntiau allweddol mewn perthynas â chydabyddiaeth y Cyfarwyddwyr Gweithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaw i ben 31 Mawrth 2016:

- Cynyddwyd cyflogau Cyfarwyddwyr Gweithredol 1.5% ym mis Ebrill 2015. Mae hyn yr un peth â'r dyfarniad cyflog cyffredinol o 1.5% a gafodd cyflogaion.
- o dan y Cynllun Tâl Amrywiadwy Blynnyddol (AVPS), mae'r cwantwm (fel canran o'r cyflog) y gellir ei ennill yn 2015-16 yn parhau ar lefel o 100% o'r cyflog. Mae'r newidiadau i'r cynllun ar gyfer 2015-16 yn cynnwys newid pwysoliad yr elfennau gwahanol er mwyn rhoi mwy o ffocws a chymhelliant lle y mae angen y gwelliant mwyaf, gan leihau nifer y mesurau llwyddiant a mesur cost drwy TOTEX yn hytrach nag OPEX.



Nod ein Polisi
Cydnabyddiaeth yw
cysoni cydnabyddiaeth
Cyfarwyddwyr
Gweithredol â'r broses
o roi strategaeth
y Cwmni ar waith
er mwyn sicrhau'r
canlyniadau gorau
posibl i'n cwsmeriaid
a diogelu'r amgylchedd.
Mae'n dangos yn
glir y cyswllt rhwng
cydnabyddiaeth
a pherfformiad
yn flynyddol a thros
y cyfnod rheoliadol
o bum mlynedd.

—o dan yr LTVPS, mae'r cwantwm cyffredinol y gellir ei ennill yn ystod cyfnod rheoliadol AMP6 yn ddigyfnewid ar 300% (h.y. 60% y flwyddyn) o gyflog. Mae hanner yr LTVPS yn ddigyfnewid a bydd yn parhau'n ddibynnol ar wasanaeth cwsmeriaid. Bydd hanner arall y dyfarndal yn parhau i fod yn destun mesur ariannol ond cynigir, ar gyfer y cyfnod rheoliadol newydd, y defnyddir mesur cyfunol y twf mewn Cronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn a Throsoglwyddiadau i'r Cyfrif Talu Cwsmeriaid. Bydd taliadau mewn perthynas â'r dyfarndal hwn hyd at 30% o gyflog y flwyddyn ac ni fyddant yn ddarostyngedig i'r proffil taliad fesul cam a oedd yn bodoli o dan LTVPS AMP5.

Mae'r Pwyllgor yn fodlon, er bod y trefniadau cydnabyddiaeth yn cynnwys elfennau amrywiadwy sy'n gysylltiedig â pherfformiad, nad yw'r Polisi yn annog unigolion i gymryd risgiau sy'n amhriodol o ystyried proffil risg y Cwmni, a'i fod yn sicrhau bod lefelau cydnabyddiaeth yn codi a gostwng

yn dibynnu ar berfformiad. Mae cynnwys elfennau amrywiadwy o dâl hefyd yn sicrhau bod y Polisi yn ddigon cystadleuol i ddenu a chadw cyflogaion o safon uchel.

Ceir rhagor o fanylion am swyddogaethau ein Polisi Cydnabyddiaeth a'r ffordd y caiff ei roi ar waith yn ymarferol yn yr Adroddiad Polisi a'r Adroddiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth sy'n dilyn.

Yn unol â'r rheoliadau cydnabyddiaeth sy'n gymwys i gwmnïau a restrir yn y DU, yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2014, cyflwynwyd dau gynnig ar wahân a oedd yn cymeradwyo'r Adroddiad Polisi a'r Adroddiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth i Aelodau am y tro cyntaf. Yn sgil y newidiadau arfaethedig i AVPS ac LTVPS, yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol 2015, gofynnir i Aelodau bleidleisio ar ddau gynnig ar wahân unwaith eto i gymeradwyo'r Adroddiad Polisi newydd ac Adroddiad Blynyddol 2014-15 ar Gydnabyddiaeth. Yn ogystal, ceisir cymeradwyo'r Aelodau ar gyfer yr LTVPS newydd.

Paratowyd yr Adroddiad Cydnabyddiaeth hwn yn unol â darpariaethau atodlen 8 i Reoliadau Cwmnïau a Grwpiau Mawr a Chanolig (Cyfrifon ac Adroddiadau) (Diwygio) 2008 (fel y'u diwygiwyd) ac mae'n cydymffurfio'n llawn â darpariaethau Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU ('y Cod Llywodraethu').

James Strachan
Cadeirydd y Pwyllgor
Cydnabyddiaeth
5 Mehefin 2015



Adroddiad polisi

Polisi Cydnabyddiaeth

Caiff egwyddorion a fframwaith y Polisi Cydnabyddiaeth presennol eu cymeradwyo gan Aelodau yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol ar 3 Gorffennaf 2015 ac, os cânt eu cymeradwyo, byddant yn weithredol o ddyddiad y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol.

Nod y Polisi yw cysoni cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr Gweithredol â'r broses o roi strategaeth y Cwmni ar waith er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'n cwsmeriaid a diogelu'r amgylchedd. Mae'n dangos yn glir y cyswllt rhwng cydnabyddiaeth a pherfformiad yn flynyddol a thros y cyfnod rheoliadol o bum mlynedd a ddechreuodd ym mis Ebrill 2015 ('cyfnod AMP6'). Cyflawnir hyn drwy dalu cydnabyddiaeth ar lefelau sy'n ddigon cystadleuol i recriwtio a chadw cyflogaion o safon uchel a sicrhau, ar yr un pryd, y caiff pecynnau cydnabyddiaeth eu strwythuro fel nad ydynt yn annog pobl i gymryd risgiau amhriodol.

Cyflawnir y Polisi drwy:

- pennu lefelau cyflog sylfaenol a chyfanswm cydnabyddiaeth a ystyrir yn deg ac yn gystadleuol (pan gânt eu hasesu yn erbyn meincnodau'r farchnad o bryd i'w gilydd) gan ystyried profiad a chyfrifoldeb unigolyn.
- annog perfformiad gwell drwy sicrhau bod cyfran sylweddol o gyfanswm y gydnabyddiaeth yn cael ei rhoi drwy dâl amrywiadwy - er bod y rhan fwyaf o'r pecyn targed yn cynnwys cyflog sylfaenol er mwyn sicrhau na chaiff Cyfarwyddwyr Gweithredol eu hannog i gymryd risg amhriodol.
- sicrhau bod y cymhellion yn canolbwyntio ar berfformiad cymharol Dŵr Cymru - yn seiliedig ar wybodaeth annibynnol a gyhoeddwyd gan Ofwat, yr Arolygiaeth

Dŵr Yfed, Cyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr - gan hyrwyddo felly yr amcan o gael perfformiad sy'n arwain y sector mewn ffordd dryloyw ac atebol.

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn fodlon o hyd, er bod y Polisi Cydnabyddiaeth yn cynnwys elfennau amrywiadwy sy'n gysylltiedig â pherfformiad, nad yw'r Polisi yn annog pobl i gymryd risgiau sy'n amhriodol o ystyried proffil risg y Cwmni, a'i fod yn sicrhau bod lefelau cydnabyddiaeth yn codi a gostwng yn dibynnu ar berfformiad. Mae cynnwys elfennau amrywiadwy o dâl hefyd yn sicrhau bod y Polisi yn ddigon cystadleuol i ddenu a chadw cyflogaion o safon uchel. Mae hyn yn ei dro yn sicrhau ei fod yn gyson iawn â llwyddiant hirdymor Dŵr Cymru a buddiant ei gwsmeriaid.

Wrth lunio'r Polisi Cydnabyddiaeth a'i weithredu, mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn ystyried trefniadau cydnabyddiaeth ar draws y busnes cyfan ac yn ystyried effaith y Polisi yng ngoleuni materion cymdeithasol, amgylcheddol a llywodraethu ehangach.

Mae'r Cwmni yn negodi cyflogau ar gyfer y gweithlu ehangach gyda'r tri undeb llafur cydnabyddedig drwy ddull gweithredu un bwrdd. Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn ystyried y cynnydd y cytunwyd arno ar gyfer y sylfaen cyflogaion ehangach ac yn adolygu arferion ac amodau'r farchnad. Dylid nodi hefyd y caiff y Mesurau Llwyddiant a'r elfen cost a ddefnyddir yn AVPS Cyfarwyddwyr

Gweithredol eu cymhwyso mewn ffordd debyg fel rhan o drefniadau tâl amrywiadwy ymhob rhan o'r sefydliad, gan hyrwyddo diwylliant busnes unedig a chysondeb o ran asesu perfformiad.

Mae'r LTVPS yn canolbwyntio ar berfformiad strategol ac ariannol hirdymor Dŵr Cymru, ac fe'i cedwir ar gyfer y Cyfarwyddwyr Gweithredol sydd mewn sefyllfa i ddylanwadu ar y cyfryw berfformiad.

Mae Cadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn trafod materion cydnabyddiaeth gydag Aelodau yn rheolaidd mewn cyfarfodydd Aelodau ac mae'n gwerthfawrogi eu cyfraniad wrth helpu i lunio Polisi Cydnabyddiaeth Dŵr Cymru.

Mae'r tabl drosodd yn darparu crynodeb o'r elfennau sy'n rhan o becynnau cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr Gweithredol yn unol â Pholisi Cydnabyddiaeth Dŵr Cymru.

Er mwyn osgoi amheuaeth, wrth gymeradwyo'r polisi Cydnabyddiaeth hwn i Gyfarwyddwyr, rhoddir awdurdod i'r Cwmni anrhydeddu unrhyw ymrwymadau a wnaed â Chyfarwyddwyr cyfredol neu gyn-Gyfarwyddwyr sydd wedi'u datgelu mewn adroddiadau cydnabyddiaeth blaenorol. Caiff manylion unrhyw daliadau i gyn-Gyfarwyddwyr eu nodi yn yr Adroddiad Blyneddol ar Gydnabyddiaeth wrth iddynt godi fel sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau Cydnabyddiaeth.

	Diben a chyswllt â'r strategaeth	Gweithrediad	Cyfle	Metrigau perfformiad
Cyflog sylfaenol	Er mwyn helpu i recriwtio, cadw a chymell cyflogaion o safon uchel	Caiff ei adolygu bob blwyddyn fel arfer a chaiff unrhyw godiadau eu cymhwyso o 1 Ebrill. Mae'r adolygiad yn adlewyrchu: — rôl, profiad a pherfformiad — amodau economaidd ehangach — y codiadau a ddyferir i weddill y gweithlu ehangach — mae'n ystyried lefelau mewn cyflestodau eraill yn y farchnad ehangach o bryd i'w gilydd.	Yn gyffredinol, mae codiadau blynyddol yn gysylltiedig â'r rhai a geir yn y gweithlu ehangach er bod gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ddisgresiwn i ddyfarnu codiadau i unigolion uwchlaw'r lefel hon lle y bo'n briodol. Datgelir cyflogau cyfredol yn yr Adroddiad Blynyddol ar Gydabyddiaeth	Dim
Buddiannau	Er mwyn darparu pecyn buddiannau sy'n gystadleuol o gymharu â'r farchnad er mwyn helpu i recriwtio a chadw cyflogaion Mae buddiannau gofal iechyd yn hybu parhad y busnes.	Mae gan y cyfarwyddwyr yr hawl i yswiriant iechyd preifat ac yswiriant bywyd Mae gan y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Gweithredu hawl hanesyddol i yswiriant iechyd parhaol Nid yw'r cyfarwyddwyr yn cael ceir cwmni na lwfansau car Gall buddiannau eraill fel treuliau adleoli neu lwfansau teithio/llety gael eu cynnig fel y bo'n briodol.	Mae gwerth buddiannau yn seiliedig ar y gost i'r Cwmni ac ni chaiff ei bennu ymlaen llaw.	Dim
Pensiwn	Er mwyn helpu i recriwtio a chadw cyflogaion o safon uchel Darpariaeth cynllunio arwahanol ar ôl ymdddeol.	Mae'r Cwmni yn gweithredu cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig Lle byddai cyfraniadau naill ai'n fwy na'r terfynau ar gyfer cyfraniadau oes neu gyfraniadau blynyddol, gwneir darpariaeth drwy EFRBS nas ariannwyd Oedran ymdddeol arferol o 60 Caiff Cyfarwyddwyr Gweithredol newydd eu cofrestru'n awtomatig yng Nghynllun Pensiwn Personol Grŵp Dŵr Cymru gyda'r cyfle i optio allan a chael lwfans arian parod sy'n cyfateb i gyfraniad cyffredinol y Cyflogwr.	Cronni yn ôl hyd at un rhan o 45 o gyflog ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth pensiynadwy yn amodol ar uchafswm o ddwy ran o dair o gyflog pensiynadwy terfynol Y cyfraniad mwyaf y gall y cyflogwr ei wneud i Gynllun Pensiwn Personol Grŵp Dŵr Cymru yw 11% ar yr amod bod y cyflogai yn cyfrannu 6% neu fwy.	Dim
AVPS	Er mwyn cymell unigolion i gyflawni targedau ymestynol ac amcanion personol bob blwyddyn.	Caiff targedau AVPS eu hadolygu'n flynyddol gan y Pwyllgor Cynllunir y targedau mewn perthynas â meysydd busnes y mae gan y Cyfarwyddwyr Gweithredol reolaeth benodol drostynt Pennir yr alldro gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ar ôl diwedd y flwyddyn yn seiliedig ar berfformiad yn erbyn targedau — Telir fel arian parod — Ddim yn bensiynadwy — Darpariaethau adfachu yn gymwys o dan yr amgylchiadau canlynol: — Ailddatgan cyfrifon — Camliwio sylweddol — Camymddwyn difrifol neu niwed a achoswyd i enw da'r Cwmni neu Gwmniau'r Grŵp Gall dyfardaliadau AVPS gael eu hadfachu naill ai cyn talu'r dyfarddal ar gyfer Blwyddyn Ariannol benodol neu ar gyfer cyfnod o chwe blynedd o ddyddiad y taliad.	Y swm AVP mwyaf posibl yw 100% o'r cyflog, am gyflawni amodau perfformiad ymestynol	Caiff mesurau eu cysoni â themâu'r Cynllun Busnes sef Cwsmer, Cydymffurfiaeth a Chost, gyda targedau Ffocws blynyddol a Phersonol ychwanegol Gweler tudalen 79
LTVPS	— Er mwyn cysoni buddiannau hirdymor y Cyfarwyddwyr Gweithredol â buddiannau cwsmeriaid a rhanddeiliaid Dŵr Cymru — Er mwyn cymell unigolion i greu gwerth yn yr hirdymor — Er mwyn helpu i gadw cyflogaion	Dyfardaliadau arian parod yn seiliedig ar dargedau perfformiad ymestynol sy'n ymwneud â: — Perfformiad SIM cymharol am gyfnod treigl o dair blynedd — Mesur cyfunol o'r twf mewn Cronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn a Throsglwyddiadau i'r Cyfrif Talu Cwsmeriaid Mae darpariaethau adfachu yn gymwys o dan yr amgylchiadau canlynol: — Ailddatgan cyfrifon — Camliwio sylweddol — Camymddwyn difrifol neu niwed a achosir i enw da'r Cwmni neu Gwmniau'r Grŵp Gall dyfardaliadau LTVPS gael eu hadfachu naill ai cyn talu'r dyfarddal ar gyfer Blwyddyn Ariannol benodol neu ar gyfer cyfnod o chwe blynedd o ddyddiad y taliad.	300% o'r cyflog dros y cyfnod rheoliadol o bum mlynedd hyd at 31 Mawrth 2015.	50% yn seiliedig ar berfformiad SIM cymharol 50% yn seiliedig ar berfformiad ariannol Gweler tudalen 79
Cyfarwyddwyr Anweithredol	Mae'n rhai lefel briodol o ffi sefydlog i recriwtio a chadw unigolion ag ystod eang o brofiad a sgiliau er mwyn helpu'r Bwrdd i gyflawni ei ddyletswyddau.	Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn penderfynu ar y ffi sy'n daladwy i Gadeirydd y Bwrdd ac, ar wahân, mae'r Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r Cadeirydd yn cymeradwyo lefel y ffi sy'n daladwy i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol. Gall pob cyfarwyddwr gael ei dalu am dreuliau ychwanegol y eir iddynt mewn perthynas â'i rôl ar y Bwrdd ac unrhyw oblygiadau o ran buddiannau trethadwy sy'n deillio o hynny.	Ni thelir unrhyw ffioedd ychwanegol i Gyfarwyddwyr Anweithredol am gadeirio pwyllgorau	Dim
Penodiadau newydd	— Caiff lefelau cyflog sylfaenol eu pennu i adlewyrchu profiad yr unigolyn, data priodol ar y farchnad a gwybodaeth gymharol fewnol. Os ystyrir ei bod yn briodol penodi Cyfarwyddwr Gweithredol newydd ar gyflog sy'n is na lefel y farchnad, mae'n bosibl y caiff gyfres o godiadau cyflog hyd at y sefyllfa cyflog dymunol dros gyfnod priodol o amser yn amodol ar ei berfformiad yn y swydd. Bydd hyn yn gymwys i benodiadau mewnol ac allanol. — Y polisi fydd i'r Cyfarwyddwr Gweithredol newydd fod yn rhan o'r strwythur cydnabyddiaeth a nodir uchod. Gallai'r eithriadau i hyn gynnwys pennu mesurau gwahanol neu roi trefniadau trosiannol ar waith pe bai Cyfarwyddwr Gweithredol yn ymuno hanner ffordd drwy'r cyfnod rheoliadol o bum mlynedd. Ar gyfer y sawl a gaiff eu dyrchafu'n Gyfarwyddwyr Gweithredol yn fewnol, nid effeithir ar yr hawl i AVPS a gronnydd yn flaenorol, hyd at y dyddiad penodi. — Pe bai'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth o'r farn bod angen prynu tâl cymhelliant y byddai unigolyn yn ei ffordfedu pan fyddai'n gadael ei gyflogwr presennol, caiff iawndal o'r fath, lle y bo'n bosibl, ei strwythuro er mwyn sicrhau bod telerau'r prynu yn adlewyrchu ffurf a strwythur y gydnabyddiaeth a gaiff ei dosodi.			
Polisi ar gyfer taliadau i Gyfarwyddwyr Gweithredol sy'n ymadael	— Mae cyfnod rhybudd o 12 mis ynghlwm wrth gontractau gwasanaeth y Cyfarwyddwyr Gweithredol ac nid ydynt yn darparu ar gyfer talu iawndal os bydd y Cwmni yn terfynu contract yn gynnar. Yn ôl disgresiwn y Cwmni, gellir talu cyflog sylfaenol yn unig yn lle rhybudd i Gyfarwyddwr Gweithredol. Os bydd y Cwmni yn dewis gwneud taliad yn lle rhai rhybudd, mae elfen sylweddol o liniaru yn rhan o'r contract. — Pan fydd Cyfarwyddwr Gweithredol yn gadael oherwydd diswyddiadau ac nad yw'n ofynnol iddo weithio ei gyfnod rhybudd, bydd ganddo'r hawl i Dâl Diswyddo Statudol ynghyd â chyflog 12 mis yn lle rhybudd ynghyd â thâl yn lle gwyliu sydd wedi cronni ond nas cymerwyd. — Os bydd Cyfarwyddwr Gweithredol yn ymddiswyddo, disgwylir iddo weithio cyfnod rhybudd oni chytunir ar drefniant amgen megis absenoldeb garddio neu gyfnod rhybudd llai. — Os bydd y Cwmni yn terfynu cyflogaeth y Cyfarwyddwr Gweithredol, bydd y Cwmni yn gofyn am gyngor cyfreithiol a dim ond y swm y bydd gan y Cyfarwyddwr Gweithredol hawl gyfreithiol i'w gael a delir iddo. — Os daw cyflogaeth i ben, caiff dyfardaliadau AVPS ac LTVPS eu trin yn unol â rheolau'r cynllun perthnasol sy'n disgrifio'r modd yr ymdrinnir ag unrhyw daliad drwy gyfeirio at dermau gadael 'da' neu 'wael'.			

Contractau Gwasanaeth

Penodir y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol o dan lythyrau penodi, a gall y naill barti neu'r llall derfynu'r penodiad drwy roi rhybudd ysgrifenedig o dri mis.

Roedd dyddiadau llythyrau penodi'r Cyfarwyddwyr Anweithredol fel a ganlyn:

Bob Ayling	3 Ebrill '08
James Strachan	1 Mehefin '07
Stephen Palmer	26 Hydref '09
Menna Richards	22 Tachwedd '10
Anna Walker	3 Mawrth '11
John Warren	3 Mai '12
Graham Edwards	1 Hydref '13

Mae copïau o'r contractau gwasanaeth ar gael ar gais gan ysgrifennydd y cwmni.

Disgresiwn y Pwyllgor Cydnabyddiaeth

Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn gweithredu'r Cynllun Tâl Amrywiadwy Blynnyddol a'r Cynllun Tâl Amrywiadwy Hirdymor yn unol â rheolau'r Cynllun perthnasol ac arfer arferol y farchnad, gan gynnwys hyblygrwydd o ran sawl ystyriaeth. Mae'r ffordd y bydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn sicrhau hyblygrwydd yn cynnwys ystyriaeth o'r canlynol:

- pryd i wneud dyfardaliadau a thaliadau
- sut i bennu maint dyfardal, taliad, neu pryd a faint y dylid ei roi
- sut i ymdrin â newid o ran rheoli neu ailstrwythuro'r Grŵp
- p'un a yw cyfarwyddwr yn ymadawr da/gwael at ddibenion y cynllun cymhelliant a pha gyfran o ddyfardaliadau a roddir ar yr adeg ymadael neu ar y dyddiad(au) talu gwreiddiol, os o gwbl
- beth ddylai'r pwysoliad, y mesurau a'r targedau fod ar gyfer y Cynllun Tâl Amrywiadwy Blynnyddol a'r Cynllun Tâl Amrywiadwy Hirdymor o flwyddyn i flwyddyn.

O fewn y polisi, gall y Pwyllgor Cydnabyddiaeth hefyd, yn ôl ei ddisgresiwn, addasu targedau a/neu bennu mesurau gwahanol a newid pwysoliadau ar gyfer y Cynllun Tâl Amrywiadwy Blynnyddol ac addasu targedau ar gyfer y Cynllun Tâl Amrywiadwy Hirdymor os bydd pethau'n digwydd sy'n peri i'r Pwyllgor benderfynu na all y cynlluniau gyflawni eu diben bwriadedig gwreiddiol.


Polisi ar benodiadau allanol

Mae'r Bwrdd yn cydnabod budd profiad ehangach y gellid ei gael drwy ymwneud Cyfarwyddwyr Gweithredol â gweithgareddau allanol. Mae unrhyw benodiad yn cael ei gymeradwyo'n flynyddol gan y Pwyllgor ac, yn amodol ar gytundeb y Pwyllgor, caiff Cyfarwyddwr gadw unrhyw ffioedd.

Senarios Perfformiad

Nod y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yw rhoi cyfran briodol o gyfanswm cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr Gweithredol drwy dâl amrywiadwy sy'n gysylltiedig â pherfformiad. Mae ffigur 1 yn dangos dadansoddiad o werth elfennau amrywiol y pecyn cydnabyddiaeth, gan dybio y caiff lefelau perfformiad trothwy, lefelau perfformiad targed a'r lefelau perfformiad uchaf posibl eu cyflawni. Nod y Pwyllgor Cydnabyddiaeth, ar lefel perfformiad targed, yw y bydd tua 60% o gyfanswm y pecyn cydnabyddiaeth yn sefydlog ac y bydd tua 40% yn amrywiadwy.

Ffigur 1 Elfennau Pecyn Cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr Gweithredol sy'n dangos Enillion Sylfaenol, Enillion Targed ac Uchafswm Enillion



Gwnaethpwyd y tybiaethau canlynol wrth baratoi'r siartiau hyn:

- Tâl sefydlog yn unig - tâl sefydlog yn unig heb unrhyw freinio o dan AVPS nac LTVPS. Mae tâl sefydlog yn cynnwys cyflog ar 1 Ebrill 2015, gwerth buddionnau a chynnydd yng ngwerth pensiwn yn y flwyddyn orionol 2014-15 fel y'i datgelir yn ffigur 8 ar dudalen 83. Mae'r ffigur pensiwn ar gyfer Chris Jones yn sylweddol uwch na ffigurau blynnyddoedd blaenorol a ffigurau a ddisgwyllir yn y dyfodol oherwydd y codiadau cyflog a ddeilliodd o'i ddychafiad i rôl Prif Weithredwr.
- Cyfanswm targed - tâl sefydlog ynghyd ag AVPS o 60% o'r uchafswm (h.y. 60% o'r cyflog), ac LTVPS o 50% o'r uchafswm (h.y. 30% o'r cyflog).
- Uchafswm posibl - tâl sefydlog ynghyd ag uchafswm AVPS ac LTVPS.
- Dechreuodd y Cyfarwyddwr Cyllid yn ei rôl ar 1 Medi 2014. Fodd bynnag, defnyddiwyd ffigurau fesul blwyddyn.



Adroddiad Blynyddol ar Gydnabyddiaeth



Polisi Cydnabyddiaeth ar gyfer Cyfarwyddwyr Gweithredol yn fanylach

Cyflog

Yn dilyn adolygiad ym mis Mawrth 2015, mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth wedi pennu'r cyflogau sylfaenol ar gyfer y Cyfarwyddwyr Gweithredol ar gyfer 2015 (yn weithredol o 1 Ebrill 2015) fel y nodir yn ffigur 2. Mae hyn yn adlewyrchu'r codiad cyfartalog yng nghyflogau cyflogaion, sef 1.5%. Mae'r Cwmni yn negodi â chyflogaion drwy ddull gweithredu un bwrdd gyda'r undebau llafur GMB, UNSAIN ac UNITE. Yn ystod y trafodaethau ar ddyfarniadau cyflog cyffredinol i gyflogaion yn 2015, ystyriwyd manylion cyflogau Cyfarwyddwyr Gweithredol Dŵr Cymru a Chyfarwyddwyr Gweithredol y Diwydiant Dŵr yn gyffredinol.

Ffigur 2 Cyflogau sylfaenol
Cyfarwyddwyr Gweithredol

	Yn weithredol o 1 Ebrill 2014	Yn weithredol o 1 Medi 2014	Yn weithredol o 1 Ebrill 2015
Chris Jones	£275,400	£284,000	£288,261
Peter Perry	£229,500	Dim newid	£232,943
Peter Bridgewater	Dd/G	£229,500	£232,943

Yn ystod y flwyddyn, yn sgil adolygiad o'r ffioedd sy'n daladwy i'r Cyfarwyddwyr Anweithredol, cafodd y ffioedd eu rhewi ar lefelau 2014. Dangosodd data meincnodi a ddarparwyd yn annibynnol gan New Bridge Street ('NBS') fod y ffioedd fwy neu lai yn unol â lefelau canol y farchnad.


Nid yw'r ffioedd sy'n daladwy ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddechreuodd ar 1 Ebrill 2015 wedi newid ers 2014:

	2015	2014
Codeirdd	£212,000	£212,000
Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol	£68,700	£68,700
Cyfarwyddwr Anweithredol	£58,000	£58,000

Cynllun Tâl Amrywiadwy Blynyddol (AVPS)

Mae'r uchafswm tâl amrywiadwy y gall Cyfarwyddwyr Gweithredol ei ennill o dan yr AVPS yn 2015-16 yn ddigyfnewid ac yn cyfateb i 100% o'r cyflog sylfaenol. Asesir cyflawniad tâl amrywiadwy ar sail pum elfen, fel y nodir yn ffigur 3. Nid yw'r targedau penodol ar gyfer 2015-16 wedi'u datgelu gan eu bod yn cael eu hystyried yn rhai masnachol sensitif ond cânt eu datgelu'r flwyddyn nesaf. O ran y newidiadau a wnaed ar gyfer 2015-16, mae nifer y metrigau o ran mesurau Cwsmeriaid a Chydymffurfiaeth wedi'i leihau er mwyn sicrhau y rhoddir mwy o bwyslais ar y meysydd pwysicaf yng Nghynllun Busnes PR14 a chynyddu'r ffocws blynyddol yn y Cynllun. Yn ogystal, bydd y Bwrdd a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn dewis nifer fach o fesurau bob blwyddyn ar gyfer yr elfen ffocws blynyddol gyda'r nod o sicrhau gwelliant amlwg yn ystod y flwyddyn i ddod, a chaiff y pwysoliad yn yr AVPS ei gynyddu'n sylweddol. Defnyddir Totex, yn hytrach na'r gost weithredu yn unig, fel metrig ar gyfer mesur costau, gan ei fod yn fesur mwy cynhwysfawr a symlach o wariant a bydd yn cyd-fynd â'r modd y caiff cyllidebau'r cwmni eu pennu.

Ffigur 3 Strwythur y Cynllun Tâl Amrywiadwy Blynyddol



Cynllun Tâl Amrywiadwy Hirdymor 2015 (LTVPS)

Amcan yr LTVPS yw cysoni'r agweddau tymor hwy ar gyfanswm y gydnabyddiaeth â pherfformiad y Cwmni dros y cyfnod rheoliadol o bum mlynedd a ddaw i ben 31 Mawrth 2020. Mae'r dyfarnaliadau yn cynnwys taliad arian parod. O dan yr LTVPS, gellir rhoi dau fath o ddyfarnal arian parod:

— Dyfarnal Gwerth i Gwsmeriaid, sy'n cyfuno dau fesur ariannol o'r cynnydd mewn cronfeydd cwsmeriaid wrth gefn a throsglwyddiadau i'r cyfrif talu cwsmeriaid dros y cyfnod rheoliadol. Mae'r cynnydd mewn Cronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn (fel mesur o sefyllfa ariannol) a'r trosglwyddiadau i Gyfrif Talu Cwsmeriaid (fel mesur o lifau ariannol), a gaiff eu cyfrifo ar wahân ond a gaiff eu hychwanegu at ei gilydd, yn nodi cyfanswm y gwerth a gynhyrchir i gwsmeriaid (a ddychwelwyd ac a gadwyd) gan y cwmni.

Caiff newidiadau mewn chwyddiant lai o ddylanwad ar y cynnydd mewn Cronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn o gymharu â'r mesur Cronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn yn seiliedig ar Werth Cyfalaf Rheoliadol (RCV) yn ei gyfarwydd, sef un o'r mesurau yn LTVPS 2010. Caiff perfformiad y Cwmni fwy o ddylanwad ar gyflawni'r mesur gwerth cwsmeriaid. Yn y pen draw, dyma'r amcan ariannol pwysicaf i'r tîm Gweithredol. Mae'r mesur cyfunol hwn, sy'n parhau i fod yn benodol i'r Cwmni, yn mesur perfformiad yn erbyn y targedau a bennwyd gan y Cwmni sy'n gyson â'r Cyllun pum mlynedd;

— Dyfarnol Gwasanaeth Cwsmeriaid, a fesurir yn ôl safle cyfartalog y Cwmni yn nhabl cynghrair Ofwat ar gyfer SIM dros gyfnod treigl o dair blynedd. Felly caiff y Dyfarnol Gwasanaeth Cwsmeriaid ei lywio gan berfformiad cymharol y Cwmni o'i gymharu â chwmnïau eraill yn y sector ac mae'n gwobrwyo'r perfformiad hwnnw hefyd.

Mae targedau perfformiad LTVPS yn adlewyrchu uchelgais y Bwrdd y dylai Dŵr Cymru gael ei restru ochr yn ochr â phrif gwmnïau'r diwydiant ar fesurau allweddol o ran gwasanaeth cwsmeriaid ac effeithlonrwydd ariannol hirdymor er budd cwsmeriaid. Defnyddir SIM ar gyfer y Dyfarnol Gwasanaeth Cwsmeriaid ac mae'n cynnwys dau fesur gwasanaeth cwsmeriaid. Mae un yn fesur ansoddol sy'n adlewyrchu canlyniadau gwaith ymchwil annibynnol a wnaed ar ran Ofwat i nodi boddhad cwsmeriaid â'r gwasanaeth a gawsant, ac mae'r llall yn fesur meintiol sy'n cwmpasu cwynion gan gwsmeriaid a galwadau diangen. Disgrifir y targedau perfformiad o dan bob un o'r dyfarnodiadau LTVPS yn fanylach yn ffigur 4.

Dangosir y cyfnod y penderfynir ar berfformiad a'r dyddiadau talu posibl yn ystod y cyfnod rheoliadol hyd at 31 Mawrth 2020 yn y diagram yn ffigur 5.


Nodir manylion y taliadau a wnaed o dan LTVPS ar gyfer 2014-15 yn ffigur 6, 'Taliadau a buddiannau a enillwyd gan Gyfarwyddwyr yn 2014-15', ar dudalen 81.

Ffigur 4 Mesurau perfformiad LTVPS

	Gwasanaeth Cwsmeriaid	Gwerth i Gwsmeriaid ¹
Mesurau perfformiad	Mesurir drwy gyfeirio at fesur SIM Ofwat.	Gwerth gwirioneddol a grëwyd i gwsmeriaid (cynnydd mewn cronfeydd cwsmeriaid wrth gefn a throsglwyddiadau i gyfrif talu cwsmeriaid) ar 31 Mawrth 2020 (diwedd cyfnod AMP6) o gymharu â'r targedau.
Rhesymeg dros y mesurau dethol	Mesur SIM Ofwat o brofiad y defnyddiwr sy'n annibynnol, gwrthrychol a mesuradwy, ac sy'n ei gwneud yn bosibl i berfformiad cymharol gael ei gymharu â chwmnïau dŵr a charthffosiaeth eraill.	Dyma'r mesur ariannol mwyaf cadarn o gyfanswm y gwerth a gynhyrchir i gwsmeriaid gan y Cwmni.
Cyfnod y Perfformiad	Tair Blynedd Ariannol yn union cyn y Flwyddyn Ariannol y gwneir dyfarnol ynddi	1 Ebrill 2015 hyd at 31 Mawrth 2020
Targed o ran perfformiad ^{2,3}	O blith 10 o gwmnïau dŵr a charthffosiaeth y DU: — 100% o'r dyfarnol yn daladwy am gyrraedd y safle cyntaf — 75% o'r dyfarnol yn daladwy am gyrraedd yr ail safle — 50% o'r dyfarnol yn daladwy am gyrraedd y trydydd safle — 25% o'r dyfarnol yn daladwy am gyrraedd y pedwerydd safle — 0% o'r dyfarnol yn daladwy am gyrraedd y pumed safle neu is.	Uchafswm o 30% o'r dyfarnol bob blwyddyn os yw'r gwerth a grëir yn unol â'r targedau a bennir bob blwyddyn ond a bennir dair blynedd ymlaen llaw. — 100% o'r dyfarnol yn daladwy am gyflawni targed ymestynnol — 66% o'r dyfarnol yn daladwy am gyflawni'r targed — 0% am berfformiad sy'n cyrraedd y trothwy neu sy'n is na'r trothwy — Dyfarnol pro rata yn daladwy am berfformiad rhwng y terfynau hyn — Ar gyfer y tri chyfnod perfformiad cyntaf, y targed o ran Gwerth i Gwsmeriaid ar gyfer blwyddyn olaf pob cyfnod yw £68 miliwn, £52 miliwn a £44 miliwn.

1. Gellir diwygio'r targedau gwerth i gwsmeriaid mewn rhai amgylchiadau yn ôl disgrisiwn y Pwyllgor. Mae'r rhain yn cynnwys lle mae (i) gwahaniaethau rhwng y chwyddiant gwirioneddol a'r tybiaethau a wnaed yn wreiddiol; (ii) unrhyw ffactorau allanol sylweddol eraill y mae'r Pwyllgor yn penderfynu eu bod y tu hwnt i reolaeth y Cyfarwyddwyr Gweithredol.
2. Gellir gohirio taliadau yn ôl disgrisiwn y Pwyllgor os bydd dirywiad sylweddol mewn perfformiad. Gellir gohirio taliadau am hyd at ddwy flynedd, neu nes bod y diffyg wedi'i unioni, p'un bynnag a ddigwydd gyntaf.
3. Wrth benderfynu ar lefel unrhyw dyfarnol, bydd y Pwyllgor yn ystyried safle bondiau'r Grŵp a gall yn ôl ei ddisgrisiwn ohirio'r dyfarnol cyfan neu ran ohono os cânt eu gwlyio gan asiantaethau credyd neu eu hisraddio.

Ffigur 5 Cyfnod perfformiad LTVPS



2

Beth a dalwyd yn 2014-15 a'r cyswllt rhwng cyflog a pherfformiad

Taliadau a wnaed i Gyfarwyddwyr yn 2014-15

Mae ffigur 6 yn nodi enillion Cyfarwyddwyr mewn perthynas â'r flwyddyn a ddaeth i ben 6 Mawrth 2015 o gymharu â'r flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014.

Ffigur 6 Taliadau a buddiannau a enillwyd gan Gyfarwyddwyr yn 2014-15 (archwiliedig)

	Cyflog/Ffioedd		Buddiannau trethadwy ¹		Arall ²		AVP ³		LTVPS ⁴		Cyfanswm	
	13-14	14-15	13-14	14-15	13-14	14-15	13-14	14-15	13-14	14-15	13-14	14-15
CJ	251,873	280,417	905	860	-	-	128,707	222,651	138,531	186,092	520,016	690,020
PB		133,875		502	-	55,000		106,297				295,674
PP	221,028	229,500	905	860	-	-	118,471	182,223	121,567	159,295	461,971	571,878
NA	287,254	-	905	-	-	-	143,196	-	157,991	-	589,346	-
RA	121,331	212,000									121,331	212,000
JB⁵	137,750	22,900									137,750	22,900
SP	57,000	58,000									57,000	58,000
JS	57,000	58,000									57,000	58,000
MR	62,250	65,133									62,250	65,133
AW	57,000	58,000									57,000	58,000
JW	57,000	58,000									57,000	58,000
GE	28,500	58,000									28,500	58,000
Cyf.	1,337,986	1,233,825	2,715	2,222		55,000	390,374	511,171	418,089	345,387	2,149,164	2,147,605

	Pensiwn ⁶	
	13-14	14-15
CJ	221,553	283,668
PB		14,726
PP	66,170	30,904
NA	120,544	-
Cyf.	408,267	329,298

	Cyfanswm ⁷	
	13-14	14-15
CJ	741,569	973,688
PB		310,400
PP	528,141	602,782
NA	709,890	
Ffioedd Cyfarwyddwyr Anweithredol	577,831	590,033
Cyfanswm	2,557,431	2,476,903

Mae'r wybodaeth yn ffigur 6 wedi'i harchwilio gan PwC.

Newidiadau o ran cyfarwyddwyr: Penodwyd Graham Edwards yn Gyfarwyddwr Anweithredol ar 1 Hydref 2013. Dechreuodd Peter Bridgewater yn ei rôl ar 1 Medi 2014. Ymddiswyddodd Nigel Annett o'r Bwrdd ar 1 Medi 2013 ond parhaodd yn ei swydd tan iddo ymddol ar 31 Mawrth 2014 er mwyn sicrhau trosglwyddiad llyfn i Chris Jones a ddychafwyd yn Brif Weithredwr ar 1 Medi 2013. Dychafwyd Peter Perry yn Brif Swyddog Gweithredu ar 1 Medi 2013.

- Buddiannau trethadwy sy'n ymwneud ag yswiriant iechyd preifat.
 - Mae 'arall' yn ymwneud â phrynu bonysau blynyddol a dyfardal LTIP y gwnaeth Peter Bridgewater ei ffordfedu pan adawodd ei gyflogwr blaenorol. Pennir y rhain fel y'i hamlinellir yn ein polisi ar dudalen 77. Mae hefyd yn cynnwys lwfans teithio a llety.
 - Gweler Pennu Canlyniad AVPS ar dudalen 82. Arweiniodd perfformiad gwell yn 2014-15 yn erbyn targedau AVPS at daliad uwch (79.4% o gyflog) o gymharu â 2013-14 (49.9-53.6%).
 - Gweler Pennu Canlyniad LTVPS ar dudalen 82. Mae datgeliadau LTVPS 2013-14 wedi'u hailddatgan er mwyn adlewyrchu dyfardal o 15% mewn perthynas og elfen gwasanaeth cwsmeriaid y cynllun yn sgil cyhoeddi canlyniadau SIM ar ôl cymeradwyo Adroddiad a Chyfrifon 2014 Glas Cymru. Roedd y canlyniad terfynol yn wahanol i'r canlyniad amcangyfrifedig. Yr effaith oedd cynyddu dyfardaliadau LTVPS i Chris Jones, Peter Perry a Nigel Annett £34,782, £33,156 a £43,089 yn y drefn honno. Talwyd y swm hwn i Nigel Annett ar ôl iddo ymddiswyddo fel Rheolwr Gyfarwyddwr. Ar gyfer 2014-15, mae'r taliadau LTVPS yn cynnwys taliadau cydbwysio ar gyfer y cynllun pum mlynedd sy'n ystyried taliadau fesul cam a dderbyniwyd eisoes mewn blynyddoedd blaenorol. Y taliadau cydbwysio oedd £51,997 i Chris Jones a £43,465 i Peter Perry.
 - Ymgymrodd John Bryant â rôl y Cadeirydd am gyfnod o chwe mis o 1 Mai 2013 tra rhoddodd Robert Ayling y gorau i'r rôl dros dro. Ymgymrodd Menno Richards â rôl Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol o 1 Mai 2013 tra roedd John Bryant yn Gadeirydd dros dro. Rhoddodd John Bryant y gorau i'r rôl yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar 4 Gorffennaf 2014.
 - Mae'r cyfraniad pensiwn ar gyfer Peter Bridgewater yn lwfans arian parod amgen.
- Mae'r ffigurau pensiwn ar gyfer Chris Jones a Peter Perry wedi'u hailddatgan ar gyfer 2013-14 er mwyn caniatáu ar gyfer amseru'r cynnydd canol blwyddyn a dderbyniwyd ar ôl iddynt gael eu dychafu'n Brif Weithredwr a Phrif Swyddog Gweithredu. Mae'r ffigur pensiwn ar gyfer Chris Jones yn sylweddol uwch na ffigurau blynyddoedd blaenorol o'r ffigur a ddisgwyllir yn y dyfodol oherwydd y codiadau cyflog a ddeilliodd o'i ddychafiad i rôl Prif Weithredwr.

- Y Cyfarwyddwr a gafodd y tâl mwyaf yn 2014-15 oedd Chris Jones a gafodd £973,688 (2014: £741,569).

Pennu canlyniad AVPS 2014-15

Ar gyfer 2014-15, mesurodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth berfformiad yn erbyn pob targed, sy'n uniongyrchol gysylltiedig â chyflawni strategaeth y Cwmni, fel y nodir yn y tabl isod. Arweiniodd perfformiad cymeradwy yn 2014-15 at ddyfardal AVPS o 79.4% o gymharu â rhwng 49.9% a 53.6% ar gyfer y tri Chyfarwyddwr Gweithredol yn 2014-15.

Ffigur 7 Canlyniad AVPS 2014-15 (archwiliedig)

Mesur	Metrig	Pwysoliad	Crynodeb o'r targedau	Canlyniad	% o'r uchafswm	% o'r cyflog
Cwsmer a Chydymffurfiaeth	Cerdyn Sgorio Perfformiad	40%	Targed 1,800 o bwyntiau Ymestyn 2,700 o bwyntiau	1,837	62%	24.7%
Cost	Effeithlonrwydd cost weithredu	40%	Trothwy £315m Targed £304m Ymestyn £296m	£296m	100%	40%
Strategol	Cronfeydd gwasanaeth Mesurau gorlifoedd carthffosydd cyfun Gwasanaeth cwsmeriaid (nifer y cwynion ysgrifenedig, camau 1 a 2)	10%	Targed 99.97% Targed 186 Targed 3,500	99.98% 145 3,314	72%	7.2%
Personol	Cynllun Busnes PR14, cyflawni SIM, cyflwyno gweithrediadau Darbodus a phrosesau cynnal a chadw ar nifer o safleoedd, cyflawni targed Opex	10%	Cyflawni amcanion personol		75%	7.5%
Cyfanswm		100%			79.4%	79.4%

Pennu canlyniad LTVPS 2014-15 (archwiliedig)

Wrth bennu perfformiad yn erbyn yr elfen Gwasanaeth Cwsmeriaid, roedd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn ymwybodol mai dim ond ar gyfer yr elfen ansoddol y bydd Ofwat yn cyhoeddi sgoriau SIM ar gyfer 2014-15. Er mwyn sicrhau bod pwysoliad cyfartal yn cael ei gymhwyso at bob un o dair blynedd y cyfnod perfformiad, amcangyfrifodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth y sgôr feintiol yn seiliedig ar y gymhareb gyfartalog sgôr ansoddol i sgôr feintiol yn 2012-13 a 2013-14. Os mabwysiedir y dull hwn, mae gradd SIM Dŵr Cymru yn yr ail safle o gymharu â graddau SIM cwmnïau dŵr a charthffosiaeth eraill dros y cyfnod perfformiad o dair blynedd hyd at 31 Mawrth 2015. O ganlyniad, mae dyfardal o 22.5% yn daladwy. Yr uchafswm posibl yw 30% o'r cyflog.

Ar gyfer yr elfen Cronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn o'r cynllun a fesurwyd rhwng 1 Ebrill 2010 a 31 Mawrth 2015, gwnaed taliad terfynol o rhwng 43.9 a 46.9% o'r cyflog. Roedd hyn yn seiliedig ar benderfyniad y Pwyllgor Cydnabyddiaeth fod Cronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn ar 31 Mawrth 2015, sef £1,947 miliwn, yn uwch na'r £100 miliwn gofynnol uwchlaw targed Cynllun Busnes 2010 ar gyfer taliadau llawn. O ganlyniad, enillwyd y dyfardal mwyaf o ran Cronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn. Nid yw'r uchafswm taliad cam olaf o 50% wedi'i wneud gan fod y dyfardal terfynol wedi'i gyfrifo yn seiliedig ar yr uchafswm dyfardal o 150% o'r cyflog cyfartalog dros y cyfnod AMP o bum mlynedd llai taliadau fesul cam a dalwyd eisoes. Cymhwyswyd cyfrifiad "unioni".

Yn sgil y perfformiad hwn ym mlwyddyn olaf y cyfnod mesur, penderfynodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth nad oedd angen adfachu unrhyw symiau a dalwyd yn floenorol drwy daliadau fesul cam a'r cyfanswm a enillwyd o dan yr elfen hon.

Buddiannau pensiwn

Ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015, roedd Chris Jones a Peter Perry ill dau yn aelodau o Gynllun Pensiwn Dŵr Cymru ('y Cynllun'), sy'n drefniant buddiannau diffiniedig.

Mae buddiannau yn cronni yn ôl 1 rhan o 45 (Chris Jones) neu 1 rhan o 60 (Peter Perry) o Gyflog Pensiynadwy Terfynol y flwyddyn o Wasanaeth Pensiynadwy, yn amodol ar uchafswm pensiwn ar oedran ymddeol arferol o ddwy ran o dair o Gyflog Pensiynadwy Terfynol. Mae'r Cynllun hefyd yn darparu yswiriant bywyd ar gyfradd pedair gwaith Cyflog Pensiynadwy am farwolaeth mewn swydd, pensiwn taladwy os bydd ymddeoliad oherwydd salwch a phensiwn i briod sy'n daladwy os bydd aelod yn marw. Caiff y Cyfarwyddwyr Gweithredol fudd o yswiriant iechyd preifat. Caiff Chris Jones a Peter Perry fudd hefyd o yswiriant iechyd parhaol.

Mae Chris Jones a Peter Perry yn Aelodau Lwfans Oes a/neu Lwfans Blynyddol wedi'u Capio o'r Cynllun a, lle mae eu buddiannau yn rhagori ar derfynau CThEM, darperir buddiannau ychwanegol drwy Gynllun Buddiannau Ymddeol a Ariennir gan y Cyflogwr (EFRBS). Ni chaiff goblygiadau'r Cwmni o dan y cynllun EFRBS hwn eu hariannu. Fodd bynnag, mae'r cyfryw oblygiadau yn gyfrwerth â rhwymedigaethau'r Cwmni, sy'n daladwy pan fyddant yn ddyledus.

Dangosir y buddiannau pensiwn a enillwyd gan y Cyfarwyddwyr sy'n rhan o'r Cynllun yn ystod y flwyddyn yn ffigur 8 sydd wedi'i archwilio.

Ers iddo gael ei gyflogi ar 1 Medi 2014, mae Peter Bridgewater wedi optio allan o Gynllun Pensiwn Personol Grŵp Dŵr Cymru ac mae'n derbyn lwfans arian parod o 11% o'i gyflog yn lle hynny.

Ffigur 8 Dangosir y buddiannau pensiwn a enillwyd gan y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Gweithredu yn y Cynllun yn ystod y flwyddyn isod (archwiliedig)

Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 (ailldatganwyd)

	Oedran Ymdeol Arferol	Pensiwn a gronwyd ar 31 Maw 2013	Gwerth cyfalafedig y pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2013	Gwerth cyfalafedig wedi'i ailbriso'r pensiwn cronedig ar 31 Maw 2013 ¹	Pensiwn a gronwyd ar 31 Maw 2014	Gwerth cyfalafedig y pensiwn cronedig ar 31 Maw 2014	Cyfraniadau a dalwyd gan yr aelod yn ystod y flwyddyn 2014	Swm Mewnbyn Pensiwn (yn rhydd o gyfraniadau'r aelod) 2014 ²
Chris Jones	60	£92,499	£1,849,980	£1,890,680	£106,745	£2,134,902	£22,669	£221,553
Peter Perry	60	£116,220	£2,324,400	£2,375,537	£123,080	£2,461,600	£19,893	£66,170

Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015

	Oedran Ymdeol Arferol	Pensiwn a gronwyd ar 31 Maw 2014	Gwerth cyfalafedig y pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2014	Gwerth cyfalafedig wedi'i ailbriso'r pensiwn cronedig ar 31 Maw 2014 ¹	Pensiwn a gronwyd ar 31 Maw 2015	Gwerth cyfalafedig y pensiwn cronedig ar 31 Maw 2015	Cyfraniadau a dalwyd gan yr aelod yn ystod y flwyddyn 2015	Swm Mewnbyn Pensiwn (yn rhydd o gyfraniadau'r aelod) 2015 ²
Chris Jones	60	£106,745	£2,134,902	£2,192,544	£125,072	£2,501,449	£25,238	£283,668
Peter Perry	60	£123,080	£2,461,600	£2,528,063	£128,981	£2,579,622	£20,655	£30,904

Mae'r wybodaeth yn y tabl uchod wedi'i harchwilio gan PwC.

Nodiadau ar Fuddiannau:

- Cynyddwyd yn unol â'r ffigur twf CPI gwirioneddol ar gyfer y mis Medi blaenorol - 2.2% ar gyfer cyfnod datgelu 2014 a 2.7% ar gyfer 2015.
- Yn seiliedig ar werth cyfalafedig y pensiwn cronedig ar ddiwedd y flwyddyn, llai gwerth cyfalafedig wedi'i ailbriso'r pensiwn cronedig ar ddechrau'r flwyddyn.
 - Mae pensiynau cronedig yn cynnwys Gwasanaeth Pensiynadwy blaenorol a gwbhawyd o dan Gynlluniau Pensiwn Hyder Water ac United Utilities.
 - Mae'r ffigurau pensiwn cronedig yn cynnwys yr hawliadau safonol o fewn y Cynllun (sy'n gyfyngedig yn unol â therfynau CThEM) a'r buddiannau ychwanegol sy'n daladwy o dan y Cynllun Buddiannau Ymdeol a Ariennir gan y Cyflogwr (EFRBS).
- Yn unol â rheoliadau adrodd newydd, caiff y buddiannau pensiwn eu cyfrifo ar sail sy'n gyson â "Dull Lwfans Blynnyddol" CThEM ar gyfer pennu gwerth trethadwy pensiynau buddiannau diffiniedig.

Nodiadau ar Ddatgeliadau:

Mae'r datgeliadau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014 wedi'u hailddatgan er mwyn caniatáu ar gyfer amseru codiadau cyflog canol blwyddyn a ddyfarnwyd i Chris Jones a Peter Perry ar 1 Medi 2013. Mae'r datgeliadau ar 31 Mawrth 2015 hefyd yn adlewyrchu'r codiad cyflog a ddyfarnwyd i Chris Jones ar 1 Medi 2014.

Mae'r ffigurau Swm Mewnbyn Pensiwn a ddatgelwyd ar gyfer 2014 (ailldatganwyd) a 2015 ar gyfer Chris Jones yn sylweddol uwch na ffigurau blynnyddedd blaenorol a'r ffigurau a ragwelir yn y dyfodol oherwydd y codiadau cyflog a ddeilliiodd o'i ddychafiad i rôl Prif Weithredwr ar 1 Medi 2013.


Ni chaiff y codiad cyflog a gafodd Peter Perry yn dilyn ei ddychafiad i rôl Prif Swyddog Gweithredu ar 1 Medi 2013 effaith sylweddol ar y ffigur Swm Mewnbyn Pensiwn a ddatgelwyd ar ei gyfer yn 2014 (ailldatganwyd). Y rheswm am hyn yw bod ei Gyflog Pensiynadwy Terfynol yn seiliedig ar ffigurau cyflog hanesyddol wedi'u hailbriso.

Ni thelir unrhyw fuddiannau ychwanegol ar gyfer ymdeoliad cynnar.

Cymharu cyflogau a pherfformiad cyffredinol

Mae ffigurau 9 a 10 yn dangos sut mae ein polisi cyflogau wedi cymharu â pherfformiad ac yn cymharu cyfanswm cyflogau ein Prif Weithredwr â thwf blynnydd mewn Cronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn (h.y. gyda'r cronfeydd ariannol wrth gefn yn cynrychioli'r gwerth cyfalaf rheoliadol llai dyled net) dros y pum mlynedd flaenorol.

Ffigur 9 Cronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn dros gyfnod o chwe blynedd hyd at 31 Mawrth 2015



Ffigur 10 Cyflogau a pherfformiad cyffredinol

	2011	2012	2013	2014	2015
Cyfanswm cydnabyddiaeth y Rheolwr Gyfarwyddwr (NA)	£665,965	£677,770	£590,210	£709,890	-
Cyfanswm cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr (CJ)	dd/g	dd/g	dd/g	£741,569	£973,688
Dyfarndal AVPS (NA)	76.3%	77.6%	60.6%	49.9%	-
Dyfarndal AVPS (CJ)	dd/g	dd/g	dd/g	51.1%	79.4%
LTVPS ar gyfer AMP 5	25.0%	40.0%	50.0%	78.6%	90.6%

- Ar gyfer 2014, mae ffigurau blwyddyn ariannol iawn wedi'u darparu ar gyfer Nigel Annett a Chris Jones ac nid ydynt yn ymwneud â'r cyfnod fel Prif Weithredwr yn unig.
- Mae ffigurau cyfanswm cydnabyddiaeth ar gyfer Nigel Annett wedi'u hailgyfrifo o'u hailddatgan o 2010 ymlaen gan ystyried y rheoliadau adrodd newydd ar gyfer cyfrifo buddiannau pensiwn a ddisgrifir uchod yn yr adran Buddiannau Pensiwn ar dudalennau 82-83. Mae'r fethdoleg newydd yn sensitif iawn i chwyddiant.
- Mae'r ffigur cyfanswm cydnabyddiaeth ar gyfer Chris Jones wedi'i ailddatgan ar gyfer 2014 oherwydd bod y swm mewnbyn pensiwn wedi'i ailddatgan (gweler ffigur 6 ar dudalen 81). Mae'r ffigur pensiwn ar gyfer Chris Jones yn sylweddol uwch na ffigurau blynnyddedd blaenorol a ffigurau a ddisgrifir yn y dyfodol oherwydd y codiadau cyflog a ddeilliiodd o'i ddychafiad i rôl Prif Weithredwr.
- Dengys y canrannau LTVPS y % o'r swm mwyaf posibl yn hytrach na'r % o'r cyflog a ddyfarnwyd.



Pwysigrwydd cymharol gwariant ar gyflogau

Mae'n bwysig bod y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn ystyried cost cydnabyddiaeth mewn perthynas â ffactorau eraill megis perfformiad y cwmni. Mae ffigur 11 yn nodi'r newid o ran cyfanswm y gwariant, cyfanswm costau cydnabyddiaeth cyflogeion a Chronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn yn 2015 o gymharu â 2014.

Ffigur 11 Pwysigrwydd cymharol gwariant ar gyflogau

	2014	2015	Newid	
	£m	£m	£m	%
Cyfanswm gwariant ¹	819.6	833.9	18.3	2.2%
Costau cydnabyddiaeth cyflogeion	113.7	122.6	8.9	7.8%
Cronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn ²	1,648	1,947	299	18.1%
Costau cydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr Gweithredol ³	2.0	1.9	(0.1)	(4.7%)

1. Gwariant gweithredol, gwariant cyfalaf a chostau cyllido.
2. Gwerth cyfalaf rheoliadol llai dyled net. Mae metrig Cronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn wedi'i gynnwys er mwyn galluogi cymharu â chwmnïau sy'n eiddo i gyfranddalwyr.
3. Mae gwerth 2014 wedi'i ailddatgan o £1,737,847 i £1,979,600 yn dilyn dyfarnu taliadau LTVPS pellach ac ailgyfrifo gwerthoedd pensiwn ar ôl cyhoeddi Adroddiad a Chyfrifon 2014 Glas Cymru.

Ffigur 12 Newid canrannol yng nghydnabyddiaeth y Prif Swyddog Gweithredol o gymharu â chyflogeion eraill

	Prif Weithredwr newid % o 2013-14	Cyflogeion newid % o 2013-14
Cyflog	5%	4%
Buddiannau	0%	0%
Tâl Amrywiadwy Blynnyddol	73%	33%

Newid % o ran Cyflog Cyflogeion: yn cynnwys codiadau a ddyfarnwyd ar gyfer dyfarniad cyflog blynnyddol a dilyniant gyrfa.

Sut y caiff cyflog ei bennu

Pwyllgor Cydnabyddiaeth

Cadeirir y Pwyllgor Cydnabyddiaeth gan James Strachan. Yn 2014-15, aelodau eraill y Pwyllgor oedd Robert Ayling, Menna Richards*, Anna Walker a John Warren. Mae'r Bwrdd o'r farn bod holl aelodau'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn annibynnol ac, yn achos Robert Ayling, ystyriwyd ei fod yn annibynnol pan gafodd ei benodi yn Gadeirydd y Cwmni. Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol yn mynychu cyfarfodydd o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth drwy wahoddiad (ac eithrio lle y trafodir eu cydnabyddiaeth eu hunain) ac mae Ysgrifennydd y Cwmni yn gweithredu fel ysgrifennydd i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth. Cyfarfu'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth bedair gwaith yn ystod 2014-15.

Rôl y Pwyllgor yw cymeradwyo, gweithredu ac adolygu'n gyson Bolisi Cydnabyddiaeth y Bwrdd ac yn benodol:

- cytuno ar y Polisi a'r contractau fframwaith a gwasanaeth ar gyfer cydnabyddiaeth y Cadeirydd a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r fframwaith cydnabyddiaeth ar gyfer rhai uwch reolwyr (timau Gweithredol ac Arwain Dŵr Cymru);
- penderfynu ar drefniadau tâl amrywiadwy sy'n annog ac yn cydnabod perfformiad da ac yn gwobrwyo unigolion, mewn modd teg a chyfrifol, am eu cyfraniad i lwyddiant y Cwmni.

Yn 2014-15, derbyniodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth gyngor annibynnol gan New Bridge Street** (NBS), sef un o enwau masnachu Aon Hewitt Limited (un o gwmnïau Aon plc). Mae NBS wedi ymrwymo i God Ymddygiad Grŵp y Cyngorwyr Cydnabyddiaeth a chaiff unrhyw gyngor a roddir ei lywodraethu gan y Cod. Mae gan y Grŵp gydberthynas hirsefydlog ag NBS.

Yn 2014-15, rhoddodd NBS gyngor ar arferion gorau'r farchnad wrth ddylunio trefniadau cymell perfformiad a meincnodi cydnabyddiaeth a ffioedd y Cyfarwyddwyr a'r tîm gweithredol, a rhoddodd gyngor cyffredinol ar gydnabyddiaeth i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth. Yn ystod 2014-15, cafodd NBS gyfanswm ffioedd o £44,841 mewn perthynas â chyngor a roddwyd i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac ni roddodd unrhyw gyngor arall i'r Cwmni. Gofynnodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth hefyd am gyngor a gwybodaeth gan Quantum Actuarial LLP (data pensiynau).

Ym marn y Pwyllgor Cydnabyddiaeth, nid oes unrhyw wrthdaro buddiannau mewn perthynas â'r sefydliadau hyn yn helpu'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth a'r Cwmni i weithredu ei benderfyniadau.

Yn ystod 2014-15, roedd gweithgareddau'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn cynnwys: cymeradwyo Adroddiad Cydnabyddiaeth 2014; asesu perfformiad a gyflawnwyd yn erbyn yr amodau sydd ynghlwm wrth AVPS ac LTVPS 2013-14 a chytuno ar ddyfarnaliadau i'w gwneud i gyfranogwyr; adolygu cyflogau ac AVPS ar gyfer y timau gweithredol ac arwain ehangach; cynnal adolygiad o strwythur y cynllun cymhelliannau yn barod ar gyfer ystyriaeth AMP6 o dueddiadau ac arfer gorau o ran cydnabyddiaeth a phensiynau; penderfynu ar gyflog y Cyfarwyddwyr Gweithredol a ffi'r Cadeirydd ar gyfer 2014-15; a phennu cyfanswm cydnabyddiaeth Rheolwr Gyfarwyddwr a Chyfarwyddwr Cyllid DCCS Ltd.

Yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynnyddol y llynedd, pleidleisiodd yr Aelodau o blaid Adroddiad Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr.

* O fis Hydref 2014
** Nid oes gan NBS unrhyw gysylltiad arall â'r Grŵp



Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Dylid darllen yr Adroddiad hwn ar y cyd â'r Adolygiad Strategol, yr Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol ac Adroddiad y Pwyllgor Archwilio sydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio Adroddiad y Cyfarwyddwyr. Am ragor o wybodaeth, gweler y Rhestr Gynnwys ar dudalennau 2-3.

Ym marn y Cyfarwyddwyr, mae'r Adroddiad Blyneddol a Chyfrifon (datganiadau ariannol cyfunol Glas Cymru) yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy ar y cyfan ac yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar randdeiliaid i asesu perfformiad y cwmni, ei fodel busnes a'i strategaeth. Er mwyn cyrraedd y sefyllfa honno, cafodd y Bwrdd ei gynorthwyo yn y ffyrdd canlynol:

- drafftwyd yr Adroddiad Blyneddol gan uwch realwyr a goruchwyliwyd y broses gydgyssylltu gyffredinol gan Ysgrifennydd y Cwmni, y Cyfarwyddwr Cyllid a'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu er mwyn sicrhau cysondeb
- cynhaliwyd adolygiadau o fersiynau drafft gan Aelodau o'r tîm Gweithredol a chynhaliwyd proses wirio a oedd yn cynnwys y Cofnodwr ac archwilyr y cwmni
- adolygwyd y fersiwn ddrafft derfynol gan y Pwyllgor Archwilio cyn iddi gael ei hadolygu a'i chymeradwyo gan y Bwrdd, a'i chyflwyno i Aelodau.

Mae'r Bwrdd wedi paratoi Adroddiad Strategol sy'n rhoi crynodeb o ddatblygiad a pherfformiad busnes y cwmni yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 ac sy'n cwmpasu'r datblygiadau sy'n debygol yn y dyfodol.

Mae Glas Cymru Cyfyngedig (Rhif cwmni 03975719) yn gwmni cyfyngedig trwy warant sy'n gorfforedig yng Nghymru a Lloegr. Mae ein swyddfa gofrestredig yn Heol Pentwyn, Nelson, CF46 6LY.

Ceir rhagor o wybodaeth am y Prif Weithgareddau ar dudalen 13.

Cyfarwyddwyr

Ceir enwau a manylion bywgraffiadol cryno'r Cyfarwyddwyr ar dudalennau 67 a 68 o'r ddogfen hon.

Gwasanaethodd pob Cyfarwyddwr drwy gydol y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015, heblaw am John Bryant a ymddiswyddodd yng Nghyfarfod Cyffredinol Blyneddol 2014 ym mis Gorffennaf 2014. Bydd pob Cyfarwyddwr yn sefyll i gael ei ailethol yng Nghyfarfod Cyffredinol Blyneddol 2015. Bydd hyn yn bodloni'r gofyniad o dan ein Herthyglau Cymdeithasu i draean o'r Cyfarwyddwyr ymddeol ar sail cylchdro. Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo effeithiolrwydd ac ymrwymiad (ac, o ran y Cyfarwyddwyr Anweithredol, annibyniaeth) y Cyfarwyddwyr ac yn argymhell y dylai pob un ohonynt gael eu hailethol. Nodir manylion pellach yn Hysbysiad Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol 2015 a gynhelir ddydd Gwener 3 Gorffennaf 2015.

Mae llythrau penodi'r Cyfarwyddwyr Anweithredol ar gael i'w harchwilio drwy wneud cais i Ysgrifennydd y Cwmni.

Nid oes gan unrhyw Gyfarwyddwr, ac ni fu gan unrhyw Gyfarwyddwr, fuddiant ariannol perthnasol, yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol, mewn unrhyw contract sy'n arwyddocaol i fusnes y Cwmni. Hefyd, ni ofynnwyd i'r Bwrdd arfer ei ddisgresiwn o dan Erthygl 57 o Erthyglau Cymdeithasu Glas Cymru sy'n caniatáu cymeradwyo gwrthdaro buddiannau posibl ac ni wnaeth hynny. Mae manylion am gydnabyddiaeth Cyfarwyddwyr unigol a'r strategaeth gydnabyddiaeth a gymeradwywyd gan y Bwrdd wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Cydnabyddiaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 sydd yn yr Adroddiad Blyneddol hwn. Bydd cynnig i gymeradwyo Adroddiad Cydnabyddiaeth 2015 yng Nghyfarfod Cyffredinol Blyneddol 2015.

Mae gan y Cwmni yswiriant Cyfarwyddwyr a Swyddogion sy'n diogelu rhag camau cyfreithiol a gymerir yn erbyn y Cyfarwyddwyr ac indemniad mewn amgylchiadau lle nad yw cyfarwyddwr wedi gweithredu'n dwyllodrus nac yn anonest. Mae'r indemniad yn indemniad sy'n gymwys at ddiben y Ddeddf Cwmnïau ac er budd yr holl Gyfarwyddwyr. Ni wnaed unrhyw hawliadau yn erbyn y polisi hwn ers dyddiad yr adroddiad diwethaf.

Cyflogeion

Ar 31 Mawrth 2015, roedd gan y Grŵp 2,985 o gyflogeion. Mae ein llwyddiant yn dibynnu ar gael gweithlu llawn cymhelliant ac ymroddiad ac mewn rhannau eraill o'r Adroddiad Blyneddol hwn (tudalen 52), disgrifiwn sut rydym yn datblygu ein pobl gogyfer ag ymddrin â'r heriau sy'n gysylltiedig â'r gwaith o weithredu ein busnes yn y dyfodol.

Nid ydym yn gwahaniaethu yn erbyn ymgeiswyr na chyflogeion ar sail oedran, anabledd, ailebennu rhywedd, statws priodasol neu bartner sifil, beichiogrwydd neu famolaeth, hil, lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol ("nodweddion gwarchodedig" yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010) nac unrhyw nodwedd bersonol arall. Os yw cyflogai yn anabl neu'n datblygu anabledd, rhown ystyriaeth i unrhyw addasiadau rhesymol a fyddai'n ei helpu i oresgyn yr anhawster neu leihau ei effaith gymaint â phosibl. Mae'n bolisi gan y Grŵp y dylai hyfforddiant, datblygiad gyrfa a dyrchafiad person anabl, cyn belled â phosibl, fod yn union debyg i hyfforddiant, datblygiad gyrfa a dyrchafiad person nad oes ganddo anabledd. Mae'r Grŵp yn ymrwymedig i barchu hawliau dynol mewn perthynas â chydweithwyr a chwsmeriaid ac mae'n bwriadu monitro ei gynnydd yn hyn o beth.

Perfformiad Ariannol

Glas Cymru Cyfyngedig yw cwmni daliannol Grŵp Glas Cymru a rhiant y cwmni gweithredol Dŵr Cymru Cyfyngedig. Mae Dŵr Cymru wedi rhoi perfformiad ariannol cadarn yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2015; mae gerio wedi gostwng i 60% (2014: 63%) ac mae'r Cwmni wedi cynnal ei statws credyd sy'n arwain y sector.

Er bod strwythur perchenogaeth unigryw'r Grŵp yn caniatáu iddo gael ei redeg er budd cwsmeriaid, yn hytrach nag elw cyfrandalwyr, rydym yn gosod targedau heriol i'n hunain er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i wella effeithlonrwydd ein gweithrediadau. Ers 2001, rydym wedi lleihau ein costau gweithredu rheoledig 20% mewn termau real (cyn chwyddiant) ac rydym yn bwriadu sicrhau lleihad pellach o tuag 20% mewn costau rheoladwy erbyn 2020.

Refeniw

Trosiant Glas Cymru yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2015 oedd £753 miliwn (2014: £737 miliwn), sy'n adlewyrchu'n bennaf y cynnydd cyfartalog mewn prisiau rheoledig o 2.05%. Gwrthbwyssyd refeniw ychwanegol oddi wrth gwsmeriaid newydd gan gwsmeriaid preswyl yn newid i system dalu drwy fesuryddion, sydd fel arfer yn arwain at fil dŵr is. Mae nifer y cwsmeriaid sydd wedi ymrwmo i'n hamrywiaeth o dariffau cymorth sy'n arwain y sector wedi parhau i dyfu. Ar 31 Mawrth 2015 roedd tua 50,000 yn elwa ar un o'r tariffau hyn neu ar ein Cronfa Cymorth i Gwsmeriaid - sy'n cefnogi'r rhai sy'n cael anhawster i dalu eu biliau - ar gost flynyddol i'r Cwmni o tua £4 miliwn.

Eitemau gweithredol

Cyfanswm costau gweithredol Glas Cymru (ac eithrio gwariant ar adnewyddu seilwaith mewn perthynas â chynnal a chadw ein rhwydwaith o bibellau tanddaearol, dibrisiant ac eitemau eithriadol) oedd £295 miliwn (2014: £296 miliwn); mae cynnydd mewn nifer o gostau penodol (costau pŵer, costau cydymffurfiaeth o ran dŵr gwastraff, gwariant ar gorthffosydd preifat) wedi'i wrthbwyso gan arbedion effeithlonrwydd a sicrhawyd drwy symleiddio'r broses recriwtio, delio â chontractau gweithredol yn fewnol, lleihau taliadau yswiriant ac ad-daliadau ordrethi busnes.

Mae pob cwmni dŵr a charthffosiaeth yn defnyddio llawer o bŵer, yn enwedig ar gyfer prosesau trin a phwmpio dŵr. Mae'r dirwedd fryniog ledled Cymru yn golygu bod hyn yn her benodol i ni. Yn ystod 2014-15, cynyddodd costau pŵer i £44 miliwn (2014: £43 miliwn), yn bennaf o ganlyniad i gynydd mewn prisiau trydan. Erys cryn ansicrwydd ynglŷn â chostau ynni yn y dyfodol, ac rydym wedi blaen-brynu cyfran o ofynion pŵer amcangyfrifedig y busnes dros y cyfnod o bum mlynedd hyd at fis Mawrth 2020.

Erys adennill dyledion cwsmeriaid yn flaenoriaeth uchel i Dŵr Cymru. Mewn amgylchedd economaidd anodd, lle nad oes gan gwmnïau dŵr unrhyw ganiatâd i ddatgysylltu cyflenwadau i gwsmeriaid domestig nad ydynt yn talu, mae casglu arian parod wedi parhau i fod yn her. Mae'r tâl am ddrwgddyledion am y flwyddyn, sef £29 miliwn (2014: £28 miliwn), yn cynrychioli 3.9% o'r trosiant blyneddol (2014: 3.9%) a bydd hwn yn faes y byddwn yn canolbwyntio'n fwy arno dros y flwyddyn sydd i ddod*.

Eitemau eithriadol

Fel rhan o'n hymgyrch i leihau costau gweithredu rheoladwy tua 20% dros y pum mlynedd nesaf, mae rhaglen dileu swyddi a diswyddo wedi'i chyhoeddi a fydd yn lleihau nifer y bobl a gyflogir yn y busnes tua 360 o gydweithwyr. Darparwyd ar gyfer cost amcangyfrifedig yr ymrwymiad hwn, sef £18 miliwn, yn ystod y flwyddyn.

Costau cyllido

Roedd y llog net taladwy, sef £145 miliwn (ac eithrio colledion cyfrifyddu ar ddeilliadau a nodir isod), £10 miliwn yn is na'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn o ganlyniad i chwyddiant RPI is ar fondiau mynegrifol (£10 miliwn) ac elw cyfrifyddu o £8 miliwn wrth derfynu prydlesau cyllid, wedi'i wrthbwyso gan dâl o £8 miliwn ar gyfer terfynu cyfnewidiadau llog sy'n gysylltiedig â chwyddiant nad oedd eu hangen mwyach.

Mae gan Glas Cymru nifer o gontractau cyfnewidiadau deiliannol sy'n cadw cost dyledion yn sefydlog neu'n ei chysylltu â chwyddiant, ac er eu bod yn enghreifftiau effeithiol o ragfantoli masnachol, nid ydynt yn gymwys ar gyfer cyfrifyddu ar sail rhagfantoli o dan IAS 39.

Gall newidiadau yng ngwerthoedd y farchnad greu anwadlirwydd yn y datganiad incwm a'r colledion gwerth teg yn 2014-15 oedd £157 miliwn (2014: enillion o £94 miliwn). Fodd bynnag, nid oes unrhyw effaith ar lifau arian parod: mae'r cwmni yn bwriadu dal y cyfnewidiadau sy'n weddill nes bod y ddyled sylfaenol yn aeddfedu a, thros oes y cyfnewidiadau, bydd y colledion hyn yn mynd yn ddim.

Elw Sylfaenol

Yr elw sylfaenol cyn treth oedd £77 miliwn (2014: £50 miliwn). Mae'r datganiad incwm cyfunol yn nodi colled cyn trethiant o £100 miliwn (2014: elw o £145 miliwn) sy'n ystyried y gwerth teg a symudiadau untro mewn cyllid yn ogystal ag eitemau eithriadol fel y trafodir uchod.

Arian pensiwn

Mae'r datganiad o incwm cynhwysfawr yn nodi colledion actiwaraid y cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig o £32 miliwn (2014: enillion o £25 miliwn), a'r rhwymedigaeth ar y fantolen ar 31 Mawrth 2015 oedd £33 miliwn (2014: £3 miliwn). Mae'r prisiad hwn ar sail IAS 19 at ddibenion cyfrifyddu ac nid yw'n gyson â phrasiad actiwaraid y cynllun at ddibenion ariannu. Roedd y prisiad diweddaraf o'r cynllun, ar 31 Mawrth 2013, yn rhagamcanu diffyg bach y gellir ei adennill drwy daliadau o £1 filiwn y flwyddyn hyd at 2018. Mae cynlluniau ar waith i liniaru amlygiad i unrhyw rwymedigaethau ychwanegol sylweddol yn y dyfodol drwy gau'r rhan fwyaf o'r rhannau o'r cynllun o 1 Ebrill 2017.

Rhwymedigaethau net

Mae'r fantolen gyfunol yn dangos rhwymedigaethau net o £6 miliwn ar 31 Mawrth 2015 (2014: asedau net o £100 miliwn). Ac eithrio addasiadau gwerth teg anariannol ar gyfer offerynnau ariannol deiliadol, y cyfeirir atynt uchod, mae gan y Grŵp asedau net o £416 miliwn (2014: £365 miliwn).

Busnes Gweithredol

Mae'r Cyfarwyddwyr yn fodlon bod gan y busnes ddigon o adnoddau i barhau mewn busnes yn y dyfodol agos. Yn unol â hynny, paratowyd y datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 ar sail busnes gweithredol.

* Ceir rhagor o wybodaeth am Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ar dudalen 12.

Buddsoddiad cyfalaf

Atgyfnerthwyd sefyllfa ariannol gadarn Glas Cymru dros y 14 blynedd ddiwethaf ac ar y sail sefydlog hon gall ymateb yn gadarnhaol i heriau'n ymwneud ag ansicrwydd economaidd a pharhau â'i raglen gyfalaf fawr.

Mae Glas Cymru yn gweithio gyda chynghrair o bartneriaid i gyflawni'r rhaglen buddsoddi cyfalaf am y gwerth gorau am arian i'w gwsmeriaid. Cyfanswm y gwariant cyfalaf gan Dŵr Cymru yn ystod y flwyddyn (gan gynnwys gwariant ar adnewyddu seilwaith) oedd £379 miliwn (2014: £354 miliwn) a buddsoddiwyd tua £1.5 biliwn dros y cyfnod o bum mlynedd rhwng 2010 a 2015. Mae'r rhaglen fuddsoddi hon wedi sicrhau gwelliannau parhaus i wasanaeth cwsmeriaid, ansawdd dŵr yfed a'r amgylchedd. Mae'r Grŵp yn bwriadu buddsoddi £1.7 biliwn arall dros y pum mlynedd nesaf, sef ein rhaglen fuddsoddi fwyaf erioed.

Statws credyd a rheoli cyfraddau llog

Mae gan Glas Cymru y statws credyd gorau yn y sector dŵr, sy'n adlewyrchu lefel uchel y Grŵp o deilyngdod credyd. Statws dyledion Dosbarth A a B y Cwmni ar 31 Mawrth 2015 oedd A/A3/A yn ôl statws Standard & Poor's (S&P), Moody's a Fitch.

Ar 31 Mawrth 2015, roedd tua 65% o ddyled gros yn fynegrifol drwy fondiau a deilliadau (2014: 65%), gyda'r gweddill ar gyfraddau llog sefydlog. Mae oeddfedrwydd disgwylid y bondiau cyfradd sefydlog a'r bondiau mynegrifol sy'n ddyledus yn amrywio o 2021 i 2057, ac nid oes mwy nag 20% yn ddyledus mewn unrhyw gyfnod o ddwy flynedd, yn unol â'n polisi ailariannu.

Polisi gerio

Polisi gerio Glas Cymru yw targedu gerio ar 60% neu oddeutu'r ganran honno, a sicrhau bod cymarebau sicrwydd llog yn cynnal ein statws credyd gradd "A" sy'n arwain y sector. Dylai hyn ein helpu i gadw proffil risg isel, gan sicrhau y gall y Cwmni gael gafael ar gyllid cost isel drwy gydol AMP6 a thu hwnt.

Hylifedd a chronfeydd ariannol wrth gefn

Nod Glas Cymru yw cynnig buddsoddiad diogel, risg isel i fuddsoddwyr. Drwy adeiladu a chynnal sefyllfa ariannol gadarn, rydym yn bwriadu cadw ein costau benthyca yn isel, a fydd yn ein galluogi i ariannu buddsoddiad yn y dyfodol yn effeithlon.

Pan gaffaelodd Glas Cymru Dŵr Cymru ym mis Mai 2001, roedd gerio (dyled net/Gwerth Cyfalaf Rheoliadol (RCV)) yn 93%. Ers hynny, mae'r sefyllfa ariannol wedi gwella'n gyson. Roedd y gymhareb gerio i RCV wedi gostwng i 60% erbyn 31 Mawrth 2015 (2014: 63%), ac roedd 'cronfeydd ariannol wrth gefn' (RCV llai dyled net) wedi cyrraedd £1.9 biliwn.

Ar 31 Mawrth 2015, roedd gan y Cwmni gyfanswm hylifedd o £338 miliwn, gan gynnwys balansau arian parod o £148 miliwn. Gydag arian eisoes ar gael ar gyfer blynyddoedd cynnar AMP6, byddwn yn ceisio sicrhau cyllid ychwanegol o tua £500 miliwn yn ystod cyfnod AMP6 hyd at fis Mawrth 2020.

WaterAid

Fel sy'n briodol ar gyfer ein model gweithredu, nid ydym yn cymryd rhan mewn cynlluniau noddi corfforaethol, ond rydym yn parhau i gefnogi WaterAid - ein helusen enwebedig sy'n trawsnewid bywydau drwy wella mynediad i ddŵr diogel, hylendid a glanweithdra mewn rhai o gymunedau tlotaf y byd. Gyda chymorth llawer o gyflogeion, partneriaid o chyflenwyr ym mhob rhan o'r busnes - y mae rhai ohonynt wedi ymweld â gwledydd fel Uganda sy'n cael budd o weithgareddau codi arian yr elusen - mae ein cydweithwyr bellach wedi codi dros £1 filiwn i WaterAid.



Athrawes beripatetig Dŵr Cymru, Mary Watkins, gyda phlant ysgol o Masindi, Gorllewin Uganda.





Trigolion lleol yn yr Wyddgrug yn mwyhau diodydd cynnes am ddim a ddarparwyd gan Dŵr Cymru cyn i oleuadau Nadolig y dref gael eu cynnwau. Roedd hyn er mwyn diolch i'r gymuned am eu hamynedd tra roeddem yn buddsoddi £900,000 i uwchraddio'r prif bibellau dŵr yn y dref er mwyn sicrhau y byddai ein cwsmeriaid yno yn parhau i gael cyflenwad dŵr o'r radd flaenaf.

Bod yn Gymydog Da

Gwyddom y gall ein gweithgareddau, gan gynnwys y gwaith o gynnal a chadw ac atgyweirio ein hasedau a'n rhwydweithiau, amharu ar gymunedau lleol. Rydym yn cynllunio pob cynllun yn ofalus er mwyn ceisio sicrhau ein bod yn amharu cyn lleied â phosibl arnynt, gan gynnwys gweithio gyda'n partneriaid adeiladu, awdurdodau lleol, yr asiantaeth priffyrdd, cartrefi a busnesau er mwyn dod o hyd i'r ateb mwyaf dymunol.

Lle y gall ein gweithgareddau gael effaith economaidd negyddol (er enghraifft, gwaith ffordd sy'n rhwystro pobl rhag ymweld â manwerthwyr neu'n lleihau nifer y bobl sy'n gwneud hynny), rydym hefyd yn ystyried sut y gallwn gynnig cymorth drwy fesurau cydadferol.

Rydym yn parhau'n benderfynol o chwarae ein rhan mewn Cymru gynaliadwy, fwy ffyniannus drwy gyflawni ein gweithgareddau o ddydd i ddydd mewn ffordd sy'n gymdeithasol ac yn amgylcheddol gyfrifol, a thrwy helpu'r cymunedau a wasanaethir gennym.

Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol

Fel un o gwmnïau mwyaf Cymru gyda gweithlu cryf o 3,000 a rhaglen fuddsoddi fawr gwerth biliynau o bunnoedd, mae'r ffordd rydym yn gweithredu fel busnes yn cael dylanwad mawr ar les cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Cymru a'r rhanbarthau yn Lloegr a wasanaethir gennym.

Rydym felly'n ymfalchïo yn y ffaith bod ein gweithgareddau dros y 12 mis diwethaf wedi gweld y Cwmni'n gweithredu mewn ffordd amgylcheddol gynaliadwy, economaidd fuddiol a chymdeithasol gyfrifol.

Cefnogi addysg

Gwyddom fod gennym rôl i'w chwarae o ran helpu ein cwsmeriaid yn y dyfodol i ddeall sut y gallant helpu a diogelu'r amgylchedd. Yn wir, mae buddsoddi mewn addysg ac ymgysylltu â'r cymunedau a wasanaethir gennym yn hanfodol er mwyn cyflawni ein gweledigaeth. Dyma pam bod gennym bedair canolfan addysg (Cwm Elan ger Rhoeadr Gwy, Cilfynydd ger Pontypridd, Rhostir Cog ger Dinas Powys ac Alwen ar Fynydd Hiraethog), y mae dros 12,000 o blant yn ymweld â hwy bob blwyddyn. Maent yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau a rhaglenni ymarferol, llawn hwyl er mwyn i blant a theuluoedd allu profi byd dŵr drostynt hwy eu hunain.

Oherwydd llwyddiant ein canolfannau, rydym bellach yn cynnal rhaglen allgymorth lle mae ein hathrawon yn ymweld yn rheolaidd ag ysgolion cynradd ac uwchradd i ddarparu gweithdai ar yr ymgyrchoedd newid ymddygiad rydym yn eu cynnal mewn perthynas ag effeithlonrwydd dŵr (Love Dŵr) a llygredd (Stop Cyn Creu Bloc). Mae tua 45,000 o ddisgyblion y flwyddyn yn cael budd o'r rhaglen hon.

Cydweithio ag eraill

Er mwyn ein helpu i ddarparu ein gwasanaethau a gwarchod yr amgylchedd, rydym hefyd wedi parhau i gydweithredu â phartneriaid allweddol a sefydliadau cymunedol. Mae hyn yn cynnwys:

- gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, Work Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol i adfer ecosystemau mawndiroedd mewn ardaloedd o ucheldir (Mynydd Hiraethog a'r Migneint ar Rostiroedd Gogledd Cymru) er mwyn helpu i wella ansawdd dŵr y gronfa ddŵr leol
- helpu i ddatblygu prosiect Clear Streams Abertawe gyda Fforwm Amgylcheddol Abertawe a'r Ymddiriedolaeth Natur i gydlynu 40 o ddiwyddiadau cymunedol er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r amgylchedd dŵr lleol a gwella ansawdd y dŵr yn yr ardal
- cydweithredu gyda phrosiect 'Caru ein Llyn' a gaiff ei redeg gan Eryri Bywiol sydd â'r nod o leihau'r ffosffadau sy'n mynd i mewn i Lyn Padarn gan fod gordyfiant o algae a ysgogwyd gan faethynnau yn y llyn. Caiff hyn ei gyflawni drwy newid ymddygiad gan ddefnyddio rhaglenni addysg mewn ysgolion, deunydd cyfarwyddyd, cyfryngau cymdeithasol a gweithgareddau cymunedol.

Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol

Rydym yn ymrwymedig i safonau iechyd a diogelwch galwedigaethol uchel ac yn ystod cyfnod 2014-15, gwelodd ein perfformiad cymharol gyda llai o ddamweiniâu RIDDOR. Mae rhagor o wybodaeth am ein strategaeth a'n perfformiad o ran iechyd a diogelwch ar gael yn ein Hadroddiad Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol ar gyfer 2015 sydd ar gael o'r gwefan glascymru.com.

Arloesedd

Mae ein portffolio o waith Arloesi yn dal i ganolbwyntio ar ddau faes gwaith allweddol. I ddechrau, y blaenoriaethau allweddol ar gyfer busnes cyfanwerthu fel y nodir yn ein Gwledigaeth Weithredol 25 mlynedd, ac yn ail i gynorthwyo'r busnes a'n rheoleiddwyr i wneud penderfyniad gwell ar sail tystiolaeth. Cefnogir y gwaith hwn gan ein Panel Cyngori Amgylcheddol Annibynnol (sy'n cynnwys rheoleiddwyr, academyddion a rhanddeiliaid amgylcheddol) sy'n dal i roi cyngor i'r busnes ar yr holl waith gwyddoniaeth ac ymchwil a wneir gennym.

Mae'r Panel yn dal i fod yn allweddol o ran ein cynorthwyo i gynllunio llawer o'n cynigion ymchwil ac yn gynorthwyo'r busnes drwy gynnig cyngor. Bu'r panel hefyd o gymorth o ran manteisio ar yr arbenigedd a'r adnoddau sydd ar gael o fewn cyrff o'r fath a meithrin ein cydberthnasau â hwy, er mwyn dod o hyd i gyllid ac arbenigedd i'w defnyddio yn ein gwaith gwyddoniaeth ac ymchwil. Yn fwy cyffredinol, rydym wedi datblygu elfennau o'r agenda ymchwil a datblygu genedlaethol drwy gymryd rhan mewn mentrau ymchwil y diwydiant dŵr, yn bennaf drwy fod yn aelod o UK Water Industry Research Limited (UKWIR), sy'n rheoli ac yn cydgysylltu buddiannau ymchwil cwmnïau dŵr yn y DU.

Rydym hefyd wedi ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid drwy nifer o weithdai, a'n cynhadledd Arloesedd 2014*.

Rhoddion Gwleidyddol

Mae'n bolisi gan y Bwrdd i beidio â rhoi rhoddion i bleidiau gwleidyddol na mynd i wariant gwleidyddol, ac yn ystod 2014-15 ni wnaed unrhyw roddion na thaliadau y mae'n ofynnol eu datgelu o dan adran 366 o Ddeddf Cwmnïau 2006.

Nwyon tŷ gwydr

Mae'r nwyon tŷ gwydr a ryddheir yn cael effaith ar newid yn yr hinsawdd sydd, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn cyflwyno risgiau sylweddol i'r busnes ac i'r amgylchedd. Mae'r Grŵp yn ceisio lleihau'r nwyon tŷ gwydr a ryddheir ganddo lle y bo'n bosibl ac ar hyn o bryd, mae'n mesur hyn drwy gyfrifo ein hallyriadau carbon gweithredol.

Mae'r allyriadau hyn yn bennaf oherwydd y defnydd o ynni a gyflenwir o'r grid, sydd tua 85% o'r cyfanswm. Yn 2014-15, cynyddodd cynnwys carbon trydan a gyflenwir o'r grid 11% gan olygu bod ein hallyriadau carbon wedi cynyddu i 257 ktCO₂e (243 yn 2013-14). Drwy gyfrifo ar sail tebyg at ei debyg hyd at y llynedd byddai'r allyriadau wedi gostwng i 233 ktCO₂e. Daw yr holl allyriadau hyn bron o'r busnesau gweithredol. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r cynnydd mawr yng nghynnwys carbon trydan a gyflenwir o'r grid, ni lwyddom i gyrraedd y targed o ostyngiad cyffredinol o 25% mewn allyriadau o gymharu â lefelau 2007 (a fyddai wedi golygu cyrraedd targed o 230 ktCO₂e). Mae ein swyddfeydd a'n fflyd cludiant yn cyfrif am lai na 6% o gyfanswm yr allyriadau rhyngddynt bob blwyddyn.

Gan bwysleisio ein hymrwymiad i weithrediadau cynaliadwy a gostyngiad yn ein heffaith sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd, cynyddodd yr ynni adnewyddadwy a gynhyrchir gennym i 60GWh (43 GWh yn 2013-14) o dreulio anaerobig (43 GWh), ynni dŵr (16 GWh) ac ynni solar (1 GWh). Ymysg y cyfleusterau cynhyrchu ychwanegol a roddwyd ar waith yn 2014-15 roedd tyrbinau dŵr yng Ngwaith Trin Dŵr Cowlyd Uchaf a Dolbenmaen, pedwar arae solar newydd ac effaith asedau dŵr Infinis gynt ar ran o'r flwyddyn.

* Ceir rhagor o wybodaeth am Ddatblygiadau yn y Dyfodol ar dudalennau 20-21

Mynediad a Hamdden

Ni yw gwarcheidwad un o asedau cenedlaethol Cymru - tua 40,000 o hectarau o dir golygfaol sy'n gyfoethog o ran golygfeydd a bioamrywiaeth. Mae'r tir hwn hefyd yn darparu cyfleoedd hamdden pwysig i'r cyhoedd, a bob blwyddyn mae bron i filiwn o bobl yn ymweld ag un o'n 17 o brif safleoedd cronfeydd dŵr lle y darparwn amrywiaeth o gyfleusterau chwaraeon a hamdden.

Cynllun Iaith Gymraeg

Rydym yn hapus i ymdrin â chwsmeriaid a rhanddeiliaid eraill yn Gymraeg neu yn Saesneg a'n nod yw darparu gwasanaeth effeithiol yn y ddwy iaith. Mae ein Cynllun Iaith Gymraeg yn gynllun a gymeradwywyd o dan ddarpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac rydym yn gweithio'n agos gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i baratoi ar gyfer rhoi darpariaethau Mesur y Gymraeg 2011 ar waith.

Cyfrifon Rheoleiddiol (Dŵr Cymru)

Mae Amod F o'r Offeryn Penodi y mae Dŵr Cymru yn gweithredu yn unol ag ef yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyhoeddi gwybodaeth ariannol ychwanegol fel 'busnes penodedig'. Caiff copi o'r wybodaeth hon ei gyhoeddi ar ein gwefan.

Digwyddiadau ar ôl Diwedd y Flwyddyn Ariannol

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau ar ôl y fantolen.

Cwm Elan

Ystad cronfa ddŵr 72 o filltiroedd sgwâr gyda thirweddau hanesyddol a bywyd gwyllt ffyniannus lle gall ymwelwyr fwynhau gweithgareddau a digwyddiadau fel diwrnodau gwyllo bywyd gwyllt i deuluoedd, teithiau cerdded chwilio am ystlumod, ffeiriau crefftiau a helfeydd trysor.



Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol

Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol 2015 ddydd Gwener 3 Gorffennaf 2015 yng Ngwesty'r Metropole, Llandrindod. Mae busnes y cyfarfod yn cynnwys cymeradwyo Adroddiad y Cyfarwyddwyr a'r Datganiadau Ariannol a'r Adroddiad Cydnabyddiaeth ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 a chymeradwyo'r Polisi Cydnabyddiaeth, ailethol pob Cyfarwyddwr, cynnig i awdurdodi'r Cwmni i gyflwyno rhoddion i sefydliadau gwleidyddol yn yr UE a mynd i wariant gwleidyddol yn yr UE hyd at derfynau diffiniedig a chynigion i ailbenodi'r archwilwyr ac i awdurdodi'r Pwyllgor Archwilio i bennu eu ffioedd. Busnes arferol yw'r holl gynigion hyn - nid oes unrhyw fusnes arbennig. Ceir rhagor o wybodaeth am bob un o'r cynigion yn Hysbysiad Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol 2015 a anfonwyd at Aelodau Glas Cymru gyda'r adroddiad hwn.

Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr

Y Cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am baratoi Adroddiad y Cyfarwyddwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â chyfraith a rheoliadau cymwys. Mae cyfraith cwmnïau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyfarwyddwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. O dan y gyfraith honno, mae'r Cyfarwyddwyr wedi paratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRSs) fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd. O dan gyfraith cwmnïau, ni ddylai'r Cyfarwyddwyr gymeradwyo'r datganiadau ariannol oni fyddant yn fodlon eu bod yn rhoi darlun teg, cytbwys a dealladwy o sefyllfa'r cwmni ac o elw neu golled y cwmni ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwyr:

- dewis polisiau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson
- llunio barn a gwneud amcangyfrifon cyfrifyddu sy'n rhesymol ac yn synhwyrol
- nodi a yw IFRSs cymwys fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd wedi cael eu dilyn, yn amodol ar unrhyw ymryddiaeth perthnasol a gaiff eu datgelu a'u hegluro yn y datganiadau ariannol

—paratoi'r datganiad ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y cwmni yn parhau i weithredu.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu sy'n ddigonol i ddangos ac egluro trafodion y cwmni ac i ddatgelu yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol y cwmni ac sy'n eu galluogi i sicrhau bod y datganiad ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

O dan gyfraith a rheoliadau cymwys, mae'r Cyfarwyddwyr hefyd yn gyfrifol am baratoi Adroddiad Strategol, Adroddiad y Cyfarwyddwyr, Adroddiad Cydnabyddiaeth y Cyfarwyddwyr, a Datganiad am Lywodraethu Corfforaethol sy'n cydymffurfio â'r gyfraith honno a'r rheoliadau hynny.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gynnal gwefan y cwmni ac am ei chywirdeb. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n rheoli'r gwaith o baratoi a dosbarthu datganiadau ariannol fod yn wahanol i deddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

Archwilwyr

PricewaterhouseCoopers LLP oedd archwilwyr Glas Cymru ar gyfer cyfrifon y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015. Fel rhan o'r broses archwilio, rydym wedi cadarnhau, hyd y gwyr pob Cyfarwyddwr, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni, a'u bod wedi cymryd camau i sicrhau eu bod yn cael unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr y Cwmni yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Cyflwynir cynnig i ailbenodi PricewaterhouseCoopers i'r Aelodau yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynnyddol 2015.

Drwy orchymyn y Bwrdd

Nicola Williams

Nicola Williams

Cwnsler Cyffredinol ac Ysgrifennydd y Cwmni
5 Mehefin 2015



Adroddiad yr archwilywyr annibynnol at Aelodau Glas Cymru Cyfyngedig

Adroddiad ar y datganiadau ariannol

Ein barn ni

Yn ein barn ni:

- Mae datganiadau ariannol Grŵp Glas Cymru Cyfyngedig a datganiadau ariannol y rhiant-gwmni (y "datganiadau ariannol") yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Grŵp a'r rhiant-gwmni ar 31 Mawrth 2015, ac o golled y Grŵp a llifau arian y Grŵp a'r rhiant-gwmni am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- mae datganiadau ariannol y Grŵp wedi eu paratoi'n gywir yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol ("IFRSs") fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd;
- mae datganiadau ariannol y rhiant-gwmni wedi eu paratoi'n gywir yn unol â'r IFRSs fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd ac fel y'u cymhwyswyd yn unol â darpariaethau Deddf Cwmnïau 2006;
- mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

Beth rydym wedi ei archwilio

Mae datganiadau ariannol Glas Cymru Cyfyngedig yn cynnwys:

- y mantolenni cyfunol a mantolenni'r rhiant-gwmni ar 31 Mawrth 2015;
- y datganiad incwm cyfunol a datganiad cyfunol o incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- y datganiadau llif arian cyfunol a datganiadau llif arian y rhiant-gwmni ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- y datganiad cyfunol o newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- y nodiadau i'r datganiadau ariannol, sy'n cynnwys crynodeb o bolisiau cyfrifyddu sylweddol a gwybodaeth esboniadol arall.

Mae rhai datgeliadau gofynnol wedi cael eu cyflwyno mewn manau eraill yn yr Adroddiad a Chyfrifon (yr "Adroddiad Blynnyddol"), yn hytrach nag yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol. Cânt eu croesgyfeirio o'r datganiadau ariannol a nodir eu bod wedi'u harchwilio.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol yw'r gyfraith berthnasol a'r IFRSs fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd ac, o ran datganiadau ariannol y rhiant-gwmni, fel y'u cymhwyswyd yn unol â darpariaethau Deddf Cwmnïau 2006.

Ein dull archwilio

Trosolwg

Perthnasedd

- Perthnasedd cyffredinol y Grŵp: £10 miliwn, sy'n cynrychioli 2.5% o Enillion Cyn Llog, Trethiant, Dibrisiant, Amorteiddio ac Eitemau eithriadol ('EBITDA').

Cwmpas archwilio

- Gwnaethom gyflawni gweithdrefnau archwilio cwmpas llawn ar bob un o saith elfen y Grŵp. Gwnaethom hefyd archwilio gwaith cyfrifyddu'r Grŵp ar gyfer caffael Hydro 1 Limited ar 19 Rhagfyr 2014.

Meysydd ffocws

- Cydnabod refeniw nas biliwyd, yn cynnwys symud data i'r system bilio cwsmeriaid newydd.
- Rhoi system RapidXtra ar waith.
- Darpariaeth ar gyfer lleihad yng ngwerth symiau masnach derbyniadwy.
- Prisiad o rwymedigaethau'r cynllun pensiwn.
- Dyrannu costau cyfalaf.
- Prisiad o offerynnau ariannol deilliadol.
- Caffael Hydro 1 Limited.
- Darpariaeth ar gyfer ymarfer ailstrwythuro.
- Amgylchedd rheoli TG.

Cwmpas ein harchwiliad a'n meysydd ffocws

Cynhaliwyd ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon) ("ISAs (y DU ac Iwerddon)").

Gwnaethom gynllunio ein harchwiliad drwy bennu perthnasedd ac asesu risgiau camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol. Yn benodol, gwnaethom edrych ar ble y rhoddodd y cyfarwyddwyr farn oddrychol, er enghraifft mewn perthynas ag amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a oedd yn cynnwys gwneud rhagdybiaethau ac ystyried digwyddiadau yn y dyfodol sy'n ansicr yn eu hanfod. Fel gyda'n holl archwiliadau, gwnaethom hefyd fynd i'r afael â'r risg y byddai'r rheolwyr yn diystyru rheolaethau mewnlol, yn cynnwys gwerthuso p'un a oedd tystiolaeth o ragfarn gan y cyfarwyddwyr a oedd yn cyflwyno risg o gamddatganiad perthnasol o ganlyniad i dwyll.

Nodir y risgiau o gamddatganiad perthnasol a effeithiodd fwyaf ar ein harchwiliad, yn cynnwys y broses o ddyrannu ein hadnoddau a'n hymdrech, fel "meysydd ffocws" yn y tabl isod. Rydym hefyd

wedi nodi sut y gwnaethom deilwra ein harchwiliad er mwyn mynd i'r afael â'r meysydd penodol hyn er mwyn rhoi barn ar y datganiadau ariannol yn gyffredinol, a dylid darllen unrhyw sylwadau a wnawn ar ganlyniadau ein gweithdrefnau yn y cyd-destun hwn. Nid yw hon yn rhestr gyflawn o'r holl risgiau a nodir gan ein harchwiliad.

Hefyd, er mwyn rhoi barn ar y datganiadau ariannol yn gyffredinol, lle y bo'n briodol ar gyfer pob maes ffocws isod, gwnaethom werthuso cynllun a phrofi effeithiolrwydd weithredol rheolaethau mewnlol allweddol ar gyfer adroddiadau ariannol, yn cynnwys gweithredu systemau TG y mae'r wybodaeth ariannol yn deillio ohonynt. Ym mis Ionawr 2015, rhoddwyd system bilio cwsmeriaid newydd y Grŵp, RapidXtra, ar waith, gan ddisodli'r system flaenorol yn llwyr. Felly, fel y trafodir ymhellach isod, gwnaethom ganolbwyntio mwy ar weithredu'r system, yn cynnwys cynnal profion ychwanegol ar adroddiadau a gynhyrchir drwy'r system yr oeddem yn dibynnu arnynt fel rhan o'n harchwiliad o reffeniw a symiau masnach derbyniadwy.

Maes ffocws

Cydnabod reffeniw nas biliwyd, yn cynnwys symud data i'r system bilio cwsmeriaid newydd

Cyfeiriwch at dudalen 70 o'r adroddiad Llywodraethu Corfforaethol a nodyn 1 o ddatganiadau ariannol y Grŵp.

Er i ni asesu'r risg a gwneud gwaith ym mhob llif reffeniw, y maes lle ceir y lefel uchaf o amcangyfrif yw'r 'croniad incwm a fesurwyd', sef y croniad ar gyfer cyfrifon cwsmeriaid mesuredig nas biliwyd.

Felly, dyma'r maes lle gwnaethom asesu bod y tebygolrwydd uchaf o gamddatganiad perthnasol mewn reffeniw.

Caiiff y croniad incwm a fesurwyd ei greu gan gyfrifiad system awtomataidd a gyflawnir drwy gymryd cyfartaledd data gwirioneddol diweddar ar y defnydd o ddŵr sydd ar gael a'i luosi gyda nifer y diwrnodau rhwng y darlenniad gwirioneddol diwethaf a diwedd y flwyddyn a'r tâl a godir.

Felly, mae cywirdeb y cyfrifiad yn dibynnu ar:

- dibynadwyedd y darlenniadau mesurydd y mae'r cyfrifiad yn seiliedig arnynt a phryd y cawsant eu cymryd
- rhyngwyneb effeithiol data o fesuryddion i'r system bilio cwsmeriaid sylfaenol;
- cywirdeb y cyfrifiad awtomataidd.

Yn ystod y flwyddyn, cyflwynodd y Grŵp system bilio cwsmeriaid newydd, RapidXtra, sy'n golygu lefel ychwanegol o risg a chymhlethdod i'r broses o gyfrifo'r croniad incwm a fesurwyd gan fod y cyfrifiad yn seiliedig ar ddata a dynnwyd o RapidXtra, er bod y data gwirioneddol ar y defnydd o ddŵr yn y gorffennol y mae'r cyfrifiad yn seiliedig arno wedi'i greu gan yr hen system ar gyfer bilio cwsmeriaid. Caiiff ein profion manwl ar y broses o drosglwyddo data i RapidXtra eu trafod o fewn y maes ffocws penodol isod.

Sut aeth ein harchwiliad i'r afael â'r maes ffocws

Gwnaethom gadarnhau, drwy archwilio ac arsylwi, y prosesau a'r rheolaethau sydd ar waith i sicrhau bod darlenniadau mesurydd cywir a chyflawn yn cael eu cymryd a bod y mesuryddion a nodwyd yn bodoli.

Er mwyn cael tystiolaeth o'r data sylfaenol a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r croniad incwm a fesurwyd, gwnaethom y canlynol:

- cynnal profion o reolaethau TG ar y system bilio cwsmeriaid newydd (fel y trafodir ymhellach isod);
- cynnal profion ar y broses o symud data am fesuryddion yn y gorffennol o'r system flaenorol i'r system filio newydd, a ddefnyddiwyd i gyfrifo'r croniad. Roedd hyn yn cynnwys cymharu cyfanswm nifer yr eitemau ym mhob set ddata a drosglwyddwyd er mwyn cadarnhau bod yr holl ddata wedi'u cynnwys ac na chafodd unrhyw broblemau eu nodi.

Gwnaethom gynnal profion ar y croniad incwm a fesurwyd drwy ailgyfrifo sampl o groniadau mesuryddion unigol, gan gadarnhau'r darlenniadau mesurydd a ddefnyddiwyd yn y cyfrifiadau i RapidXtra a'r taliadau a ddefnyddiwyd ar gyfer Cynllun Taliadau cyhoeddusedig y Grŵp. Nododd ein profion wall bach, a oedd, pan gafodd ei gymhwyso dros y boblogaeth nas profwyd, yn awgrymu gwall ansylweddol nad yw wedi'i addasu gan y cyfarwyddwyr.

Gwnaethom hefyd gynnal profion ar y rhestr o groniadau er mwyn cael tystiolaeth bod pob mesurydd a gafodd ei gynnwys yn bodoli a bod pob mesurydd wedi cael ei gynnwys.

Gwnaethom hefyd ddefnyddio data o ddata gweithredol y Grŵp (h.y. nifer y mesuryddion a'r data cyfartalog ar y defnydd o ddŵr) i ddatblygu ein disgwyliad annibynnol ein hunain o gyfanswm yr incwm a fesurwyd ar gyfer y flwyddyn, y gwnaethom ei gymharu â'r incwm a gofnodwyd ar gyfer y Grŵp am y flwyddyn; dim ond gwahaniaeth bach a welwyd.

Maes ffocws

Sut aeth ein harchwiliad i'r afael â'r maes ffocws

Rhoi system RapidXtra ar waith

Cyfeiriwch at dudalen 70 o'r adroddiad Llywodraethu Corfforaethol.

Mae Prosiect Newid wedi bod yn mynd rhagddo ers tair blynedd, mewn perthynas â'r ffaith bod y Grŵp wedi cyflwyno system bilio cwsmeriaid newydd, RapidXtra. Roedd y broses weithredu hon yn cynnwys symud data cwsmeriaid yn y gorffennol o'r system filio flaenorol i RapidXtra, sydd wedi arwain at risg y caiff data anghywir eu trosglwyddo i'r system newydd.

Cyflwynodd y broses weithredu hefyd risg uwch wrth i reolaethau a phrosesau a sefydlwyd ac a ymgorfforwyd dros nifer o flynyddoedd gael eu diweddaru a'u symud i'r amgylchedd newydd. Arweiniodd y risg uwch o fethiant mewn rheolaethau ariannol mewnol yn ystod y broses drosglwyddo â'r risg uwch y caiff data ariannol ei symud yn anghywir at risg uwch o gamddatganiadau sylweddol yn natganiadau ariannol y Grŵp.

Gwnaethom ddeall a gwerthuso cynllun llywodraethu prosiect a symud data y Grŵp, profi rheolaethau perthnasol ar gyfer y prosesau symud a gweithredu, a chanfod bod y rhain yn ddigonol i'n galluogi i ddibynnu arnynt at ddibenion ein harchwiliad. Gwnaethom ddeall, gwerthuso a phrofi'r rheolaethau TG o fewn yr amgylchedd newydd. Ni nododd ein profion unrhyw faterion a oedd yn effeithio ar ein harchwiliad, er y gwnaethom nodi meysydd lle y gellid gwella ar brosesau a rheolaethau nad oeddem yn dibynnu arnynt at ddibenion ein harchwiliad, a rhoi adroddiad arnynt i'r pwyllgor archwilio.

Fel y nodwyd uchod, gwnaethom gynnal profion ar y broses o symud data rhwng systemau bilio. Nid oes unrhyw ryngwyneb yn bodoli rhwng RapidXtra a chyfrifyfr cyffredinol SAP y Grŵp. Felly, gwnaethom werthuso a phrofi'r rheolaethau a'r prosesau sydd ar waith i gofnodi data cwsmeriaid â llaw (symiau masnach derbyniadwy a refeniw) yn SAP, a gaiff eu cipio bob mis ar lefel gyffredinol. Gwnaethom ganfod bod y rheolaethau hyn yn ddigon dibynadwy at ddibenion ein harchwiliad.

Gwnaethom hefyd gynnal profion ar y cysoniadau symiau masnach derbyniadwy diwedd y flwyddyn rhwng RapidXtra a SAP, gan gael tystiolaeth o'u cywirdeb, ac ni wnaethom nodi unrhyw eitemau cysoni anarferol na hirsefydlog.

Darpariaeth ar gyfer lleihad yng ngwerth symiau masnach derbyniadwy

Cyfeiriwch at dudalen 71 o'r adroddiad Llywodraethu Corfforaethol a nodiadau 1 ac 11 o ddatganiadau ariannol y Grŵp.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf gwelwyd amgylchedd economaidd heriol, sydd wedi rhoi pwysau ar brosesau'r Grŵp o gasglu arian parod gan gwsmeriaid.

Defnyddiodd asesiad y Grŵp o'r ddarpariaeth oedd yn ofynnol yn erbyn symiau masnach derbyniadwy brofiad o gasglu arian parod yn y gorffennol fel sail i ddatblygu amcangyfrif beirniadol o'r gyfran o symiau derbyniadwy diwedd y flwyddyn y mae'r Grŵp yn disgwyl eu casglu yn y dyfodol, gan addasu ar gyfer unrhyw ffactorau allanol y disgwylir iddynt gael effaith.

O ystyried arwyddocâd balansau symiau masnach derbyniadwy gorddyledus y Grŵp (£150 miliwn ar 31 Mawrth 2015) yn y datganiadau ariannol, gall newidiadau cymharol fach mewn tybiaethau sylfaenol a gymhwyswyd i gyfrifiad y ddarpariaeth gael effaith sylweddol ar ofyniad y ddarpariaeth.

Mae'r ffaith y rhoddwyd y system bilio cwsmeriaid newydd ar waith yn ystod y flwyddyn yn ychwanegu lefel arall o risg.

Gwnaethom brofi'r adroddiadau system sylfaenol a ddefnyddiwyd gan y Grŵp i ddarparu'r data i gefnogi'r cyfrifiadau o'r ddarpariaeth drwy brofi sampl o eitemau i ddogfennaeth ategol. Gwnaethom hefyd gynnal profion ar reolaethau TG y system bilio cwsmeriaid newydd, fel y trafodwyd uchod. Nododd ein profion bod yr adroddiadau a luniwyd gan y system RapidXtra yn ddigon dibynadwy i fod yn sail ar gyfer cyfrifo lleihad yng ngwerth y symiau masnach derbyniadwy.

Ar ôl cael y dystiolaeth hon o'r data sylfaenol a ddefnyddiwyd yn y cyfrifiad, gwnaethom ddefnyddio ein profiad a'n hamheuaeth broffesiynol i herio'r penderfyniadau y tu ôl i'r rhagolygon o'r cyfraddau casglu arian parod a ddefnyddiwyd i bennu'r balansau na ellir eu hadennill o bosibl. Er mwyn cefnogi'r heriau hyn, gwnaethom ystyried y ffactorau canlynol:

- tueddiadau hanesyddol o flynyddoedd blaenorol;
- yr amgylchedd economaidd cyffredinol a geir yn awr ac a ragwelir - yn enwedig yng Nghymru;
- effaith debygol mentrau'r cwmni i wella cyfraddau casglu arian parod yn y dyfodol, yn cynnwys rhoi'r system bilio cwsmeriaid newydd ar waith.

Er mwyn asesu cymhwysedd y Grŵp i ddatblygu'r amcangyfrif, gwnaethom gynnal prawf edrych yn ôl, gan ystyried cywirdeb darpariaeth y flwyddyn flaenorol ynghyd ag argaeledd cyfraddau casglu gwirioneddol ar gyfer y flwyddyn. Drwy edrych yn ôl, gellir gweld bod darpariaeth y flwyddyn flaenorol yn berthnasol gywir.

Gwnaethom hefyd gynnal dadansoddiad sensitifrwyd ar nifer o'r tybiaethau a wnaed, yn benodol y cyfraddau casglu arian parod ar gyfer y dyfodol, er mwyn nodi arwyddocâd pob tybiaeth i brisiad cyffredinol y ddarpariaeth. Nododd ein profion nad oes yr un dybiaeth sy'n arwyddocâol i'r broses o bennu'r ddarpariaeth, a bod angen cael lefel uchel o anghywirdeb er mwyn cynhyrchu camddatganiad sylweddol.

Gwnaethom ganfod, yn gyson â blynyddoedd blaenorol, yr ymddengys bod lefel y ddarpariaeth tuag at ben gochelgar ein hystod ddisgwyliedig. Fodd bynnag, o ystyried yr ansicrwydd economaidd parhaus - yn enwedig yng Nghymru - gwnaethom ystyried bod lefel y ddarpariaeth yn rhesymol.

Maes ffocws

Prisiad o rwymedigaethau'r cynllun pensiwn

Cyfeiriwch at dudalen 71 o'r adroddiad Llywodraethu Corfforaethol a nodyn 21 o ddatganiadau ariannol y Grŵp.

Mae'r Grŵp yn gweithredu cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig. Er nad yw'n agored i aelodau newydd ers sawl blwyddyn, mae'r Grŵp yn parhau i gael atebolrwydd sylweddol mewn perthynas â'i aelodau sydd naill ai'n dal mewn cyflogaeth ac yn parhau i wneud cyfraniadau neu'r rhai sydd wedi ymddeol ac ar eu pensiwn.

Mae atebolrwydd y cynllun pensiwn a ddangosir yn y fantolen gyfunol yn glir o asedau buddsoddi sylweddol a rhwymedigaethau'r cynllun.

Mae'r gwaith o brisio asedau'r cynllun yn syml fel arfer gan fod y rhan fwyaf o'r buddsoddiadau naill ai'n cael eu dal mewn cronfeydd ar y gyfnewidfa stoc neu mewn buddsoddiadau arian parod mewn banciau.

Pennir rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn ar sail nifer o dybiaethau a chyfrifiadau actiwaraid, sy'n agored i farn ac amcangyfrif helaeth. Gall newidiadau yn y tybiaethau hyn gael effaith sylweddol ar y cwantwm o rwymedigaethau cydnabyddedig.

Dyrannu costau cyfalaf

Cyfeiriwch at dudalen 71 o'r Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol a nodiadau 3, 8 a 9 o ddatganiadau ariannol y Grŵp.

Mae'n ofynnol i'r Grŵp, fel gweithredwr dŵr a charthffosiaeth, fuddsoddi symiau sylweddol yn y gwaith o gynnal a chadw a gwella ei rwydwaith, sef ei raglen gyfalaf.

Mae'r gwariant ar y rhaglen gyfalaf naill ai wedi'i gyfalafu fel ychwanegiad cyfalaf, neu wedi'i nodi fel gwariant yn y datganiad incwm. O ystyried cymhlethdod y rhaglen gyfalaf, mae dosbarthiad rhywfaint o'r gwariant yn golygu y gallai gael ei farnu.

Er ein bod wedi ystyried pob maes cyfalaf, rydym wedi nodi bod y prif feysydd a gaiff eu barnu fel a ganlyn:

- gwariant ar adnewyddu seilwaith;
- ychwanegiadau asedau anniriaethol;
- costau cymorth wedi'u cyfalafu.

Oherwydd y caiff y Grŵp ei asesu gan ei reoleiddiwr, Ofwat, ar ei fuddsoddiad cyfalaf a'i effeithlonrwydd o ran cost, ceir cymhelliad i'r Grŵp ddylanwadu ar y broses o ddyrannu costau, sy'n cynyddu arwyddocâd y farn a roddir i'r datganiadau ariannol.

Mae gwariant ar adnewyddu seilwaith ('IRE') yn faes gwariant a ddifinnir gan reolaethau sy'n ymwneud â disodli seilwaith fel pibellau nad ydynt yn gwella'r rhwydwaith yn ddigonol felly nid yw'n bodloni meini prawf cydnabod IAS 16 'Eiddo, offer a chyfarpar'. Mae'r graddau y mae'r costau yn bodloni'r meini prawf hyn ai peidio yn faes a gaiff ei farnu.

Roedd ychwanegiadau asedau anniriaethol yn ystod y flwyddyn yn sylweddol, yn bennaf o ganlyniad i'r broses o weithredu system bilio cwsmeriaid newydd, sydd wedi cynnwys nifer fawr o unigolion o bob rhan o'r busnes a defnyddio cyfleusterau mewnol. Buddsoddwyd cyfanswm o £34 miliwn yn y prosiect hwn, gyda £17 miliwn ohono yn ystod y flwyddyn.

O ystyried bod rhaglen gyfalaf y Grŵp yn rhan mor hanfodol o'i weithgareddau, gellir priodoli cyfran helaeth o gost swyddogaethau cymorth mewnol yn uniongyrchol i'r broses o ddarparu'r rhaglen ac, fel y cyfryw, caiff ei chynnwys o fewn cost asedau sefydlog a gyfalafwyd. Mae angen barnu'r diffiniad 'priodoli'n uniongyrchol', sydd felly'n cyflwyno'r risg y caiff costau eu cyfalafu'n amhriodol.

Sut aeth ein harchwiliad i'r afael â'r maes ffocws

Gwnaethom ystyried cymhwysedd a chymwysterau'r actiwari a gyflogwyd gan y Grŵp i gynnal y prisiad a chanfod bod ganddynt gymhwyster perthnasol yn y DU a'u bod yn aelod o gorff proffesiynol yn y DU. Gwnaethom brofi cywirdeb y data a roddwyd iddynt gan y Grŵp ac a ddefnyddiwyd yn eu prisiad, yn benodol y cyfraniadau a dalwyd gan y Grŵp ac aelodau'r cynllun.

Ar gyfer pob un o'r tybiaethau allweddol a ddefnyddiwyd wrth brisio rhwymedigaethau'r cynllun, yn cynnwys y gyfradd ddisgowntio a'r gyfradd chwyddiant, gan ddefnyddio ein profiad actiwaraid, gwnaethom gymharu'r amcangyfrif a ddefnyddiwyd gan yr actiwari â'r disgwyliad yr oeddem wedi'i lunio'n annibynnol ein hunain. Gwnaethom hefyd ystyried cysondeb y tybiaethau hyn o gymharu â blynyddoedd blaenorol a meicnodi'r Grŵp yn erbyn cwmnïau eraill yn y sector cyfleustodau a chwmnïau mawr eraill yn y DU, gan ddefnyddio'r wybodaeth oedd ar gael i'r cyhoedd. Nododd y profion hyn fod y tybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwari yn gyson â'r flwyddyn flaenorol ac, er eu bod ychydig yn fwy optimistaidd na'r Grŵp cymharol yn gyffredinol, maent o fewn cwpas derbyniol.

Gwnaethom gynnal profion ar sampl o ychwanegiadau i eiddo, offer a chyfarpar yn ystod y flwyddyn drwy gyfeirio at ddogfennaeth a chadarnhau bod y symiau a gyfalafwyd yn gyson â meini prawf cydnabod IAS 16.

Gwnaethom gynnal profion ar ddosbarthiad y gwariant rhwng IRE a chyfalaf, gan herio'r barnau a gymhwyswyd, gan gyfeirio at IAS 16. Gwnaethom bennu bod dosbarthiad y costau yn y maes hwn yn rhesymol.

Gwnaethom hefyd brofi sampl o ychwanegiadau asedau anniriaethol drwy gyfeirio at ddogfennaeth ategol a chadarnhau bod y symiau a gyfalafwyd yn gyson â meini prawf cydnabod IAS 38, 'Asedau anniriaethol'. Drwy wneud hyn, gwnaethom ganolbwyntio'n benodol ar y symiau a gyfalafwyd mewn perthynas â'r broses o weithredu'r system bilio cwsmeriaid newydd, gan ystyried lefel y buddsoddiad yn erbyn cynllun prosiect y cyfarwyddwyr er mwyn cael tystiolaeth nad oedd unrhyw aneffeithlonrwydd sylweddol o fewn y prosiect wedi'i gyfalafu'n amhriodol.

Drwy arfer amheuaeth broffesiynol, gwnaethom hefyd herio lefel y costau mewnol eraill a gyfalafwyd ar draws prosiectau diriaethol ac anniriaethol. Daethom i'r casgliad, er bod rhywfaint o farnu mewn perthynas â'r costau hyn, bod lefel y costau a gyfalafwyd yn gyson â blynyddoedd blaenorol a'n disgwyliadau.

Maes ffocws

Prisiad o offerynnau ariannol deilliadol

Cyfeiriwch at dudalen 71 o'r Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol a nodiadau 5 a 15 o ddatganiadau ariannol y Grŵp.

Mae'r Grŵp wedi ymrwymo i nifer o offerynnau ariannol deilliadol cymhleth a gynlluniwyd i reoli ei amlygiad i risgiau yn y farchnad ariannol.

Gan fod llawer o'r offerynnau hyn yn gysylltiedig â bondiau'r Grŵp a ddyroddwyd, sy'n mynd allan mor bell â 2057, mae cyfnodau'r contract yn hirdymor eu natur. O dan IFRS, caiff offerynnau ariannol deilliadol fel y rhai a ddelir gan y Grŵp eu dal am werth teg ar ddiwedd y flwyddyn, gyda'r broses symud yn cael ei chydabod yn y datganiad incwm. Mae angen rhoi barn ar y broses o bennu gwerth teg yr offerynnau cymhleth, hirdymor hyn, felly y swm a nodir yn y datganiad incwm.

Oherwydd cyfuniad o faint y symiau tybiannol sy'n sail i'r offerynnau a'u hyd sylweddol, mae eu gwerth teg yn rhwymedigaeth net sylweddol yng nghyd-destun y fantolen ac yn hynod sensitif i fân newidiadau mewn tybiaethau sylfaenol, fel rhagolygon chwyddiant hirdymor.

Sut aeth ein harchwiliad i'r afael â'r maes ffocws

Cawsom y contractau oedd yn cefnogi'r offerynnau ariannol deilliadol a chynnal ein prisiadau annibynnol ein hunain arnynt ar ddiwedd y flwyddyn. Gwnaethom gymharu'r prisiadau hyn â'r rhai a gynhaliwyd ar wahân gan y Grŵp a gwrthbartion y contract (sefydliadau ariannol), heb ganfod unrhyw wahaniaethau sylweddol.

Gwnaethom gadarnhau holl brisiadau'r gwrthbartion a roddwyd i'r Grŵp yn uniongyrchol gyda'r gwrthbartion gan roi tystiolaeth bod y contractau ar waith yn gyson â'r rhestr a gawsom gan y Grŵp.

Mae'r gweithdrefnau uchod yn ymwneud ag asedau a rhwymedigaethau diwedd blwyddyn a nodir ar y fantolen. Gwnaethom hefyd gadarnhau bod y symudiadau a geir yn y balansau hyn yn cyfateb i'r swm a nodwyd o fewn y datganiad incwm fel colledion gwerth teg ar offerynnau ariannol deilliadol.

Yn ystod y flwyddyn, terfynodd y Grŵp dri o'r contractau a oedd yn weithredol yn gynnar, gan dalu cydnabyddiaeth arian parod a nodwyd yn y datganiad incwm o fewn costau cyllido. Roedd yr holl gontractau hyn mewn sefyllfa o rwymedigaeth ar y fantolen gymharol a gwnaethom gadarnhau nad yw'r rhwymedigaethau hyn yn ymddangos mwyach ar 31 Mawrth 2015. Gwnaethom gytuno y dylid terfynu'r contractau er mwyn cefnogi dogfennaeth.

Gwnaethom nodi gwahaniaethau ansylweddol rhwng ein prisiadau annibynnol o'r offerynnau a'r rhai a gofnodwyd yn gychwynnol yn y datganiadau ariannol, a gafodd eu diweddaru maes o law gan y cyfarwyddwyr yn y datganiadau ariannol. Roedd y gwahaniaethau hyn yn ymwneud yn llwyr â gwahaniaethau yn y tybiaethau a gymhwyswyd gan y Grŵp a'r gwrthbartion wrth wneud prisiadau, ac maent yn anochel i ryw raddau, oherwydd natur hirdymor y barnau dan sylw.

Caffael Hydro 1 Limited

Cyfeiriwch at nodyn 10 o ddatganiadau ariannol y Grŵp.

Yn ystod y flwyddyn, caffaelodd y Grŵp is-gwmni newydd, Hydro 1 Limited, sy'n berchen ar asedau hydro mewn nifer o leoliadau o fewn ardal weithredol y Grŵp.

Gan fod y Grŵp yn cael ei gyfyngu gan ei gytundebau â chredydwyr hirdymor rhag arallgyfeirio oddi wrth ei weithgareddau craidd fel cwmni dŵr a charthffosiaeth, anaml y bydd yn caffael busnesau newydd.

Gwnaethom nodi hefyd fod yr endid a gaffaelwyd yn ymroddedig i gontractau hirdymor sy'n creu refeniw pŵer islaw cyfraddau cyfredol y farchnad. Mae'n ofynnol i'r contractau hyn, ac unrhyw asedau neu rwymedigaethau eraill a gaffaelir, gael eu priso'n deg pan gânt eu caffael sy'n golygu rhoi barn.

Gan fod gwerth y buddsoddiad hwn yn berthnasol i'r datganiadau ariannol, nad yw'n unol â busnes arferol y Grŵp ac yn cynnwys rhywfaint o gymhlethdod, gwnaethom ystyried bod angen archwilio'r trafodion a oedd yn gysylltiedig â'r caffaeliad yn fanylach.

Cawsom y cytundebau a oedd yn gysylltiedig â'r caffaeliad a chadarnhau bod telerau'r trafodion yn gyson â'r rhai a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Gwnaethom herio'r Grŵp ar yr asesiad gwerth teg a gynhaliwyd ar yr asedau a'r rhwymedigaethau a gaffaelwyd, gan ddatblygu ein disgwyliad annibynnol ein hunain ar gyfer eu gwerth, a'i gymharu â chyfrifiadau'r Grŵp ei hun. Drwy gael dogfennaeth ategol, penderfynwyd bod cyfrifiadau'r Grŵp yn briodol.

Gwnaethom hefyd gadarnhau bod trafodion cyfrifyddu'r caffaeliad yn cael eu hadlewyrchu'n gywir yn natganiadau ariannol y Grŵp.

Maes ffocws

Darpariaeth ar gyfer ymarfer ailstrwythuro

Cyfeiriwch at dudalen 71 o'r Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol a nodiadau 4 a 17 o ddatganiadau ariannol y Grŵp.

Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddodd y Grŵp ei gynlluniau i leihau nifer y staff dros y cyfnod rheoleiddiol nesaf (2015 i 2020) hyd at 360 o unigolion er mwyn cyrraedd ei dargedau effeithlonrwydd dros y cyfnod hwn yr ymrwymwyd iddynt fel rhan o broses adolygu prisiau Ofwat a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2014. O ganlyniad, mae'r Grŵp wedi cydnabod darpariaeth o £17.7 miliwn ar y Fantolen, gyda'r taliad cyfatebol yn cael ei gydnabod fel eitem eithriadol yn y Datganiad Incwm.

O dan IAS 37, 'Darpariaethau, rhwymedigaethau wrth gefn ac asedau wrth gefn', dylai'r Grŵp gydnabod darpariaethau ar gyfer y costau sy'n gysylltiedig â'r ymarfer ailstrwythuro hwn i'r graddau bod 'rhwymedigaeth bresennol o ganlyniad i ddigwyddiadau yn y gorffennol' ar ddiwedd y flwyddyn.

O ystyried maint y ddarpariaeth hon a'r ffaith bod angen rhoi barn wrth ei chyfrifo, cynhaliwyd profion manwl arni er mwyn sicrhau bod gofynion IAS 37 wedi cael eu bodloni a bod y ddarpariaeth yn berthnasol resymol.

Sut aeth ein harchwiliad i'r afael â'r maes ffocws

Gwnaethom gadarnhau drwy gyfeirio at ddogfennaeth ategol, yn cynnwys cysylltiadau â chyflogeion, ei bod yn briodol sefydlu'r ddarpariaeth o fewn y datganiadau ariannol, a'i bod wedi'i sefydlu yn unol â'r meini prawf o fewn IAS 37 sy'n rhagnodi pryd y dylid sefydlu darpariaeth ailstrwythuro.

Cawsom gyfrifiadau'r Grŵp sy'n ategu'r ddarpariaeth a gwnaethom herio'r tybiaethau allweddol, yn cynnwys nifer yr unigolion a gafodd eu cynnwys a lefel y ddarpariaeth a wnaed ar gyfer yr unigolion hynny.

Gwnaethom gadarnhau drwy gyfeirio at ddogfennaeth ategol bod taliadau diswyddo yn seiliedig ar flynyddoedd o wasanaeth ac oedran a bod y lefel dybiedig o daliadau a ddarparwyd yn adlewyrchu profiad blaenorol o'r ddarpariaeth ailstrwythuro a sefydlwyd ar gyfer y cyfnod rheoliadol blaenorol.

Ystyriwyd bod lefel gyffredinol y ddarpariaeth a sefydlwyd gan y rheolwyr yn rhesymol.

Amgylchedd rheoli TG

Caiff cyfriflyfr cyffredinol y Grŵp a'r rhan fwyaf o'i is-gyfriflyfrau (y system bilio cwsmeriaid yw'r eithriad mwyaf nodedig) eu gweithredu o fewn amgylchedd SAP.

Mae SAP yn system a ddefnyddir yn eang y gellir ei haddasu i ddiwallu anghenion sefydliad penodol. Mae'r amgylchedd SAP a geir o fewn Glas Cymru wedi cael ei addasu yn fewnol a chaiff newidiadau i'r broses addasu eu cymhwyso yn fewnol yn rheolaidd.

Mae system bilio cwsmeriaid newydd y Grŵp, RapidXtra hefyd yn system a gaiff ei defnyddio mewn mannau eraill yn y diwydiant dŵr, ond mae wedi cael ei haddasu i fodloni gofynion penodol y Grŵp ac felly nid yw'n becyn 'parod'.

Datblygwyd system filio flaenorol y Grŵp, CAS, yn fewnol nifer o flynyddoedd yn ôl.

Gan nad oes yr un o'r systemau hyn yn rhai 'parod' ac y gall y Grŵp eu haddasu'n barhaus, mae risg y gellir gwneud newidiadau anawdurdodedig i'r cod cymhwyso a'r cyfluniad.

O ystyried y nifer fawr o ddefnyddwyr sy'n defnyddio'r systemau gwahanol hyn, mae risg hefyd bod gan ddefnyddwyr fynediad amhriodol i systemau a data safonol sylfaenol, neu na chaiff dyletswyddau eu gwahanu'n ddigonol i liniaru'r risg hon.

Gwnaethom werthuso a phrofi cynllun ac effeithiolrwydd gweithredu amrywiaeth o reolaethau TG cyffredinol yn SAP, RapidXtra a CAS. Canolbwyntiwyd yn benodol ar y meysydd rheoli canlynol:

- mynediad i raglenni a data;
- newidiadau i raglenni;
- gweithrediadau cyfrifiadurol;
- datblygu rhaglenni.

Roedd y profion hyn yn cynnwys gweithdrefnau i gadarnhau bod newydd-ddyfodiaid a defnyddwyr oedd yn gadael yn cael eu hychwanegu a'u dileu'n briodol oddi ar restrau mynediad mewn modd amserol a hefyd yn ystyried gwahanu dyletswyddau rhwng prosesau allweddol o fewn y pedwar maes uchod.

Gwnaethom nodi nifer fach o ddiffygion o fewn yr amgylchedd rheoli TG, yn benodol yn ymwneud â mynediad i weinyddion a gweithredu rhan o'r is-gyfriflyfr pwrcasu o fewn SAP. Cynhaliwyd profion ychwanegol ar reolaethau eraill o fewn y meysydd hyn a chanfod bod yr amgylchedd rheoli yn gyffredinol yn gweithredu'n ddigon effeithiol i ni ddibynnu ar y reolaethau i gefnogi ein gweithdrefnau archwilio parhaol.

Sut y gwnaethom deilwra'r cwmpas archwilio

Drwy nodi'r meysydd ffocws, gwnaethom deilwra cwmpas ein harchwiliad er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud digon o waith i allu rhoi barn ar y datganiadau ariannol yn gyffredinol, gan ystyried strwythur daearyddol y Grŵp, y prosesau cyfrifyddu a rheolaethau, a'r diwydiant y mae'r Grŵp yn gweithredu ynddo.

Mae Glas Cymru Cyfyngedig yn gweithredu drwy strwythur Grŵp cymharol syml, gyda dim ond dau gwmni masnachu; Dŵr Cymru Cyfyngedig ('DCWW') a Dŵr Cymru Customer Services Limited ('DCCS'). Rôl DCCS o fewn y Grŵp yw darparu gwasanaethau bilio ac incwm y Grŵp ac mae'n is-gwmni y mae DCWW yn berchen arno'n llwyr. Mae gan y ddau gwmni swyddogaethau ariannol ar wahân a chaiff canlyniadau'r Grŵp eu cyfuno gan y tîm cyllid yn DCWW sydd hefyd yn cynnal llyfrau a chofnodion cwmnïau eraill y Grŵp. Ymysg y cwmnïau hyn mae Dŵr Cymru (Financing) Limited ('DCFL'), sef cwmni ariannol y Grŵp, sy'n gorfforedig yn Ynysoedd y Cayman.

Cyflawnwyd gweithdrefnau archwilio cwmpas llawn ar bob un o'r saith endid yn y Grŵp gan fod pob un heblaw am DCFL yn gwmnïau sy'n gofrestredig yng Nghymru a Lloegr, y mae angen eu harchwilio o dan Ddeddf Cwmnïau 2006. Yn achos DCFL, nid oes gofyniad statudol iddo gael ei archwilio, fodd bynnag, o ystyried pwysigrwydd ei ddatganiadau ariannol i'r Grŵp cyfunol, mae'r cyfarwyddwyr wedi gofyn i ni gynnal archwiliad anstatudol cwmpas llawn o'r endid. Gwnaethom hefyd archwilio gwaith cyfrifyddu'r Grŵp ar gyfer caffael Hydro 1 Limited ar 19 Rhagfyr 2014.

Perthnasedd

Dylanwadwyd ar ein harchwiliad gan y perthnasedd a gymhwyswyd gennym. Gwnaethom nodi trothwyon meintiol ar gyfer perthnasedd. Helpodd y rhain, ynghyd ag ystyriaethau ansoddol, ni i bennu cwmpas ein harchwiliad a natur, amseru a graddau ein gweithdrefnau archwilio ac i werthuso effaith camddatganiadau, yn unigol ac ar y datganiadau ariannol yn gyffredinol.

Yn seiliedig ar ein barn broffesiynol, gwnaethom bennu perthnasedd ar gyfer y datganiadau ariannol cyffredinol fel a ganlyn:

Perthnasedd cyffredinol y Grŵp	£10 miliwn (2014: £9.1 miliwn).
Sut y gwnaethom ei bennu	2.5% o Enillion Cyn Llog, Trethiant, Dibrisiant ac Amorteiddio ac Eitemau eithriadol a'r symudiadau gwerth teg ar offerynnau ariannol deilliadol ('EBITDA').
Rhesymeg dros y meincnodau a gymhwyswyd	O ystyried nad oes gan y cwmni unrhyw gyfranddalwyr a'i fod yn ailfuddsoddi'r holl waged yn ôl i mewn i'r cwmni ar ffurf gwelliannau seilwaith a gwelliannau i'r gwasanaethau a ddarperir i gwsmeriaid, ceir ffocws ar greu llifau arian parod gweithredu cadarnhaol, y mae EBITDA yn ddirprwy rhesymol ar ei gyfer.

Gwnaethom gytuno â'r Pwyllgor Archwilio y byddem yn adrodd wrthynt am gamddatganiadau a nodwyd yn ystod ein harchwiliad uwchlaw £0.5 miliwn (2014: £0.45 miliwn) yn ogystal â chamddatganiadau islaw'r swm hwnnw a oedd, yn ein barn ni, yn gwarantu y dylid adrodd amdanynt am resymau ansoddol.

Adroddiadau eraill sy'n ofynnol

Cysondeb gwybodaeth arall

Barn Deddf Cwmnïau 2006

Yn ein barn ni, mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Strategol ac Adroddiad y Cyfarwyddwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Adroddiadau ISAs (y DU ac Iwerddon)

Mae'r cyfarwyddwyr wedi dewis cydymffurfio'n wirfoddol â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU ("y Cod") fel pe bai'r rhiant-gwmni yn brif gwmni rhestredig. O dan ISAs (y DU ac Iwerddon) mae'n ofynnol i ni adrodd wrthyth os, yn ein barn ni:

Mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad Blynnyddol:	Nid oes gennym unrhyw eithriadau i'w hadrodd sy'n deillio o'r cyfrifoldeb hwn.
- yn berthnasol anghyson â'r wybodaeth yn y datganiadau ariannol archwiliedig; neu - yn ymddangos yn berthnasol anghywir yn seiliedig ar ein gwybodaeth o'r Grŵp a'r rhiant-gwmni a gaffaelwyd wrth gynnal ein harchwiliad, neu'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno; neu - yn gamarweiniol fel arall.	
Mae'r datganiad a roddwyd gan y cyfarwyddwyr ar dudalen 62, yn unol â darpariaeth C.1.1 o'r Cod, eu bod yn ystyried bod yr Adroddiad Blynnyddol yn deg, cytbwys a dealladwy ar y cyfan ac yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar aelodau i asesu perfformiad, model busnes a strategaeth y Grŵp a'r rhiant-gwmni, yn berthnasol anghyson â'n gwybodaeth o'r Grŵp a'r rhiant-gwmni a gaffaelwyd wrth gynnal ein harchwiliad.	
Nid yw'r adran o'r Adroddiad Blynnyddol ar dudalen 70, fel sy'n ofynnol gan ddarpariaeth C.3.8 o'r Cod, sy'n disgrifio gwaith y Pwyllgor Archwilio yn mynd i'r afael yn briodol â'r materion a gyflewyd i ni gan y Pwyllgor Archwilio.	

Digonoldeb y cofnodion cyfrifyddu a'r wybodaeth ac esboniadau a ddaeth i law

O dan Ddeddf Cwmnïau 2006 mae'n ofynnol i ni adrodd wrthych os, yn ein barn ni:

- nid ydym wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer ein harchwiliad; neu
- na chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol gan y rhiant-gwmni, neu na dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer ein harchwiliad gan ganghennau nad ydym wedi ymweld â hwy; neu
- nad yw datganiadau ariannol y rhiant-gwmni yn unol â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu.

Nid oes gennym unrhyw eithriadau i'w hadrodd sy'n deillio o'r cyfrifoldeb hwn.

Cydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr

O dan Ddeddf Cwmnïau 2006 mae'n ofynnol i ni adrodd wrthych os, yn ein barn ni, na wneir datgeliadau penodol o gydnabyddiaeth y cyfarwyddwyr a nodir yn ôl y gyfraith. Nid oes gennym unrhyw eithriadau i'w hadrodd sy'n deillio o'r cyfrifoldeb hwn.

Adroddiadau gwirfoddol eraill

Barn ar ddatgeliadau ychwanegol

Adroddiad ar Gydabyddiaeth y Cyfarwyddwyr

Mae'r rhiant-gwmni yn paratoi Adroddiad ar Gydabyddiaeth y Cyfarwyddwyr yn wirfoddol yn unol â darpariaethau Deddf Cwmnïau 2006. Mae'r cyfarwyddwyr wedi gofyn i ni archwilio'r rhan o'r Adroddiad ar Gydabyddiaeth y Cyfarwyddwyr y nodir gan Ddeddf Cwmnïau 2006 y dylid ei harchwilio fel petai'r rhiant-gwmni yn gwmni a restrir ar y gyfnewidfa stoc.

Yn ein barn ni, mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydabyddiaeth y Cyfarwyddwyr sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi yn gywir yn unol â Deddf Cwmnïau 2006.

Datganiad Llywodraethu Corfforaethol

Mae'r rhiant-gwmni yn paratoi datganiad llywodraethu corfforaethol yn wirfoddol sy'n cynnwys y wybodaeth sy'n ymwneud â systemau rheoli mewnol a rheoli risg a'r strwythurau cyfalaf cyfranddaliadau sy'n ofynnol gan Reolau Datgeliad a Rheolau Tryloywder yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol. Mae'r cyfarwyddwyr wedi gofyn i ni roi adroddiad ar ba mor gyson y mae'r wybodaeth honno â'r datganiadau ariannol.

Yn ein barn ni, mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu Corfforaethol a nodir ar dudalennau 62 i 91 sy'n ymwneud â systemau rheoli mewnol a rheoli risg a'r strwythurau cyfalaf cyfranddaliadau yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Materion yr ydym wedi cytuno i roi adroddiad arnynt drwy eithriad

Datganiad Llywodraethu corfforaethol

Mae Datganiad Llywodraethu Corfforaethol gwirfoddol y rhiant-gwmni yn cynnwys manylion cydymffurfiaeth y rhiant-gwmni â Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU. Mae'r cyfarwyddwyr wedi gofyn i ni adolygu'r rhannau o'r Datganiad Llywodraethu Corfforaethol sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth y rhiant-gwmni â deg darpariaeth Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU y nodwyd y dylai archwilydd eu hadolygu gan Reolau Rhestru yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol fel pe bai'r rhiant-gwmni yn brif gwmni rhestredig. Nid oes gennym ddim i'w nodi ers cynnal ein hadolygiad.

Cyfrifoldebau am y datganiadau ariannol a'r archwiliad

Ein cyfrifoldebau ni a chyfrifoldebau'r cyfarwyddwyr

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr a nodwyd ar dudalen 91, mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am gael eu bodloni eu bod yn rhoi darlun cywir a theg.

Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r datganiadau ariannol a llunio barn arnynt yn unol â chyfraith berthnasol ac ISAs (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i ni gydymffurfio â Safonau Moesegol Archwilyddwyr y Bwrdd Arferion Archwilio.

Paratowyd yr adroddiad hwn, yn cynnwys y farn, ar gyfer aelodau'r cwmni fel corff ac ar eu cyfer hwy yn unig yn unol â Phennod 3 o Ran 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006 ac nid at unrhyw ddiben arall. Nid ydym, wrth roi'r farn hon, yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb dros unrhyw ddiben arall nac unrhyw berson arall y dangosir yr adroddiad hwn iddo neu a ddaw ger ei fron heblaw lle y mynegir hynny'n benodol drwy ein caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw.

Beth mae archwiliad o ddatganiadau ariannol yn ei olygu

Mae a wnelo archwiliad â chasglu tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesiad o:

- a yw'r polisiau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Grŵp a'r rhiant-gwmni ac wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol;
- rhesymoldeb yr amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan y cyfarwyddwyr;
- cyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Rydym yn canolbwyntio ein gwaith yn y meysydd hyn yn bennaf drwy asesu barn y cyfarwyddwyr yn erbyn y dystiolaeth sydd ar gael, gan lunio ein barn ein hun, a gwerthuso'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol.

Rydym yn profi ac yn archwilio gwybodaeth, gan ddefnyddio dull samplu a dulliau archwilio eraill, i'r graddau sy'n angenrheidiol yn ein barn ni i roi sail resymol i ni ddod i gasgliadau. Rydym yn caffael tystiolaeth archwilio drwy brofi effeithiolrwydd rheolaethau, gweithdrefnau parhaol neu gyfuniad o'r ddau.

Darllenwn hefyd yr holl wybodaeth ariannol a gwybodaeth arall yn yr Adroddiad Blynyddol er mwyn nodi anghysondebau perthnasol â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd a nodi unrhyw wybodaeth yr ymddengys ei bod yn berthnasol anghywir yn seiliedig ar y wybodaeth a gasglwyd gennym wrth gynnal yr archwiliad, neu'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os byddwn yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau perthnasol byddwn yn ystyried y goblygiadau ar gyfer ein hadroddiad.

KE RM

Katharine Finn

Uwch Archwilydd Statudol

dros ac ar ran PricewaterhouseCoopers LLP
Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilydd Statudol

Caerdydd

5 Mehefin 2015

Datganiadau ariannol



Robert Griffiths

Yn helpu i gadw ein
corthffosydd yn lân
yn ardal Abertawe



Datganiad Incwm Cyfunol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015

		2015	2014
		£m	£m
Gweithgareddau parhaus	Nodyn		
Refeniw		752.5	736.5
Costau gweithredu:			
- Gwariant gweithredol	3	(294.7)	(296.4)
- Eitemau eithriadol	4	(19.5)	-
- Gwariant ar adnewyddu seilwaith	3	(57.7)	(71.8)
- Dibrisio ac omorteiddio	3	(178.5)	(163.7)
		(550.4)	(531.9)
Elw gweithredu		202.1	204.6
Costau cyllido:			
- Costau cyllido sy'n daladwy a thaliadau tebyg	5a	(147.9)	(160.6)
- Incwm cyllid sy'n dderbyniadwy	5a	3.3	6.3
- (Colledion)/enillion gwerth teg ar offerynnau ariannol deilliadol	5b	(157.1)	94.2
		(301.7)	(60.1)
(Colled)/elw cyn treth incwm		(99.6)	144.5
Trethiant	6	19.5	10.8
(Colled)/elw am y flwyddyn		(80.1)	155.3

Mae'r cwmni wedi dewis cymryd yr eithriad o dan adran 408 o Ddeddf Cwmnïau 2006 i beidio â chyflwyno datganiad incwm y rhiant-gwmni. Elw'r rhiant-gwmni ar gyfer y flwyddyn oedd dim (2014: dim).

Elw sylfaenol am y flwyddyn

	2015	2014
	£m	£m
(Colled)/elw cyn trethiant fesul Datganiad Incwm	(99.6)	144.5
Addasiad ar gyfer:		
- Colledion/(enillion) gwerth teg ar ddatganiadau ariannol deilliadol (gweler nodyn 5b)	157.1	(94.2)
- Cyfnewidiadau a derfynwyd (gweler nodyn 5a)	8.5	-
- Elw cyfrifyddu adeg terfynu prydles (gweler nodyn 5a)	(8.4)	-
- Eitemau eithriadol (gweler nodyn 4)	19.5	-
Elw sylfaenol am y flwyddyn	77.1	50.3

Datganiad Cyfunol o Incwm Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015

	Nodyn	2015 £m	2014 £m
(Colled)/elw am y flwyddyn		(80.1)	155.3
Eitemau na chânt eu hailddosbarthu i elw na cholled			
(Colled)/ennill actiwaraid a gydnabuwyd yn y cynllun pensiwn	21	(32.2)	24.9
Symudiad ar ased treth ohriedig mewn perthynas â'r cynllun pensiwn	6	5.9	(5.8)
Cyfanswm y (gwarant)/incwm cynhwysfawr am y flwyddyn		(106.4)	174.4

Datganiad Cyfunol o Newidiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015

	2015 £m	2014 £m
Balans ar 1 Ebrill	100.0	(74.4)
Cyfanswm y (gwarant)/incwm cynhwysfawr am y flwyddyn	(106.4)	174.4
Balans ar 31 Mawrth	(6.4)	100.0

Ni fu unrhyw newidiadau yn ecwiti'r rhiant-gwmni yn ystod y flwyddyn (2014: dim).


Mantolen Gyfunol ar 31 Mawrth 2015

	Nodyn	2015 £m	2014 £m
Asedau			
Asedau anghyfredol			
Eiddo, offer a chyfarpar	8	3,578.4	3,442.3
Asedau anniriaethol	9	100.6	83.9
Buddsoddiadau	10	-	-
		3,679.0	3,526.2
Asedau cyfredol			
Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	11	532.6	526.7
Stocrestrau		2.0	2.3
Asedau ariannol:			
- offerynnau ariannol deilliadol	15	3.7	3.7
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	12	148.0	94.4
		686.3	627.1
Cyfanswm yr asedau		4,365.3	4,153.3
Rhwymedigaethau			
Rhwymedigaethau cyfredol			
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	13	(539.3)	(535.5)
Rhwymedigaethau ariannol:			
- benthyciadau	14	(28.5)	(30.6)
- offerynnau ariannol deilliadol	15	(21.5)	(32.3)
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau eraill	17	(6.1)	(4.6)
		(595.4)	(603.0)
Asedau cyfredol net		90.9	24.1
Rhwymedigaethau anghyfredol			
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	13	(99.8)	(80.2)
Rhwymedigaethau ariannol:			
- benthyciadau	14	(2,998.4)	(2,879.3)
- offerynnau ariannol deilliadol	15	(404.3)	(236.4)
Buddiannau ôl-gyflogaeth	21	(32.5)	(2.8)
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau eraill	17	(21.5)	(10.3)
		(3,556.5)	(3,209.0)
Asedau net cyn treth ohiriedig		213.4	341.3
Treth ohiriedig - net	7	(219.8)	(241.3)
(Rhwymedigaethau)/asedau net		(6.4)	100.0
(Diffyg)/cronfeydd wrth gefn		(6.4)	100.0

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 102 i 134 gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar 5 Mehefin 2015 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:



C A Jones
Prif Swyddog Gweithredol



P J Bridgewater
Cyfarwyddwr Cyllid

Mantolen y Rhiant-Gwmni ar 31 Mawrth 2015


	Nodyn	2015 £m	2014 £m
Asedau			
Asedau anghyfredol			
Buddsoddiadau	10b	-	-
Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	11	3.4	3.4
		3.4	3.4
Asedau cyfredol			
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	12	0.1	0.1
		0.1	0.1
Rhwymedigaethau			
Rhwymedigaethau cyfredol			
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	13	(3.5)	(3.5)
		(3.5)	(3.5)
Asedau net		-	-
Cronfeydd wrth gefn			
Enillion argadwedig		-	-
Cyfanswm cronfeydd wrth gefn		-	-

Mae'r nodiadau ar dudalennau 107 i 134 yn rhan annatod o'r datganiadau ariannol hyn.

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol ar dudalennau 102 i 134 gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ar 5 Mehefin 2015 ac fe'u llofnodwyd ar ei ran gan:



C A Jones
Prif Swyddog Gweithredol



P J Bridgewater
Cyfarwyddwr Cyllid

Datganiad Llif Arian Parod Cyfunol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015

	Nodyn	2015 £m	2014 £m
Llifau arian parod o weithgareddau gweithredu			
Arian parod a gynhyrchwyd o weithrediadau	18a	381.0	351.8
Llog a dalwyd	18b	(123.5)	(174.7)
Treth incwm a dderbyniwyd		1.6	-
Arian parod net a gynhyrchwyd o weithgareddau gweithredu		259.1	177.1
Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi			
Llog a dderbyniwyd		3.2	6.3
Eiddo, offer a chyfarpar a brynwyd		(266.6)	(227.4)
Is-gwmni a gaffaelwyd		(19.7)	-
Asedau anniriaethol a brynwyd		(25.2)	(55.5)
Grantiau a chyfraniadau a dderbyniwyd		16.3	14.6
All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi		(292.0)	(262.0)
All-lif arian parod net cyn gweithgareddau cyllido		(32.9)	(84.9)
Llifau arian parod o weithgareddau cyllido			
Benthyciadau hirdymor a dderbyniwyd		160.0	75.0
Ad-daliadau cyfnod benthyciad		(15.9)	(13.5)
Prif daliadau prydlesau cyllidol		(57.4)	(39.4)
Ad-daliadau benthyciadau eraill		(0.2)	(0.2)
Mewnlif arian parod net o weithgareddau ariannu		86.5	21.9
Cynnydd/(gostyngiad) mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	19	53.6	(63.0)
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar 1 Ebrill		94.4	157.4
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar 31 Mawrth	12	148.0	94.4

Datganiad Llif Arian Parod y Rhiant-gwmni ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015

Nid oedd gan y rhiant-gwmni unrhyw lifau arian parod yn ystod y flwyddyn (2014: dim).

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

1 Polisiau cyfrifyddu, rheoli risgiau cyllido ac amcangyfrifon cyfrifyddu

Polisiau cyfrifyddu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015

Nodir y prif bolisiau cyfrifyddu a fabwysiadwyd wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn isod. Mae'r polisiau hyn wedi cael eu cymhwyso'n gyson at y ddwy flynedd a gyflwynwyd

Sail y paratoi

Paratowyd datganiadau ariannol cyfunol Glas Cymru Cyfyngedig yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) a'r pwyllgor dehongliadau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS IC) fel y'u mabwysiadwyd gan yr Undeb Ewropeaidd a Deddf Cwmnïau 2006 sy'n berthnasol i gwmnïau sy'n cyflwyno adroddiadau o dan ddehongliadau IFRS ac IFRIC. Paratowyd y datganiadau ariannol cyfunol o dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'i haddaswyd drwy ailbriso asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol (yn cynnwys offerynnau ariannol deilliadol) ar werth teg drwy elw neu golled.

Mae Glas Cymru yn gwmni Cyfyngedig drwy Warant. Mae ein Haelodau yn elfen allweddol o'n strwythur corfforaethol, yn cyflawni'r rôl werthfawr y byddai rhanddeiliaid yn ei chwarae o ran llywodraethu corfforaethol. Ei brif weithgaredd yw cyflenwi dŵr a gwaredu dŵr gwastraff o dan yr Offeryn Penodi a wnaed gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru o dan Ddeddf Dŵr 1989.

Sail y cyfuno

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys datganiadau ariannol y cwmni a'i is-gwmnïau. Ymdrinnir â chanlyniadau'r cwmnïau a'r busnesau a gaffaelwyd yn ystod y flwyddyn yn y datganiadau ariannol cyfunol o'r dyddiad y'u caffaelwyd. Dilëir trafodion ac elw rhwng grwpiau ar adeg cyfuno. Paratwir datganiadau ariannol blynyddol y Grŵp hyd at 31 Mawrth. Mae'r datganiadau ariannol hyn yn cwmpasu'r flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2015 gyda symiau cymharol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014.

Newidiadau mewn polisiau cyfrifyddu a datgeliadau

Mabwysiadwyd y safonau canlynol gan y Grŵp am y tro cyntaf yn y

flwyddyn ariannol a ddechreuodd ar 1 Ebrill 2014 a chânt effaith sylweddol ar y Grŵp. Ar 31 Mawrth 2015, nid oedd unrhyw safonau na dehongliadau newydd wedi'u cyhoeddi nad oeddent eto yn weithredol y disgwyliar iddynt gael effaith sylweddol ar ddatganiadau ariannol y cwmni.

Safonau cyfrifyddu a fabwysiadwyd yn ystod y flwyddyn

Yn y flwyddyn gyfredol, mae'r Grŵp wedi mabwysiadu nifer o safonau cyfrifyddu newydd neu ddiwygiedig a amlinellir isod. Nid yw prif bolisiau cyfrifyddu'r Grŵp wedi newid o gymharu â'r flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2014.

IFRS 10 Datganiadau Ariannol Cyfunol

Mae IFRS 10 yn disodli'r rhannau o IAS 27 Datganiadau Ariannol Cyfunol ac ar Wahân sy'n ymdrin â datganiadau ariannol cyfunol ac SIC-12 Cyfuno - Endidau at Ddibenion Arbennig. Mae IFRS 10 yn nodi model rheoli unigol ar gyfer y broses gyfuno sy'n berthnasol i bob endid, gan gynnwys endidau at ddibenion arbennig.

IAS 27 Datganiadau Ariannol ar Wahân (Diwygiwyd 2011)

Dim ond y gofynion ar gyfer datganiadau ariannol ar wahân y mae IAS 27 (Diwygiwyd 2011) yn ymdrin â hwy bellach gan fod y gofynion ar gyfer datganiadau ariannol cyfunol bellach wedi'u cynnwys yn IFRS 10.

IFRS 12 Datgelu Buddiannau mewn Endidau Eraill

Mae IFRS 12 Datgelu Buddiannau mewn Endidau Eraill yn safon newydd a chynhwysfawr sy'n rhagnodi gofynion datgelu ar gyfer pob math o fuddiannau mewn endidau eraill, gan gynnwys cyd-fentrau a chwmnïau cyswllt.

Diwygiad i IAS 32 Offerynnau Ariannol: Cyflwyniadau ar adeg gwrthbwyo asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol.

Mae'r diwygiad hwn yn egluro na ddylai'r hawl i wrthbwyo fod yn amodol ar ddigwyddiad yn y dyfodol. Rhaid iddo hefyd allu cael ei orfodi'n gyfreithiol ar gyfer pob gwrthbarti yn ystod busnes arferol ac os ceir achos o ddiffygdlu,

ansolfedd neu fethdal. Mae'r diwygiad hefyd yn ystyried dulliau setlo.

Diwygiadau i IAS 36 Lleihad yng ngwerth Asedau ar ddatgeliadau ynghylch symiau adenilladwy ar gyfer asedau anariannol

Dilëodd y diwygiad hwn rai datgeliadau ynghylch y swm adenilladwy o CGU a oedd wedi'i gynnwys yn IAS 36 drwy gyhoeddi IFRS 13.

Diwygiad i IAS 39 Offerynnau Ariannol: Cydnabod a mesur deilliadau a drosglwyddir a'r parhad o ran cyfrifyddu ar sail rhagfantoli

Mae'r diwygiad hwn yn ystyried newidiadau deddfwriaethol i ddeilliadau 'dros y cownter' a'r trefniadau i sefydlu gwrthbartion canolog. O dan IAS 39, byddai trosglwyddo deilliadau i wrthbartion canolog yn arwain at ddod â chyfrifyddu ar sail rhagfantoli i ben. Mae'r diwygiad ei hun yn rhoi rhyddhad rhag dod â chyfrifyddu ar sail rhagfantoli i ben pan fydd offeryn rhagfantoli yn bodloni meini prawf penodol.

Cydnabod referniw

Referniw yw'r incwm sy'n dderbyniadwy yn ystod busnes arferol ar gyfer gwasanaethau a ddarperir, heb gynnwys treth ar werth. Lle y darparwyd gwasanaethau, ond na chodwyd onfoneb ar eu cyfer ar ddiwedd y flwyddyn, cynhwysir amcangyfrif o'r gwerth mewn referniw (ceir rhagor o fanylion yn yr adran 'Amcangyfrifon cyfrifyddu critigol'). Mae'r referniw a gydnabuwyd yn adlewyrchu gwerth gwasanaethau a ddarparwyd i gwsmeriaid yn ystod y flwyddyn. Lle mae cwsmeriaid wedi gwneud taliadau ymlaen llaw fel ar ddiwedd y flwyddyn, caiff hyn ei gydnabod fel incwm gohiredig.

Adrodd segment

Caiff segmentau gweithredu eu hadrodd mewn modd sy'n gyson â'r adroddiad mewnol a roddir i'r prif wneuthurwr penderfyniadau gweithredol. Nodwyd mai'r prif wneuthurwr penderfyniadau gweithredol, sy'n gyfrifol am ddyrannu adnoddau ac asesu perfformiad y segment gweithredu, yw'r pwyllgor llywio sy'n gwneud penderfyniadau strategol.

Eiddo, offer a chyfarpar

Cynhwysir eiddo, offer a chyfarpar ar gost llai dibrisiant croniedig.

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

Mae cost yn adlewyrchu pris prynu ynghyd ag unrhyw wariant y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i ddechrau defnyddio'r ased, gan gynnwys costau mewnol y gellir eu priodoli'n uniongyrchol a chostau benthyca.

Mae eiddo, offer a chyfarpar yn cynnwys:

- Asedau seilwaith (sef prif bibellau a charthffosydd, cronfeydd dŵr storio a chronfeydd dŵr heb ei drin a bwmpwyd, argloddiau, piblinellau slwtsh ac arllwysfeydd i'r môr); a
- Asedau eraill (yn cynnwys eiddo, strwythurau gweithredol a chyfarpar ar y dddear, a gosodiadau a ffitiadau).

Adolygir gwerth cario asedau ar gyfer lleihad mewn gwerth os awgryma amgylchiadau na fydd modd adennill y gwerth cario o bosibl. Adolygir oes asedau a gwerthoedd gweddilliol yn flynyddol.

Asedau seilwaith

Mae asedau seilwaith yn cynnwys cronfeydd dŵr storio a rhwydwaith o systemau dŵr a dŵr gwastraff tanddaearol yn bennaf. At ddibenion cyfrifyddu, mae'r system ddŵr wedi'i rhannu'n elfennau sy'n cynrychioli categorïau o ddosbarthiadau o asedau gyda nodweddion ac oes ased debyg. Mae'r system dŵr gwastraff wedi'i rhannu'n elfennau sy'n cynrychioli ardaloedd gweithredu daearyddol, sy'n adlewyrchu'r ffordd y mae'r Grŵp yn gweithredu ei weithgareddau dŵr gwastraff.

Trinnir gwariant ar asedau sy'n ymwneud â chynnydd mewn gallu, gwelliannau neu odnewyddu elfennau o'r rhwydwaith fel ychwanegiadau, sydd wedi'u cynnwys ar gost. Nodir gwariant yr aed iddo wrth atgyweirio a chynnal a chadw gallu gweithredu elfennau seilwaith unigol, 'gwariant ar adnewyddu seilwaith', yn y flwyddyn yr eir i'r gwariant.

Pennir y tâl dibrisiant ar gyfer asedau seilwaith ar gyfer pob elfen o'r rhwydwaith ac mae'n seiliedig ar gost pob elfen, gwerth gweddilliol amcangyfrifedig o'r oes ddefnyddiol ddisgwyliedig gyfartalog sy'n weddill. Mae oes economaidd gyfartalog ddefnyddiol elfennau'r seilwaith yn amrywio'n bennaf o 60 i 150 mlynedd.

Asedau eraill

Mae asedau eraill wedi'u dibrisio ar sail linol yn ystod eu hoes economaidd ddefnyddiol

amcangyfrifedig, sydd fel a ganlyn:

Adeiladau rhydd-ddaliadol	60 bl.
Strwythurau gweithredol	5–80 bl.
Offer, cyfarpar a chaledwedd gyfrifiadurol	3–40 bl.

Ni ddibrisir asedau tra byddant yn cael eu hadeiladu nes eu bod wedi'u comisiynu. Ni ddibrisir tir.

Costau benthyca

Caiff costau benthyca cyffredinol a phenodol y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i'r broses o gaffael, adeiladu a chynhyrchu asedau cymhwys, sef asedau sy'n cymryd cyfnod sylweddol o amser i'w paratoi er mwyn eu defnyddio neu eu gwerthu at ddiben arfaethedig, eu hychwanegu at gost y rheini nes y bydd yr asedau'n barod ar gyfer eu defnydd arfaethedig.

Asedau anniriaethol

Cynhwysir asedau anniriaethol, sy'n cynnwys meddalwedd gyfrifiadurol, datblygiadau system ac ymchwil a datblygu yn bennaf, ar gost llai amorteiddio cronedig. Mae cost yn adlewyrchu pris prynu ynghyd ag unrhyw wariant y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i ddechrau defnyddio'r ased, gan gynnwys costau mewnol y gellir eu priodoli'n uniongyrchol. Cydnabyddir gwariant ar ymchwil fel gwariant yr aed iddo. Caiff costau yr aed iddynt ar brosiectau datblygu eu cydnabod fel asedau anniriaethol pan fodlonir y meini prawf cydnabod perthnasol (yn unol ag IAS 38).

Adolygir gwerth cario asedau anniriaethol ar gyfer lleihad mewn gwerth os awgryma amgylchiadau na fydd modd adennill y gwerth cario o bosibl. Caiff asedau anniriaethol eu hamorteiddio ar sail linol yn ystod eu hoes economaidd ddefnyddiol amcangyfrifedig, sydd rhwng 3 ac 20 mlynedd. Adolygir oes yr asedau hyn yn flynyddol.

Asedau ar brydles

Pan gaiff asedau eu cyllido drwy drefniadau prydlesu, sy'n trosglwyddo'n sylweddol yr holl risgiau a buddiannau sy'n gysylltiedig â bod yn berchen ar ased i'r prydlesai (prydlesau cyllidol), caiff yr asedau eu cyfalafu a'u cynnwys o dan 'eiddo, offer a chyfarpar' gyda'r rhwymedigaeth gyfatebol i'r prydleswr yn cael ei chynnwys o dan 'rhwymedigaethau ariannol - benthyciadau'. Ymdrinnir â thaliadau prydles fel rhai sy'n cynnwys elfen o gyfalaf a thâl cyllidol, gyda'r elfen

o gyfalaf yn lleihau'r rhwymedigaeth i'r prydleswr o'r tâl cyllidol yn cael ei gydnabod dros gyfnod y brydles yn seiliedig ar ei gyfradd ymhlwg er mwyn rhoi cyfradd llog gyson ar falans y rhwymedigaeth sy'n weddill.

Ystyrir pob prydles arall yn brydles weithredu. Codir costau rhentu o dan brydlesau gweithredu i'r datganiad incwm ar sail linol dros gyfnod y brydles.

Grantiau a chyfraniadau cwsmeriaid

Mae grantiau a chyfraniadau cwsmeriaid mewn perthynas â gwariant ar eiddo, offer a chyfarpar wedi'u gwrthbwyso yn erbyn yr asedau hyn.

Caiff grantiau mewn perthynas â gwariant refeniw eu credydu i'r Datganiad incwm dros yr un cyfnod â'r gwariant cysylltiedig.

Cymelldaliadau rhaglenni gwariant cyfalaf

Mae cytundebau'r Grŵp â'i bartneriaid adeiladu sy'n ymwneud â chyflawni rhaglenni gwariant cyfalaf yn ymgorffori bonysau cymell sy'n daladwy ar ôl i'r rhaglenni gael eu cwblhau. Mae cost ychwanegiadau eiddo, offer a chyfarpar yn cynnwys cronid ar gyfer bonysau cymell a enillwyd hyd yma, mewn perthynas â phrosiectau sydd wedi'u cwblhau i raddau helaeth ar ddiwedd y flwyddyn, lle yr ystyrir ei bod yn debygol y câi cymelldaliad ei wneud. Dim ond mewn perthynas â phrosiectau sydd wedi'u cwblhau y caiff symiau y gellir eu hadennill gan bartneriaid contract o ran methu â chyflawni targedau eu cydnabod.

Symiau masnach derbyniadwy

Caiff symiau masnach derbyniadwy eu cydnabod ar y dechrau ar werth teg ac wedyn eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio llai darpariaeth ar gyfer lleihad mewn gwerth. Yn gyntaf, cânt eu hasesu'n unigol o ran lleihad mewn gwerth, neu ar y cyd pan na fydd y symiau derbyniadwy yn sylweddol yn unigol. Os nad oes unrhyw dystiolaeth wrthrychol o leihad mewn gwerth ar gyfer swm derbyniadwy unigol, caiff ei gynnwys mewn grŵp o symiau derbyniadwy gyda nodweddion tebyg o ran risg credyd a'i asesu'n gyfunol ar gyfer lleihad mewn gwerth wrth heneiddio. Cofnodir symudiadau yn y ddarpariaeth ar gyfer lleihad mewn gwerth yn y datganiad incwm.

Arian parod o'r hyn sy'n cyfateb iddo

Mae arian parod o'r hyn sy'n cyfateb

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

iddo yn cynnwys buddsoddiadau hylifol iawn y gellir yn hawdd eu troi'n symiau hysbys o arian parod ac nad yw eu gwerth yn debygol o newid yn sylweddol. Y math yma o fuddsoddiadau, fel arfer, yw'r rhai sy'n aeddfedu llai na thri mis o'r dyddiad caffael ac maent fel arfer yn cynnwys arian parod mewn llaw ac adneuo gyda banciau neu sefydliadau ariannol eraill.

Buddiannau ymddeol

1) Cynllun buddiannau diffiniedig

Mae'r Grŵp yn gweithredu cynllun buddiannau diffiniedig, o ariennir drwy gyfraniadau'r cyflogwr a'r cyflogaion. Cynhelir prisiau actiwaraid o'r cynllun o leiaf bob tair blynedd. Mae cyfraddau cyfrannu yn seiliedig ar gyngor actiwari proffesiynol cymwysedig.

Y rhwymedigaeth a gydnabuwyd yn y fantolen mewn perthynas â chynlluniau pensiwn buddiannau diffiniedig yw gwerth presennol y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig ar ddiwedd y cyfnod adrodd llai gwerth teg asedau'r cynllun. Cyfrifir y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig yn flynyddol gan actiwariad annibynnol gan ddefnyddio dull rhagamcanu unedau credyd. Pennir gwerth presennol y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig drwy ddisgowntio'r all-lifau arian parod amcangyfrifedig yn y dyfodol gan ddefnyddio cyfraddau llog bondiau corfforaethol o safon a gaiff eu mynegi yn yr arian cyfred y caiff y buddiannau eu talu ynddo, ac a fydd yn aeddfedu tua'r un odeg ag y bydd y rhwymedigaeth pensiwn cysylltiedig yn codi. Mewn gwledydd lle nad oes unrhyw farchnad ddofn yn y cyfryw fondiau, defnyddir cyfraddau'r farchnad ar fondiau'r llywodraeth.

Caiff enillion a cholledion actiwaraid sy'n deillio o addasiadau oherwydd profiad a newidiadau mewn tybiaethau actiwaraid eu newid neu eu credydu i ecwiti mewn incwm cynhwysfawr arall yn ystod y cyfnod pan fyddant yn codi.

Caiff costau gwasanaethau yn y gorffennol eu cydnabod ar unwaith yn y datganiad incwm.

2) Cynllun cyfraniadau diffiniedig

Mae'r Grŵp hefyd yn gweithredu cynllun cyfraniadau diffiniedig i'r cyflogaion hynny nad ydynt yn aelodau o'r cynllun buddiannau diffiniedig. Cydnabyddir rhwymedigaethau ar gyfer cyfraniadau i'r cynllun fel traul yn y datganiad incwm yn ystod y cyfnod pan fyddant yn codi.

Rhwymedigaethau ariannol

Caiff dyled ei mesur i ddechrau ar werth teg, sef yr elw net ar ôl didynnu costau dyroddi y gellir eu priodoli'n uniongyrchol, ac wedyn ei mesur yn ôl cost wedi'i hamorteiddio. Cydnabyddir costau dyroddi dyled yn y datganiad incwm dros dymor disgwylidig offerynnau o'r fath.

Rhwymedigaethau i dalu am nwyddau/ gwasanaethau a gaffaelwyd yn ystod busnes arferol gan gyflenwyr yw symiau masnach taladwy. Caiff cyfrifon sy'n daladwy eu dosbarthu'n rhwymedigaethau cyfredol os oes taliad yn daladwy o fewn blwyddyn, neu yn ystod cylch gweithredu arferol y busnes os yw'n hirach na hynny. Os na, cânt eu cyflwyno fel rhwymedigaethau anghyfredol.

Offerynnau deilliadol a ddefnyddir gan y Grŵp yw cyfnewidiadau o ran cyfradd llog a chwyddiant. Defnyddir offerynnau deilliadol at ddiben rhagfantoli er mwyn newid proffil risg yr amlygiadau sylfaenol presennol a geir o fewn y Grŵp. Caiff deilliadau eu cydnabod i ddechrau ac wedyn eu hailfesur ar werth teg (yn seiliedig ar ddata ar brisiau'r farchnad gan wrthbartion perthnasol). Yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2015, nid oedd yr un o ddeilliadau'r Grŵp yn gymwys ar gyfer cyfrifyddu ar sail rhagfantoli o dan IAS 39 (2014: dim). Caiff yr offerynnau hyn eu cario ar werth teg gyda newidiadau mewn gwerth teg yn cael eu cydnabod ar unwaith yn y datganiad incwm.

Treth ohiriedig

Darperir treth incwm ohiriedig yn llawn, gan ddefnyddio'r dull rhwymedigaeth, ar wahaniaethau dros dro sy'n deillio sylfaen treth asedau a rhwymedigaethau a'u symiau cario yn y datganiadau ariannol cyfunol. Fodd bynnag, ni roddir cyfrif am y dreth incwm ohiriedig os yw'n deillio o gydnabod ased neu rhwymedigaeth i ddechrau mewn trafodyn yn hytrach nag o gyfuno busnes nad oedd, ar adeg y trafodyn, yn effeithio ar gyfrifyddu nac ar elw neu golled trethadwy. Pennir treth incwm ohiriedig gan ddefnyddio cyfraddau (a chyfreithiau) treth a gyhoeddwyd neu a gyhoeddwyd yn sylweddol ar ddyddiad y fantolen ac y disgwylir iddynt fod yn gymwys pan gaiff ased y dreth incwm ohiriedig gysylltiedig ei gwredu neu pan gaiff rhwymedigaeth y dreth incwm ohiriedig ei bodloni.

Mae treth incwm ohiriedig wedi'i chydabod mewn perthynas ag

enillion a ailfuddsoddiwyd ac eithrio lle y'r ailfuddsoddiwyd mewn rhai asedau gweithredol y mae'r cwmni yn bwriadu eu defnyddio tan ddiwedd eu hoes economaidd ddefnyddiol. Mae'r cwmni'n rhagweld y caiff yr asedau hyn eu gwaredu maes o law am elw bach, neu elw sy'n llai na'u sylfaen treth, ac felly ni ddisgwylir i unrhyw enillion taladwy godi yn y dyfodol.

Caiff asedau treth incwm ohiriedig eu cydnabod i'r graddau ei bod yn debygol y bydd elw trethadwy ar gael yn y dyfodol y gellir defnyddio gwahaniaethau dros dro ar ei gyfer.

Darpariaethau

Caiff darpariaethau ar gyfer costau ailstrwythuro, dadfeiliadau a cholledion nas yswiriwyd eu cydnabod pan fydd gan y Grŵp rhwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol bresennol o ganlyniad i ddigwyddiadau yn y gorffennol, mae'n debygol y bydd angen all-lif adnoddau er mwyn setlo'r rhwymedigaeth; a phan fydd y swm wedi'i amcangyfrif mewn modd dibynadwy. Mae darpariaethau ailstrwythuro yn cynnwys disgwylid cyflogaion a chostau i ychwanegu at gronfeydd pensiwn. Lle mae'r Grŵp yn derbyn hawliadau nad yw wedi'i yswirio rhagdynt neu lle mae elfen o'r hawliad nad yw yswiriant ar gael ar ei chyfer, gwneir darpariaeth ar gyfer y rhwymedigaethau disgwylid yn y dyfodol. Ni chydabyddir darpariaethau am golledion gweithredu yn y dyfodol.

Pan fydd nifer o rhwymedigaethau tebyg, pennir y tebygolrwydd y bydd angen all-lif mewn setliad drwy ystyried dosbarthiad y rhwymedigaethau yn gyffredinol. Cydnabyddir darpariaeth hyd yn oed os yw'r tebygolrwydd y bydd all-lif mewn perthynas ag unrhyw eitem unigol a gaiff ei gynnwys yn yr un dosbarth o rhwymedigaethau yn fach.

Eitemau eithriadol

Eitemau eithriadol yw'r eitemau sylweddol hynny a ddatgelir ar wahân oherwydd eu maint a/neu natur fel y gellir deall gwir berfformiad ariannol y cwmni.

Defnyddio mesurau wedi'u haddasu

Mae'r Grŵp yn cyflwyno mesur elw cyn treth sylfaenol. Defnyddir y mesur hwn i ddadansoddi perfformiad yn fewnol gan fod y rheolwyr o'r farn ei fod yn cynrychioli perfformiad sylfaenol y busnes yn well. Gwneir addasiadau ar gyfer eitemau eithriadol, prydlesau a derfynir

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

a symudiadau gwerth teg ar ddeilliadau.

Busnes gweithredol

Fel y disgrifir yn yr adran ar reoli risg cyllido, mae'r Grŵp yn bodloni ei ofyniad cyfalaf gweithio o ddydd i ddydd drwy ei gyfleusterau banc. Mae'r amodau economaidd cyfredol yn dal i greu ansicrwydd ynghylch lefel y galw am wasanaethau'r Grŵp; ac argaeledd cyllid gan fanciau yn y dyfodol agos. Mae rhagolygon ac amcanestyniadau'r Grŵp, sy'n ystyried newidiadau sy'n rhesymol bosibl o ran perfformiad masnach, yn dangos y dylai allu gweithredu o fewn ei gyfleusterau cyfredol. Ar ôl gwneud ymholiadau, mae gan y cyfarwyddwyr ddisgwyliad rhesymol bod gan y Grŵp ddigon o adnoddau i barhau mewn busnes yn y dyfodol rhagweladwy. Felly, mae'r Grŵp yn parhau i fabwysiadu sail busnes gweithredol wrth baratoi ei ddatganiadau ariannol.

Er mwyn paratoi datganiadau ariannol yn unol ag IFRS mae angen defnyddio amcangyfrifon cyfrifyddu hanfodol penodol. Mae hefyd angen i reolwyr lunio barn wrth gymhwyso polisiau cyfrifyddu'r Grŵp. Datgelir y meysydd sy'n gofyn am arddel mwy o ddoethineb neu sy'n gymhleth iawn, neu feysydd lle mae tybiaethau ac amcangyfrifon yn bwysig i'r datganiadau ariannol, ar dudalen 111.

Amcanion a pholisïau rheoli risg cyllido

Rheolir gweithgareddau trysorlys o fewn cyfres ffurfiol o bolisiau ac amcanion trysorlys, a gaiff eu hadolygu'n rheolaidd a'u cymeradwyo gan y Bwrdd. Mae'r polisiau yn gwahardd yn benodol unrhyw drafodion o natur hafasnachol a'r defnydd o offerynnau ariannol cymhleth. Caiff polisiau manwl penodol ar gyfer rheoli cyfradd llog, arian cyfred a risg chwyddiant a risg rheoli hylifedd eu cymeradwyo gan y Bwrdd a dim ond gyda chaniatâd Ymddiriedolwr Sicrwydd Dŵr Cymru Cyfyngedig y gallir eu newid. Caiff y risg ei lliniaru ymhellach drwy gyfyngu ar yr amlygiad i unrhyw wrthbarti penodol. Mae'r Grŵp yn defnyddio offerynnau ariannol i godi arian ac i reoli risg weithredol; yn bennaf, mae'r offerynnau hyn yn cynnwys bondiau a restrwyd, prydlesau cyllidol, cyfleusterau benthychiadau banc a deilliannau.

Y risg o ran credyd

Mae gan y Grŵp bolisi doeth ar gyfer buddsoddi arian parod ac adneuo

banc byrdymor, a nodwyd gan y ddogfennaeth bondiau yn y Cytundeb Telerau Cyffredin. Gellir gosod adneuo am hyd at flwyddyn gyda gwrthbartion sydd â gradd fyrdymor o A1/P1/F1 o leiaf gan Standard & Poor's, Moody's a Fitch Ratings yn y drefn honno. Dylid gosod adneuo am dros flwyddyn gyda gwrthbartion â gradd o AA-/Aa3/AA- o leiaf.

Yn ymarferol, yn yr amgylchedd economaidd sydd ohoni, mae'r Grŵp wedi mabwysiadu dull mwy darbodus o reoli arian parod a gosodir adneuo am uchafswm o dri mis gyda banciau yn amodol ar feini prawf o radd fyrdymor o A1/P1/F1 o leiaf. Dim ond gydag uwchfanciau cenedlaethol gradd AAA penodol y gellir gosod bondiau a phryniannau papur masnachol am hyd at flwyddyn. Yr uchafswm buddsoddiad arian parod gyda gwrthbarti unigol oedd £48 miliwn (2014: £25 miliwn).

Y risg o ran cyfraddau llog

Mae'r Grŵp yn rhagfantoli o leiaf 85% o'i holl rwymedigaethau ariannol sydd heb eu bodloni, gan gynnwys prydlesau cyllidol, naill ai'n rhwymedigaethau mynegrifol neu'n rhwymedigaethau cyfradd sefydlog. At y diben hwn, caiff rhwymedigaethau llog cyfradd gyfnewidiol eu rhagfantoli drwy gyfuniad o offerynnau deilliadol a balansau arian parod. Mae'r fframwaith rheoleiddio, y mae referniw a gwerth asedau rheoliadol yn cael eu mynegeo yn unol ag ef, hefyd yn amlygu'r Grŵp i risg o chwyddiant. Felly, yn amodol ar gyfyngiadau'r farchnad a chymeradwyoeth y Bwrdd, gallai'r Grŵp geisio codi dyled newydd drwy offerynnau mynegrifol neu lunio trafodion rhagfantoli priodol.

Mae'r Grŵp yn dadansoddi ei amlygiad i gyfraddau llog ar sail ddynamig. Caiff gwahanol senarios eu hefelychu gan ystyried ail-gyllido, adnewyddu'r safleoedd presennol, cyllido amgen a rhagfantoli. O gyfanswm y benthychiadau o £3,027 miliwn ar 31 Mawrth 2015 (2014: £2,910 miliwn), nid oedd dim yn ymwneud â dyled cyfradd gyfnewidiol (2014: dim). Felly, mae'r Grŵp yn ystyried bod ei amlygiad cyffredinol i gyfraddau llog ar ddyddiad y fantolen mor fach â phosibl.

Ar 31 Mawrth 2015, roedd 100% (2014: 100%) o dyled gros y Grŵp ar gyfraddau llog sefydlog neu fynegrifol ('RPI') ar ôl ystyried cyfnewidiadau mewn cyfraddau llog ac RPI. Mae'r 'rhagfantolion' a sefydlwyd i reoli risgiau o ran cyfraddau llog yn

economaidd o ran natur, ond nid ydynt yn bodloni gofynion penodol IAS 39 er mwyn cael eu trin fel rhagfantolion at ddibenion cyfrifyddu. Yn unol â hynny, adlewyrchir pob symudiad yng ngwerth teg offerynnau ariannol deilliadol yn y datganiad incwm. Mae hyn wedi arwain at rwymedigaeth net o £422 miliwn ar y fantolen ar 31 Mawrth 2015 (2014: £265 miliwn) ond, gan dybio bod y cyfnewidiadau wedi eu dal nes eu bod yn aeddfedu, bydd hyn yn lleihau i ddim yn y pen draw.

Rhagfantolion pris pŵer

Mae'r cwmni yn llunio contractau sy'n pennu pris cyfran o bryniannau pŵer yn y dyfodol er mwyn lleddfu effaith amrywiannau mewn prisiau pŵer. Nid yw'r contractau hyn yn gymwys fel offerynnau ariannol o dan IAS 39 nac fel contractau rhwymedigaethus o dan IAS 37 ac, o ganlyniad, ni chânt eu cynnwys yn y datganiadau ariannol nes bod y contractau yn effeithiol.

Ailgyllido risg

Caiff y broses o ailgyllido risg ei rheoli drwy gadw cydbwysedd rhwng parhad cyllid a hyblygrwydd drwy'r defnydd o fenthychiadau ar draws amrywiaeth o offerynnau, math a dyddiadau aeddfedu. Polisi'r Grŵp yw sicrhau nad yw'r proffil aeddfedrwydd yn gosod straen ormodol ar ei allu i ad-dalu benthychiadau. O dan y polisi hwn, ni all mwy nag 20% o brifswm benthychiadau'r Grŵp o £3,027 miliwn (2014: £2,910 miliwn) fod yn ddyledus mewn unrhyw gyfnod o 24 mis

Y risg o ran hylifedd

Mae'r Grŵp yn cynnal cyfleusterau bancio penodol er mwyn cael hyblygrwydd wrth reoli ei hylifedd.

O dan y Cytundeb Telerau Cyffredin sy'n rheoli rhwymedigaethau i ddeiliaid bond a chredydwyd ariannol eraill, mae'n ofynnol i'r Grŵp sicrhau bod arian parod ar gael i ariannu gweithrediadau am 12 mis. Ar 31 Mawrth 2015, roedd y Grŵp wedi ymrwmo cyfleusterau benthyca nas hawliwyd o £190 miliwn (2014: £140 miliwn) ac arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo (ac eithrio cyfrif taliadau gwasanaeth dyledion) o £129 miliwn (2014: £73 miliwn).

Mae gan y Grŵp gyfleusterau credyd cylchdro gwerth £120 miliwn. Bydd £60 miliwn o'r cyfleusterau hyn yn dod i ben ym mis Mai 2020, a bydd y £60 miliwn sy'n weddill ar gael tan fis Awst 2019. Ceir cyfleuster gorddrafth o £10 miliwn hefyd (2014: £10 miliwn).

Nodiadau i'r datganiadau ariannol

Ar 31 Mawrth 2015 roedd cyfleuster hylifedd arbennig o £135 miliwn hefyd (2014: £135 miliwn); mae angen hyn er mwyn bodloni rhwymedigaethau o ran llog a rhwymedigaethau eraill na ellir eu hariannu drwy lif arian parod gweithredu os bydd yr Ymddiriedolwr Sicrwydd yn datgan cyfnod atal, os bydd y Grŵp yn methu â chyflawni cyfmodau cyllido dyled. Gellir adnewyddu'r cyfleuster yn flynyddol.

Risg cyfalaf

Amcan y Grŵp wrth reoli cyfalaf yw diogelu ei allu i barhau fel busnes gweithredol. O ystyried yr amgylchedd rheoleiddio y mae'r Grŵp yn gweithredu ynddo, mae'r Grŵp yn monitro cyfalaf ar sail y gymhareb gerio. Cyfrifir hon fel dyled net (fel y'i diffiniwyd yng nghyfmodau benthyca'r Grŵp) fel cyfran o'i Gwerth Cyfalaf Rheoliadol (RCV) fel y'i cysylltir â symudiadau yn y Mynegai Prisiau Manwerthu ac fel y'i pennwyd gan Ofwat. Ar 31 Mawrth 2015 roedd gerio yn 60%.

Mewn perthynas â'r risgiau a nodir uchod, darperir datgeliadau meintiol eraill yn nodyn 16.

Amcangyfrifon a phenderfyniadau cyfrifyddu hanfodol

Er mwyn paratoi datganiadau ariannol sy'n cydymffurfio ag IFRS mae angen y defnydd o amcangyfrifon a thybioethau sy'n effeithio ar y symiau o asedau a rhwymedigaethau a nodir ar ddyddiad y datganiadau ariannol a'r symiau o referniw a threulio a nodir yn ystod y cyfnod adrodd. Er bod yr amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar wybodaeth rheolwyr am y swm, digwyddiadau neu gamau gweithredu, gall canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hynny yn y pen draw.

Darpariaeth ar gyfer lleihad yng ngwerth symiau masnach derbyniadwy

Cyfrifir colledion unigol oherwydd lleihad mewn gwerth ar ddyledion cwsmeriaid ar sail asesiad unigol o'r llifau arian parod a ddisgwyllir. Cyfrifir colledion ar y cyd oherwydd lleihad mewn gwerth ar symiau derbyniadwy gyda risg credyd debyg gan ddefnyddio model ystadegol. Y dybioeth allweddol yn y model yw'r tebygolrwydd o fethu ag adennill symiau pan fyddant yn ôl-ddyledus. Pennir y tebygolrwydd o fethu ag adennill symiau gan brofiad yn y gorffennol, wedi'i addasu ar gyfer newidiadau mewn ffactorau allanol.

Felly byddai newidiadau annisgwyl yn y sefyllfa economaidd, ac yn ymddygiad cwsmeriaid, yn effeithio ar gywirdeb cyfrifiadau o leihad mewn gwerth. I'r graddau y mae'r methiant i adennill ôl-ddyledion yn newid 1%, byddai'r ddarpariaeth ar gyfer lleihad mewn gwerth yn cynyddu neu'n gostwng £0.8 miliwn (2014: £0.7 miliwn).

Buddiannau pensiwn

Mae gwerth presennol y rhwymedigaethau pensiwn yn dibynnu ar y cyfrifiad actiaraidd, sy'n cynnwys nifer o dybioethau. Mae'r tybioethau hyn yn cynnwys y gyfradd ddisgowntio, a ddefnyddir i gyfrifo gwerth presennol yr all-lifau arian parod amcangyfrifedig y bydd eu hangen yn y dyfodol i fodloni'r rhwymedigaethau pensiwn. Wrth bennu'r gyfradd ddisgowntio sydd i'w defnyddio, mae'r Grŵp yn ystyried arenillion y farchnad ar fondiau corfforaethol o safon, wedi'u mynegi mewn sterling, a fydd yn aeddfedu tua'r un adeg ag y bydd y rhwymedigaeth pensiwn yn codi.

Croniad incwm a fesurwyd

Mae referniw yn cynnwys croniad ar gyfer taliadau nas biliwyd ar ddiwedd y flwyddyn. Amcangyfrifir y croniad drwy ddefnyddio methodoleg ddiffiniedig yn seiliedig ar y defnydd cyfartalog, wedi'i bwysoli o ddŵr yn ôl tariff, a gyfrifir ar sail gwybodaeth filio hanesyddol wedi'i haddasu ar gyfer newidiadau mewn ffactorau allanol, megis y tywydd. Roedd cyfanswm y croniad ar 31 Mawrth 2015 yn £66.8 miliwn (2014: £64.2 miliwn). Byddai newid o 1% mewn defnydd gwirioneddol o'r hyn a amcangyfrifwyd yn cynyddu neu'n lleihau'r croniad £0.7 miliwn (2014: £0.7 miliwn).

Amcangyfrif gwerth teg

Yn unol ag IFRS 13 Mesur Gwerth Teg, caiff deilliadau masnachu a thrysorlys y Grŵp eu categoreiddio'n lefelau gwahanol;

Lefel 1: Prisiau a ddyfynnwyd (heb eu haddasu) mewn marchnadoedd gweithredol ar gyfer asedau neu rwymedigaethau union debyg.

Lefel 2: Mewnbynnau ar wahân i brisiau a ddyfynnwyd ar Lefel 1 sy'n ganfyddadwy ar gyfer yr ased neu rwymedigaeth, naill ai'n uniongyrchol (hynny yw, fel prisiau) neu'n anuniongyrchol (hynny yw, wedi'u deillio o brisiau).

Lefel 3: Mewnbynnau ar gyfer yr ased neu rwymedigaeth nad ydynt

yn seiliedig ar ddata canfyddadwy o'r farchnad (hynny yw, mewnbynnau anghanfyddadwy).

Caiff holl ddeilliadau masnachu a thrysorlys y Grŵp eu categoreiddio ar Lefel 2 ac ar 31 Mawrth 2015 fe'u prisiwyd fel a ganlyn:

Asedau: Deilliadau masnachu £0.0 miliwn, Deilliadau trysorlys £3.7 miliwn. (Mawrth 2014: Deilliadau masnachu £0.0 miliwn, Deilliadau trysorlys £3.7 miliwn).

Rhwymedigaethau: Deilliadau masnachu £4.2 miliwn, Deilliadau trysorlys £425.8 miliwn. (Mawrth 2014: Deilliadau masnachu £737 miliwn, Deilliadau trysorlys £268.6 miliwn).

Mae deilliadau masnachu yn ymwneud â rhagfantolion pris pŵer ac ni chânt eu cofnodi ar y fantolen. Mae deilliadau trysorlys yn ymwneud â chontractau cyfnewidiadau cyfradd llog ac fe'u cofnodir ar werth teg ar y fantolen. Aseswyd bod pob un o'r rhain ar Lefel 2.

Pennwyd gwerth teg contractau rhagfantoli pris pŵer gan ddefnyddio cyfraddau a ddyfynnir mewn marchnad weithredol. Pennir gwerth teg cyfnewidiadau cyfradd llog gan ddefnyddio blaengyfraddau llog a dynnir o gromliniau cynnyrch canfyddadwy. Mae effeithiau disgowntio yn ansylweddol ar y cyfan ar gyfer deilliadau Lefel 2.

Caiff buddsoddiadau dyled Lefel 2 eu priso gan ddefnyddio dull llif arian parod wedi'i ddisgowntio, sy'n disgowntio llifau arian parod cytundebol gan ddefnyddio cyfraddau disgowntio sy'n deillio o brisiau canfyddadwy'r farchnad mewn perthynas ag offerynnau dyled eraill y gwrthbartion a ddyfynnir.

Nid oedd unrhyw drosglwyddiadau rhwng lefelau 1 a 2 yn ystod y flwyddyn.

2. Gwybodaeth segmentol

Mae'r cyfarwyddwyr o'r farn mai dim ond un segment gweithredu sydd, sef gweithredu'r busnes dŵr a charthffosiaeth yn y DU. Gan mai dim ond gweithgareddau domestig sydd gan y Grŵp, dim ond un segment daearyddol sydd; felly, mae'r datgeliadau ar gyfer y segment hwn eisoes wedi'u rhoi yn y datganiadau ariannol hyn.

3. (Colled)/elw cyn trethiant

Mae'r eitemau canlynol wedi'u cynnwys wrth gyfrifo'r (golled)/elw cyn trethiant:

Grŵp	2015 £m	2014 £m
Gwariant gweithredu		
- Pŵer	44.1	42.6
- Cernegion	9.1	8.6
- Deunyddiau a chyfarpar	5.5	5.1
- Cerbydau ac offer	7.0	7.7
- Treuliau swyddfa	5.0	6.3
- Costau eiddo	4.2	4.4
- Yswiriant	3.9	5.6
- Contractwyr carthffosiaeth	17.1	19.4
- Gwasanaethau labordai a dadansoddi	0.9	1.1
- Comisiynau casglu	4.0	4.0
- Contractau TG	18.9	21.8
- Gwasanaethau a gaiff eu prynu a chostau eraill	25.7	24.7
	145.4	151.3
Costau cyflogaion (nodyn 20)	122.6	113.7
Costau staff wedi'u cyfalafu	(45.4)	(43.5)
	77.2	70.2
Gwariant ar ymchwil a datblygu	-	0.4
Lleihad yng ngwerth symiau masnach derbyniadwy	29.7	28.5
Ardrethi	26.3	29.7
Taliadau Asiantaeth yr Amgylchedd	15.8	16.0
Ffioedd sy'n daladwy i archwylwyr	0.3	0.3
Cyfanswm gwariant gweithredu cyn eitemau eithriadol	294.7	296.4
Eitemau eithriadol (nodyn 4)	19.5	-
Cyfanswm gwariant gweithredu yn cynnwys eitemau eithriadol	314.2	296.4
Gwariant ar adnewyddu seilwaith	57.7	71.8
Dibrisio ac amorteiddio		
- Dibrisiant eiddo, offer a chyfarpar	166.2	154.3
- Rhyddhau incwm gohiriedig	(2.3)	(2.4)
- Amorteiddio asedau anniriaethol	14.6	12.5
- Elw ar waredu eiddo, offer a chyfarpar	-	(0.7)
	178.5	163.7
	550.4	531.9

Gwasanaethau a ddarparwyd gan archwilyr y Grŵp

Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Grŵp y gwasanaethau canlynol gan ei archwilyr statudol:

Grŵp	2015 £000	2014 £000
Ffioedd archwilio		
Archwiliad o'r rhiant-gwmni a datganiadau ariannol cyfunol	13	13
Archwiliad o is-gwmnïau	98	78
Cyfanswm y ffioedd archwilio	111	91
Gwasanaethau sicrwydd sy'n gysylltiedig ag archwilio		
Adolygiad o ddatganiadau ariannol interim	23	23
Gwasanaethau archwilio rheoleiddio yn unol â deddfwriaeth	29	28
Gwaith sicrwydd ar yr adolygiad rheoliadol o brisiau	60	49
Gwaith sicrwydd ar y cynllun taliadau	22	13
Adolygiadau o adroddiadau buddsoddwyr	8	8
Cyfanswm gwasanaethau sicrwydd archwilio a gwasanaethau sicrwydd sy'n gysylltiedig ag archwilio	253	212
Gwasanaethau eraill		
Gwaith sicrwydd ar brosiect i ddisodli'r system filio	68	74
Arall	2	27
Cyfanswm gwasanaethau eraill	70	101
Cyfanswm cost gwasanaethau a ddarparwyd gan archwilyr y Grŵp	323	313

Mae gwasanaethau archwilio rheoleiddio yn cynnwys gwaith archwilio ar y Cyfrifon Rheoleiddio a'r Prif Ddatganiad.

Yn ychwanegol at y gwasanaethau uchod, gweithredodd PricewaterhouseCoopers LLP fel archwilyr Cynllun Pensiwn Dŵr Cymru. Cytunir ar benodiad archwilyr y cynllun pensiwn a'r ffioedd i'w talu mewn perthynas â'r archwiliad gan ymddiriedolwyr y cynllun, sy'n gweithredu'n annibynnol ar reolwyr y Grŵp. Y ffioedd a dalwyd mewn perthynas â gwasanaethau archwilio i'r cynllun pensiwn yn ystod y flwyddyn oedd £19,000 (2014: £18,000).

Mae'r Bwrdd wedi mobwysiadu polisi ffurfiol mewn perthynas â gwasanaethau a dderbyniwyd gan archwilyr allanol. Ni chaiff yr archwilyr allanol eu defnyddio ar gyfer gwasanaethau archwilio mewnol a bydd gwaith nad yw'n waith archwilio sy'n uwch na throthwy o £25,000 yn destun proses dendro gystadleuol a chymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio.

4. Eitemau eithriadol

Ar 22 Mawrth 2015, cyhoeddodd Glas Cymru y byddai'n cyflwyno Cynllun Diswyddo Gwirfoddol Dethol fel rhan o raglen newid AMP6 er mwyn helpu'r busnes i fodloni Penderfyniad Terfynol Ofwat ar reolaethau refferiw ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2015 a mis Mawrth 2020. O ganlyniad, ystyriwyd bod costau ailstrwythuro o £17.6 miliwn o natur eithriadol ac fe'u datgelir ar wahân yn y datganiadau ariannol.

Mae credyd o £2.1 miliwn yn ymwneud â rhyddhau darpariaeth nas defnyddiwyd mewn perthynas â rhaglen ailstrwythuro flaenorol. Mae tâl eithriadol pellach o £4.0 miliwn wedi codi ar ôl dileu'r ewylllys da a ddeilliiodd o gaffael asedau Hydro drwy gyfrwng prynu asedau (gweler nodyn 10). Mae hyn yn rhoi cyfanswm tâl eithriadol o £19.5 miliwn ar gyfer y cyfnod.

5. Costau cyllido

a) Cost cyllid cyn (colledion)/enillion gwerth teg ar offerynnau ariannol deilliadol

Grŵp	2015	2014
	£m	£m
Llog sy'n daladwy ar fondiau	(87.2)	(86.3)
Mynegeo ar fondiau mynegrifol	(28.6)	(38.5)
Llog sy'n daladwy ar brydlesau (yn cynnwys cyfnewidiadau i RPI)	(21.7)	(27.7)
Llog benthychiadau eraill	(13.0)	(12.3)
Llog arall sy'n daladwy a chostau cyllid	(3.2)	(2.4)
Llog net a godwyd ar rwymedigaethau cynllun pensiwn	(0.1)	(1.3)
Elw cyfrifyddu adeg terfynu prydlesau	8.4	-
Terfynu cyfnewidiadau	(8.5)	-
Cyfalafu costau benthyca o dan IAS 23 (2015: 5.3%; 2014: 5.7%)	6.0	7.9
	(147.9)	(160.6)
Incwm cyllid	3.3	6.3
Cost cyllid net cyn addasiadau gwerth teg	(144.6)	(154.3)

Yn ystod y flwyddyn, cafodd tair prydles cyllid eu dileu gan arwain at elw o £8.4 miliwn

b) (Colledion)/enillion gwerth teg ar offerynnau ariannol deilliadol

Delir offerynnau ariannol deilliadol at ddibenion rhagfantoli economaidd er nad ydynt yn gymwys fel rhagfantolion cyfrifyddu o dan IAS 39. O ganlyniad, mae cyfnewidiadau cyfradd llog a chyfnewidiadau mynegrifol y Grŵp wedi'u pennu ar werth teg ar ddyddiad pob mantolen gyda'r golled neu elw net wedi eu datgelu yn y datganiad incwm. Yn ystod oes y cyfnewidiadau hyn, os y'u delir nes iddynt aeddfedu, bydd yr addasiadau gwerth teg hyn yn cael eu gwrthdroi ac yn gostwng i ddim. (Gweler nodyn 15 mewn perthynas ag offerynnau ariannol deilliadol a ddelir ar y fantolen.)

Grŵp	2015	2014
	£m	£m
(Colledion)/enillion gwerth teg ar gyfnewidiadau cyfradd llog	(36.7)	22.6
Gwerth teg cyfnewidiadau mynegrifol a derfynwyd	8.2	-
(Colledion)/enillion gwerth teg ar gyfnewidiadau mynegrifol	(128.6)	71.6
Cyfanswm (colledion)/enillion gwerth teg ar offerynnau ariannol deilliadol	(157.1)	94.2

Achosir symudiadau mewn cyfnewidiadau cyfradd llog gan newidiadau mewn cyfraddau cyfnewidiadau hirdymor, ac achosir symudiadau mewn cyfnewidiadau mynegrifol gan newidiadau yng ngwerth giltiau mynegrifol a LIBOR 3-mis.

Terfynwyd tri chyfnewidiad cyfradd llog ar 31 Mawrth 2015 ar gost o £8.5 miliwn.

6. Trethiant

Dadansoddiad o'r credyd yn ystod y flwyddyn

Grŵp	2015 £m	2014 £m
Treth gyfredol		
- Treth gyfredol ar (golled)/elw am y flwyddyn	(0.2)	0.9
- Addasiadau mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol	0.5	1.5
Cyfanswm y dreth gyfredol	0.3	2.4
Treth ohiriedig		
- Cychwyn a gwrthdroi gwahaniaethau amseru	25.7	(39.9)
- Addasiad mewn perthynas â'r flwyddyn flaenorol	(0.6)	6.3
- Effaith newid yn y gyfradd dreth	-	36.2
Cyfanswm treth ohiriedig (nodyn 7)	25.1	2.6
Credyd trethiant	25.4	5.0
Dadansoddir fel a ganlyn:		
Credyd i'r Datganiad Incwm	19.5	10.8
Credyd/(tâl a godwyd) ar y Datganiad Incwm Cynhwysfawr	5.9	(5.8)
	25.4	5.0

Mae'r colledion masnachu treth a gariwyd ymlaen ar 31 Mawrth 2015 tua £286 miliwn (2014: tua £300 miliwn).

Mae'r gyfradd dreth weithredol ar gyfer y flwyddyn yn is (2014: yn is) na'r gyfradd treth gorfforaeth safonol yn y DU sef 21% (2014: 23%). Esbonnir y gwahaniaethau isod:

Grŵp	2015 £m	2014 £m
(Colled)/elw cyn treth	(99.6)	144.5
(Colled)/elw cyn treth wedi'i lluosu/luosi â'r gyfradd treth gorfforaeth yn y DU sef 21% (2014: 23%)	(20.9)	33.2
Effaith:		
- Addasiadau mewn perthynas â blynyddoedd blaenorol	-	(7.8)
- Gwasanaethau parhaol eraill	1.0	(0.2)
- Effaith taliadau pensiwn sy'n fwy na thâl gwasanaeth	(0.6)	-
- Effaith newid yn y gyfradd dreth	1.0	(36.0)
- Symudiad ar ased treth ohiriedig mewn perthynas â'r cynllun pensiwn	(5.9)	5.8
Cyfanswm credyd trethiant	(25.4)	(5.0)

7. Treth ohiriedig

Cyfrifir treth ohiriedig yn llawn ar wahaniaethau dros dro o dan y dull rhwymedigaeth gan ddefnyddio cyfradd dreth o 20% (2014: 20%).

Mae'r symudiad yn y ddarpariaeth treth ohiriedig fel y'i dangosir isod:

Grŵp	2015 £m	2014 £m
Ar 1 Ebrill	241.3	243.9
Credyd i'r Datganiad Incwm	(19.6)	(8.4)
(Credyd)/tâl a godwyd ar y Datganiad Incwm Cynhwysfawr	(5.9)	5.8
Treth ohiriedig a gydnabuwyd wrth gyfuno busnes	4.0	-
Ar 31 Mawrth	219.8	241.3

Grŵp	2015 £m	2014 £m
Effaith:		
- Lwfansau treth sy'n fwy na dibrisiant	367.4	353.9
- Enillion cyfalaf a ailfuddsoddwyd	3.2	3.2
	370.6	357.1
- Treth ohiriedig ar golledion treth a gariwyd ymlaen	(57.2)	(61.2)
- Treth ohiriedig ar golledion ar offerynnau ariannol deilliadol	(84.4)	(53.1)
- Pensiynau	(6.1)	(0.2)
- Gwahaniaethau treth eraill	(3.1)	(1.3)
Darpariaeth net ar gyfer treth ohiriedig	219.8	241.3

Mae asedau treth ohiriedig wedi cael eu cydnabod mewn perthynas â phob colled treth a gwahaniaethau dros dro eraill sy'n arwain at asedau treth ohiriedig am ei bod yn debygol y caiff yr asedau hyn eu hadennill. O dan y drefn dreth bresennol, bydd colledion treth masnachu a gariwyd ymlaen ar gael i wrthbwysu enillion masnachu mewn cyfnodau yn y dyfodol.

Nid oes gan y rhiant-gwmni unrhyw falans treth ohiriedig (2014: dim).

8. Eiddo, offer a chyfarpar

Blwyddyn gyfredol					
Grŵp	Tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol	Asedau seilwaith	Strwythurau gweithredol	Offer, cyfarpar, caledwedd gyfrifiadurol	Cyfanswm
	£m	£m	£m	£m	£m
Cost					
Ar 1 Ebrill 2014	36.8	1,735.8	3,307.3	252.8	5,332.7
Ychwanegiadau yn glir o grantiau a chyfraniadau	0.7	53.9	242.6	5.1	302.3
Ar 31 Mawrth 2015	37.5	1,789.7	3,549.9	257.9	5,635.0

Dibrisiant cronedig

Ar 1 Ebrill 2014	18.7	262.6	1,363.4	245.7	1,890.4
Tâl o godwyd am y flwyddyn	0.4	27.8	130.6	7.4	166.2
Ar 31 Mawrth 2015	19.1	290.4	1,494.0	253.1	2,056.6

Gwerth llyfr net

Ar 31 Mawrth 2015	18.4	1,499.3	2,055.9	4.8	3,578.4
-------------------	------	---------	---------	-----	---------

Mae gwerth llyfr net eiddo, offer a chyfarpar yn cynnwys £98.0 miliwn mewn perthynas ag asedau sy'n cael eu hadeiladu (2014: £126.0 miliwn).

Mae gwerth llyfr net eiddo, offer a chyfarpar yn cynnwys £33.4 miliwn o gostau benthyca wedi eu cyfalafu yn unol ag IAS 23 (2014: £28.8 miliwn), yr oedd £5.6 miliwn ohono yn ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn (2014: £7.2 miliwn).

Ar 1 Hydref 2011, cymerodd Dŵr Cymru Cyfyngedig gyfrifoldeb am reoli'r rhwydwaith o garthffosydd preifat yn ei ardal weithredu. Mae'r broses o drosglwyddo 17,000km amcangyfrifedig o ddraeniau a charthffosydd preifat wedi cynyddu maint y rhwydwaith yn sylweddol. Prin yw'r wybodaeth sydd ar gael i farnu cyflwr y carthffosydd hyn - ac unrhyw werth a briodolir - ond fel arfer disgwylir iddynt fod yn wael ac yn is na safon yr asedau y mae'n ofynnol i'r diwydiant yn gyffredinol weithredu yn unol â hi. O ystyried hyn, a'r ffaith nad ydynt yn creu cynnydd yng ngwerth cyfalaf rheoliadol y busnes, priodolwyd gwerth o ddim i'r asedau hyn yn y datganiadau ariannol ar 31 Mawrth 2015 (2014: dim).

Blwyddyn flaenorol					
Grŵp	Tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol	Asedau seilwaith	Strwythurau gweithredol	Offer, cyfarpar, caledwedd gyfrifiadurol	Cyfanswm
	£m	£m	£m	£m	£m
Cost					
Ar 1 Ebrill 2013	35.7	1,680.3	3,117.4	238.8	5,072.2
Ychwanegiadau yn glir o grantiau a chyfraniadau	1.1	55.5	189.9	14.0	260.5
Ar 31 Mawrth 2014	36.8	1,735.8	3,307.3	252.8	5,332.7

Dibrisiant cronedig

Ar 1 Ebrill 2013	18.3	236.6	1,246.1	235.1	1,736.1
Tâl o godwyd am y flwyddyn	0.4	26.0	117.3	10.6	154.3
Ar 31 Mawrth 2014	18.7	262.6	1,363.4	245.7	1,890.4

Gwerth llyfr net

Ar 31 Mawrth 2014	18.1	1,473.2	1,943.9	7.1	3,442.3
-------------------	------	---------	---------	-----	---------

Asedau a ddelir o dan brydlesau cyllid

Mae asedau a ddelir o dan brydlesau cyllid wedi'u cynnwys yn yr uchod, fel y'u dadansoddir isod:

Grŵp			
Blwyddyn gyfredol	Asedau seilwaith £m	Strwythurau gweithredol £m	Cyfanswm £m
Ar 31 Mawrth 2015			
Cost	611.8	177.7	789.5
Dibrisiant cronedig	(97.9)	(100.9)	(198.8)
Gwerth llyfr net	513.9	76.8	590.7

Blwyddyn flaenorol			
Blwyddyn flaenorol	Asedau seilwaith £m	Strwythurau gweithredol £m	Cyfanswm £m
Ar 31 Mawrth 2014			
Cost	611.8	275.5	887.3
Dibrisiant cronedig	(90.2)	(155.2)	(245.4)
Gwerth llyfr net	521.6	120.3	641.9

Nid yw'r rhiant-gwmni yn berchen ar unrhyw eiddo, offer na chyfarpar (2014: dim).

9. Asedau anniriaethol

Grŵp			
Blwyddyn gyfredol	Cost £m	Amorteddio cronedig £m	Gwerth llyfr net £m
Ar 1 Ebrill 2014	185.0	(101.1)	83.9
Ychwanegiadau/(tâl a godwyd am y flwyddyn)	31.3	(14.6)	16.7
Ar 31 Mawrth 2015	216.3	(115.7)	100.6

Blwyddyn flaenorol			
Blwyddyn flaenorol	Cost £m	Amorteddio cronedig £m	Gwerth llyfr net £m
Ar 1 Ebrill 2013	154.7	(88.6)	66.1
Ychwanegiadau/(tâl a godwyd am y flwyddyn)	30.3	(12.5)	17.8
Ar 31 Mawrth 2014	185.0	(101.1)	83.9

Mae asedau anniriaethol yn cynnwys meddalwedd gyfrifiadurol a datblygiadau system cysylltiedig.

Mae gwerth llyfr net asedau anniriaethol yn cynnwys £4.7 miliwn mewn perthynas ag asedau sy'n cael eu hadeiladu (2014: £2.0 miliwn). Mae gwerth llyfr net asedau anniriaethol yn cynnwys £1.0 miliwn o gostau benthyca wedi eu cyfalafu yn unol ag IAS 23 (2014: £1.1 miliwn), yr oedd £0.3 miliwn ohono yn ychwanegiadau yn ystod y flwyddyn (2014: £0.3 miliwn).

Nid yw'r rhiant-gwmni yn berchen ar unrhyw asedau anniriaethol.

10. Buddsoddiadau

(a) Grŵp

	2015	2014
	£m	£m
Cost a gwerth llyfr net		
Ar 1 Ebrill a 31 Mawrth	-	-

Delir ecwiti o lai na 10% yn y cwmni canlynol nas rhestrwyd:

	Prif weithgareddau	Gwlad corffori	Daliad
Water Research Centre (1989) plc	Ymchwil dŵr	Cymru a Lloegr	Cyfranddaliadau Cyffredin 'B' o £1

Hefyd, roedd y Grŵp yn dal 5% Stoc Benthyc Trosadwy Anwarantedig 2014 ar gost o £23,326 yn Water Research Centre (1989) plc. Cawsant eu hadbrynu ar 31 Mawrth 2014.

(b) Rhiant-gwmni

Mae gan y cwmni fuddsoddiad o £1 yn Glas Cymru (Securities) Cyfyngedig (daliad 100%) a buddsoddiadau anuniongyrchol yn ymgymeriadau'r is-gwmnïau canlynol, ac mae'n gofrestredig yng Nghymru a Lloegr:

	Prif weithgareddau	Gwlad corffori	Daliad
Dŵr Cymru (Holdings) Limited	Cwmni daliannol	Cymru a Lloegr	100%
Dŵr Cymru Cyfyngedig	Dŵr a charthffosiaeth	Cymru a Lloegr	100%
Dŵr Cymru (Financing) Limited	Codi cyllid	Ynysoedd Cayman	100%
Welsh Water Utilities Finance plc	Segur	Cymru a Lloegr	100%
Hydro 1 Limited	Cyfrwng prynu asedau	Cymru a Lloegr	100%
Dŵr Cymru Customer Services Ltd	Gwasanaethau incwm a bilio	Cymru a Lloegr	100%

Ceir rhagor o wybodaeth am strwythur y Grŵp yn yr Adroddiad Blynyddol ar dudalen 63.

Ar 3 Chwefror 2015, caffaelodd y Grŵp 100% o ecwiti yn Hydro 1 Ltd. Prynwyd asedau Hydro am £19.7 miliwn, sef asedau sefydlog â gwerth teg o £21 miliwn a chontract gwerthu y pennwyd rhwymedigaeth gwerth teg o £1.3 miliwn arno. Mae'r asedau bellach yn rhan o gwmni gweithredu Dŵr Cymru Cyfyngedig sydd wedi arwain at rwymedigaeth treth ohriedig o £4 miliwn. Cafodd yr ewyllys da a oedd yn gysylltiedig â'r rhwymedigaeth treth ohriedig ei dileu'n syth.

11. Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill

	Grŵp		Cwmni	
	2015 £m	2014 £m	2015 £m	2014 £m
Cyfredol				
Symiau masnach derbyniadwy	527.9	502.8	-	-
Darpariaeth ar gyfer lleihad yng ngwerth symiau derbyniadwy	(78.9)	(65.9)	-	-
Symiau masnach derbyniadwy - net	449.0	436.9	-	-
Rhagdaliadau ac incwm cronedig	74.3	67.4	-	-
Symiau derbyniadwy eraill	9.3	22.4	-	-
	532.6	526.7	-	-
Anghyfredol				
Symiau sy'n dderbyniadwy gan ymgymeriadau'r Grŵp	-	-	3.4	3.4
Cyfanswm y symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	532.6	526.7	3.4	3.4

Mae pob swm derbyniadwy anghyfredol yn ddyledus o fewn pum mlynedd o ddyddiad y fantolen.

Ar 31 Mawrth 2015, yn seiliedig ar adolygiad o gyfraddau casglu hanesyddol, ystyriwyd bod gwerth £78.9 miliwn (2014: £65.9 miliwn) o symiau masnach derbyniadwy wedi lleihau mewn gwerth ac felly darparwyd ar gyfer y rhain. Mae'r symiau derbyniadwy y mae eu gwerth wedi lleihau yn ymwneud yn bennaf â chyflenwi dŵr wedi'i fesur a heb ei fesur. Mae symiau masnach derbyniadwy sy'n fwy na mis oed yn ddyledus; mae'r golofn net yn dangos symiau y tybir nad ydynt wedi lleihau mewn gwerth.

Roedd oedran symiau derbyniadwy fel a ganlyn:

Blwyddyn gyfredol Symiau masnach derbyniadwy	Cyfanswm £m	Darparwyd am £m	Net £m
Wedi'u bilio ymlaen llaw	377.5	-	377.5
O dan fis	24.7	(7.2)	17.5
Rhwng un a chwe mis	28.1	(11.4)	16.7
Rhwng chwe mis a blwyddyn	44.2	(14.1)	30.1
Rhwng blwyddyn a dwy flynedd	30.7	(25.2)	5.5
Rhwng dwy a thair blynedd	20.4	(18.7)	1.7
Dros dair blynedd	2.3	(2.3)	-
	527.9	(78.9)	449.0

Blwyddyn flaenorol Symiau masnach derbyniadwy	Cyfanswm £m	Darparwyd am £m	Net £m
Wedi'u bilio ymlaen llaw	387.6	-	387.6
O dan fis	11.2	(5.3)	5.9
Rhwng un a chwe mis	27.7	(13.5)	14.2
Rhwng chwe mis a blwyddyn	25.8	(12.7)	13.1
Rhwng blwyddyn a dwy flynedd	27.1	(19.5)	7.6
Rhwng dwy a thair blynedd	19.1	(14.1)	5.0
Dros dair blynedd	4.3	(0.8)	3.5
	502.8	(65.9)	436.9

Yr amlygiad uchaf i risgiau credyd ar y dyddiad adrodd yw gwerth cario pob dosbarth o symiau derbyniadwy a nodwyd uchod. Nid yw'r Grŵp yn dal unrhyw sicrwydd cyfochrog fel sicrwydd (2014: dim).

Mae symudiadau yn y ddarpariaeth ar gyfer lleihau gwerth symiau masnach derbyniadwy fel a ganlyn:

	2015	2014
	£m	£m
Ar 1 Ebrill	65.9	61.4
Tâl a godwyd ar y Datganiad Incwm	29.1	27.9
Symiau derbyniadwy a ddilëwyd yn ystod y flwyddyn fel rhai na ellir eu casglu	(16.1)	(23.4)
Ar 31 Mawrth	78.9	65.9

Mae achosion o greu a rhyddhau darpariaeth ar gyfer symiau derbyniadwy y mae eu gwerth wedi lleihau wedi cael eu cynnwys mewn gwariant gweithredol.

Nid yw'r dosbarthiadau eraill o symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill yn cynnwys asedau y mae eu gwerth wedi lleihau. Mynegwyd pob swm masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill mewn sterling.

Yn ystod y flwyddyn mae'r Grŵp wedi dileu £16.1 miliwn o ddyledion y darparwyd yn llawn ar eu cyfer (2014: £23.4 miliwn).

12. Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo

	Grŵp		Cwmni	
	2015	2014	2015	2014
	£m	£m	£m	£m
Arian parod yn y banc ac mewn llaw	12.0	4.8	0.1	0.1
Adneuon byrdymor	136.0	89.6	-	-
	148.0	94.4	0.1	0.1

Y gyfradd llog weithredol ar adneuon byrdymor ar 31 Mawrth 2015 oedd 0.4% (2014: 0.5%) ac mae gan yr adneuon hyn gyfnod aeddfedrwydd cyfartalog o 30 diwrnod (2014: 5 diwrnod). Delir yr holl arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo mewn sterling.

13. Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill

Cyfredol	Grŵp		Cwmni	
	2015	2014	2015	2014
	£m	£m	£m	£m
Symiau masnach taladwy	49.3	47.1	-	-
Symiau cyfalaf taladwy	40.9	30.2	-	-
Symiau sy'n ddyledus i ymgymeriadau'r Grŵp	-	-	3.5	3.5
Nawdd cymdeithasol a threthi eraill	3.9	3.8	-	-
Croniadau ac incwm gohiriedig	445.2	454.4	-	-
	539.3	535.5	3.5	3.5
Anghyfredol	Grŵp		Cwmni	
	2015	2014	2015	2014
	£m	£m	£m	£m
Incwm gohiriedig	99.8	80.2	-	-

14. Rhwymedigaethau ariannol - benthyciadau

Cyfredol

Grŵp	2015	2014
	£m	£m
Croniadau llog	6.0	0.9
Premiwm bond heb ei amorteiddio	0.6	0.6
Costau dyroddi bondiau heb eu hamorteiddio	(0.3)	(0.3)
Benthyciadau gan Fanc Buddsoddi Ewrop	11.6	15.9
Benthyciadau awdurdodau lleol	0.3	0.3
Rhwymedigaethau prydlesau cyllid	10.3	13.2
	28.5	30.6

Anghyfredol

Grŵp	2015	2014
	£m	£m
Croniadau llog	52.8	49.2
Bondiau	2,005.5	1,976.8
Premiwm bond heb ei amorteiddio	7.3	7.9
Costau dyroddi bondiau heb eu hamorteiddio	(4.7)	(5.1)
Benthyciad gan Fanc KfW	35.0	35.0
Benthyciadau gan Fanc Buddsoddi Ewrop	405.0	256.6
Benthyciadau awdurdodau lleol	0.6	0.8
Rhwymedigaethau prydlesau cyllid	496.9	558.1
	2,998.4	2,879.3

Nid oes gan y rhiant-gwmni unrhyw fenthyciadau (2014: dim).

Rhoddwyd pecyn sicrwydd gan Dŵr Cymru Cyfyngedig (DCC), fel rhan o raglen fondiau'r Grŵp er budd deiliad uwch fondiau, prydleswyr cyllid ac uwch gredydwyri ariannol eraill.

Gwarentir rhwymedigaethau DCC gan y cwmni, Glas Cymru (Securities) Cyfyngedig a Dŵr Cymru (Holdings) Limited. Prif elfennau'r pecyn sicrwydd yw:

- sicrwydd sefydlog a chyfnewidiol cyntaf dros holl asedau ac ymgymeriadau DCC, i'r graddau a ganiateir gan Ddeddf y Diwydiant Dŵr, cyfraith berthnasol arall a'i drwydded; a
- sicrwydd sefydlog a chyfnewidiol a roddir gan y gwarantwyr y cyfeirir atynt uchod a gaiff ei gronni ar bob un o asedau'r cwmnïau hyn gan gynnwys, yn achos Dŵr Cymru (Holdings) Limited, arwystl sefydlog cyntaf dros ei gyfranddaliadau yn DCC.

Gwarentir Bondiau Dosbarth A y Grŵp o £973.7 miliwn (2014: £960.8 miliwn) gan MBIA UK Insurance Limited ("MBIA"). Mae Moody's ac S&P wedi gostwng graddau credyd MBIA i Ba2 a B yn y drefn honno, ac nid yw Fitch yn rhoi gradd mwyach. Felly, mae graddau credyd y bondiau Dosbarth A wedi dychwelyd at radd sylfaenol uwch y bondiau hyn, sef A3/A/A gan Moody's, S&P a Fitch yn y drefn honno. Mae'r radd sylfaenol yn adlewyrchu ansawdd credyd y bondiau hyn ar eu pen eu hunain heb warant MBIA, a'r un yw'r radd hon â graddau credyd bondiau Dosbarth B y Grŵp o £1,000.6 miliwn (2014: £988.1 miliwn).

15. Offerynnau ariannol deilliadol

Delir offerynnau ariannol deilliadol at ddibenion rhagfantoli economaidd. Fodd bynnag, nid ydynt yn gymwys fel rhagfantolion cyfrifyddu o dan IAS 39 a choiff symudiadau yn eu gwerth teg eu rhoi ar y Datganiad Incwm (gweler nodyn 5b). Mae gwerthoedd teg yr holl offerynnau ariannol deilliadol a ddelir gan y Grŵp yn ganlyniad i ddull o brisio yn unol â'r farchnad a ddefnyddir gan y gwrthbartïon sy'n dyroddi ac fel y cyfryw byddant yn cael eu cynnwys o fewn lefel 2 o'r hierarchaeth gwerth teg a nodwyd yn IFRS 7.

Grŵp - blwyddyn gyfredol	Gwerthoedd teg	
	Asedau	Rhwymedigaethau
	£m	£m
Cyfredol		
Cyfnwidiadau mynegrifol	3.7	(12.0)
Cyfnwidiadau cyfradd llog	-	(9.5)
	3.7	(21.5)
Anghyfredol		
Cyfnwidiadau mynegrifol	-	(307.6)
Cyfnwidiadau cyfradd llog	-	(96.7)
	-	(404.3)
Cyfanswm	3.7	(425.8)

Grŵp - blwyddyn flaenorol	Gwerthoedd teg	
	Asedau	Rhwymedigaethau
	£m	£m
Cyfredol		
Cyfnwidiadau mynegrifol	3.7	(21.4)
Cyfnwidiadau cyfradd llog	-	(10.9)
	3.7	(32.3)
Anghyfredol		
Cyfnwidiadau mynegrifol	-	(175.0)
Cyfnwidiadau cyfradd llog	-	(61.4)
	-	(236.4)
Cyfanswm	3.7	(268.7)

Yn unol ag IAS 39, 'Offerynnau ariannol: Cydnabod a Mesur', mae'r Grŵp wedi adolygu pob contract ar gyfer deilliadau sefydledig y mae angen rhoi cyrif amdanynt ar wahân os nad ydynt yn bodloni gofynion penodol a nodwyd yn y safon. Nid oes gan y Grŵp unrhyw ddeilliadau sefydledig o'r fath yn unol ag IAS 39.

Nid oes gan y rhiant-gwmni unrhyw offerynnau ariannol deilliadol na deilliadau sefydledig (2014: dim).

Cyfnwidiadau cyfradd llog

Ar 31 Mawrth 2015, mae cyfnwidiad cyfradd llog yn pennu'r gyfradd llog ar £192 miliwn (2014: £192 miliwn) o rwymedigaethau cyfnwidiol a ddelir gan y Grŵp. Dyddiad oeddfedu'r cyfnwidiad yw 31 Mawrth 2031 o'r gyfradd llog sefydlog LIBOR chwarterol yw 5.67%.

Yn ystod mis Mawrth 2015, aeth y cwmni ati i derfynu tri chyfnwidiad cyfradd llog ar gost terfynu o £8.5 miliwn. Roedd dau o'r cyfnwidiadau a derfynwyd yn cyfnwid dyled cyfradd gyfnwidiol i ddyled cyfradd mynegrifol. Roedd y cyfnwidiad arall yn pennu cyfradd llog sefydlog ar rwymedigaeth cyfradd gyfnwidiol.

Cyfnewidiadau mynegrifol

Cyfnewidiadau prydlesau cyllid

Effaith y cyfnewidiadau mynegrifol yw mynegeo'r gyfradd llog ar £425 miliwn (2014: £436 miliwn) o rwymedigaethau prydlesau cyllid drwy gyfeirio at y Mynegai Pris Manwerthu ("RPI").

Swm tybiannol y cyfnewidiadau mynegrifol a ddyrannwyd i brydlesau cyllid ar 31 Mawrth 2015 yw £427 miliwn (2014: £440 miliwn), gan gynrychioli'r balans cyfartalog ar y prydlesau cyllid yn amodol ar gyfraddau llog cyfnewidiol am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2015. Mae'r swm tybiannol yn amorteiddio yn ystod oes y cyfnewidiadau i gyfateb i falansau cyfraddau cyfnewidiol cyfartalog y prydlesau.

Mae'r prif delerau fel a ganlyn:

Swm tybiannol	£427 miliwn amorteiddio (2014: £440 miliwn amorteiddio)
Aeddfedrwydd cyfnewidiad cyfartalog	23 mlynedd (2014: 23 mlynedd)
Cyfradd llog gyfartalog	1.63% sefydlog ynghyd ag RPI (2014: 1.63% sefydlog ynghyd ag RPI)

Cyfnewidiad bond

Effaith y cyfnewidiadau mynegrifol yw mynegeo'r gyfradd llog ar £100 miliwn o fondiau cyfradd sefydlog drwy gyfeirio at yr RPI.

Mae'r prif delerau fel a ganlyn:

Swm tybiannol a fynegeiwyd	£131 miliwn (2014: £128 miliwn)
Aeddfedrwydd cyfnewidiad	42 mlynedd (2014: 43 mlynedd)
Cyfradd llog	1.35% a fynegeiwyd yn ôl RPI (2014: 1.35% a fynegeiwyd yn ôl RPI)

16. Rheoli risg ariannol

Mae polisïau'r Grŵp mewn perthynas â rheoli risg ariannol yn y nodyn ar bolisïau cyfrifyddu ar dudalen 107. Nodir datgeliadau rhifiadol offerynnau ariannol sy'n ofynnol o dan IFRS 7 isod.

a) Y risg o ran cyfradd llog

Roedd y cyfraddau llog a oedd yn weithredol ar ddyddiadau'r fantolen fel a ganlyn:

	2015	2014
Asedau:		
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	0.4%	0.5%
Rhwymedigaethau:		
Bondiau	4.4%	5.2%
Benthyciadau gan Fanc Buddsoddi Ewrop	1.1%	1.1%
Benthyciad KfW	1.2%	1.2%
Benthyciadau awdurdodau lleol	4.0%	5.0%
Rhwymedigaethau prydlesau cyllid	0.8%	1.0%

Nid yw symiau masnach derbyniadwy a thaladwy na symiau derbyniadwy a thaladwy eraill yn dwyn llog.

Mae'r cyfraddau llog gweithredol yn anwybyddu effaith y cyfnewidiadau cyfradd llog a mynegrifol a nodir yn nodyn 15.

Nid ydynt yn cynnwys y tâl mynegeo sy'n gymwys i fondiau mynegrifol ychwaith.

b) Y risg o ran hylifedd

Grŵp - blwyddyn gyfredol	O fewn blwyddyn £m	1 - 2 flynedd £m	2 - 5 mlynedd £m	> 5 mlynedd £m	Cyfanswm £m
Asedau:					
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	148.0	-	-	-	148.0
Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	532.6	-	-	-	532.6
	680.6	-	-	-	680.6
Rhwymedigaethau:					
Bondiau	0.6	0.6	0.7	2,011.5	2,013.4
Benthyciad gan Fanc KfW	-	35.0	-	-	35.0
Benthyciadau gan Fanc Buddsoddi Ewrop	11.6	20.3	72.3	312.4	416.6
Benthyciadau awdurdodau lleol	0.3	0.1	0.5	-	0.9
Rhwymedigaethau prydlesau cyllid	10.3	50.1	36.0	410.8	507.2
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	539.3	1.8	4.9	93.0	639.0
	562.1	107.9	114.4	2,827.7	3,612.1
Grŵp - blwyddyn flaenorol	O fewn blwyddyn £m	1 - 2 flynedd £m	2 - 5 mlynedd £m	> 5 mlynedd £m	Cyfanswm £m
Asedau:					
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	94.4	-	-	-	94.4
Symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	526.7	-	-	-	526.7
	621.1	-	-	-	621.1
Rhwymedigaethau:					
Bondiau	0.6	0.6	0.6	1,983.5	1,985.3
Benthyciad gan Fanc KfW	-	-	35.0	-	35.0
Benthyciadau gan Fanc Buddsoddi Ewrop	15.9	11.6	92.6	152.4	272.5
Benthyciadau awdurdodau lleol	0.3	0.3	0.5	-	1.1
Rhwymedigaethau prydlesau cyllid	13.2	14.2	86.9	456.9	571.2
Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill	535.5	1.8	4.9	73.7	615.9
	565.5	28.5	220.5	2,666.5	3,481.0

Mae'r taliadau prydlesau gofynnol o dan brydlesau cyllid yn ddyledus fel a ganlyn:

	2015	2014
	£m	£m
Rhwymedigaethau prydlesau cyllid gros		
O fewn blwyddyn	16.2	18.9
Rhwng dwy a phum mlynedd	123.0	123.4
Ar ôl pum mlynedd	505.8	514.2
	645.0	656.6
Llog yn y dyfodol	(137.8)	(85.3)
Rhwymedigaethau prydlesau cyllid net	507.2	571.2

Mae rhwymedigaethau prydlesau cyllid net yn ad-daladwy fel a ganlyn:

O fewn blwyddyn (nodyn 14)	10.3	13.2
Rhwng dwy a phum mlynedd	86.0	101.1
Ar ôl pum mlynedd	410.9	456.9
Cyfanswm dros flwyddyn (nodyn 14)	496.9	558.0

c) Gwerthoedd teg

Nodir gwerthoedd teg offerynnau ariannol deilliadol y Grŵp yn nodyn 15.

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi gwerth teg a gwerth llyfr bondiau'r Grŵp.

	2015		2014	
	Gwerth llyfr	Gwerth teg	Gwerth llyfr	Gwerth teg
	£m	£m	£m	£m
Bondiau (nodyn 14)	2,013.4	2,671.6	1,985.3	2,168.9

Mae gwerthoedd teg pob un o'r offerynnau ariannol eraill yn hafal i'r gwerthoedd llyfr.

ch) Cyfleusterau benthyca

Ar 31 Mawrth 2015, roedd gan y Grŵp gyfleusterau benthyca ymrwymedig nas hawliwyd o £190 miliwn a oedd yn dod i ben fel y nodir isod, ac roedd pob amod blaenorol mewn perthynas â hwy wedi cael ei fodloni (2014: £140 miliwn).

	2015	2014
	£m	£m
Dod i ben ymhén mwy na blwyddyn:		
- cyfleuster cyfnod benthyciad	-	-
- cyfleusterau credyd cylchdro	-	30.0
Dod i ben ymhén mwy na blwyddyn:		
- cyfleusterau credyd cylchdro	120.0	110.0
- cyfleuster cyfnod benthyciad	70.0	-
	190.0	140.0

Mae gan Dŵr Cymru Cyfyngedig gyfleuster gorddrafft o £10 miliwn hefyd sy'n adnewyddadwy bob blwyddyn (2014: £10 miliwn).

Ar 17 Tachwedd 2014, cytunodd y Grŵp ar gyfleuster benthyciad â Banc Buddsoddi Ewrop. Ers hynny, mae £160 miliwn o'r cyfleuster wedi'i hawlio: £80 miliwn ar 15 Rhagfyr 2014 ac £80 miliwn ar 15 Ionawr 2015. Mae'r cyfleuster benthyciad sy'n weddill gyda Banc Buddsoddi Ewrop, sef £70 miliwn, ar gael hyd at fis Mai 2016.

Mae gan y Grŵp gyfleusterau credyd cylchdro o £120 miliwn, y bydd £60 miliwn ohono yn dod i ben ym mis Mai 2020. Mae'r £60 miliwn sy'n weddill ar gael tan fis Awst 2019 gydag opsiwn o'i ymestyn flwyddyn i 2020.

Ar 31 Mawrth 2015, roedd gan Dŵr Cymru (Financing) Limited gyfleuster hylifedd arbennig o £135 miliwn (2014: £135 miliwn) hefyd y mae'n ofynnol iddo ei gadw er mwyn bodloni rhai rhwymedigaethau Grŵp o ran llog a rhwymedigaethau eraill na ellir eu hariannu drwy lif arian parod gweithredu'r Grŵp, os bydd yr Ymddiriedolwr Sicrwydd yn datgan cyfnod atal. Byddai cyfnod atal yn digwydd pe bai Dŵr Cymru Cyfyngedig yn methu â bodloni ei gyfamedau cyllido dyled. Ni fethwyd â bodloni unrhyw gyfamed o'r fath yn ystod y flwyddyn. Gellir adnewyddu'r cyfleuster yn flynyddol.

Telir cyfraddau llog cyfnewidiol ar yr holl gyfleusterau uchod.

d) Rheoli risg cyfalaf

Cymarebau gerio

	2015	2014
	£m	£m
Cyfanswm benthyciadau	(3,027)	(2,909)
Llai: arian parod o'r hyn sy'n cyfateb iddo	148	94
Dyled net	(2,879)	(2,815)
Gwerth cyfalaf rheoliadol (RCV)	4,831	4,468
Cyfanswm cyfalaf	1,952	1,653
Llai: costau bondiau heb eu hamortieiddio	(5)	(5)
Cyfanswm cyfalaf fesul cyfamedau bond	1,947	1,648
Cymhareb gerio	60%	63%

Mae'r Grŵp yn monitro ei strwythur cyfalaf yn seiliedig ar gymhareb gerio rheoliadol sy'n cymharu ei ddyled net â gwerth cyfalaf rheoliadol (RCV) a bennwyd gan Ofwat.

17. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a newidiadau eraill

	Darpariaeth oilstwythuro	Darpariaeth dadfeiliadau	Darpariaeth ar gyfer colled onyswiriedig	Darpariaethau eraill	Cyfanswm
	£m	£m	£m	£m	£m
Ar 1 Ebrill 2014	3.1	2.2	6.6	3.0	14.9
Codwyd ar y datganiad incwm	17.6	-	0.9	0.5	19.0
Symiau nas defnyddiwyd a wrthdrowyd	(2.1)	-	-	-	(2.1)
Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn	(0.9)	(0.4)	(2.9)	-	(4.2)
Ar 31 Mawrth 2015	17.7	1.8	4.6	3.5	27.6
Wedi'u rhannu fel a ganlyn:					
Symiau i'w defnyddio o fewn blwyddyn	6.0	0.1	-	-	6.1
Symiau i'w defnyddio ar ôl mwy na blwyddyn	11.7	1.7	4.6	3.5	21.5
Ar 31 Mawrth 2015	17.7	1.8	4.6	3.5	27.6

Nid oedd gan y rhiant-gwmni unrhyw ddarpariaethau ar 31 Mawrth 2015 (2014: £dim).

Darpariaeth ailstrwythuro

Mae hyn yn darparu ar gyfer y gost ailstrwythuro sy'n gysylltiedig â chwtogi nifer y staff tua 360.

Darpariaeth dadfeiliadau

Mae'r ddarpariaeth hon mewn perthynas â chostau dadfeiliadau amcangyfrifedig, yr eir iddynt dros y pum mlynedd nesaf.

Darpariaeth ar gyfer colled anyswiriedig

Mae'r ddarpariaeth hon mewn perthynas â cholledion anyswiriedig a lle nad yw'r yswiriant yn cwmpasu swm didynadwy. Mae'r cyfnod defnyddio ar gyfer y rhwymedigaethau hyn yn ansicr oherwydd natur yr hawliadau, ond amcangyfrifir mai cyfnod o bum mlynedd ydyw.

Darpariaethau eraill

Gwneir darpariaethau eraill ar gyfer rhwymedigaethau penodol eraill sy'n codi fel rhan o fusnes arferol y Grŵp.

18. Mewnlif arian parod net o weithgareddau gweithredu

a) Arian parod a gynhyrchwyd o weithrediadau

Cysoni elw gweithredu i arian parod a gynhyrchwyd o weithrediadau:

Grŵp	2015	2014
	£m	£m
Elw gweithredu	202.1	204.6
Addasiadau ar gyfer:		
- Dibrisio ac amorteiddio	178.6	163.7
- Newidiadau mewn cyfalaf gweithio:		
Cynnydd mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	(7.4)	(0.5)
Gostyngiad/(cynnydd) yn y rhestr eiddo	0.3	(0.7)
Gostyngiad mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill	(6.8)	(3.2)
Cyfraniadau pensiwn uwchben cost gwasanaeth	(2.4)	(10.0)
Cynnydd/(gostyngiad) mewn darpariaethau	12.6	(2.1)
Addasiadau eraill	4.0	-
	(0.3)	(16.5)
Arian parod a gynhyrchwyd o weithrediadau	381.0	351.8

b) Llog a dalwyd

Grŵp	2015 £m	2014 £m
Llog sy'n daladwy fesul datganiad incwm	147.9	160.6
Llai eitemau anariannol:		
- Mynegeo ar fondiau mynegrifol	(28.6)	(38.5)
- Amortiddio costau dyroddi bondiau	(0.3)	(0.3)
- Llog a godwyd ar rwymedigaethau cynllun pensiwn	-	(1.3)
- Amortiddio premiwm dyroddi bondiau	0.6	0.6
- Effaith cyfalafu o dan IAS 23	6.0	7.9
- Elw cyfrifyddu adeg terfynu prydles	8.4	-
- (Cynnydd)/gostyngiad mewn croniadau	(10.5)	45.7
	(24.4)	14.1
Llog a dalwyd	123.5	174.7

19. Dadansoddi a chysoni (dyled)/arian parod net**a) Gellir dadansoddi (dyled)/arian parod net ar ddyddiad y fantolen fel:**

	Grŵp		Cwmni	
	2015 £m	2014 £m	2015 £m	2014 £m
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo	148.0	94.4	0.1	0.1
Dyled sy'n ddyledus ar ôl blwyddyn	(2,448.7)	(2,272.1)	-	-
Dyled sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	(12.2)	(16.5)	-	-
Prydlesau cyllid	(507.2)	(571.2)	-	-
Llog cronedig	(58.8)	(50.1)	-	-
	(3,026.9)	(2,909.9)	-	-
(Dyled)/arian parod net	(2,878.9)	(2,815.5)	0.1	0.1

b) Gellir crynhoi'r symudiad mewn (dyled)/arian parod net yn ystod y flwyddyn fel:

	Grŵp		Cwmni	
	2015	2014	2015	2014
	£m	£m	£m	£m
(Dyled)/arian parod net ar ddechrau'r flwyddyn	(2,815.5)	(2,737.5)	0.1	0.1
Symudiad mewn arian parod net	53.6	(63.0)	-	-
Symudiad mewn dyled sy'n deillio o lifau arian parod	(86.5)	(21.9)	-	-
Symudiad mewn dyled net sy'n deillio o lifau arian parod	(32.9)	(84.9)	-	-
Symudiad mewn llog cronedig	(8.8)	39.7	-	-
Mynegeo dyled fynegrifol	(28.6)	(38.5)	-	-
Elw cyfrifyddu adeg terfynu prydles	8.4	-	-	-
Symudiadau anariannol eraill	(1.5)	5.7	-	-
Symudiad mewn dyled net yn ystod y flwyddyn	(63.4)	(78.0)	-	-
(Dyled)/arian parod net ar ddiwedd y flwyddyn	(2,878.9)	(2,815.5)	0.1	0.1

20. Cyflogeion a chyfarwyddwyr

Costau staff ar gyfer y Grŵp yn ystod y flwyddyn

	2015	2014
	£m	£m
Cyflogau	100.7	98.0
Costau nawdd cymdeithasol	9.6	8.1
Costau pensiwn eraill	12.3	7.6
	122.6	113.7

O'r swm uchod, mae £45.4 miliwn (2014: £43.5 miliwn) wedi'i gyfalafu.

Nifer y bobl a gyflogir gan y Grŵp bob mis ar gyfartaledd	2015	2014
(gan gynnwys cyfarwyddwyr gweithredol)	Nifer	Nifer
Gweithgareddau dŵr a charthffosiaeth wedi'u rheoleiddio	2,962	2,871

Am ragor o wybodaeth gweler yr Adroddiad Cydnabyddiaeth ar dudalen 74.

Nid oedd gan y rhiant-gwmni unrhyw gyflogeion yn ystod y flwyddyn (2014: dim).

Mae Bwrdd Glas Cymru yn dirprwyo rhai o weithgareddau strategol a gweithredol y Grŵp i Weithrediaeth Dŵr Cymru, uwch grŵp rheoli sy'n cynnwys cyfarwyddwyr gweithredol a chyflogeion. Roedd cyfanswm cydnabyddiaeth yr aelodau allweddol hyn o bersonél fel a ganlyn:

	2015	2014
	£m	£m
Cyfarwyddwyr Gweithredol (gweler yr Adroddiad cydnabyddiaeth, tudalen 81)	1.9	2.0
Aelodau allweddol eraill o bersonél	1.7	1.7
Cyfanswm cydnabyddiaeth Gweithrediaeth Dŵr Cymru	3.6	3.7

21. Ymrwymiadau pensiwn

Mae'r Grŵp yn gweithredu cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig a ariennir ar gyfer cyflogaion cyfredol (yn seiliedig ar gyflog pensiynadwy terfynol a gwasanaeth pensiynadwy), sef Cynllun Pensiwn Dŵr Cymru. Mae asedau'r cynllun wedi'u dal mewn cronfa ar wahân a weinyddir gan ymddiriedolwyr.

Caewyd Cynllun Pensiwn Dŵr Cymru i aelodau newydd o 31 Rhagfyr 2005 a chyflwynwyd cynllun cyfraniadau diffiniedig newydd, sef Cynllun Cyfraniadau Diffiniedig Dŵr Cymru, o 1 Ionawr 2006.

Cynllun buddiannau diffiniedig

Cynhaliwyd prisiad actiwaraid llawn o'r cynllun ar 31 Mawrth 2013 gan Joanne Eynon o Quantum Advisory, actiwari proffesiynol cymwysedig annibynnol, gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau. Diweddarwyd y prisiad hwn ar 31 Mawrth 2015 a'r prif dybiaethau a wnaed gan yr actiwariaid oedd:

	2015	2014
Cyfradd ddisgowntio	3.4%	4.4%
Tybiaeth ynglŷn â chwyddiant	3.0%	3.4%
Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau pensiynadwy	2.0%	2.3%
Cyfradd y cynnydd mewn pensiynau sy'n cael eu talu	2.9%	3.2%
Marwoldeb ar ôl ymddeol (disgwyliad oes):		
- Pensiynwyr cyfredol 65 oed - dynion	87.2 years	87.1 years
- Pensiynwyr cyfredol 65 oed - menywod	89.4 years	89.3 years
- Pensiynwyr yn y dyfodol 65 oed (45 oed ar hyn o bryd) - dynion	88.6 years	88.4 years
- Pensiynwyr yn y dyfodol 65 oed (45 oed ar hyn o bryd) - menywod	90.9 years	90.8 years

Cynllun Buddiannau Ymddeol a Ariennir gan y Cyflogwr (EFRBS)

Yn ystod 2011, rhoddodd y Cwmni drefniadau ar waith drwy Gynllun Buddiannau Ymddeol a Ariennir gan y Cyflogwr (EFRBS) ar gyfer pedwar Aelod Gweithredol 'wedi'u capio' o'r cynllun. Mae cronïad buddiannau o dan y cytundeb hwn yn amodol ar barhau'n aelod o Gynllun Dŵr Cymru. Ar 31 Mawrth 2015, roedd tri Aelod Gweithredol â hawliadau o dan y trefniant hwn, y mae buddiannau wedi dechrau cael eu talu i un ohonynt.

Mae tybiaethau ynglŷn â marwoldeb ar ôl ymddeol yn seiliedig ar y rhai mewn tablau actiwaraid cyhoeddus "PA92", sy'n berthnasol i flwyddyn geni aelodau gydag addasiadau carfan hir.

Roedd prif gategoriâu asedau'r cynllun, fel canran o gyfanswm yr asedau a'r cyfraddau adenillion hirdymor disgwyliedig arnynt, fel a ganlyn:

	2015		2014	
	Adenillion disgwyliedig	% o gyfanswm yr asedau	Adenillion disgwyliedig	% o gyfanswm yr asedau
Ecwitiau	6.5%	48.3%	6.5%	54.6%
Bondiau	5.0%	39.3%	5.0%	32.2%
Arall	3.0%	2.5%	3.0%	2.4%

	Gwerth presennol rhwymedigaethau £m	Gwerth teg asedau'r cynllun £m	Cyfanswm £m
Ar 1 Ebrill 2014	320.1	(318.9)	1.2
Cost gyfredol y gwasanaeth	8.7	-	8.7
Traul/(incwm) llog	14.7	(14.7)	-
Cost gwasanaeth yn y gorffennol	0.4	-	0.4
Treuliau	-	0.2	0.2
	23.8	(14.5)	9.3
Ailfesuriadau			
Colled yn sgil newid mewn tybiaethau ariannol	60.7	-	60.7
Enillion profiad	-	(28.4)	(28.4)
	60.7	(28.4)	32.2
Cyfraniadau	-	(12.3)	(12.3)
Buddiannau a dalwyd	(8.0)	8.0	-
	(8.0)	(4.3)	(12.3)
Ar 31 Mawrth 2015	396.6	(366.1)	30.5
	Gwerth presennol rhwymedigaethau £m	Gwerth teg asedau'r cynllun £m	Cyfanswm £m
Ar 1 Ebrill 2013	323.3	(291.2)	32.1
Cost gyfredol y gwasanaeth	9.9	-	9.9
Traul/(incwm) llog	14.7	(13.4)	1.3
Cost gwasanaeth yn y gorffennol	0.2	-	0.2
Treuliau	0.7	0.6	1.3
	25.5	(12.8)	12.7
Ailfesuriadau			
Ennill yn sgil newid mewn tybiaethau demograffig	(8.7)	-	(8.7)
Colled yn sgil newid mewn tybiaethau ariannol	(14.6)	-	(14.6)
Enillion profiad	-	(1.5)	(1.5)
	(23.3)	(1.5)	(24.8)
Cyfraniadau	-	(16.5)	(16.5)
Buddiannau a dalwyd	(5.4)	5.4	-
Trosglwyddo mewn swmp	-	(2.3)	(2.3)
	(5.4)	(13.4)	(18.8)
Ar 31 Mawrth 2014	320.1	(318.9)	1.2

Mae'r cyfanswm a gydnabyddir ar y Fantolen yn cynnwys y canlynol:

	2015	2014
	£m	£m
Gwerth presennol rhwymedigaethau a ariennir	(396.6)	(320.1)
Gwerth teg asedau'r cynllun	366.1	318.9
	(30.5)	(1.2)
Rhwymedigaeth EFRBS nas ariannwyd	(2.0)	(1.6)
Rhwymedigaeth net a gydnabuwyd ar y Fantolen	(32.5)	(2.8)

	2015	2014	2013	2012	2011
Addasiadau oherwydd profiad sy'n codi ar asedau'r cynllun:					
Swm (£m)	(24.2)	(2.9)	17.9	(9.5)	(8.2)
Canran o asedau'r cynllun	4%	(3%)	(6%)	(4%)	(4%)
Addasiadau oherwydd profiad sy'n codi ar rhwymedigaethau'r cynllun:					
Swm (£m)	(60.7)	(5.1)	(15.7)	(16.4)	3.6
Canran gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun	(15%)	(5%)	(5%)	(6%)	2%
Gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun (£m)	396.6	320.0	323.3	272.8	238.4
Gwerth teg asedau'r cynllun	366.1	318.8	291.1	240.7	222.9
Diffyg (£m)	(30.5)	(1.2)	(32.1)	(31.9)	(15.5)

Mae'r cyfraniadau a dalwyd yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2015 yn cynnwys cyfraniad arbennig o £1.3 miliwn (2014: £1.2 miliwn). Ni thalwyd unrhyw gyfraniadau i'r cynllun i ychwanegu at y buddiannau mewn perthynas ag aelodau'r cynllun a adawodd y cwmni drwy gynllun diswyddo gwirfoddol dethol (2014: £3.5 miliwn). Disgwylir y caiff £1.3 miliwn o gyfraniadau arbennig eu talu yn unol â'r rhestr o gyfraniadau sydd ar gael yn ystod y flwyddyn ariannol a ddaw i ben 31 Mawrth 2016.

Sensitifrwydd y rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig i newidiadau yn y prif dybiaethau wedi'u pwysoli.

	Newid mewn tybiaeth	Cynnydd mewn rhwymedigaethau
Cyfradd ddisgowntio	0.1%	£8.3m
Chwyddiant mewn prisiau	0.1%	£8.3m
Disgwyliad oes o flwyddyn	1 year	£8.8m

Mae'r dadansoddiad uchod o sensitifrwydd yn seiliedig ar newidiadau unigol o ran pob tybiaeth tra bod y dybiaeth gyffredinol yn cael ei chadw'n gyson. Yn ymarferol, nid yw hyn yn debygol o ddigwydd, ac mae'n debygol y bydd rhyw lefel o gydberthyniad rhwng y symudiadau mewn gwahanol dybiaethau.

22. Cyfalaf ac ymrwymïadau ariannol eraill

Mae Cynllun Busnes y Grŵp ar 31 Mawrth 2015 yn dangos gwariant cyfalaf net a gwariant adnewyddu seilwaith o £332 miliwn (2014: £330 miliwn) yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Er mai dim ond cyfran o'r swm hwn y contractiwyd yn ffurfiol yn ei chylch, mae'r Grŵp i bob diben yn ymrwymedig i'r cyfanswm fel rhan o'i raglen gwariant cyfalaf cyffredinol a gymeradwywyd gan ei reoleiddiwr.

23. Trafodion â phartion cysylltiedig

Yn unol â'r eithriad a roddwyd o dan IAS 24 nid oes unrhyw ddatgeliad yn y datganiadau ariannol cyfunol o drafodion ag endidau sy'n rhan o Grŵp Glas Cymru Cyfyngedig. Nid yw'r rhiant-gwmni wedi cytuno i gynnal trafodion ag unrhyw un o gwmnïau eraill y grŵp yn ystod y flwyddyn (2014: dim).

24. Statws y cwmni

Cwmni cyfyngedig drwy warant ydyw ac nid oes ganddo unrhyw gyfalaf cyfranddaliadau. Os caiff y cwmni ei ddirwyn i ben, mae atebolrwydd yr aelodau yn gyfyngedig i £1 yr un.

25. Cronfa Ymddiriedolaeth Cwm Elan

Yn 1984 lluniodd Awdurdod Dŵr Cymru gytundeb gwerthu a phrynu amodol gydag Awdurdod Dŵr Hafren Trent ar gyfer gwerthu'r draphont ddŵr a gwaith cysylltiedig a ddefnyddir i gludo'r swmpgyflenwad i gronfeydd dŵr Hafren Trent.

Buddsoddwyd y swm o £31.7 miliwn, sef y gydnabyddiaeth am y gwerthiant amodol, mewn cronfa ymddiriedolaeth. Prif swyddogaeth y gronfa oedd rhoi incwm i Awdurdod Dŵr Cymru, tra'n cadw gwerth cyfalaf y gronfa mewn termau real. Breiniwyd budd Awdurdod Dŵr Cymru yn y gronfa hon yn Dŵr Cymru Cyfyngedig o dan ddarpariaethau Deddf Dŵr 1989.

Nid yw asedau'r gronfa wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol hyn. Ar 31 Mawrth 2015, gwerth y gronfa ymddiriedolaeth ar y farchnad oedd £113 miliwn (2014: £103 miliwn).

Mae llog derbyniadwy yn cynnwys £2.5 miliwn (2014 £5.6 miliwn) mewn perthynas â symiau a ddosbarthwyd o Gronfa Ymddiriedolaeth Cwm Elan.

26. Rhwymedigaethau amodol

Nid oedd unrhyw rwymedigaethau amodol heblaw'r rheini a gododd yn ystod busnes arferol y Grŵp ac ni ragwelir y gwneir unrhyw golledion gwirioneddol ar y rhain (2014: dim).

Rhestr Termau

AMP	Mae'r diwydiant dŵr yn gweithredu mewn cylchoedd o bum mlynedd a elwir yn 'Gynlluniau Rheoli Asedau' (AMP). Roedd AMP5 ar waith rhwng 2010 a 2015 a bydd AMP6 ar waith rhwng 2015 a 2020.
Asedau	Mae hyn yn cynnwys seilwaith fel prif bibellau dŵr a charthffosydd, argoeau a chronfeydd dŵr, gweithfeydd trin dŵr a charthion, gorsafoedd pwmpio, labordai cwmnïau, depos a gweithdai.
Asiantaeth yr Amgylchedd	Un o gyrrff anadrannol gweithredol y Llywodraeth sydd â dyletswydd statudol i ddiogelu a gwella'r amgylchedd yn Lloegr.
AVPS	Cynllun Tâl Amrywiadwy Blyneddol - Cofnod o berfformiad enillion.
Carthffos	Pibell danddaearol sy'n cludo dŵr gwastraff i ffwrdd o eiddo preswyl ac eiddo dibreswyl i'w drin a'i waredu.
Carthffosydd yn gorlifo	Pan fo dŵr gwastraff yn dianc o bibellau carthffosydd drwy gaead y twll archwilio neu ddraen, neu drwy lifo yn ôl i fyny drwy doiledau.
Cerdyn sgorio	Cofnod ystadegol a ddefnyddir gan Dŵr Cymru i fesur cyflawniad neu gynnydd tuag at nod penodol.
CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru - gweler tudalen 17.
Costau gweithredu	Cyfanswm gwariant gweithredu'r busnes, yn rhydd o unrhyw incwm gweithredu, sef unrhyw elw neu golled wrth waredu asedau sefydlog yn bennaf.
Cronfa ddŵr	Llyn naturiol neu artiffisial lle y caiff dŵr ei gasglu a'i storio nes y bydd ei angen.
Cronfa wasanaeth	Tanc sy'n cynnwys dŵr yfed a leolir fel arfer o fewn system dosbarthu dŵr neu'n agos ati.
Cronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn	Cronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn yw'r gwahaniaeth rhwng y Gwerth Cyfalaf Rheoliadol (RCV) a'r ddyled net ac felly mae'n mesur y gwerth a grëir gan y busnes i gwsmeriaid. Gall rhywfaint o'r gwerth hwnnw gael ei ddefnyddio i fuddsoddi yn y busnes ac i ad-dalu cwsmeriaid. Ein nod yw sicrhau ein bod yn cadw dyled net ar 60% o'r RCV ac mai Cronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn a gedwir yw'r 40% sy'n weddill.
CSO	Mae Gorlifiannau Carthffosydd Cyfun yn gweithredu fel falfiau rhyddhau sy'n atal carthffosydd rhag gorlwytho. Hebddynt, byddai eiddo a gweithfeydd trin carthion yn gorlifo.
Cwmni cyfyngedig drwy warant	Cwmni preifat nad oes ganddo randdeiliaid na chyfalaf cyfranddaliadau.
Cydbwysedd cyflenwad/galw	Cydbwysedd o ran cyfaint y dŵr sydd ar gael.
Cydymffurfiaeth Barthol Gymedrig	Mae Cydymffurfiaeth Barthol Gymedrig yn mesur cydymffurfiaeth ym mhob parth ansawdd dŵr ar gyfer y 39 o baramedrau cemegol a bacteriolegol allweddol fel y'u mesurir gan y rhaglen monitro statudol o samplau a gymerir o dapiau cwsmeriaid.
Cydymffurfiaeth 'edrych i fyny'	Pan fo gwaith trin dŵr yn methu â chydymffurfio â'r paramedrau a nodwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru neu Asiantaeth yr Amgylchedd llai na 95% o'r amser.
Cyfarwyddwyr Anweithredol	Aelodau o Fwrdd Dŵr Cymru. Nid yw Cyfarwyddwyr Anweithredol yn gyfrifol am y gwaith o redeg y cwmni o ddydd i ddydd ond maent yn herio'r rheolwyr ac yn goruchwyllo'r broses o redeg y cwmni.
Cyfrif Talu Cwsmer	Y Cyfrif Talu Cwsmer yw'r Cronfeydd Cwsmeriaid Wrth Gefn a ddyrennir ac a ddefnyddir yn benodol i ad-dalu cwsmeriaid.

Cyngor Defnyddwyr Dŵr	Cyngor Defnyddwyr Cymru - gweler tudalen 17.
Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr	Mae'r cynllun hwn yn amlinellu sut y bydd cwmni dŵr yn sicrhau cydbwysedd cynaliadwy rhwng y dŵr a gyflenwir a'r galw amdano dros y 25 mlynedd nesaf.
Cynllun Sychder	Cynllun statudol a lunnir gan gwmni dŵr sy'n nodi'r camau gweithredu a gaiff eu cymryd i reoli'r cyflenwad dŵr yn ystod cyfnod o sychder.
Cynllun Tâl Amrywiadwy Hirdymor	Cofnod o berfformiad enillion.
Cynlluniau Diogelu Dŵr Yfed	Dull rhagweithiol o asesu risg i ansawdd dŵr yfed, sy'n diogelu iechyd y cyhoedd yn well.
Dalgylch	Ardal o dir lle y mae dŵr yn draenio i gorff dŵr (fel afon neu gronfa ddŵr).
Defnyddioldeb	Gallu system o asedau i ddarparu lefel ddisgwyliedig o wasanaeth i ddefnyddwyr a'r amgylchedd nawr ac yn y dyfodol.
Digwyddiadau yn ymwneud â llygredd	Achosion o ryddhau'n ddamweiniol neu'n fwriadol halogyddion fel olewau, tanwyddau a chemegion a all fod yn niweidiol i iechyd dynol a'r amgylchedd.
Draenio dŵr wyneb	Symud dŵr glaw, eira neu iâ wedi toddi o rannau allanol eiddo (fel toeon a thramwyfeydd), yn aml i garthffos dŵr wyneb neu garthffos gyfun.
Draenio Trefol Cynaliadwy (SuDS)	System ddraenio gynaliadwy sydd wedi'i chynllunio i leihau effaith bosibl datblygiadau newydd a datblygiadau sy'n bodoli eisoes mewn perthynas â gollyngiadau draenio dŵr wyneb.
Dull Cymell Gwasanaeth	Un o fesurau Ofwat a gynlluniwyd i wella lefel y gwasanaeth y mae cwmnïau dŵr yn ei darparu i gwsmeriaid.
DWI	Arolygioeth Dŵr Yfed - gweler tudalen 17.
Dŵr daear	Dŵr y gellir dod o hyd iddo yn haenen ddirlawn y pridd.
Dŵr gwastraff	Deunydd gwastraff o eiddo preswyl neu ddibreswyl a gaiff ei gludo i ffwrdd o eiddo mewn carthffosydd neu ddraeniau.
Dŵr wyneb	Dŵr ffo o ddŵr glaw sy'n disgyn ar eiddo cwsmeriaid (fel toeon, llwybrau a thramwyfeydd).
Elifiant	Dŵr sy'n llifo o waith trin carthion ar ôl iddynt gael eu trin.
Gerio	Dyled net a fynegir fel canran o gyfalaf gwerth rheoliadol.
Glas Cymru	Ffurfiwyd Glas Cymru i fod yn berchen ar Dŵr Cymru, ei gyllido a'i reoli.
GlawLif	Dull Dŵr Cymru o reoli dŵr wyneb a charthffosydd gorlawn (systemau draenio trefol cynaliadwy).
Gollyngiadau	Dŵr a gollir rhwng y gwaith trin a chartref neu fusnes y cwsmer.
Gorsaf bwmpio	Fe'i defnyddir i bwmpio dŵr neu garthffosioeth o un lle i'r llall.
Grŵp	Glas Cymru Cyfyngedig a'i holl is-gwmnïau.
Gwaith trin dŵr	Mae gweithfeydd trin dŵr yn cynhyrchu dŵr yfed ar gyfer y cyhoedd neu ddŵr diwydiannol ar gyfer gweithgynhyrchu neu weithrediadau busnes eraill.
Gwaith trin dŵr gwastraff	Diben gweithfeydd trin dŵr gwastraff yw coel gwared ar gynhyrchion gwastraff biolegol neu gemegol o ddŵr cyn iddo gael ei ddychwelyd i ffynonellau dŵr.

Gwerth Cyfalaf Rheoliadol	Fel y'i diffinnir gan Ofwat.
Megalitrau	Mae un megalitr yn hafal i 1,000 o fetrau ciwbig neu un filiwn o litrau. Mae pwll nofio maint Olympaidd yn cynnwys 2.5 megalitr o ddŵr.
Methiannau bacteriolegol	Caiff y dŵr yfed a gyflenwir i gwsmeriaid ei samplo a'i ddadansoddi yn erbyn amrywiaeth o baramedrau cemegol a bacteriolegol. Os bydd sampl yn dangos paramedr bacteriolegol sy'n rhagori ar y terfyn a nodir yn y rheoliadau, tybir ei fod yn Fethiant Bacteriolegol.
Ofwat	Rheoleiddiwr economaidd y diwydiant dŵr yng Nghymru a Lloegr.
Prif bibell	Prif bibell y caiff dŵr ei fwydo drwyddi i mewn i system dosbarthu dŵr. Yn aml, bydd prif bibell yn rhedeg o waith trin dŵr i gronfa wasanaeth.
Prif bibell ddŵr	Pibell fawr sy'n cludo dŵr sydd wedi'i drin i gartrefi.
Prif bibell sy'n codi	Piblinell wedi'i phwmpio sy'n cludo dŵr gwastraff.
Pwylgor Ansawdd ac Amgylchedd	Un o Bwyllgorau Iefel Bwrdd Dŵr Cymru sy'n mynd i'r afael â pherfformiad a risgiau gweithredol ym mhob rhan o'r cwmni.
Rhaglen buddsoddi cyfalaf	Gwaith adeiladu arfaethedig cwmni dŵr i adeiladu, disodli neu adnewyddu asedau.
Safety Takes Every Person (STEP)	Hyfforddiant diogelwch ymddygiadol sy'n pwysleisio bod gan bob unigolyn gyfrifoldeb am faterion lechyd a Diogelwch.
Statws credyd	Mae statws credyd yn rhoi barn ar ansawdd credyd cwmni a all effeithio ar gost benthyca.
Stop Cyn Creu Bloc	Ymgrych newid ymddygiad Dŵr Cymru sy'n gofyn i gwsmeriaid helpu i leihau nifer y blociadau mewn carthffosydd.
Sychder	Cyfnod hir o lawiad eithriadol o isel sy'n achosi straen ar adnoddau dŵr.
Tanc storm	Tanc lle y caiff dŵr storm a dŵr gwastraff ei storio, mewn tywydd gwlyb, nes bod y gwaith trin dŵr gwastraff yn gallu ei drin.
Termau real	Y newid mewn rhif ariannol ar ôl ystyried effaith chwyddiant.
TGCh	Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.
Totex	Cyfanswm gwariant cyfalaf a gwariant gweithredol.
Treulio anerobig	Proses lle y caiff deunydd organig ei ddadelfennu gan facteria a micro-organebau eraill er mwyn cynhyrchu ynni adnewyddadwy.
Trosglwyddo Carthffosydd Preifat	Yn 2011, trosglwyddodd Llywodraeth y DU berchenogaeth o'r rhan fwyaf o'r carthffosydd preifat yng Nghymru a Lloegr i'r 10 cwmni dŵr a charthffosiaeth, er mwyn ffurfio rhan o'r rhwydwaith o garthffosydd cyhoeddus.
Trwyddedau Gollwng	Cytundebau cyfreithiol a roddir gan y rheoleiddiwr amgylcheddol sy'n ymwneud â swm ac ansawdd y dŵr gwastraff y gellir ei ddychwelyd i'r amgylchedd a pha mor aml y gellir gwneud hynny.
Tynnu dŵr	Symud dŵr o unrhyw ffynhonnell.
Y gallu i gyllido	Gallu cwmnïau dŵr penodedig i gyllido eu swyddogaethau drwy ddyled, ecwiti neu enillion argadwedig.



glascymru.com